# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 23AIN MEHEFIN, 2022**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid**
**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon /**
**Rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022)

**Geraint Owen**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

**www.gwynedd.llyw.cymru**


**DYDD MERCHER, 15 MEHEFIN 2022**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 23 MEHEFIN 2022**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod hybrid o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 23AIN MEHEFIN, 2022 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON / RHITHIOL DRWY ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig (9.45yb – 11.45yb)
Annibynnol – Siambr Hywel Dda (o 10.15yb ymlaen)
Llafur/Rhyddfrydol – Ystafell Ogwen (o 11.00yb ymlaen)

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mai, 2022 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad.

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2021/22** 11 - 143

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021/22** 144 - 196

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**9. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

[Yn unol â gofynion Adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y Cyngor llawn sydd i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2021/22** 197 - 204

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2021/22** 205 - 236

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu.

**12. ADOLYGU ROL CRAFFU YN SGIL NEWIDIADAU I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AC ADDASIADAU I'R CYFANSODDIAD YN SGIL PENODI CABINET** 237 - 242

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth a'r Fforwm Craffu.

**13. PANEL CYFWELD AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** 243 - 246

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro.

**14. PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU** 247 - 248

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**15. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL / PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU** 249 - 253

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**16. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD RHYS TUDUR**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Rhys Tudur yn cynnig fel a ganlyn:-

"O ystyried yr argyfwng a achosir gan ddiffyg rheolaeth ar ail dai, cynigiaf bod y Cyngor Llawn yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar frys ar yr ymgynghoriadau canlynol a ddaeth i ben ym mis Chwefror a Mawrth; deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr, cynllun tai cymunedau Cymraeg, ail gartrefi: amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir."

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Gwynfor Owen yn cynnig fel a ganlyn:-

“Ers 1958 mae Cymru wedi methu allan ar un o lwyfannau mwyaf y Byd, sef Cwpan Pêl Droed y Byd (Dynion). Newidiodd hyn ar Nos Sul Mehefin 5ed gyda ein Tîm Cenedlaethol yn gweithio’n rhagorol fel Tîm i sicrhau ein bod yn cyrraedd rowndiau terfynol y Gystadleuaeth yma.

Mae’r Cyngor yn llongyfarch ein Tîm Cenedlaethol ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y Rowndiau terfynol. Mae’r Cyngor hefyd yn llongyfarch Cymdeithas Pêl Droed Cymru am feithrin yr ymwybyddiaeth Cenedlaethol Cymreig o fewn y tîm i sicrhau’r fuddugoliaeth. ‘Rydym yn llongyfarch y Gymdeithas ar eu defnydd o’r Gymraeg a hefyd ar sut maent wedi mynd ati i hyrwyddo'r iaith. Mae Tîm Pêl Droed Cymru yn wers, nid yn unig i bob Cymdeithas Chwaraeon arall yng Nghymru, ond hefyd i bob Sefydliad sydd yn ein gwlad. Yng ngeiriau Cymdeithas Pêl Droed Cymru DIOLCH.

Yn ychwanegol mae’r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd pob mantais o’n presenoldeb yn y Rowndiau terfynol i hyrwyddo Ein Gwlad ac ein Hiaith ar y llwyfan byd-eang yma.”

# CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR DYDD IAU, 19 MAI 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd
Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Anwen Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, Linda A.Jones, June Jones, Menna Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Williams, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Eirwyn Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elwyn Jones yn Gadeirydd am 2022/23.**

Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd Elwyn Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2022/23 ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

## 2. IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd R.Medwyn Hughes a'r Cynghorydd Beth Lawton.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R.Medwyn Hughes yn Is-gadeirydd am 2022/23.**

Darllenodd y Cynghorydd R.Medwyn Hughes ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2022/23.

Gan fod yr Is-gadeirydd yn bresennol o bell, nodwyd y rhoddid trefniadau mewn lle iddo arwyddo'r datganiad derbyn swydd ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Elfed Williams.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2022 fel rhai cywir.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn-gynghorydd a chyn-gadeirydd y Cyngor hwn, Glyn Owen, a rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Ioan Thomas.

Cydymdeimlwyd hefyd â'r Cynghorydd Nia Jeffreys ar golli ei thad a'i modryb yn ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Llongyfarchwyd yr aelodau ar eu llwyddiant yn yr etholiad yn ddiweddar, a chroesawyd aelodau newydd i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Louise Hughes ar dderbyn Tystysgrif Teilyngdod yr Arglwydd Raglaw am ei brwdfrydedd a'i hymroddiad i Gadetiaid y Fyddin.

**7. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**8. CWESTIYNAU**

Eglurodd y Cadeirydd bod yr eitem hon wedi ei thynnu oddi ar y rhaglen gan nad oedd yr Aelodau Cabinet na'r cadeiryddion pwyllgorau mewn lle eto i ateb unrhyw gwestiynau. Byddai modd i'r aelodau gyflwyno cwestiwn i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 23 Mehefin.

**9. ARWEINYDD Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Arweinydd y Cyngor.**

Rhoddodd yr Arweinydd anerchiad byr gan hysbysu'r Cyngor y byddai'n cyfweld ar gyfer aelodaeth o'r Cabinet yr wythnos nesaf, a'i fod yn mawr obeithio y byddai yna gymysgedd da o brofiad a gwaed newydd, a merched hefyd.

**10. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adroddiad ar yr adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor (a gyhoeddwyd fel papur ychwanegol i gyd-fynd â'r adroddiad gwreiddiol a gynhwyswyd yn y rhaglen).

Nododd y Pennaeth ymhellach, yn dilyn trafodaethau rhwng y ddau arweinydd grŵp yn gynharach yn yr wythnos, bod dwy gadeiryddiaeth y Grŵp Annibynnol yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal, a bod cadeiryddiaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cael ei rhoi i Grŵp Plaid Cymru.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Nododd Arweinydd y Grŵp Annibynnol ei bod yn falch bod y grŵp wedi cael cadeiryddiaeth dau o'r pwyllgorau craffu, a chadeiryddiaeth y Cyngor yn ogystal. Nododd hefyd, wrth ystyried yr adroddiad, bod angen cofio y bu lleihad o 75 i 69 yn nifer yr aelodau ar y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 fel a nodir yn Atodiad A (isod), ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn yr atodiad.**

2. **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol**

3. **Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:**

   **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - Grŵp Annibynnol**
   **Pwyllgor Craffu Cymunedau Grŵp Plaid Cymru**
   **Pwyllgor Craffu Gofal - Grŵp Annibynnol**

4. **Mabwysiadu'r uwch-gyflogau ar gyfer 2022/23 gan ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu ar gyfer 2023/24.**

5. **Cadarnhau'r dyraniad swyddi ac oriau ar gyfer Swyddogion cefnogi grwpiau gwleidyddol a hynny am dymor y Cyngor, oni bai bod newid sylweddol yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, neu bod grŵp gwleidyddol â llai na 10% o aelodau.**

6. **Mabwysiadu'r dyraniad seddau ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am dymor y Cyngor hwn oni bai fod adolygiad yn ofynnol oherwydd newid i'r cydbwysedd gwleidyddol neu ddiffyg ymrwymiad gan aelod unigol.**

## 11. ADDASIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu addasiadau i'r Cyfansoddiad er caniatáu penodi cynorthwyon i Aelodau ac Arweinydd Cabinet a gwneud trefniadau sy'n galluogi rhannu swyddi Aelodau Cabinet ac Arweinydd Cabinet, yn unol ag Adrannau 57 a 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

- Ar fater o gywirdeb, nodwyd bod angen cywiro'r fersiwn Saesneg o Adran 5.9.7 yn yr atodiad i'r adroddiad i ddarllen "*For the avoidance of doubt presence ~~shall presence~~ will include presence through electronic means which allow the*

*member to hear and speak at the meeting."* Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth fod wedi cael cyfle i edrych ar faterion golygyddol fel hyn cyn i'r mater ddod gerbron y Cyngor llawn.

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Monitro na fyddai yna unrhyw gyflog ychwanegol yn deillio o sefydlu trefn rannu swyddi Aelodau Cabinet ac Arweinydd Cabinet.

**1. Mabwysiadu yr addasiadau i'r Cyfansoddiad (Atodiad 1 i'r adroddiad) er caniatáu gweithredu Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021.**

**2. Derbyn er gwybodaeth yr addasiadau a wnaethpwyd i'r Cyfansoddiad (Atodiad 1) gan y Swyddog Monitro er ymgorffori darpariaethau Adran 58 Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021.**

**3. Awdurdodi y Swyddog Monitro i wneud newidiadau i'r Cyfansoddiad sydd yn deillio o ganlyniad i'r newid yma.**

## 12. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd er gwybodaeth:-

(a) Llythyrau gan S4C, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y cyn-gynghorydd Judith Humphreys i gyfarfod 3 Mawrth, 2022 o'r Cyngor ynglŷn â merched mewn chwaraeon.

(b) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Beca Brown i gyfarfod 3 Mawrth, 2022 o'r Cyngor ynglŷn â FareShare.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 2.20yp.

__________________________________

**CADEIRYDD**

**ATODIAD – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **95** | **49** | **4** | **148** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 7 | 4 | 0 | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **115** | **60** | **5** | **180** |

Noder fod yr 17 uwch gyflog sydd i'w neilltuo ar gyfer blwyddyn Ariannol 2022/23 fel a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
    - Pwyllgorau Craffu (x3)
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **23ain Mehefin 2022** |
| **TEITL** | **Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2021/22** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2021/22 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw.** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Dyfrig Siencyn** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch y cynnydd yn erbyn yr hyn a nodir yn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Y bwriad yw darparu adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus.

1.2 Mae adrodd yn rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol o fewn trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd mewn cyfarfodydd herio perfformiad Adrannol ac yn cyflwyno adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol i gyfarfodydd o'r Cabinet ar gylch yn ystod y flwyddyn yn osgystal a llunio'r adroddiad hwn i werthuso cynnydd. Mae'r adroddiad wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad unigol Aelodau'r Cabinet a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

1.3 Mae Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2021/22 (Atodiad 1) wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor tra mae'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul adran.

1.4 Mae'r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyfleu'r stori n hytrach nag o fewn tabl mesurau ar wahân.

1.5 Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. O ganlyniad, fe welir bod yr amcanion llesiant y mae prosiectau a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.

1.6 Mae trefniadau adolygu ac adrodd ac asesu ar berfformiad y Cyngor wedi bod yn destun newid deddfwriaethol drwy drefniadau Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021. Mae hyn yn gofyn i'r Cyngor fesur ei berfformiad yn erbyn tair agwedd sef;

(a) Ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol
(b) Ei fod yn defnyddio adnoddau yn economaidd, effeithiol, effeithlon a

(c) Bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithlon yn cyflawni hyn.

Mae ein trefniadau ar gyfer gweithredu'r gofynion yma yn datblygu ac mae’r adroddiad yma yn ymateb  i’r gofynion newydd yma.

## 2 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

2.1 Mae Cabinet y Cyngor wedi trafod Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2021/22 a welir yn **Atodiad 1** yn ei gyfarfod ar y 14eg o Fehefin 2022, ac yn argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu’r adroddiad.

## 3. Camau nesaf ac amserlen

3.1 Yn dilyn mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2021/22 gan y Cyngor byddwn yn trefnu i hysbysu’r cyhoedd a phartneriaid o’r adroddiad drwy gyfathrebu’r adroddiad a’r prif lwyddiannau mewn amrywiol ffyrdd.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i’r Cyngor gymeradwyo’r adroddiad fel adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22, a’i fabwysiadu.

## 5. Barn y Swyddogion Statudol

### 5.1 Barn y Swyddog Monitro

Mae adroddiad ar berfformiad yn rhan o gyfundrefn llywodraethu priodol. Mae hefyd yn cyfarch dyletswydd y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad ac ar gyrhaeddiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant fel y nodir yn yr adroddiad. Fodd bynnag mae’n briodol hefyd nodi fod y gyfundrefn yma wedi newid gyda trefniadau newydd ar gyfer adrodd ac ymgynghori ar berfformiad yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

### 5.2 Barn y Pennaeth Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda’r awdur i baratoi’r agweddau a ffigyrau ariannol sy’n yr Adroddiad Perfformiad a’i atodiadau, ac rwy’n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol. Credaf fod yr Adroddiad yn adlewyrchiad teg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22.

## Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2021/22.

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd
2021/2022



# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd** | **3** |
| **Uchafbwyntiau'r flwyddyn** | **4** |
| **Cyflwyniad** | **6** |
| **Ein Gwariant** | **9** |

**Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth Gwella 1**: Creu economi hyfyw affyniannus | **11** |
| **Blaenoriaeth Gwella 2**: Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial | **23** |
| **Blaenoriaeth Gwella 3**: Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir | **33** |
| **Blaenoriaeth Gwella 4**: Mynediad at gartrefi addas | **42** |
| **Blaenoriaeth Gwella 5**: Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. | **48** |
| **Blaenoriaeth Gwella 6**: Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant | **53** |
| **Blaenoriaeth Gwella 7**: Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud | **63** |
| **Blaenoriaeth Gwella 8**: Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. | **71** |

**Rhan 2 - Adroddiadau Perfformiad Gwaith Adrannol**

| | |
|---|---|
| Addysg | **74** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | **79** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | **88** |
| Economi a Chymuned | **91** |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | **96** |
| Tai ac Eiddo | **103** |
| Amgylchedd | **109** |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **116** |
| Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth | **119** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | **124** |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | **130** |


Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall ffoniwch **01766 771000** neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych angen mwy o wybodaeth am yr Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio **01766 771000** neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

Graffeg "designed by Freepik"

# Rhagair yr Arweinydd



**M**ae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n disgrifio a mesur y gwaith yr ydym fel Cyngor wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn. Bu 2021/22 yn flwyddyn anodd arall gyda chysgod Covid-19 yn parhau ar ein cymunedau gan effeithio ar fywydau trigolion y Sir ond er hynny mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ar y blaenoriaethau a osodwyd o fewn Cynllun y Cyngor, gan gynnwys sawl prosiect newydd yn 2021/22 mewn ymdrech i fynd i'r afael â sgìl effeithiau'r pandemig. Braf yw edrych yn ôl a gweld fod rhai o'r cynlluniau trawsadrannol a roddwyd mewn lle bryd hynny wedi llwyddo i amddiffyn cymunedau, busnesau a thrigolion Gwynedd. Gallwn ymfalchïo hefyd yng ngwaith y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu sydd wedi parhau i gysylltu â chynghori dros 85,000 o bobl yn ystod 2021/22.

Er gwaethaf cyfnod anodd dros ben, mae ymdrechion arwrol ein staff unwaith eto yn fater i ymfalchïo ynddo ac nid yn unig eu bod wedi parhau i gynnal gwasanaethau ond maent hefyd wedi cwblhau nifer o brosiectau dylanwadol eraill. Un o'r uchafbwyntiau eleni oedd cyhoeddiad Unesco, gyda Thirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru bellach wedi ei arysgrifio fel Safle Treftadaeth Byd - y pedwerydd safle i ennill yr anrhydedd drwy Gymru. Rwy'n edrych ymlaen at weld y gwaith yn parhau rŵan i gynnal y safle, drwy gyd-weithio gyda'r holl bartneriaid sydd wedi bod yn greiddiol i lwyddiant y prosiect yma.

Os cofiwch, bu i'r Cyngor ddatgan argyfwng Newid Hinsawdd ym Mawrth 2019. Erbyn hyn rydym wedi mabwysiadu Cynllun Newid Hinsawdd sy'n golygu fod camau yn eu lle er mwyn adnabod lle'r ydym yn cael yr ardrawiad mwyaf ac i leihau ein heffaith ni fel corff i'r argyfwng byd-eang. Rhywbeth arall i fod yn falch ohono yw ein bod wedi mynd gam ymhellach yn ein hymdrech i sicrhau bod ein cymunedau yn rhai glan a thaclus. Mewn ymateb i negeseuon gan gymunedau ar draws y Sir, rydym wedi sefydlu pum tîm cymunedol fydd yn gallu ymateb i faterion glanweithdra stryd yn adweithiol gan gymryd i ystyriaeth anghenion lleol.

Yn ystod 2021/22 mae'r Adran Tai ac Eiddo hefyd wedi ail-gydio yn y gwaith o uwchraddio Ysgolion gydag estyniadau i adeilad Ysgol Glancegin ym Mangor, Ysgol Bethel ac Ysgol Glan y Môr, ym Mhwllheli wedi eu c cwblhau. Mae hyn oll yn gam pwysig fydd yn cyfrannu at ein hamcan o sicrhau fod pob plentyn yn derbyn addysg o'r radd flaenaf. Mae'r un peth yn wir am ein cartrefi gofal ac mae gwaith adnewyddu bellach wedi ei gwblhau yng nghartrefi preswyl Hafod Mawddach yn Bermo, Cefn Rodyn yn Nolgellau a Than y Marian ym Mhwllheli.

Er y llwyddiannau, heb os mae pwysau cynyddol sydd wedi codi yn sgil Covid-19 yn parhau i fod yn amlwg. Un dangosydd yw'r ôl-groniad gwaith sydd yn parhau gan nifer o wasanaethau ac mae cynlluniau bellach mewn lle i fynd i'r afael â hyn yn ystod 2022/23. Gwelwyd hefyd heriau recriwtio staff mewn sawl maes ar draws y Cyngor sy'n effeithio ar ein gallu i gynnal gwasanaethau allweddol. Rydym bellach yn gweithio yn drawsadrannol er mwyn ceisio mynd i'r afael a'r broblem ac mae'n un o brif flaenoriaethau'r Cyngor am y flwyddyn i ddod.

Yn olaf fe hoffwn ddiolch i'r gweithlu am eu hymdrechion a'u hymroddiad i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion a chymunedau Gwynedd.
Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai bydd y Cyngor newydd yn gosod eu blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf gan edrych i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni.






# Uchafbwyntiau'r flwyddyn



Isod gweler crynodeb weledol sy'n rhoi ciplun o brif gyflawniadau'r Cygor dros y flwyddyn a fu. Mae'n cynnwys gwaith sydd wedi ei gyflawni gan amrediad o wasanaethau ar draws adrannau'r Cyngor.

**64%**

o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu,ailddefnyddio, neu ei gompostio.




Agorwyd hybiau iechyd meddwl newydd i bobl ifanc ym Mhwllheli, Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon.





Yr Uned Digartrefedd wedi helpu 1,126 o bobl (o gymharu â 945 yn y flwyddyn 2020/21).



**87,000**

o bobl wedi derbyn cyngor gan y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu



Sefydlu Cynllun Awtistiaeth i Wynedd ar y cyd gyda'n partneriaid

**90%**



o enedigaethau yn cael eu cofrestru o fewn 5 diwrnod (o gymharu â 51% yn ystod 2020/21)

**6,255**



o geisiadau Cynllun Tanwydd Gaeaf wedi eu prosesu rhwng Rhagfyr 2021 a Chwefror 2022.

Sefydlu 'Tîm Tacluso Ardal Ni' er mwyn taclo blerwch a sicrhau cymunedau glan a thaclus.



**95.7%**

o breswylwyr Cartrefi preswyl y Cyngor wedi derbyn eu brechiadau Covid-19 (yn cynnwys y 'booster')




Penodi 13 Prentis a 7 Hyfforddai Proffesiynol newydd i feysydd blaenoriaeth ar gyfer cynllunio'r gweithlu i'r dyfodol.



**7,210**

o geisiadau Cynllun Taliadau Hunan Ynysu wedi eu prosesu







**1,770**

o deuluoedd wedi derbyn cymorth drwy Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP)

**14,080**

wedi agor cyfrif hunanwasanaeth o'r newydd, sydd yn 2,500 yn fwy na wnaeth hynny yn 2020/21





**229** o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi i waith.

Cronfa Cefnogi Cymunedau'r Cyngor yn ariannu 21 o brosiectau eleni gan ddenu £206,000 o arian i'r sir.





7,136 o deuluoedd wedi derbyn gwybodaeth, cyngor, cymorth a/neu gofal

Cyhoeddi Strategaeth Ddigidol Addysg er mwyn helpu athrawon a plant ysgolion Gwynedd



Cynhaliwyd etholiadau Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu o dan gyfyngiadau Covid-19 a rheoli 136 o orsafoedd pleidleisio a dwy ganolfan gyfrif.







**186,222**

o fenthyciadau llyfrau (sydd yn 140% o gynnydd yn ffigyrau 2020/21)

Cychwyn datblygu hen adeilad Ysgol Glan Wnion, Dolgellau, yn unedau i gefnogi'r digartref.





Cyhoeddi ein 'Cynllun Newid Hinsawdd' i amlygu'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argyfwng.

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y bum mlynedd dan sylw. Rydym wedi adolygu'r Cynllun bob blwyddyn ers hynny er mwyn ei gadw'n gyfredol ac felly mae'r adroddiad hwn yn darlunio sut aethom ati i wireddu uchelgais 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018/2023: Adolygiad 2021/22'. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weddill gwaith 'dydd i ddydd' y Cyngor a'n gwariant am y flwyddyn.

Mae Rhan 1 yr adroddiad hwn yn adrodd ar ein perfformiad fesul Blaenoriaeth Gwella, sef y meysydd ble roedd angen i ni roi sylw penodol iddynt. Mae Rhan 2 yn disgrifio weddill ein gwaith, a cheir penodau unigol ar gyfer bob un o adrannau'r Cyngor. O fewn yr adroddiad rydym hefyd yn diweddaru'r gwaith ar y Blaenoriaethau Lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig wrth ymgynghori ar flaenoriaethau ar gyfer Cynllun y Cyngor 2018-23.

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad perfformiad blynyddol diwethaf bu 2020/21 yn flwyddyn o gyfnodau clo maith gyda chyfyngiadau llym ar hawl pobl i adael eu cartrefi. Cafodd y cyfyngiadau effaith enfawr ar wasanaethau'r Cyngor, ac mae Covid-19 wedi parhau i gael effaith arnom yn ystod 2021/22. Er bod cyfyngiadau wedi llacio yn raddol dros y misoedd diwethaf, mae effaith Covid-19 dal yn weladwy heddiw mewn sawl maes. Mae hynny'n glir o'r nifer o brosiectau newydd sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad eleni e.e. Strategaeth Dysgu Digidol, Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc ayyb.

Roedd Adolygiad 2021/22 o Gynllun y Cyngor yn cynnwys nifer o brosiectau yr oeddem wedi eu hadnabod er mwyn cyfarch anghenion trigolion Gwynedd fel rhan o'r adferiad o'r pandemig.



Bu 2021/22 yn flwyddyn arall o ansicrwydd, a gwelsom risgiau anrhagweladwy yn codi yn ystod y flwyddyn megis amrywiolion newydd o Covid-19, argyfwng ffoaduriaid Wcrain a'r argyfwng costau byw. Mae hyn wedi gorfodi'r Cyngor i ddargyfeirio adnoddau ac addasu gan ymrwymo i waith a phrosiectau newydd nad oedden wedi eu rhagweld na chynllunio ar eu cyfer mewn ymdrech i gefnogi'r rheini sydd wedi cael eu heffeithio.

Does dim amheuaeth bod cyfnod y pandemig wedi arwain at lawer o newid i Gyngor Gwynedd, ac wrth i'r cyfyngiadau lacio ymddengys y bydd llawer o wersi i ddysgu o'r cyfnod hwn. Yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 roedden yn manylu ein hymateb i'r pandemig yn fanwl yn y bennod 'Effaith Covid-19'. Erbyn hyn, mae ymateb i anghenion trigolion Gwynedd yn sgil y pandemig yn rhan o waith dydd i ddydd sawl un o'n hadrannau, felly bydd yr adrannau yn cyfeirio at effaith y pandemig ar eu gwaith mewn mwy o fanylder yn eu hadroddiadau unigol yn Rhan 2.

Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8 miliwn o gynlluniau arbedion rhwng 2015/16 a diwedd 2021/22. Ar gyfer 2021/22, derbyniodd y Cyngor gynnydd yn y grant gan y Llywodraeth o £6.4m. Roedd hyn yn ddigonol i gyfarch chwyddiant, ac yn setliad mwy teg na fu mewn blynyddoedd cyn 2020/21, ond roedd angen cynyddu ein gwariant o £10.6m er mwyn cadw'r un lefel o wasanaethau. Felly, bu'n rhaid cymryd penderfyniadau i ariannu'r pwysau trwy gyfuniad o wireddu arbedion a chynyddu'r dreth. Serch hyn, erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau pellach gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys arian o gronfa caledi Covid-19, a fu'n gymorth amlwg i ddygymod â'r bylchau ariannol oedd y deillio o wariant ychwanegol pellach a gostyngiad mewn incwm.

Adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw hwn, ond mae'r gwaith o fesur llwyddiant ein gwaith, a herio ein perfformiad ein hunain, yn digwydd gydol y flwyddyn. Yn ystod 2021/22 bu i ni ail gyflwyno'r drefn o gynnal cyfarfodydd herio perfformiad yn dilyn saib yn 2020/21 oherwydd y pandemig. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i'r Aelod Cabinet adolygu cynnydd yr adrannau ar eu prosiectau Blaenoriaethau Gwella a'u gwaith dydd i ddydd, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau cytbwys y cyfarfodydd herio perfformiad a fu'n cael eu cynnal yn rheolaidd trwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiad yn tynnu ar brif negeseuon y cyfarfodydd yma ynghyd ag unrhyw wybodaeth ariannol/perfformiad darparir yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo.

Gyda dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) (Y Ddeddf) mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, yn 2018/19 mabwysiadodd y Cyngor saith o Amcanion Llesiant sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol, ac mae'r rhain yn parhau'n gyfredol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.

Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan


- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng


nghorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr adrannau ar ddiwedd pob pennod.

Rydym wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio'r cyfrifoldeb am weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod hyn yn digwydd ond cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo ai peidio a byddwn yn parhau i edrych ar sut y gellir gwella hyn.

| **Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd** | **Nodau Llesiant Cenedlaethol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |



# Ein Gwariant




*Mae adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn denu incwm ac felly roedd eu gwariant net yn £-216,000

# Rhan 1
# Blaenoriaethau Gwella

Mae 8 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Rhain yw'r prif feysydd y credwn y mae angen i ni weithredu ynddynt er mwyn gwneud gwahaniaeth bositif i fywydau pobl Gwynedd.

O dan y 8 Blaenoriaeth Gwella mae disgrifiad o'r prosiectau fydd yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais y mae'r Blaenoriaethau Gwella yn eu disgrifio. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2021/22 gyferbyn â'r hyn y gwnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud yng Nghynllun Cyngor Gwynedd: Adolygiad 2021/22.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 trwy ymweld â
**www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor**

# **Blaenoriaeth Gwella 1** Creu economi hyfyw a ffyniannus.

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru
- Cadw'r Budd yn Lleol
- Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy)
- Arloesi Gwynedd Wledig
- Hybu Canol Trefi
- Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith
- Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu
- Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy
- Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrdroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Rhagfyr 2020 arwyddwyd cytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-effeithiau Covid-19 a Brexit.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd band eang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y gwaith o baratoi manylion cynlluniau dros y flwyddyn diwethaf. Cymeradwywyd cynlluniau busnes cychwynnol sawl cynllun o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru gan gynnwys rhai sy'n flaenoriaeth i Wynedd megis y Ganolfan Economi Wledig yng Nglynllifon a Chanolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor. Mae swyddogion ac Aelodau yn parhau i gyfrannu'n sylweddol i waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd i sicrhau y bydd yn cyflawni. Mae linc yma i adroddiad sy'n cynnwys mwy o fanylion am y cynnydd ar y gwahanol brosiectau twf ar y pwynt adrodd mwyaf diweddar.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Nid yw'r farchnad leol yn gallu ymateb i gyfleon bob amser oherwydd cyfyngiadau o ran maint neu rwystrau eraill sy'n bodoli. Mae hynny wedyn yn arwain at fusnesau lleol yn colli'r awydd a'r gallu i gystadlu am waith gyda'r canlyniad nad oes modd uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol.

Rydym yn ceisio cefnogi busnesau lleol gyda'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd gan fanteisio ar y cyfleoedd hefyd i gaffael yn lleol. Byddwn yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

1. Cwblhau prosiect er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno 'Social Value Portal' neu debyg i Wynedd h.y. rhannu y dull o asesu tendrau sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd trwy fesur Pris ac Ansawdd i un sy'n mesur Pris, Ansawdd a Gwerth Lleol.
2. Cynlluniau i ddatblygu gallu'r farchnad i ennill cytundebau caffael y Cyngor - Ymateb i gwestiynau y Ddeddf Llesiant mewn tendrau, cefnogaeth i ennill achrediadau iechyd a diogelwch.
3. Asesu cyfleon i osod tendrau i gwmnïau lleol yn sgil Brexit a'r rhyddid i weithredu tu allan i reoliadau caffael Ewrop.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Gwelwyd gostyngiad yn y canran lleol o wariant y Cyngor i 61% o'r 63% a wireddwyd yn 2020/21. Er bod y canran lleol wedi gostwng, rydym wedi gwario cyfanswm o £14m yn fwy o'i gymharu â'r cyfnod yma flwyddyn ddiwethaf, gyda £7m ychwanegol yn cael ei wario gyda busnesau o Wynedd.

Mae'r gwaith i dreialu asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol yn parhau, gyda'r ail dendr peilot wedi'i gwblhau ym maes cynnal a chadw adeiladau. Nid yw ymateb y farchnad wedi bod cystal â'r peilot gyntaf ac mae hynny wedi amlygu'r angen i wneud gwaith pellach i annog a chefnogi'r farchnad. Byddwn yn casglu adborth y farchnad yn ogystal â'r swyddogion sydd yn caffael fel rhan o'r asesiad terfynol gyda golwg i gynnig argymhelliad ynglŷn a chyflwyno'r drefn hon fel un sefydlog i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod

Rydym wedi cefnogi nifer o sectorau lleol i gaffael ac ennill cytundebau'r Cyngor – bo hyn yn y maes cludiant, mewn ymateb i ofynion cyflogaeth foesegol, neu yn y maes gofal wrth i'r model newydd o ddarparu gwasanaeth gofal cartref gael ei gyflwyno.

Nid yw'r newid i'r rheoliadau caffael cenedlaethol wedi amlygu cyfleoedd sylweddol i brynu'n lleol yn sgil Brexit. Mae yna adolygiadau pellach ar waith i gyflwyno rheoliadau contractau cenedlaethol newydd yn ystod y flwyddyn a byddwn yn adolygu'r rhain maes o law i geisio adnabod cyfleodd o bosib.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

| Prosiect 1c | Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy) |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, ac wedi dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, ac hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector iechyd a meddygol a datblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i baratoi Safle Atomfa Trawsfynydd er mwyn cynhyrchu ynni carbon isel ac isotopau meddygol i'r dyfodol. Cynlluniau o'r fath fydd yn sicrhau parhad swyddi gwerth uchel yn lleol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae'n parhau'n gyfnod heriol i'r economi sydd yn amharu ar hyder cwmnïau i fuddsoddi ac mae hyn wedi effeithio ar ddeilliannau cynllun Creu Swyddi Gwerth Uchel dros y flwyddyn diwethaf. Er hyn, mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol i'w adrodd, yn cynnwys:

- Sicrhau cefnogaeth i ymestyn y cynllun STEM Gogledd hyd at canol 2023 a chomisiynu ymchwil ar y cyd gyda'r Adran Addysg i helpu ysgolion ddeall anghenion sgiliau ein busnesau lleol. Mae 116 o bobl ifanc wedi elwa o'r gweithgaredd yn ystod 2021/22.
- Sicrhau parhad y rhwydwaith Gogledd Creadigol drwy ddenu arian gan Lywodraeth Cymru, holl siroedd y Gogledd a Grŵp Llandrillo-Menai. Mae 211 o fusnesau bellach yn aelodau o'r rhwydwaith.
- Cydweithio gyda Cwmni Magnox i gadw swyddi dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd a chefnogi Llywodraeth Cymru i sefydlu Cwmni Egino fel cerbyd i ddatblygu'r safle a chynnal swyddi i'r dyfodol

Siom enbyd, fodd bynnag, oedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i rwystro datblygiad ffordd mynediad newydd i safle Maes Awyr Llanbedr. Mae eu penderfyniad eisoes wedi arwain at golli £7.5M o arian Ewrop i Wynedd ynghyd â buddsoddiad preifat sylweddol. Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio gyda partneriaid er mwyn gwireddu potensial llawn y safle i greu swyddi da i drigolion lleol i'r dyfodol.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 79% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig gyda'r heriau hyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws a Brexit.

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig gan annog mentrau lleol i ddatblygu, creu a chynnal swyddi ar draws Gwynedd. Mae pecyn ariannol wedi'i ganfod trwy Ewrop i weithredu Rhaglen Datblygu Gwledig yn yr ardal sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau i hyrwyddo mentergarwch.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o raglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu a datblygu yn sgil Covid-19 a Brexit.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Rydym wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chynghorau Môn, Ceredigion a Sir Gâr i sicrhau cronfa o £11miliwn i ymestyn Rhaglen Arfor dros y 3 blynedd nesaf gan adeiladu ar lwyddiant cynlluniau Gwynedd i hyrwyddo'r economi wledig yn yr ardaloedd hyn lle mae'r iaith Gymraeg o dan fygythiad.

Tu hwnt i ARFOR, mae nifer o lwyddiannau eraill dylid eu nodi:

- Sicrhau £151,000 gan Lywodraeth Cymru fydd yn cefnogi 60 o fusnesau gwledig i wella eu presenoldeb ar y we a defnyddio mwy ar dechnoleg yn arbennig o ran datblygu'r cyswllt rhwng cyflenwyr lleol a darparwyr lletygarwch
- Cynnal 20 o weithgareddau o fewn rhwydwaith lleoliadau Ffiws Gwynedd i gefnogi busnesau i ddefnyddio offer cyfoes ac ymestyn y rhwydwaith i 10 lleoliad yn y sir (gwybodaeth bellach)
- Treialu siop 'pop-up' i hwyluso busnesau bach gwledig i dyfu (gwybodaeth bellach)
- Darparu hyfforddiant a chymorth ariannol o dan y faner 'Llwyddo'n Lleol' gan helpu 18 o bobl ifanc sefydlu 12 busnes sy'n ymateb i anghenion eu cymunedau (gwybodaeth bellach)
- Cwblhau arbrawf i werthuso gwerth cerbydau cymunedol trydanol i ymateb i heriau trafnidiaeth gwledig gyda 3 or 4 ardal wedi symud ymlaen i ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth lleol gan ddefnyddio ceir a bws mini trydan (gwybodaeth bellach).

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol gan gynnig ystod o wasanaethau i'n cymunedau.

Ond mae ardaloedd "stryd fawr" ein canol trefi yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd gyda nifer o siopau cadwyn cenedlaethol yn cau a masnachu yn cael ei gyfyngu yn sgil Covid-19. Mae angen hybu a chefnogi datblygiad canol trefi i sicrhau eu bod yn gallu addasu a ffynnu i'r dyfodol; i gynnal a chreu gwaith; darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr a darparu unedau preswyl newydd.

Rydym eisoes wedi bod yn cydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac i ddenu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Buom yn llwyddiannus yn sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardaloedd Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes a bydd y rhaglen yn ymestyn i holl drefi Gwynedd yn ystod 2021.

Yn ystod 2020 sefydlwyd grŵp traws-adrannol ar gyfer datblygu rhaglen o welliannau a mesurau tymor byr mewn ymateb i argyfwng Covid-19. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith yma ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Dros y flwyddyn diwethaf, addaswyd pwyslais y prosiect hwn yn sgil COVID, gyda phecyn o welliannau amgylcheddol tymor byr wedi eu gweithredu yn sgil llwyddiant i ddenu grantiau gan Llywodraeth Cymru. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys datblygu isadeiledd digidol mewn canol trefi er mwyn cynnig wi-fi, llwyfan marchnata a chyd-fasnachu newydd, modd o gasglu a rheoli data ar batrymau defnydd canol tref.

Fodd bynnag, yn fwy diweddar rhoddwyd fwy o bwyslais ar geisio ymateb i heriau a chyfleoedd sy'n wynebu ardaloedd canol trefi i'r dyfodol. Sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer targedu cronfeydd rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi. Llwyddwyd i sicrhau adnoddau grant 'Creu Lleoedd' ar gyfer y prosiectau canlynol i'w gweithredu yn ystod 2021/22:

| **Cynllun** | Sefydliad | **Cyfanswm Cost** |
|---|---|---|
| Grant Gwella Eiddo Canol Trefi | Adran Economi a Chymuned | £692,866 |
| Grant Tai Gwag | Adran Tai ac Eiddo | £285,714 |
| Gwelliannau Storiel, Bangor | Adran Economi a Chymuned | £199,800 |
| Canolfan Treftadaeth (Adeilad Spar) | Partneriaeth Ogwen | £345,900 |
| Cynllun Cymru Fydd | Siop Griffiths | £237,560 |
| Hwb Datgarboneiddio Penygroes | Adra | £338,000 |
| Tafarn y Fic, Bethesda | Tabernacl (Bethesda) Cyf | £67,516 |
| Stryd Fawr Blaenau Ffestiniog (3 eiddo) | Antur Stiniog | £370,025 |
| Platform Digidol | Adran Economi a Chymuned | £151,000 |
| Parc y Coleg, Bangor | Prifysgol Bangor | £1,209,901 |
| | **Cyfanswm** | **£3,898,282** |

Mae'r gwaith o ddatblygu prosiectau fel rhan o Gynllun Adfywio Canol Dinas Bangor hefyd yn parhau. Yn ystod y cyfnod gwelwyd gwaith yn cychwyn ar brosiect 'Nyth' Cwmni Fran Wen – sef cynllun cyffrous gwerth £3.2m i ddatblygu hwb creadigol pwrpasol i blant a phobl ifanc yng nghanol y ddinas. Hefyd, sicrhawyd pecyn gwerth £1.2m ar gyfer cynllun Prifysgol Bangor i weithredu gwelliannau ym Mharc y Coleg yng nghanol y ddinas. Sicrhawyd arian datblygol ar gyfer gwaith rhagbaratoi Cynllun Canolfan Iechyd a Llesiant ar gyfer y ddinas. Mae arian grant hefyd wedi ei glustnodi ar gyfer adfer 3 adeilad gwag ar y Stryd Fawr, a gwaith wedi ei raglennu i gychwyn yn ystod chwarter olaf 2021/22.

Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Eiddo Gwag wedi ei baratoi – gan ddwyn ynghyd swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol Wasanaethau ar draws y Cyngor. Sefydlwyd Grŵp Traws Adrannol Eiddo Gwag i'w er mwyn cydgordio a goruchwylio gweithrediad y cynllun.

Mae'r Adran hefyd wedi cynnig mewnbwn i waith a gomisiynwyd ar ran 6 sir y Gogledd i ddatblygu Fframwaith Canol Trefi ranbarthol.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



| Prosiect 1dd | Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Yn ystod 2020 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i Unesco ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r enwebiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad y diwydiant llechi traddodiadol ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi, trwy brosiect LleCHI, i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Bydd y Pwyllgor Treftadaeth Byd yn cyfarfod fis Mehefin / Gorffennaf 2021 a byddwn yn parhau i ymgysylltu a chydweithio efo cymunedau, tirfeddianwyr, busnesau a phartneriaid i sicrhau ein bod yn barod i fanteisio ar y cyfleon a ddaw yn sgil y dynodiad er budd pobl Gwynedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Yn mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd UNESCO fod cais Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid i am ddynodiad Safle Treftadaeth Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Yn dilyn y sylw eithriadol a gafwyd a'r bwrlwm a balchder o fewn ein cymunedau, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi bod yn datblygu a chytuno ar drefniadau gweithredu ar gyfer rheoli'r safle'n llwyddiannus yn y dyfodol. Mae strwythur gweithredu newydd wedi ei gytuno a byddwn yn mynd ati dros y misoedd nesaf i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth, Grŵp Gweithredu ac is grwpiau penodol i sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed wrth reoli'r safle a manteisio ar y cyfleon all ddeillio o'r dynodiad.

Mae gweithgareddau'r prosiect LleCHI a gyllidir trwy Gyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Arloesi Gwynedd Wledig a Chronfa'r Loteri Dreftadaeth bellach wedi dod i ben gyda nifer o weithgareddau cymunedol wedi eu gwireddu ar draws ein dyffrynnoedd llechi yn cynnwys: gwaith celf, anthemau, murluniau, dehongli, arddangosfeydd, digwyddiadau, teithiau a chynlluniau gyda phlant a phobl ifanc Gwynedd i amlygu pwysigrwydd ein stori llechi a chreu balchder bro.

Mae cais dilynol wedi ei gyflwyno i'r Gronfa Loteri Treftadaeth ac rydym wedi bod yn llwyddiannus yn cam 1 o'r cais i sicrhau £113,000 i'w weithredu dros y 12-18 mis nesaf. Bydd y cyfnod datblygol yma'n ein caniatau i ymgysylltu efo cymunedau, partneriaid a busnesau wrth ddatblygu prosiect sylweddol dros £1m a allai gael ei weithredu rhwng 2024 – 2029 os caiff ei gymeradwyo maes o law.

| |
|---|
| Mae ymgynghoriad ar Ganllaw Dylunio Atodol wedi ei gwblhau gan yr Adran Amgylchedd er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy o'r safle yn y dyfodol. Dros y misoedd nesaf bydd trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid, cymunedau a thirfeddianwyr i sicrhau'r buddion gorau o'r dynodiad a byddwn yn parhau i drafod prosiectau sy'n cael eu datblygu ar draws y dyffrynnoedd llechi. |
| **Amcanion Llesiant:**<br><br>• Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.<br>• Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir. |



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Covid-19 a Brexit gyda newidiadau mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi gwneud ymdrech ddigynsail i gefnogi busnesau lleol drwy ddarparu cymorth ariannol, cyngor a gwybodaeth.

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Rydym eisoes wedi ymgynghori â busnesau'r sir i weld a yw'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor y gorau y gall fod.

Rydym eisoes wedi cefnogi a chydweithio gyda Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar becyn o brosiectau Cais Twf er mwyn creu cyfleoedd i fusnesau o fewn economi Gwynedd i'r dyfodol. Yn ogystal, rydym wedi cydweithio gyda thîm Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ddatblygu rhaglen i hyrwyddo prynu lleol, ac wedi adolygu'r angen am ofod gan fusnesau (cyn Covid-19).

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i flaenoriaethu adnoddau ac ymdrech i gefnogi ein busnesau lleol gan sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau. Byddwn hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill, ac i leisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid, yn enwedig yng ngoleuni'r pandemig a Brexit.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae sicrhau fod ein busnesau gyda'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i gadw eu staff a'u cwsmeriaid yn ddiogel wedi parhau i fod yn flaenoriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i'r gofynion o ran atal lledu coronafeirws ddod i'r amlwg unwaith eto. Mae'r nifer yn derbyn bwletin gwybodaeth rheolaidd y Cyngor i fusnesau yn parhau i fod yn gyson dros 4,200.

Mae'r gwaith o ddarparu cymorth ymarferol ac ariannol i fusnesau yn parhau ond gyda llai o arian argyfwng i'w weinyddu ers cyfnod yr haf. Mae 291 o fusnesau lleol wedi derbyn cyfanswm o bron i £1.1M o gymorth ariannol drwy law yr Adran yn 2021/22. Mae'r pwyslais wedi newid i fonitro'r arian sydd wedi ei ddarparu ynghyd â darparu cyngor ymarferol i fusnesau.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae gennym bryder nad yw pobl Gwynedd yn elwa cymaint ag y dylent o dwristiaeth, gyda'r argyfwng Covid-19 wedi tanlinellu sut y gall effeithiau negyddol y diwydiant weithiau orbwyso'r manteision.

Mae yna waith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion a'r risgiau i Wynedd, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae yna waith wedi ei wneud er mwyn llunio egwyddorion twristiaeth cynaliadwy ar gyfer Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Rheoli Economi Ymweld Gwynedd mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau y budd gorau i bobl Gwynedd o ymwelwyr. Bydd y Cynllun yn gosod cyfeiriad i bolisïau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith Covid-19.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae gwaith wedi ei wneud er mwyn cytuno ar egwyddorion twristiaeth Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau i drafod yr egwyddorion hyn gydag Aelodau Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn ogystal a digwyddiadau gyda'r sector fusnes a chymunedau Gwynedd. Bwriad y digwyddiadau hyn oedd cael eu mewnbwn i flaenoriaethau i'r dyfodol ac i adnabod y gefnogaeth fydd ei angen i ddatblygu a gwreiddio twristiaeth cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri. Trwy'r gwaith yma, rhwng Medi 2021 a Mawrth 2022 ymgysylltwyd gyda dros 200 o gynrychiolwyr oedd yn cynrychioli dros 100 o fudiadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a derbyniwyd dros 1,500 o sylwadau i lywio datblygiad y Cynllun.

Fis Tachwedd 2021, arwyddwyd Cytundeb o Ddealltwriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i gyd-weithio yn y maes hwn i'r dyfodol. Mae strwythur cyd-weithio ffurfiol wedi ei gytuno arno a chydweithio agos ac agored rhwng y ddau bartner yn parhau wrth i ni anelu i fabwysiadu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn y misoedd nesaf.

Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr economi ymweld fel rhan o drafodaethau ac ymgynghori ar y Cynlluniau Adfywio Ardal a bydd gweithdai wedi eu cynnal i sicrhau mewnbwn ardaloedd i'r Cynllun Gweithredu. Trwy ddysgu o arfer da ardaloedd eraill o'r byd, rydym yn hyderus y bydd ein Cynllun newydd yn torri tir newydd ar gyfer cefnogi economi ymweld cynaliadwy.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

| Prosiect 1ff | Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol a'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Adfywio gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau traws-adrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu 13 Cynllun Adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd.

Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol. Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y Cynlluniau Adfywio hyn.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae Bwrdd Adfywio'r Cyngor wedi cefnogi'r bwriad o ddatblygu Fframwaith Adfywio Newydd ar gyfer y Sir, ond bu'n rhaid gohirio'r gwaith yn 2020/21 oherwydd y pandemig. Llynedd penderfynwyd i fwrw ymlaen gyda'r rhaglen, ac mae'r gwaith rhagbaratoi wedi ei gwblhau. Bydd y Fframwaith Adfywio arfaethedig yn cynnwys dogfen sirol ynghyd â chynlluniau adfywio lleol ar gyfer 13 ardal ar draws Gwynedd.

Yn ystod yr Hydref, trefnwyd sgyrsiau cychwynnol (Cam 1) gyda Aelodau, Cynghorau Tref / Cymuned a grwpiau adfywio blaengar er mwyn holi barn am y prif faterion ym mhob un o'r 13 ardal adfywio lleol. Cafwyd 158 o ymatebion I'r trafodaethau cychwynnol a paratowyd adroddiad unigol ar gyfer yr 13 ardal yn crynhoi'r prif faterion.

Yn ystod mis Chwefror 2022 lansiwyd rhaglen ymgysylltu er mwyn holi barn a sylwadau trigolion y sir am prif faterion a blaenoriaethau ardaloedd lleol. Datblygwyd platfform digidol penodol ar gyfer y gwaith sydd ar gael ar y linc yma. Mae'r platfform yn darparu gwybodaeth o'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma, gan gynnwys asesiadau ardal, adroddiadau Cam 1, mapiau a holiaduron penodol ar gyfer pob un i'r 13 ardal adfywio lleol.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# **Blaenoriaeth Gwella 2**
# Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wynedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon
- Dalgylch Bangor
- Dalgylch Cricieth
- Cydweithio Meirionnydd
- Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
- Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Dysgu Digidol

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon yn effeithio ar ddeilliannau a llwybrau dysgu.

Mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi caniatâd i gychwyn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2020.

Yn 2021/21, byddwn yn defnyddio casgliadau'r ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i symud ymlaen i sefydlu cynigion drafft fydd yn arwain at gynnig opsiwn ffafredig i Gabinet y Cyngor yn yr Hydref.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Er bod y pandemig wedi oedi'r prosiect yma yn dilyn cynnal cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda rhanddeiliaid yn nhymor yr Hydref 2020, bu i 2021/22 barhau i fod yn gyfnod heriol i gynnal cyfarfodydd torfol fyddai wedi ein galluogi i fwrw ymlaen ymhellach gyda'r prosiect. Er gwaethaf effaith y pandemig, rydym yn gobeithio gallu ailgydio yn y prosiect yma'n fuan yn Nhymor yr Haf 2022.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae amgylchedd dysgu'r plant yn anaddas gan fod nifer o ysgolion cynradd ym Mangor (ac yn ardal Penrhosgarnedd yn benodol) yn llawn neu'n orlawn.

Mae gwaith adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd fydd â chapasiti i dderbyn hyd at 420 o ddysgwyr wedi ei gwblhau erbyn Tachwedd 2020. Yn ystod 2021/22 byddwn yn cwblhau'r gwaith o adeiladu estyniad a sicrhau gofal cymunedol ar safle Ysgol y Faenol ym Mhenrhosgarnedd gyda chapasiti i dderbyn 315 o ddysgwyr.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd i hyd at 420 o ddysgwyr agor yn Hydref 2020. Mae'r prosiect wedi ennill dwy wobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021.

Mae Ysgol y Faenol hefyd yn y broses o gael estyniad sylweddol i gartrefu hyd at 315 o ddysgwyr . Mae'r amserlen wedi ei effeithio gan y pandemig, ond mae rhannau sylweddol o'r estyniad wedi ei adeiladu erbyn hyn. Er hynny, mae llithriad pellach yn y gwaith adeiladu yn sgil gorfod gweithio ar safle byw. Mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yr ysgol yn parhau gyda'r Eglwys yng Nghymru cyn ein bod yn gallu symud ymlaen i gwblhau elfen olaf y gwaith sef dymchwel y Ganolfan Gymunedol bresennol a llunio maes parcio pwrpasol ar y safle.

Yn ychwanegol i'r hyn wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud, o ganlyniad i gynnydd yn niferoedd dysgwyr mae dosbarth newydd wedi ei ychwanegu i Ysgol Glancegin ac yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol ers cychwyn y flwyddyn addysgol hon.

Hefyd, yn sgil cyflwr gwael yr adeilad, mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod anghenion Ysgol Ein Harglwyddes, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr yng Nghricieth yn wael, sy'n effeithio ar brofiad y dysgwr. Byddwn felly'n adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu.


Yn 2021/22, yn sgil y broses o gyhoeddi rhybudd statudol, byddwn yn symud ymlaen i ymgysylltu ar gynlluniau, sicrhau caniatâd cynllunio ac apwyntio contractwyr.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae Cabinet y Cyngor wedi cefnogi'r bwriad i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 o ddysgwyr, ac adeiladu ysgol newydd yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol. Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais cynllunio ar gyfer adleoli'r ysgol i safle'r A497, mae dau fater technegol wedi codi ynglŷn â'r safle, ac mae gwaith wedi'i gomisiynu mewn ymateb i hynny, sydd yn mynd effeithio rhywfaint ar yr amserlen wreiddiol.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



**Prosiect 2ch** | **Cydweithio Meirionnydd**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd, e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Os na fydd datrysiad i'r sefyllfa, bydd yr effaith ar wydnwch y gyfundrefn addysg a'r amodau arweinyddiaeth yn yr ardal yn parhau.

Mae gwaith wedi ei gomisiynu i ymchwilio i ganfod datrysiadau creadigol fydd yn arwain at gydweithio rhwng ysgolion uwchradd Meirionnydd er mwyn sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn sefydlu trefn ddiwygiedig ar y cyd gyda Chadeiryddion, Is gadeiryddion a Phenaethiaid Meirionnydd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae'r cynnydd ar y prosiect yma wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd. Serch hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Rydym hefyd wedi cylchredeg holiadur er mwyn ceisio canfod barn dysgwyr, staff rhieni a phenaethiaid fydd yn llywio cyfeiriad y prosiect i'r dyfodol, ac rydym yn y broses o ddadansoddi negeseuon o'r holiaduron rheiny ar hyn o bryd.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



| Prosiect 2d | Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae yna risg y byddwn yn methu a darparu yn addas ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd na chafwyd adnoddau gan y Llywodraeth i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol (Deddf ADY a Tribiwnlys, 2018).

Mae'n bosibl hefyd na fydd plant a phobl ifanc yn cael y mynediad cywir at staff arbenigol (e.e. Seicolegwyr Addysg dwyieithog, Athrawon Synhwyraidd) a rolau allweddol o ran swyddi statudol o fewn y cod (Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar, Cydlynydd ADY) oherwydd cyfuniad o anawsterau recriwtio, cyllido, a chynnydd mewn llwyth gwaith.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Parhau i baratoi at y newid deddfwriaethol gan roi ffocws ar y blynyddoedd cynnar, Ôl-16, partneriaeth gyda rhieni ac asiantaethau, a'r dull cyllido mwyaf addas ar gyfer y gofyn deddfwriaethol
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y blynyddoedd cynnar, ac mae hyn yn cynnwys mapio'r galw mewn llwyth gwaith (e.e. nifer o blant fydd angen sylw arbenigol/cymorth)
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y sector Ôl-16, gan gydweithio'n agos gyda'r Colegau Addysg Bellach
- Sefydlu dull ariannu - adolygu'r dull ariannu er mwyn cael model sydd yn rhoi gwell sefydlogrwydd o ran darpariaeth
- Parhau â thrafodaethau cenedlaethol, gan barhau i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phryder hyfforddi a recriwtio staff arbenigol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yma'n canolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018). Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, gyda rhai elfennau o'r Ddeddf wedi eu hoedi yn y flwyddyn gyntaf e.e. cyfnod ôl-16. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar gynnig hyfforddiant, gweithdai a sesiynau galw i mewn i gynorthwyo'r wythnosau cyntaf o'r ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.

Mae cychwyn y Ddeddf yn y sector ôl-16 wedi ei oedi, ond rydym yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid a rhan ddeiliaid yn y sector hwn i baratoi at pan fydd y ddeddf yn dod i rym.

Mae systemau a phrosesau ar gyfer cychwyn y daith yn y blynyddoedd cynnar wedi eu sefydlu ac yn gwreiddio. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau ein bod yn cydweithio yn effeithiol i gefnogi'r dysgwyr a'u teuluoedd.

Bydd ymgynghori gydag ysgolion ynglŷn â dulliau posib o ariannu i'r dyfodol yn cychwyn ym mis Mai 2022 yn dilyn cwblhau gwaith modelu.

Mae ein trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â sicrhau staff arbenigol digonol dwyieithog ar gyfer ymateb i anghenion y dysgwyr yn parhau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bu angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles. Mae rhieni yn bryderus ynglŷn a'u gyrru i'r ysgol neu yn penderfynu addysgu gartref, ac mae cynnydd mewn pryderon diogelu.

Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar ddeall effeithiau y cyfnod clo ar les plant bach ac yn adolygu ein trefniadau a'n darpariaethau er mwyn sicrhau y cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein caniatáu i ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Tu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Law yn llaw gyda'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg nac hyfforddiant mae bwriad felly i roi sylw penodol i'r maes hwn er mwyn lliniaru unrhyw sgil-effeithiau gan sicrhau fod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae'r gwaith o gefnogi llesiant plant a phobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i ganolbwyntio ar ymateb i heriau a sgil-effeithiau'r pandemig. Rydym wedi sefydlu trefniadau prosiect traws-adrannol ar gyfer y ffrydiau gwaith sydd wedi eu blaenoriaethu gennym fel Cyngor sydd wedi ein galluogi i flaenoriaethu cefnogaeth ac ymyrraeth ar sail yr angen a amlygwyd. Mae'r holl ffrydiau gwaith hynny yn symud ymlaen yn dda.

Mae grŵp traws-asiantaethol wedi cyfarfod am y tro cyntaf ers dwy flynedd i drafod beth sy'n bwysig i bobl ifanc Gwynedd wrth iddyn nhw ddod allan o gyfnod o bandemig, gan ganolbwyntio ar y gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar y pwynt hwn yn eu bywydau. Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar sicrhau fod yna gefnogaeth i bobl ifanc fynychu sefydliad addysgol, hyfforddiant neu waith gan ddod a'r niferoedd sydd allan o waith, hyfforddiant neu addysg i lawr. Drwy waith aelodau'r grŵp mae Cyngor wedi dileu'r ffi o £300 oddi ar docyn teithio ôl-16 Gwynedd gan sicrhau bod bob person ifanc yn cael teithio i sefydliad addysg yn y sir yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn codi rhwystr amlwg oddi ar lwybr pobl ifanc gan hwyluso'r ffordd iddyn nhw sicrhau lleoliad llwyddiannus.

Mae prosiect digartrefedd newydd hefyd ar fin cychwyn gyda grant wedi ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru fydd yn canolbwyntio ar barhau i gryfhau systemau adnabod problemau yn gynnar ac i sicrhau llwybrau cymorth priodol ac i ddatblygu a darparu hyfforddiant i weithwyr cefnogol/staff er mwyn iddynt ddatblygu ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymhlith ieuenctid a deall sut i gefnogi pobl ifanc yn effeithiol i atal digartrefedd.

| |
|---|
| Ers Medi 2020 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. |
| **Amcanion Llesiant:**<br>• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.<br>• Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.<br>• Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.<br>• Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib. |



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol.

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae amrywiaethau mewn ansawdd rhwydweithiau ysgolion, a chyflwr a nifer ac argaeledd dyfeisiadau i athrawon a dysgwyr. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth y cyfrwng ymysg athrawon. Nid yw'r drefn o gynnal offer yn sicrhau mynediad di- dor.

Mae gwaith yn digwydd i lunio strategaeth o'r newydd ac erbyn 2021/22 byddwn wedi cyhoeddi'r strategaeth ac yn cychwyn ei rhoi ar waith.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Er mwyn hwyluso addysg o bell yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond yn fwy penodol mewn ymateb i'r Cyfnod Clo cyntaf, bu'r Adran Addysg yn rhagweithiol a blaenllaw iawn ym maes TGCh, gan sicrhau 1,200 o ddyfeisiadau chromebook a 175 o ddyfeisiadau MiFi i deuluoedd heb fynediad at dechnoleg a/neu gyswllt i'r we yn ystod y Cyfnod Clo cyntaf. Gwnaeth hyn wahaniaeth mawr i wella mynediad at addysg a phrofiadau addysgol plant dros y cyfnod, er hynny, roedd rhai heriau o hyd o safbwynt nifer annigonol o ddyfeisiadau i deuluoedd mawr. Bu'r Adran Addysg hefyd yn flaenllaw wrth lunio polisïau a gweithdrefnau er mwyn caniatáu ysgolion Gwynedd i fod yn dysgu o bell drwy dechnoleg dysgu byw. Bu i bolisi blaengar Gwynedd maes o law gael ei fabwysiadu gan nifer o awdurdodau eraill, a bu'r adran yn rhagweithiol yn hyrwyddo ac annog sesiynau dysgu byw gyda'n hysgolion, gan weld manteision amlwg hynny i'r dysgwr.

Ar 9 Tachwedd 2021, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol Addysg. Wrth fabwysiadu'r strategaeth, cytunwyd i gyd-ariannu hyd at hanner costau adnewyddu dyfeisiadau ar y cyd gyda'r ysgolion, ynghyd a chytuno i ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth dechnegol gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod o Ebrill 2022 ymlaen.

Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o ipads wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o Chromebooks wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# **Blaenoriaeth Gwella 3**
# Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith
- Cefnogi Llesiant Pobl
- Merched Mewn Arweinyddiaeth
- Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb)

| Prosiect 3a | Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae nifer fawr wedi colli eu gwaith yng Ngwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil Covid-19. Mae lefelau diweithdra wedi codi yn sylweddol a rhagolygon yn dangos y bydd yn cynyddu eto dros y misoedd nesaf. Mae nifer o bobl Gwynedd hefyd yn methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth.

Gall diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus. Mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi gwyro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol gan:

- ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith
- gefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo er mwyn iddynt gael mynediad at wybodaeth berthnasol gan wahanol wasanaethau, a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau Covid-19
- gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen 'Kickstart' y Llywodraeth yng Ngwynedd i gefnogi busnesau a chyflogwyr lleol i gyflogi pobl ifanc am gyfnod o 6 mis a datblygu eu sgiliau gwaith.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlyniad ein gwasanaethau. Byddwn yn darparu rhaglen i gynnig profiadau gwaith i bobl ifanc di-waith mewn busnesau ar draws Gwynedd a bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd ei gymryd i ymateb i'r her anferthol o gefnogi pobl Gwynedd yn ôl i waith cyn gynted â phosibl.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae'r farchnad llafur yng Ngwynedd yn parhau i newid. Ar ddechrau cyfnod argyfwng Covid-19 roedd diweithdra yn her sylweddol ond bellach mae cyflogwyr yn adrodd fod problemau sicrhau staff digonol. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth ond yn sicr mae Brexit ac effaith y pandemig yn rhan sylweddol o'r broblem.

Drwy'r cyfnod mae tîm Gwaith Gwynedd y Cyngor wedi ymateb yn gyflym ac yn hyblyg er mwyn cyfarch yr angen. Mae'r tîm wedi bod yn helpu busnesau i hyrwyddo swyddi a recriwtio ac yn rhoi sylw i gefnogi unigolion sydd y tu allan i'r farchnad llafur ddychwelyd i

waith. Hysbysebwyd oddeutu 1,600 o swyddi ar hysbysfwrdd swyddi Gwaith Gwynedd a cynhaliwyd 8 o ffeiriau swyddi i gysylltu busnesau gyda unigolion yn chwilio am waith. Mae 229 o bobl wedi sicrhau gwaith o ganlyniad i'r help maent wedi ei dderbyn gan y tîm yn ystod 2021/22.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach.

Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at wasanaethau a chanfod gwybodaeth am be sydd ar gael i'w helpu, yn arbennig drwy gyfryngau rhithiol ac ar-lein ac felly'n wynebu eu allgau yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae rhai trigolion yn wynebu caledi ariannol, yn wynebu colli gwaith a cholli cartref. Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd cael yr help sydd ei angen arnynt i ddelio gyda'r heriau hyn a chynnal eu llesiant yn lleol, ac yn amserol.

Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

1. Blaenoriaethu ein ymdrechion a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi trigolion:
- sy'n wynebu digartrefedd
- sy'n gofalu am anwyliaid yn ddi-dâl
- sy'n wynebu tlodi ariannol a thlodi bwyd
- sy'n cael eu allgau'n ddigidol.

2. Byddwn yn gweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar:
- ymyraethau llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed
- cefnogi cymunedau
- cynnal gwydnwch cymunedau a chefnogi gwirfoddolwyr/ysbryd cymunedol.

3. Byddwn hefyd yn edrych ar fodelau ar gyfer sicrhau fod trigolion yn cael mynediad i'r ystod eang a newydd o gefnogaeth sydd ar gael yn amserol, yn gydlynus ac yn lleol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Bu i'r mwyafrif o'n hymdrechion yn ystod y flwyddyn barhau yn cefnogi trigolion a chymunedau i ddelio gyda'r argyfwng neu'r sgil-effeithiau economaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag rydym hefyd wedi llwyddo i wneud cynnydd yn ein blaenoriaethau wrth i gymunedau a gwasanaethau symud yn araf tuag at adfer.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapio'r Rhaglen Cefnogi Pobl a hyd yma rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion i gefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd, sy'n ofalwyr, sy'n wynebu tlodi a'u hallgau. Rydym wedi cydweithio gyda phartneriaid ar gefnogi llesiant plant, pobl ifanc a phobl o bob oed, ar gefnogi cymunedau i gynnal a chefnogi eu trigolion, ac ar adeiladu gwydnwch cymunedau.

Mae'r gwaith o gefnogi trigolion sy'n wynebu digartrefedd yn symud ymlaen o dan y Cynllun Gweithredu Tai, ond yn ystod y flwyddyn bu i'r trefniadau ar draws ein gwasanaethau weld cydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl a'r Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer mynd i'r afael a heriau digartrefedd ieuenctid ac anghenion iechyd meddwl.

Mae'r gwaith o gefnogi gofalwyr di-dal wedi symud ymlaen drwy'r Cynllun Gweithredu Gofalwyr, a'r cydweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid wedi gweld cyfleoedd ysbaid newydd yn cael eu datblygu, rhaglenni hyfforddi a chefnogi i ofalwyr o bob oed, ynghyd a gwell trefniadau gennym ar gyfer adnabod a chynnig asesiadau i ofalwyr.

Mae ein gwaith ar ymateb i heriau tlodi wedi parhau gydol y flwyddyn. Mae'r angen am wasanaethau cynghori ariannol, dyledion a mynediad i fudd-daliadau a thalebau ynni a bwyd brys wedi bod yn bwysicach nag erioed. Rydym wedi cydweithio gyda'n partneriaid Cyngor ar Bopeth a'r Cymdeithasau Tai ynghyd ag elusennau eraill er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau cynghori ariannol lleol, ymgyrchoedd i uchafu incwm, a chyd-weinyddu talebau ar gyfer helpu gyda chostau tanwydd a chostau bwyd mewn argyfwng.

Rydym wedi gweithio gyda nifer fawr o bartneriaid, a sawl gwasanaeth ar draws y cyngor wedi bod yn cymryd camau i daclo allgau digidol ymysg trigolion. Mae amryw gynlluniau wedi bod mewn cartrefi gofal, ysgolion ac mewn cymunedau gan wirfoddolwyr i wella sgiliau pobl i fynd ar lein ar gyfer cael mynediad i wasanaethau, i gadw cyswllt a bod yn rhan o weithgareddau er eu lles a chyfeillgarwch.

Rydym wedi parhau i gydweithio gyda rhwydwaith eang iawn o grwpiau cymunedol a banciau bwyd ar ddarpariaethau bwyd argyfwng, cynlluniau bwydo, mentrau pryd ar glud, cynlluniau tyfu bwyd, gerddi cymunedol, rhandiroedd, clybiau bwyd a sesiynau dysgu coginio. Mae'r isadeiledd yma ar draws y sir yn cefnogi trigolion i gael mynediad i fwyd iach, fforddiadwy, a bwyd mewn argyfwng; mae'n annog gwirfoddoli a chyfranogiad, ac yn mynd i'r afael a lleihau gwastraff bwyd.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi sefydlu Hwb Covid-19 mewn un ardal yng Ngwynedd, ac o'r dysgu y bu yno rydym bellach yn cefnogi rhwydwaith o 9 Hwb Cefnogi Pobl mewn cymunedau drwy'r sir. Rydym wedi cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector a 9 grŵp cymunedol i ddatblygu'r trefniadau hyn. Mae'r hybiau i gyd yn hwyluso mynediad trigolion at wasanaethau, ond hefyd yn cynnig arlwy amrywiol o weithgareddau a chlybiau lleol i bobl; maent yn parhau i gynnig mynediad i brofion Covid-19, talebau bwyd, ynni a phecynnau digidol yn ôl yr angen. Rydym yn gobeithio datblygu'r model hwn o gydweithio a chael hybiau i gefnogi pobl mewn cymunedau yn ystod 2022-23.

Nid yw'r gwaith ar adolygu ein trefniadau o amgylch ein drysau ffrynt wedi symud ymlaen yn ystod 2021-22 oherwydd y galw cynyddol a pharhaus oedd ar ein timau gwasanaethau cymdeithasol, tai a budd-daliadau.

Mae natur hir dymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael a thaclo tlodi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi grwpiau bregus o bobl gyda heriau tlodi, gofalu a lletya; datblygu ein trefniadau i gefnogi cymunedau ac adeiladu gwydnwch cymunedau ar y cyd gyda'n partneriaid; ac edrych ar wella trefniadau ein drysau ffrynt fel bod trigolion yn cael mynediad haws, amserol a lleol i'n gwasanaethau.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



**Prosiect 3c** | **Merched Mewn Arweinyddiaeth**

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan - h.y. 70% merched 30% dynion.

Byddwn yn cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Datblygwyd a cyflwynwyd rhaglen datblygu potensial penodol ar gyfer merched yn y Cyngor. Mae 11 merch ar draws y Cyngor yn y garfan gyntaf sydd yn ymgymryd â 7 modiwl. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno gan hyfforddwyr profiadol mewnol yn ogystal ag arbenigwyr allanol.

Mae awdit o'n dulliau recriwtio a penodi yn cael ei arwain gan y Tîm Adnoddau Dynol gydag ymgynghoriad llawn wedi bod efo aelodau'r Grŵp Merched mewn Arweinyddiaeth cyn diwygio amodau gwaith unigol. Bydd y drefn hon yn parhau i'r flwyddyn nesaf.
Mae'r cyfarfodydd poblogaidd "Sgyrsiau dros Baned" wedi parhau gyda siaradwyr allanol wedi'u gwahodd i gyfrannu yn ogystal a rhai o'n harweinwyr benywaidd mewnol presennol. Cynhaliwyd tair cyfres o'r "Sgyrsiau" yn ystod y flwyddyn gyda chynlluniau i barhau'r ddarpariaeth yn y flwyddyn o'n blaenau.

Mae tudalen mewnrwyd newydd wedi ei dylunio a'i chyhoeddi yn ystod y flwyddyn ac mae digwyddiad i ddynion y sefydliad wedi ei drefnu at fisoedd yr Haf er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth am yr hyn a geisir ei gyflawni.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Rydym yn awyddus i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd.

Erbyn diwedd 2020/21 byddwn wedi cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchodedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig, gan hefyd adnabod unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd canlyniad yr ymchwiliad hwn yn sail i nifer o'r gweithgareddau pellach o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y 5 Amcan o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

Yn ystod 2021/22 fe fyddwn yn:

- Datblygu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion pobl Gwynedd a'r Ddeddf ar gyfer ei chyflwyno o Fedi 2021 ymlaen.
- Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cymorth a hwyluso gallu rheolwyr i gynnal Asesiadau Cydraddoldeb.
- Annog staff i gwblhau'r holiadur monitro er mwyn cael tystiolaeth ddibynadwy i'n helpu i wella amrywiaeth ein gweithlu, ac i leihau unrhyw fylchau tâl.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae rhaglen hyfforddiant amrywiol wedi ei datblygu er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion pobl Gwynedd â Deddf Cydraddoldeb 2010. Treialwyd cyflwyno hyfforddiant rhithiol i staff rheng flaen a rhai carfannau eraill o staff yn ystod y flwyddyn gan dderbyn adborth da. Addaswyd yr e-fodiwl hyfforddiant gyda'r bwriad o'i gyflwyno fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant ffurfiol (fydd yn hyfforddiant craidd i bob aelod o staff) o fis Ebrill ymlaen.

Yn dilyn oediad yn 2020/21 fe gwblhawyd rhan gyntaf yr ymgysylltiad cyhoeddus er mwyn casglu'r wybodaeth ar unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd wrth ymwneud efo'r Cyngor. Nifer fechan o rwystrau oedd wedi eu hamlygu yn yr atebion, ond byddwn yn edrych ar yr rhain yn ofalus a gweithredu er mwyn gwella gwasanaethau. Bydd rhai pwyntiau angen ymchwil pellach er mwyn sicrhau ymateb addas. Mae'r gwaith hyn (neu mae profiadau'r 2 flynedd diwethaf) wedi dangos i ni fod hwn yn waith parhaol ond byddwn yn cychwyn trwy drefnu ail ran y gwaith, sef ymgynghori gyda grwpiau penodol. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio gwybodaeth addas ddaw o ymgynghoriadau eraill.

Mae'r Cyngor yn gofyn i bob aelod o staff lenwi holiadur data cydraddoldeb er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o nodweddion cydraddoldeb ein staff ac er mwyn gwella'r gefnogaeth a roddir iddynt a hybu amrywiaeth o fewn y gweithlu. Mae'r wybodaeth yma'n wirfoddol ac felly nid yw'r niferoedd sy'n ei lenwi'n tueddu i fod uchel. Rydym felly wedi bod yn cynnal ymgyrchoedd er mwyn annog staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb ac mae'n ymddangos fod cynnydd bychan ond arwyddocaol wedi digwydd yn y niferoedd o ganlyniad i'r gwaith hynny. Bydd angen parhau gyda'r gwaith hyrwyddo hwn.

Rydym wedi cydweithio hefo awdurdodau eraill ar draws y Gogledd i greu ffurflen asesiad effaith cydraddoldeb newydd ar gyfer y Cyngor. Bydd yr asesiad yn ehangu ar y nodweddion a dyletswyddau cydraddoldeb presennol gan gynnwys cwestiynau ychwanegol ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, y Gymraeg, Hawliau Dynol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r ffurflen wedi ei gosod ar ffurf electroneg sy'n hawdd i'w ddefnyddio a'r bwriad yw cychwyn ei ddefnyddio ar gyfer cynnal asesiadau o fis Mai 2022 ymlaen. Mae hyfforddiant hefyd yn cael ei greu ar gyfer aelodau a swyddogion i gyd-fynd a chyflwyniad yr asesiad effaith newydd.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



# **Blaenoriaeth Gwella 4** Mynediad at gartrefi addas

Mae gan y maes tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen.

Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Law yn llaw â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu
- Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn helpu gyda phroblemau tai
- Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol
- Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes: Pwyso am newid deddfwriaeth perthnasol

| Prosiect 4a | Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd", rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a buddsoddiad o £77 miliwn.

Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn cychwyn gweithredu ar y cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Mae'r galw ar ein gwasanaeth digartrefedd wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf o ganlyniad i bandemig Covid-19 a byddwn yn anelu i flaenoriaethu nifer o'r cynlluniau a fyddai'n cynyddu'r cyflenwad o dai ar gael i'r gwasanaeth digartrefedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Dechreuwyd gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai ym mis Ebrill 2021.

Ers hynny, mae rhai prosiectau Digartrefedd wedi cwblhau, er enghraifft:

- datblygu 6 uned llety â chefnogaeth i ferched digartref ym Mhorthmadog
- 4 pod i'r digartref yng Nghaernarfon

Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar greu unedau llety â chefnogaeth ychwanegol ym Mangor, Pwllheli, a Dolgellau, fydd yn creu 26 o unedau rhyngddynt. Yn ogystal â hyn, rydym wedi buddsoddi yn adnewyddu ein hosteli a chynyddu capasiti ein timau digartrefedd, fydd yn ein galluogi i roi hyd yn oed mwy o gefnogaeth i'n hunigolion digartref.

Fis Chwefror, 2022, lansiwyd cysyniad '**Tŷ Gwynedd**', ein gweledigaeth ar gyfer y math o dai fyddwn yn eu hadeiladu yn rhan o'n cynllun i ddatblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai. Bydd pob 'Tŷ Gwynedd' yn ynni-effeithiol, yn hyblyg, yn amgylcheddol-gyfeillgar ac wedi'i adeiladu'n gynaliadwy. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynlluniau ar gyfer y datblygiad cyntaf ar safle hen Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor.

Bu swyddogion yn ymweld â nifer helaeth o dai a thiroedd dros y flwyddyn a phrynwyd ein tŷ cyntaf ym mis Mawrth, 2022, fydd yn cael ei osod i bobl leol yn y misoedd nesaf.

| |
|---|
| Ym mis Chwefror, lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus i sefydlu'r angen tai yng Ngwynedd gyda bron i 800 o ymatebion wedi'u derbyn. |
| **Amcanion Llesiant:**<br><br>• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.<br>• Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.<br>• Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg. |



| Prosiect 4b | Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn helpu gyda phroblemau tai |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ar hyn o bryd, mae nifer o bwyntiau cyswllt o fewn yr Adran i'r cyhoedd gael mynediad at wahanol wasanaethau yn y maes Tai ac Eiddo. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys prosiect i sefydlu un pwynt cyswllt drwy greu Desg Gymorth Tai. Yn ystod 2021/22 byddwn yn ymchwilio i fodelau gwahanol o ddarparu desg gymorth a chychwyn ar y gwaith o sefydlu math o Ddesg Gymorth Tai all gynghori'r cyhoedd sut orau i ddatrys eu hanghenion tai.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Yn ystod 2021/22, penodwyd Arweinydd ar gyfer y Siop Un Stop, sydd wedi dechrau ar y gwaith ymchwil angenrheidiol er mwyn ei sefydlu. Ymgysylltwyd â'n rhan-ddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn deall yr anghenion ac asesu'r galw cyfredol. Trwy hynny, rydym wedi dechrau edrych ar strwythur newydd ar gyfer y Siop Un Stop ochr-yn-ochr â pharhau i gynnal yr ymchwil.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



| Prosiect 4c | Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Rydym wedi cyflwyno Polisi Gosod Tai newydd sydd wedi bod yn weithredol ers Haf 2020. Mae'r polisi hwn yn blaenoriaethu pobl leol, ac yn disodli'r hen system pwyntiau i ddyrannu tai.

Mae'r drefn newydd yn golygu fod ceisiadau am dai cymdeithasol yn cael eu rhoi mewn un o 4 'band' yn ddibynnol ar eu hanghenion tai a'u cysylltiad gyda Gwynedd neu beidio.

Yn ystod 2021/22 byddwn angen sicrhau fod trefniadau effeithiol ar gyfer gweithredu'r polisi gosod newydd a sefydlu trefn i fonitro fod y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy'r sir i sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl Gwynedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Yn ystod 2021/22, rydym wedi sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer gweithredu'r polisi gosod newydd. Trwy hynny, rydym wedi llwyddo i sicrhau bod, ar gyfartaledd, 97% o dai cymdeithasol wedi'u gosod i ymgeiswyr sydd â chysylltiad â Gwynedd.

Rydym hefyd wedi dechrau'r broses o adolygu gweithrediad y Polisi Gosod, a bydd hynny'n parhau i 2022/23.

Yn sgil rhoi'r trefniadau effeithiol hyn yn eu lle er mwyn gweithredu'r Polisi fel rhan o'n gwaith dydd-i-ddydd, ni fyddwn yn adrodd ar y Polisi Gosod fel Blaenoriaeth Wella ar gyfer yr Adran ar o hyn ymlaen.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

| Prosiect 4ch | Trosglwyddiad unedau gwyliau o’r Dreth Gyngor i Drethi Busnes: Pwyso am newid deddfwriaeth perthnasol |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ers sawl blwyddyn, mae’r Cyngor wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy’n destun ardrethi annomestig. Mae’r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bychain. Rydym yn bwriadu parhau i bwyso am ddiwygio’r drefn yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddeall maint y broblem sy’n bodoli yng Ngwynedd. Siomedig fu’r ymateb hyd yma gyda’r Llywodraeth yn canolbwyntio mwy ar yr effaith niweidiol honedig ar dwristiaeth yn hytrach na’r effaith niweidiol go iawn ar drigolion Gwynedd.

Byddwn hefyd yn parhau â’r gwaith o bwyso ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio’r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref i gynnwys dosbarth defnydd penodol ar gyfer tai preswyl a ddefnyddir fel llety gwyliau, ynghyd â chyflwyno trefn trwyddedu gorfodol er mwyn gallu gweithredu’r busnes. O ganlyniad, ni ddylai unrhyw eiddo heb ganiatâd priodol ar gyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr fod yn gymwys i drosglwyddo o fand Treth Cyngor i’r rhestr ardrethi annomestig.

Mae’r Cyngor yn buddsoddi’r incwm a geir o’r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint ar yr effaith andwyol y mae ail gartrefi yn ei gael ar argaeledd tai i bobl leol. Wrth i eiddo drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau mae posibilrwydd y bydd llai o eiddo yn destun y premiwm.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae’r pwysau sydd wedi ei roi ar y Llywodraeth wedi cyfannu at newid arwyddocaol yn eu safbwynt tuag at y mater hwn. Ym Mawrth 2022 cyhoeddodd y Llywodraeth:

- Bwriad i newid deddfwriaeth i ganiatáu i’r Premiwm gynyddu i hyd at 300% o 1 Ebrill 2023.
- Bwriad i newid deddfwriaeth fel bod rhaid i gartref gael ei wir osod am hyd at 182 diwrnod (h.y. hanner y flwyddyn) yn hytrach na 70 diwrnod, ac wedi bod ar gael i’w osod am 252 diwrnod yn hytrach na 140 diwrnod, cyn gellir ei ystyried yn eiddo annomestig.
- Mae’r Gweinidog hefyd yn ystyried addasu’r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bychain mewn perthynas ag unedau hunan-ddarpar. Mae ymgynghoriadau cyffelyb yn y maes Cynllunio hefyd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn, a disgwyliwn ymateb y Llywodraeth i’r ymarferiad hwnnw.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy’n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# **Blaenoriaeth Gwella 5**
# Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Un nodwedd unigryw sydd gan Wynedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor
- Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig
- Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc

| Prosiect 5a | Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

I'r dyfodol fe fyddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig y rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad a datblygu sgiliau staff newydd.

Byddwn hefyd yn datblygu cynllun prentisiaethau i ddenu a datblygu staff gyda'r gallu ieithyddol briodol ac yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth dysgu sydd eisoes yn ei le (gyda hyblygrwydd i addasu i anghenion timau penodol).

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae cyfanswm o 2,825 o staff wedi'u hasesu yn erbyn dynodiadau iaith eu swydd gyda 91.5% (2,584) yn cyrraedd neu'n mynd tu hwnt i'r gofynion. Golyga hyn bod 241 (8.5%) o staff wedi'u hadnabod sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd yn llawn hyd yma.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae cydweithio wedi bod gydag adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn casglu asesiadau gan fwy o staff rheng flaen. Derbyniwyd 114 yn fwy o hunanasesiadau (cynnydd o 28% i 47% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf). Gwelwyd hefyd fod dros 50% o staff adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cwblhau'r hunanasesiad iaith. Gwelwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn cyrraedd 100% o staff wedi cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith, yr adran gyntaf i gyflawni hyn. Bu cydweithio da gyda'r adran Tai ac Eiddo hefyd ac mae'r nifer o staff sydd wedi cael asesiad yn yr Adran honno wedi codi o 72.35% (Rhagfyr 21) i 96.55% (diwedd Mawrth 22).

Trefnwyd gwersi lefel Mynediad ar gyfer staff gofal cymunedol ac mae gwersi lefel Canolradd yn parhau, gyda'r staff yn anelu at gwblhau'r lefel a sefyll arholiad. Mynychodd 15 aelod o staff gyrsiau "Defnyddio' Cymraeg Gwaith" ac mae 11 aelod o staff yn mynychu gwersi wythnosol gyda "Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin".

Cynhaliwyd sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith i staff y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (gyda'r Ymgynghorydd Iaith), a rhoddwyd trosolwg o'r cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg. Yn ogystal, ailsefydlwyd Gwobr Goffa Dafydd Orwig a gwelwyd cynnydd mewn diddordeb a chyfraniadau: 6 enwebiad ar gyfer gwobr Dysgu a Defnyddio'r Gymraeg, 2 enwebiad ar gyfer gwobr Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Fforwm Dynodiadau Iaith wedi'i sefydlu erbyn hyn ac yn cyfarfod pob chwarter, gyda cynrychiolydd o bob Adran yn aelod ac yn gyfrifol am rannu gwybodaeth ac arferion da yn ogystal ag adnabod rhwystrau a risgiau i'r dyfodol. Bydd cyfarfodydd y Fforwm yn fodd da o geisio sicrhau asesiad iaith ar gyfer pob aelod o staff ar draws y Cyngor.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Trwy Is-Grŵp y Gymraeg o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus byddwn yn llunio cynllun ar y cyd gyda'n partneriaid ar y Bwrdd er mwyn ceisio symud i sefyllfa lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ar y cyfle cyntaf bosib, ac i annog pobl i wneud hynny.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Pwrpas y "Prosiect Gwasanaethau Cyswllt Cyntaf" gan is-grŵp y Gymraeg (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) yw annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Comisiynwyd cwmni i wneud astudiaeth o ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn 12 derbynfa draddodiadol yng Ngwynedd a Môn ac i ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Y cam nesaf fydd:

- Ymweld gyda 12 derbynfa er mwyn cynnal gwaith maes a chasglu data a'i ddadansoddi yn ystod Ebrill 2022
- Cynllunio a threialu ymyraethau yn ystod Mai a Mehefin 2022
- Llunio argymhellion, a phecyn adnoddau a chanllawiau datblygu yn seiliedig ar ganfyddiadau yn ystod Gorffennaf ac Awst 2022

**Amcanion Llesiant:**

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

Byddwn yn llunio rhaglen waith gan flaenoriaethu'r meysydd i gael sylw ac ym mha drefn. Byddwn hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud fel rhaglen waith ym meysydd adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd ac enwau llefydd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Penodwyd swyddog i weithio ar y prosiect ym Medi 2021. Lluniwyd rhaglen waith fanwl ar sail yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iaith yn 2018, a sefydlwyd Bwrdd Prosiect trawsadrannol i gadw trosolwg ar gynnydd y rhaglen waith.

Mae nifer o gamau cadarnhaol wedi eu cymryd i gryfhau ein hymdrechion i warchod enwau tai ac annog defnydd o enwau Cymraeg ar dai ac mae'r Swyddog Prosiect wedi bod yn cynnig cefnogaeth ymarferol i swyddogion ar geisiadau newid enwau eiddo.

Mae cofrestr o enwau lleoedd/pentrefi yng Ngwynedd wedi ei llunio at ddefnydd swyddogion y Cyngor. Mae risg posib wedi ei adnabod y gallai ffurfiau gwahanol o enwau lleoedd gael eu defnyddio yn gyhoeddus wrth i rai asiantaethau eraill ddefnyddio rhestr enwau safonol Comisiynydd y Gymraeg, ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i geisio cael newid i restr y Comisiynydd i gyd-fynd efo'r enwau a ddefnyddir gan y Cyngor.

Mae'r Swyddog Prosiect wedi bod yn mynychu Panel Craffu y Parc Cenedlaethol er mwyn bod yn ymwybodol o'u cynlluniau nhw o ran enwau nodweddion daearyddol a byddwn yn gobeithio cydweithio ar brosiectau yn ystod ail hanner y flwyddyn.

Mae nifer o weithgareddau hybu a hyrwyddo hefyd wedi eu cynnal ochr yn ochr gyda'r gwaith mewnol er mwyn ennyn diddordeb a brwdfrydedd y cyhoedd i'r pwnc. Mae hyn yn cynnwys 4 sgwrs radio, 3 erthygl yn y wasg, 12 eitem Yr Enw a'r Hanes ar fewnrwyd y Cyngor, 4 sesiwn ar-lein yn trafod gwahanol agweddau ar enwau lleoedd a chyfraniadau at waith prosiect llysgenhadon Eryri a phrosiect y Carneddau. Bydd Map Enwau Lleol yn cael ei lansio yn fuan, yn dilyn gweithgaredd peilot yn ysgol Sarn Bach, fydd yn adnodd digidol i alluogi'r cyhoedd i gofnodi enwau lleol a llafar ar nodweddion o fewn eu hardal leol.

Y camau nesaf fydd cael arweiniad ar enw'r Cyngor a'r egwyddor o arddel fersiynau Cymraeg enwau strydoedd ac enwau lleoedd. Bydd angen hefyd parhau a'r cyswllt gyda'r swyddog yn Llywodraeth Cymru sydd yn arwain ar eu hymrwymiad i warchod enwau lleoedd a dwyn pwysau ar y Llywodraeth i ystyried newidiadau deddfwriaethol.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

| Prosiect 5ch | Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19.

Yn 2021/22 byddwn yn sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19, ac yn llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu mewn ymateb i'r sefyllfa.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol Covid-19 ar safonau'r Gymraeg, rydym wedi casglu data drwy gyfrwng amrywiol holiaduron sydd wedi ein galluogi i sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn ysgolion Gwynedd.

Ar yr 8fed o Fawrth 2022, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) Gwynedd. Mae'r CSGA yn ddogfen gynhwysfawr sy'n ymgorffori ac yn ymateb i'r pryderon a gafodd eu hamlygu ym maes y Gymraeg o ganlyniad i'r holiaduron a rannwyd gyda'r holl ysgolion. Mae'r ddogfen yn amlinellu'n glir beth yw strategaeth Gwynedd i godi sgiliau a hyder disgyblion y sir ac mae cynlluniau gweithredu manwl ar waith tu ôl i'r ddogfen strategol hon er mwyn cyrraedd y targedau a'r deilliannau dymunol a nodir ynddi. Mae nifer o gynlluniau clwstwr llwyddiannus ac effeithiol iawn wedi cael eu cynnal ym mhob dalgylch yn y sir eisoes o dan arweiniad y Cydlynydd Siarter Iaith. Y Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Cydlynwyr Iaith Clwstwr yn ystod 2021/22 sydd wedi sicrhau llawer mwy o ffocws ar sgiliau llafaredd trwy gynnig cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gael ymarfer eu Cymraeg ac ymfalchïo yn eu Cymreictod.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

# Blaenoriaeth Gwella 6
## Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Rydym fel Cyngor yn darparu gofal yn uniongyrchol i blant a'u teuluoedd a phobl sydd angen cymorth arbenigol, ond ein gweledigaeth yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw.

Gan fod anghenion pob unigolyn a theulu yn siŵr o fod yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant mae angen i ni fel Cyngor addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Er mwyn llwyddo, bydd angen i ni barhau i gydweithio â darparwyr eraill, megis y Bwrdd Iechyd, gan gofio rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog bob tro. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol
- Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal
- Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal
- Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth
- Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau byddwn yn ystod 2021/22 yn:

- ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol
- sicrhau ein bod yn deall yr angen am ddarpariaeth gwelyau nyrsio yn y sir, a symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch y prinder ym Mhen Llŷn
- gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach
- ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol
- ystyried sut allwn ni wella addasrwydd ein hadeiladau darparu gofal wrth geisio cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir. Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor oherwydd argyfwng Covid-19
- cwblhau'r gwaith o adeiladu uned dementia ychwanegol yn ein cartref yn y Bermo
- cwblhau addasiadau i'n cartref yn Nolgellau er mwyn medru cynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys
- cydweithio gyda chymdeithas tai Adra ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli a cheisio adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir, gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach
- cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2020/21?**

Mae'r gwaith o geisio deall "gwir gost gofal" yn mynd yn ei flaen a bydd hyn yn waith fydd yn parhau yn ystod 2022/23. Tra ein bod wedi cytuno ar ffioedd preswyl a nyrsio ar gyfer 2022/23 sydd yn cyd-fynd â'r rhanbarth, byddwn yn parhau i edrych ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf er mwyn edrych ar y posibilrwydd o dalu ffioedd preswyl a nyrsio penodol i Wynedd sy'n adlewyrchu gwir gost gofal. Ar y cyd â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar broses 'Open Book Accounting', sef dull lle mae contractwyr yn rhoi darlun tryloyw o'u costau i gyfiawnhau eu ffioedd. Bydd y broses yma yn cael ei dilyn gyda rhai darparwyr penodol sydd yn codi ffioedd uwchlaw ein ffioedd safonol.

Yn ystod 2021/22 mae gwaith wedi cael ei wneud ar nifer o'n cartrefi mewnol i'w gwneud yn fwy addas i'r dyfodol, gan gynnwys Cefn Rodyn yn Nolgellau, Tan Y Marian ym Mhwllheli a Hafod Mawddach yn Bermo. Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i gynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys ac unigolion â dementia er enghraifft.

Rydym yn gobeithio cael adnodd o'r gronfa Llywodraeth Cymru newydd 'Regional Integration Fund' er mwyn cyd-gordio a gyrru ymlaen ar yr holl waith darpariaeth gofal addas gan gynnwys ail fodelu cartrefi preswyl i gynnwys gwlau dementia, darpariaeth gofal dydd ac ati yn ystod 2022/23. Bydd y llif gwaith yma hefyd yn cynnwys parhau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu safle Penrhos ym Mhen Llŷn. Yn ystod 2021/22 mae'r Adran ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd wedi comisiynu arweiniad cyfreithiol arbenigol gan gwmni allanol er mwyn edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth nyrsio fewnol ym Mhenrhos er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg gwlâu arbenigol yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Yn anffodus oherwydd problemau staffio, nid ydym wedi gallu agor yr uned Dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog. Gobeithir bydd y gwaith recriwtio yn ystod 2022/23 yn dod i'r afael a'r broblem yma yn fuan yn y flwyddyn.

Tra bod y gwaith o ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli yn mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl mae llithriad i'w adrodd o ran ceisio canfod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir. Nodwyd yn ein Cynllun am 2021/22 y byddwn yn blaenoriaethu ardal Dolgellau a Meirionnydd ond ar hyn o bryd nid ydym wedi gallu canfod lleoliad addas yn yr ardal.

Bydd y tim sicrwydd ansawdd yn cefnogi darparwyr i gael trefn ar elfennau sydd wedi cael eu hesgeuluso yn sgil pwysau'r pandemig. Mae'n annhebyg bydd modd cyrraedd pob darpariaeth oherwydd diffyg capasiti

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae anghenion gofal y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid ein gwasanaethau cymunedol. Mae angen i ni hwyluso gallu ein staff ni a staff y Bwrdd Iechyd i gydweithio fel un tîm o fewn ardaloedd penodol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau mai un pwynt cyswllt fydd gan unigolion sydd angen cymorth iechyd a gofal yn y gymuned er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwasanaeth di-dôr. Rydym hefyd yn gweithio i newid ein ffordd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir er mwyn hwyluso'n gallu i sicrhau fod y gofal wedi'i deilwro yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol
- dyfarnu cytundebau gofal cartref newydd ymhob ardal gyda'r nod o weithredu'r model newydd yn fuan yn 2022/23
- cryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib
- ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy'n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion gydag anableddau dysgu drwy ddatblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau
- ailagor ein hwb iechyd meddwl cymunedol ym Mhwllheli, yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19 ac edrych ar opsiynau i ddatblygu hybiau pellach ar draws y sir
- edrych ar opsiynau i ddatblygu darpariaeth cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i garfan iau ardal Arfon.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae'r gwaith o arfogi'r timau integredig wedi parhau yn ystod 2021/22. Mae'r drefn o rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau wedi derbyn sylw, yn ogystal a sefydlu trefn lle mae unrhyw ymholiad iechyd neu gofal yn cyrraedd un pwynt o fewn yr ardaloedd, er mwyn symleiddio pethau i drigolion Gwynedd. Bydd y gwaith o ddatblygu'r timau integredig yn parhau yn ystod 2022/23.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi gallu penodi tîm arbenigol symud a thrin i gryfhau'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol. Rydym bellach wedi penodi pedair swydd yn barhaol ac un swydd dros dro. Rydym hefyd wedi penodi dwy hyfforddai Therapi Galwedigaethol fydd yn golygu ein bod yn datblygu'r gweithlu sydd angen arnom i'r dyfodol.

Parhaodd y gwaith o ail ddylunio'r Gwasanaeth Gofal Cartref drwy gytundebau newydd ym mhob ardal, ac yn ystod 2021/22 mae cyd-weithio agos wedi bod er mwyn paratoi darparwyr a thrigolion Gwynedd ar gyfer y newid. Roedd y pecyn tendr yn mynd allan yn mis Ebrill 2022, a bydd y cytundebau yn cael eu dyfarnu yn ystod haf 2022 ac y drefn o weithredu'r model newydd yn fyw wedi hynny.

Tra bod peth oedi wedi bod efo datblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau oherwydd problemau cynllunio yn ymwneud â risg llifogydd, mae'r gwaith yn bwrw yn ei flaen ac yn fuan yn 2022/23 bydd amserlen ddiwygiedig yn ei le, a gallwn fynd allan i ymgynghori a diweddaru trigolion Gwynedd.

Rydym hefyd wedi llwyddo i ail-agor Hwb Iechyd Meddwl ym Mhwllheli. Ar gyfer y garfan iau, rydym yn ddiweddar wedi sefydlu hybiau llesiant i bobl hyd at 25 oed yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan Gisda ac yn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion. Yn ystod 2022/23 bydd prosiect Gwydnwch Cymunedol yn cael ei lansio er mwyn datblygu'r hybiau ar draws y Sir, a thynnu'r holl gefnogaeth sydd ar gael at ei gilydd yn yr ardaloedd lleol.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ac mae hyn wedi ei amlygu yn arbennig yn ystod argyfwng Covid-19. Ond, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal er mwyn ystyried sut fyddwn ni'n mynd ati i recriwtio i'r dyfodol
- ystyried ein trefniadau cofrestru ac hyfforddi yn ogystal â threfniadau datblygu staff er mwyn cynyddu hyblygrwydd a chadernid yn y maes
- datblygu cynllun Meithrin Talent i fynd i'r afael â phrinder arbenigedd mewn rhai meysydd e.e. Therapi Galwedigaethol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae recriwtio i'r sector wedi parhau i fod yn heriol ar draws y wlad yn ystod 2021/22, ond gwnaed cynnydd yn erbyn y blaenoriaeth gwella yn ystod cyfnod anodd.

Penodwyd Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal sydd yn canolbwyntio ar gyd-gordio yr elfennau recriwtio yng Ngwynedd yn ogystal â ffrydiau gwaith eraill. Mae'r cydweithio gyda Gofalwn Cymru wedi parhau, ac mae digwyddiadau pwrpasol wedi cymryd lle mewn ardaloedd lle mae recriwtio yn broblem penodol. Un enghraifft ydi digwyddiad yn Maesgeirchen lle llwyddwyd i benodi 6 o staff ar gyfer cartref Plas Hedd. Mae bwriad i ddysgu o hyn ac i adeiladu ar y profiad ar draws y Sir yn ystod 2022/23.

Mae perthynas yn cael ei datblygu gyda Coleg Llandrillo Menai er mwyn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr, ond hefyd i ddenu unigolion i'r maes i'r dyfodol.

Mae'r broses o gofrestru staff gofal wedi parhau yn ystod 2021/22 a bydd hyn yn parhau drwy gydol 2022/23, er mwyn codi statws swyddi o fewn y sector a datblygu staff er mwyn gwneud siŵr fod cadernid yn y maes i'r dyfodol.

Mae meithrin talent yn bwysig i'r Adran mewn meysydd lle fo prinder yn debygol o fod i'r dyfodol, a mae hyfforddai Gwaith Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol yn ffordd bwysig o sicrhau capasiti digonol i'r dyfodol. Roedd bid ariannol ar gyfer sefydlu Cynllun Llwybrau Gyrfa Gofal (hynny yw, ariannu hyfforddai newydd a uwch-sgilio staff presennol y gwasanaethau) yn aflwyddiannus felly dydi heb fod yn bosib symud ymlaen efo'r llif gwaith yma mor effeithiol a byddem wedi obeithio. Mae dwy hyfforddai proffesiynol arwain a rheoli wedi cychwyn ar y Cynllun Yfory yn ystod 2021/22, er mwyn meithrin talent arwain yr Adran i'r dyfodol.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth benodol ar adegau i'w helpu i fagu plant fel bod y plant hynny yn gallu aros gyda'u teulu, yn ffynnu, yn iach, ac yn ddiogel. Nid oes plant yn dod i ofal yn ddi-angen yng Ngwynedd ac rydym am sicrhau nad yw hynny yn digwydd. Weithiau, mae'n orfodol fod plentyn yn dod i'n gofal oherwydd ei bod yn beryglus iddynt aros gartref. Mae ein trefniadau a'n penderfyniadau pan fo hynny'n digwydd yn seiliedig ar risg ac anghenion y teulu. Pan mae plentyn yn dod i ofal mae angen gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn derbyn gofal briodol, addas a lleol; a'u bod nhw a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi fel bod y plentyn yn gallu dychwelyd at ei deulu.

Bydd Rhaglen Trawsffurfio "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" yn weithredol yng Ngwynedd, yn cael ei gwerthuso'n barhaus a byddwn yn rhannu'r model gydag Awdurdodau eraill Gogledd Cymru.

Byddwn yn cwblhau y gwaith Ffordd Gwynedd gan weithio ar draws gwasanaethau'r adran ac ar y cyd gyda'r Adran Addysg i ddeall yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd Gwynedd ac yn cytuno ar egwyddorion, a ffyrdd o wella yr hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio, er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen.

Byddwn yn cyflwyno strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd" a'i mabwysiadu sy'n dangos ein nod, ein trefniadau a'n ymarfer tuag at osgoi rhag dod a phlant i ofal yn ddi-angen; ond os oes angen gofal yna sicrhau bod y plentyn yn cael gofal mewn lleoliad addas, priodol a lleol; a bod pob ymdrech a chefnogaeth i gael plant yn ôl gyda'u teuluoedd.

Byddwn yn derbyn adborth Llywodraeth Cymru ar ein strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd".

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Yn ystod y flwyddyn mae'r Rhaglen "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" wedi parhau i fod yn cefnogi ein gweithwyr ni i adlewyrchu ar eu hymarfer a'u ffordd o weithio drwy raglen o hyfforddiant, datblygu sgiliau a drwy gefnogaeth ein mentor ymarfer. Mae'r newidiadau i'n hymarfer ni yn golygu y byddwn ni yn gallu cefnogi teuluoedd yn well i ddiogelu plant drwy ganolbwyntio ar gydweithio ac osgoi sefyllfaoedd o wrthdaro gyda theuluoedd.

Rydym wedi ail gydio yn ein hymyrraeth Ffordd Gwynedd Adran Plant ac Adran Addysg, ac wedi cynnal nifer uchel o adolygiadau gydag unigolion sydd wedi derbyn gwasanaeth, ysgolion ac asiantaethau eraill. Rydym wedi cytuno ar egwyddorion gweithredu ac wedi adnabod nifer o ffyrdd i wella'n trefniadau. Yn 2022 byddwn yn gweithredu ar y newidiadau a'r egwyddorion, yn ogystal ag arfogi staff yn y ddwy Adran i fod yn effeithlon wrth ddarparu gwasanaeth.

Rydym wedi mabwysiadu "Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd" ac yn monitro effaith a chanlyniadau rhoi'r strategaeth honno ar waith ar ein teuluoedd. Mae peth effaith y strategaeth honno i'w gweld eisoes, megis yn y gostyngiad sydd wedi bod yn ystod y

flwyddyn ar y niferoedd o blant sy'n dod i ofal. Wrth adolygu'r strategaeth yn rheolaidd rydym wedi adnabod ein bod yn wynebu heriau staffio a bod hynny yn fygythiad i'n gallu i wireddu'r strategaeth hon. Rydym wedi comisiynu gydag ymgynghorydd allanol i adnabod y ffactorau sydd yn peri risg i lwyddiant y cynllun. Bydd y gwaith yn edrych ar faterion recriwtio gweithwyr proffesiynol ymysg materion gweithlu eraill er mwyn sicrhau fod gennym y capasiti, y sgiliau, a gweithwyr cymwys i asesu ac adnabod risgiau er mwyn gweithredu'r strategaeth yn ei chyfanrwydd er lles plant a theuluoedd yng Ngwynedd.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau



| Prosiect 6d | Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae rhai plant a phobl ifanc sy'n dod i'n gofal gydag anghenion cymhleth a dwys. Mae rhai o'r plant hyn yn gorfod derbyn gofal a chefnogaeth mewn lleoliad drud y tu allan i Wynedd neu Gymru ac ymhell o'u teulu a'u cymuned. Rydym am sicrhau bod gennym amrywiaeth a digon o leoliadau addas ar gael yn lleol, a bod gennym weithwyr a chefnogaeth arbenigol yn lleol ar gyfer anghenion y plant hyn.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Gweithredu rhaglen hyfforddiant arbenigol i staff fel eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth addas i blant gydag anghenion cymhleth a'u teuluoedd
- Datblygu a chytuno achos busnes, ar draws partneriaid lleol, ar gyfer gweithredu ac ymarfer fel un tîm amlddisgyblaethol fel bod cefnogaeth i deuluoedd a phlant yn fwy effeithiol ac effeithlon
- Datblygu cynllun ar gyfer adnabod darpariaeth breswyl yn lleol i blant gydag anghenion cymhleth
- Cynyddu niferoedd gofalwyr maeth drwy recriwtio a rhoi adnoddau i asesu gofalwyr ar gyfer sicrhau digon o leoliadau

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Rydym wedi llwyddo i hyfforddi staff fel eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth addas i blant gydag anghenion cymhleth drwy raglen hyfforddiant i weithwyr o fyd addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae'r rhaglen hyfforddiant arbenigol hon wedi cynnwys PACT (Awtistiaeth), Nurture (Rhianta), Family Links, sy'n arfogi ein gweithlu i ddarparu ymyraethau a chefnogaeth arbenigol.

Er i'r pandemig gael effaith ar ein gallu i symud ymlaen cyn gyflymed ag y dymunir ar y Rhaglen Trawsffurfio Ranbarthol, rydym fodd bynnag wedi cydweithio gyda phartneriaid i sefydlu Tîm Aml-asiantaethol. Yn ystod 2022 byddwn yn gwerthuso'r model hwn, ac yn symud i integreiddio'r model i mewn i'n trefniadau lleol sydd ynghlwm a'n Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd.

Nid ydym wedi llwyddo i symud ymlaen gyda'r gwaith o gwblhau astudiaethau dichonolrwydd ac opsiynau ar gyfer darpariaeth breswyl lleol i blant ag anghenion cymhleth. Byddwn yn ail-gydio yn y gwaith hwn yn 2022.

Rydym wedi parhau gyda'r gwaith o gynyddu ac ehangu nifer a mathau o leoliadau maeth yn y sir drwy gydweithio gydag ymgyrch "Maethu Cymru". Lansiwyd "Maethu Cymru" ym mis Medi, sy'n cynnwys tudalen we newydd ar gyfer y Gwasanaeth maethu yn ogystal ag ymgyrch recriwtio cenedlaethol.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

| Prosiect 6dd | Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth a gallu sgiliau uchel; a phlant sydd ag awtistiaeth a dim anabledd dysgu, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Mae profiad y plant yma a'u teuluoedd yn dangos bod lle i wella ein trefniadau asesu presennol; bod bylchau mewn darpariaeth a bod angen help arnynt yn y cyfnod trosglwyddo i wasanaethau eraill megis oedolion ac iechyd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Lansio Cynllun Awtistiaeth i'r sir ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector ac ar draws gwasanaethau'r Cyngor
- Penodi rôl yn y Cyngor ar gyfer gweithio yn y maes gan roi sylw penodol i'r cyfnod trosglwyddo o blentyndod i oedolyn yn y maes
- Adolygu trefniadau mynediad i wasanaeth integredig plant anabl (DERWEN)
- Gwella trefniadau cydweithio, rhannu gwybodaeth a darparu cefnogaeth yn y maes gyda'n partneriaid iechyd a gyda darparwyr arbenigol yn y trydydd sector.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Ar y cyd gyda'n partneriaid rydym wedi mabwysiadau Cynllun Awtistiaeth i Wynedd gan gynnwys sefydlu Bwrdd Partneriaeth i gymryd trosolwg o'r cynllun ynghyd a sicrhau Adnoddau i benodi Cydlynydd Awtistiaeth i arwain ar y cynllun.

Yn 2022 byddwn yn symud ymlaen i godi ymwybyddiaeth a hyfforddi gweithwyr yn y maes awtistiaeth, ynghyd ag ymgysylltu gyda'r trydydd sector i geisio datblygu ystod o ddarpariaethau ataliol.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

# **Blaenoriaeth Gwella 7**
# Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwyso a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.  Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar waith)
- Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol
- Cynllunio'r Gweithlu
- Cyflawni Arbedion
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Cymunedau Glan a Thaclus
- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd

| Prosiect 7a | Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi “Ffordd Gwynedd” ar waith) |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy’n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar gyfer cynorthwyo rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac yn cyflwyno’r sesiwn honno i’r Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod hanner cyntaf 2021, tra’n rhyddhau swydd-ddisgrifiad i arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor fydd yn cadarnhau’r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt.

Byddwn yn sefydlu dulliau o fesur cynnydd y diwylliant a geisir trwy gyfuniad o hunan-asesu ac herio cyson.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth ynglŷn â’r cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth ymysg rheolwyr gwasanaethau tra bo’r cymalau cyffredin i swydd-ddisgrifiadau arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor wedi’u cytuno arnynt a’r gwaith o addasu’r holl swydd-ddisgrifiadau yn parhau.

Bu i bob Adran gynnal hunan-asesiad o’u cynnydd yng nghyswllt diwylliant Ffordd Gwynedd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. Byddwn yn awr, gyda chydweithrediad aelodau o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn dadansoddi’r ymatebion ac yn defnyddio’r casgliadau fel sail i Gynllun Tair Blynedd newydd ar gyfer datblygu’r sefydliad a’r diwylliant yn y Cyngor ymhellach.

**Amcanion Llesiant:**

Mae’r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae’n hanfodol er mwyn gwireddu’r holl amcanion llesiant.

| Prosiect 7b | Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae angen i ni sicrhau bod ein trefniadau gwarchod Iechyd a Diogelwch yn gadarn, a thra bod gennym drefniadau aeddfed o fewn y Cyngor mae gennym bryder bod yna bocedi lle mae yna gyfle i wella trefniadau gweithredol.

Er mwyn ymateb i'r sefyllfa byddwn yn cynnal trafodaeth â phenaethiaid / uwch reolwyr / rheolwyr pob Adran er mwyn deall eu anghenion a chanfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys y sefyllfa.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae amserlen y prosiect hwn wedi llithro oherwydd y pwysau arwyddocaol sydd wedi bod ar Wasanaethau y Cyngor yn sgil y pandemig, nid yn unig y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch canolog, ond hefyd holl Wasanaethau llinell flaen y Cyngor sydd yn greiddiol i'r prosiect.

Wedi dweud hynny, mae sefyllfa, a holl waith y ddwy flynedd diwethaf wedi codi proffil ac amlygu pwysigrwydd y maes hwn mewn ffordd y gellid dadlau na fyddai'r un prosiect yn gallu gobeithio ei wneud. Mae wedi amlygu fod cadw pobl Gwynedd a staff Gwynedd yn ddiogel yn greiddiol i holl waith y Cyngor. Mae hyn yn rhoi sylfaen gref i ffurfioli ar y perthnasau gwaith cryf sydd wedi eu ffurfio ar draws y Cyngor dros y ddwy flynedd diwethaf a chael cynllun prosiect mwy strwythuredig a rhagweithiol mewn lle ar gyfer 2022/23. Mae amlinelliad o'r camau arfaethedig eisoes wedi eu cyflwyno ac mae bid llwyddiannus wedi ei gyflwyno am Swyddog Prosiect i helpu i yrru'r prosiect am y deuddeg mis nesaf.

**Amcanion Llesiant:**

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae’r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio’r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda’r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae’n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â’r sgiliau i gyflawni eu swyddi.

Bydd y gwaith o adnabod bylchau a gweithredu’n rhagweithiol, sydd wedi ei gychwyn gyda’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn cael ei ledaenu i weddill y Cyngor yn ystod 2021. Byddwn hefyd yn ymestyn y nifer o brentisiaid ac hyfforddeion presennol ac hynny ar draws nifer cynyddol o wasanaethau ar draws y Cyngor.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae’r Tîm Talent a Phrentisiaethau wedi ei sefydlu yn sgil y gefnogaeth ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cabinet ym Mai 2021. Mae’r Tîm wedi cefnogi rheolwyr i ddatblygu a chynnal cyfres o Ganolfannau Recriwtio rhithiol o ansawdd yn ystod y flwyddyn ac wedi penodi 13 Prentis a 7 Hyfforddai Proffesiynol newydd i feysydd adnabuwyd fel blaenoriaeth ar gyfer cynllunio’r gweithlu i’r dyfodol.

Byddwn yn penodi 20 prentis ychwanegol yn y flwyddyn i ddod yn ogystal a 7 hyfforddai proffesiynol arall, eto mewn meysydd ple bo bylchau posib wedi amlygu’i hunain. Byddwn hefyd yn datblygu perthynas gyda sefydliadau a busnesau lleol i ddatblygu swyddi prentisiaid ar y cyd tra’n datblygu cynlluniau “Adnabod a Meithrin Talent” ar gyfer staff mewnol a chynnig Cynllun Profiad Gwaith o’r newydd.

Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn sefydlu Grŵp Prosiect Cynllunio’r Gweithlu, fydd yn uno holl ymdrechion unigol gwasanaethau penodol ar draws y Cyngor, i fynd i’r afael a’r maes hwn a wynebu’r her anferthol o sicrhau arbenigeddau a pharhad gwasanaeth dros y blynyddoedd i ddod.

**Amcanion Llesiant:**

Mae’r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae’n hanfodol er mwyn gwireddu’r holl amcanion llesiant.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol da, sydd eisoes wedi adnabod llawer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu ein bod wedi cynaeafu cyfran helaeth o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael, ond mae angen parhau i fonitro cynlluniau cymeradwy holl adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y swmp o'r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £30m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai sydd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae gallu'r Cyngor i wireddu arbedion dan adolygiad parhaus. Yn sgil setliad ariannol gwell ar gyfer 2022/23 nag a welwyd ers sawl blwyddyn, bu'n bosib dileu dau gynllun arbed gwerth £489,750 o'r rhaglen yn llwyr, a symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol. Canlyniad hyn yw mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, yn hytrach nag oddeutu £2.4m oedd wedi ei raglennu'n wreiddiol.

**Amcanion Llesiant:**

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaethau yn cyffwrdd ar bob trigolyn drwy'r sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail ddefnyddio, ail bwrpasu a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol.

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau ymateb amserol ac ystyrlon mewn lle a byddwn yn:

- adolygu trefniadau cyfredol o gyfathrebu ac ymateb i ymholiad
- amlygu ble mae diffygion/llefydd gwella
- sefydlu grŵp tasg gyda chynrychiolaeth o swyddogion ynghyd â Galw Gwynedd
- adnabod mesurau er monitro.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Grŵp Tasg, gyda chynrychiolaeth o swyddogion ynghyd â Galw Gwynedd fe godwyd pryderon ynglŷn â trefniadau ymateb i ymholiadau cwsmer.

Felly, er mwyn sicrhau bod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw yn effeithiol ac amserol rydym yn y broses o ddatblygu Prosiect Mapio Gwasanaethau. Bydd y prosiect yma yn gosod asedau'r adran yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor. Yr asedau cyntaf i'w gosod ar y map rhyngweithiol fydd ein lampau stryd gyda'r bwriad o ehangu i ystod eang o asedau/gwasanaethau eraill yn fuan. Rydym hefyd wrthi'n gosod biniau stryd ar fap rhyngweithiol ble bydd modd i drigolion weld amlder casglu a statws y biniau. Byddwn yn cynnal 'peilot' gyda biniau Caernarfon o fewn y misoedd nesaf. Rydym yn y broses o ddiweddaru lleoliadau'r biniau ac yn edrych ar osod 4 bin 'clyfar' yn ganol y dref.

Budd i'r Cwsmer :

- Dull rhwydd o adnabod a dewis ased penodol problemus mewn haen ar fap
- Gallu i glicio ar yr ased penodol os am adrodd problem
- Gweld y drefnlen cynnal sy'n gysylltiedig â'r ased dan sylw
- Gweld os yw'r broblem eisoes wedi ei hadrodd - â'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater
- Gallu penderfynu os oes wir angen parhau i adrodd am y broblem

Rydym hefyd wrthi'n cynnal adolygiad Ffordd Gwynedd o fewn maes casglu ble bydd materion megis methu casgliadau yn fater pwysig ac yn un sy'n cael sylw fel rhan o'r adolygiad. Byddwn yn mapio allan y prosesau cyfredol o fewn trefn Galw Gwynedd er sicrhau bod y prosesau yn adlewyrchu trefniadau gwaith heddiw. Mae'n fater hanfodol i drigolion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth rydym yn derbyn adborth er statws yr ymholiad o fewn amser rhesymol. Bydd hyn yn flaenoriaeth yr adolygiad.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir e.e.

- Strydoedd glan a deniadol
- Ffyrdd a llwybrau cerdded mewn cyflwr da
- Timau gwaith lleol er mwyn cyflawni'r gwaith
- Trafodaeth am yr egwyddorion a chamau gweithredu drwy ymgysylltu â'r gymuned a'r staff
- Llunio cynllun gweithredu, darganfod dyheadau a rhanddeiliaid posib ar lefel cymunedol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu 'Ardal Ni', casglwyd sylwadau am yr hyn sy'n bwysig i drigolion pob ardal adfywio yn ystod Medi/Hydref 2021. Roedd rhan helaeth o'r faterion i'r adran yn ymwneud â blerwch a diffyg buddsoddiad i sicrhau cymunedau glan a thaclus.

Gwnaethom ddefnyddio'r sylwadau yma fel sail i ein adroddiad Cabinet (31/11/21) ble roeddem yn llwyddiannus yn derbyn cefnogaeth unfrydol ar gyfer sefydlu 'Timau Cymunedau Glan a Thaclus' (sydd wedi enwi yn 'Tîm Tacluso Ardal Ni').

Cynhaliwyd lansiad y Tîm cyntaf yn Arfon yn ystod mis Mawrth 2022, gwelir y fideo atodol sy'n amlinellu egwyddorion y 'Tîm Tacluso'

Bydd 4 Tîm ychwanegol yn cael eu sefydlu o fewn y misoedd nesaf gyda'i gwaith yn seiliedig ar lais lleol.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Yn sgil argyfwng Covid-19, mae wedi dod yn fwy amlwg pa mor bwysig yw rôl ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wrth warchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd wrth gynghori a chefnogi busnesau'r sir. Mae hefyd disgwyliad ein bod yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth yn sgil honiadau o dorri'r rheoliadau coronafeirws.

Mae'r profiadau yn ystod y cyfnod argyfwng wedi amlygu diffyg gwydnwch yng Ngwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn sgil blynyddoedd o doriadau. Credir fod angen datrysiad byr-dymor yn ogystal â datrysiad hir-dymor er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol i gefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Bwriedir cynnal adolygiad llawn o strwythurau Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod 2021/22 er mwyn asesu'r anghenion yn llawn ac ystyried y capasiti staff fydd ei angen ar gyfer yr hirdymor (gan nodi ei bod yn anodd rhagweld pa bryd fydd yr argyfwng presennol yn dod i ben) er mwyn cefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Mae adolygiad wedi ei gynnal yn 2021/22 ac mae hyn wedi arwain at gynlluniau i gyflwyno swyddi Arweinyddion Tîm o fewn capasiti staff cyfredol, ac mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus gyda bid parhaol ar gyfer £16,860 i gyllido hynny.

Yn ogystal â hyn mae'r Adran yn ceisio cynllunio ar gyfer dilyniant a gwydnwch yn y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd ac wedi bod yn llwyddiannus gyda bid "un tro" o £261,720 i gyllido swyddi ar gyfer 3 hyfforddai Gwarchod y Cyhoedd am gyfnod o 3 mlynedd. Bydd yr Adran yn gweithredu ar recriwtio yn ystod 2022/23.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

# **Blaenoriaeth Gwella 8**
# Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Ddatgan Argyfwng Hinsawdd
- Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon
- Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon; a
- Galw ar Lywodraethau Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.

Dim ond un prosiect sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma sef:

- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng newid hinsawdd rydym wedi bod yn ceisio llunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd, ond yn anffodus bu i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith hwnnw.

Mae bwriad sicrhau bod gennym ddogfen gychwynnol yn amlygu'r hyn y mae'r adrannau yn bwriadu ei gyflawni er mwyn i honno fod yn sail i weithdy aelodau i'w gynnal drwy ddulliau rhithwir yn gynnar yn ystod 2021, fel bod hynny yn ei dro yn arwain at fabwysiadu Cynllun Gweithredu cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Unwaith y byddwn wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu byddwn yn ei gyhoeddi ac yn dechrau gweithredu ar y cynlluniau fydd ynddo.

**Pa gynnydd wnaed yn 2021/22?**

Yn dilyn trafodaethau mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Bwrdd Newid Hinsawdd fe ehangwyd aelodaeth y Bwrdd fis Ionawr, gyda'r Pencampwr Bioamrywiaeth – Cyng. Angela Russell – a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau – Cyng. Mike Stevens – yn ymuno â'r Bwrdd.

Cafodd fersiwn drafft o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ei drafod gan y Bwrdd Newid Hinsawdd, ac yna fe gyflwynwyd y cynllun i gyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth. Cafodd y cynllun ei dderbyn ac fe ddaeth yn weithredol yn sgil hyn. Cafwyd trafodaeth bellach ar y cynllun mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10 Mawrth, gyda'r pwyllgor yn ei gefnogi.

Mae'r cynllun i'w weld ar wefan y Cyngor, ac mae gwybodaeth amdano wedi ei rannu drwy'r sianelau cyhoeddusrwydd arferol, megis ein cyfryngau cymdeithasol.

Dylid cofio bod y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cynnwys parhad o rai prosiectau sydd eisoes ar y gweill ond rydym hefyd yn paratoi ar gyfer cynllunio prosiectau newydd. Mae'r camau nesaf ar gyfer gweithredu'r cynllun yn cynnwys – prisio costau ariannol a gwerth arbedion carbon rhai prosiectau newydd; trefnu ymgyrch ymgysylltu â phartneriaid a'r gymuned; rhannu gwybodaeth gyhoeddus am y cynllun.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

# Rhan 2
## Adroddiadau Perfformiad Gwaith Adrannol

# Adran Addysg

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mewn blwyddyn arferol, byddai'r adroddiad hwn yn gyfrwng i gyflwyno dadansoddiad cryno o safonau ysgolion Gwynedd yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 o ran y sector cynradd, a Chyfnod Allweddol 3 a 4 o ran yr uwchradd. Byddem wedi adrodd ar y dangosydd newydd sef y sgôr Capio 9 sydd yn cael ei gyfrifo ar gyfanswm maint naw TGAU (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) gorau pob dysgwr. Fodd bynnag, yn sgil parhad pandemig Covid-19, nid oes dadansoddiad ar gael o safonau ar draws y Cyfnodau Allweddol, gan gynnwys Cyfnod Allweddol 4 gan na gynhaliwyd arholiadau allanol TGAU a Safon Uwch yn unol â'r drefn arferol yn Haf 2021.

Yn ychwanegol, dim ond ers Ionawr 2022 y mae ESTYN wedi ail-gychwyn arolygu ein hysgolion yn sgil y pandemig, serch hynny, bellach nid oes yr un ysgol yng Ngwynedd mewn unrhyw gategori dilyniant gan Estyn. Bu 2021-22 yn flwyddyn o ail-gydio mewn addysg wyneb i wyneb gyda phwyslais amlwg ar les a hapusrwydd y plant a'r bobl ifanc o dan yr amgylchiadau. Er hynny, gwelwyd effaith y pandemig o hyd ar addysg ein plant a phobl ifanc, gyda nifer yn gorfod trosglwyddo i ddysgu o bell ar gyfnodau er sicrhau parhad eu haddysg yn sgil yr angen i hunan-ynysu, neu aros gartref yn sgil lefelau uchel yr haint.

Mae'r Adran Addysg yn cydnabod yr effaith sylweddol y mae'r pandemig hwn wedi ei gael ar blant a phobl ifanc ac yn sicrhau pob cefnogaeth iddynt. Wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol roedd pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles. Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020, mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu 'Rhaglen Cyflymu'r Dysgu' gydag arian gan Lywodraeth Cymru, er mwyn ymateb i effaith y Cyfnod Clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. Mae'r Adran Addysg ar y cyd gyda GwE (y Gwasanaeth Gwella Ysgolion) yn cefnogi'r ysgolion i weithredu'r rhaglen hon. Mae'r Adran Addysg hefyd yn rhoi sylw penodol i effaith y pandemig ar les a chyrhaeddiad plant yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd â'i effaith ar les, cyrhaeddiad a'r rhagolygon ar gyfer pobl ifanc ôl-16.

Yn ystod 2021-22 mae'r Adran Addysg wedi parhau i gefnogi ysgolion unigol pan fo achosion o Covid-19 yn codi, gan ddarparu arweiniad a chyngor priodol, gan ddilyn arweiniad y gwasanaeth profi, ôl-rhain a diogelu, tra ar yr un pryd sicrhau parhad addysg drwy ddarpariaeth o bell i swigod o ddysgwyr fyddai wedi gorfod aros adref yn hunan-ynysu am gyfnod. Yn ystod y flwyddyn o newid cyson a parhaus, felly, bu i'r Adran Addysg roi bri mawr ar gyfathrebu gyda rhanddeiliaid, gan geisio sicrhau arweiniad, canllawiau a phenderfyniadau amserol i alluogi ysgolion weithredu yn y modd mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

Bu i'r Adran Addysg weithio mewn partneriaeth agos gyda'r penaethiaid, GwE, adrannau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn gallu darparu'r arweiniad

a'r gefnogaeth orau i'r ysgolion o dan amgylchiadau anodd a hynod heriol iddynt.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**



Er mwyn hwyluso addysg o bell ers dechrau'r pandemig bu'r Adran Addysg yn rhagweithiol a blaenllaw iawn ym maes TGCh, gan sicrhau 1,200 o ddyfeisiadau chromebook a 175 o ddyfeisiadau MiFi i deuluoedd heb fynediad at dechnoleg a/neu gyswllt i'r we yn ystod y Cyfnod Clo cyntaf. Gwnaeth hyn wahaniaeth mawr i wella mynediad at addysg a phrofiadau addysgol plant dros y cyfnod, er hynny, roedd rhai heriau o hyd o safbwynt nifer annigonol o ddyfeisiadau i deuluoedd mawr, gan arwain at rai plant yn gorfod rhannu dyfeisiadau, a cholli allan ar wersi byw os oedd teuluoedd yn gorfod blaenoriaethu gwersi un plentyn ar draul y llall. Bu'r Adran Addysg hefyd yn flaenllaw wrth lunio polisïau a gweithdrefnau er mwyn caniatáu ysgolion Gwynedd i fod yn dysgu o bell drwy dechnoleg dysgu byw. Bu i bolisi blaengar Gwynedd maes o law gael ei fabwysiadu gan nifer o awdurdodau eraill, a bu'r adran yn rhagweithiol yn hyrwyddo ac annog sesiynau dysgu byw gyda'n hysgolion, gan weld manteision amlwg hynny i'r dysgwr. Dyma gameo o Adroddiad Thematig ESTYN (Ionawr 2021) ar waith yr Adran i gefnogi ysgolion ac UCDau:

*Ar 9 Tachwedd 2021, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol Addysg. Wrth fabwysiadu'r strategaeth, cytunwyd i gyd-ariannu hyd at hanner costau adnewyddu dyfeisiadau ar y cyd gyda'r ysgolion, ynghyd â chytuno i ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth dechnegol gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod o Ebrill 2022 ymlaen.*

Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o ipads wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o Chromebooks wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

**Y Gymraeg**

Yn ystod y Cyfnod Clo, bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i hwyrddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Yn wir, staff y Canolfannau Iaith oedd y cyntaf i beilota cynnal sesiynau dysgu byw yn ystod Tymor yr Haf 2020, a hynny er mwyn cynnal iaith lafar hwyrddyfodiaid a fu'n mynychu'r Canolfannau Iaith yn ystod y flwyddyn addysgol 2019/20. Roedd staff y Canolfannau Iaith a'r ysgolion yn cydnabod mai dim ond drwy'r sesiynau dysgu byw yma roedd mwyafrif o'r dysgwyr a oedd yn hwyrddyfodiaid yn cael mynediad i'r Gymraeg a chyfle i ymarfer eu sgiliau siarad a gwrando. I ategu'r sesiynau dysgu byw, roedd staff y Canolfannau Iaith hefyd wedi sefydlu Google Classrooms i'r dysgwyr ar Hwb i roi cyfleoedd pellach i'r hwyrddyfodiaid ymarfer a chaffael y Gymraeg.

Yn Nhymor yr Haf 2021, gwelwyd y Canolfannau Iaith yn ail-agor am y tro cyntaf, gan allu croesawu dysgwyr i'r Canolfannau i dderbyn darpariaeth trochi dwys unwaith eto. Er hynny, bu i staff y Canolfannau Iaith barhau i wneud defnydd helaeth o'r dechnoleg a ddatblygwyd mewn ymateb i'r pandemig, gan allu cynnal sesiynau dysgu o bell i ddysgwyr a oedd yn gorfod hunan-ynysu am gyfnodau, yn ogystal a gallu cynnig hwb ychwanegol gyda'r Gymraeg i ddysgwyr yn yr ysgolion drwy sesiynau dysgu o bell.

At hyn, ar 6 Gorffennaf 2021, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd fabwysiadu gweledigaeth newydd ar gyfer addysg drochi yng Ngwynedd. Drwy gyfrwng y weledigaeth yma, byddwn yn buddsoddi £1.1m o Grant Cyfalaf y Gymraeg, Llywodraeth Cymru i sefydlu dwy Ganolfan Iaith newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r amgylchedd dysgu yng Nghanolfan Iaith Porthmadog. Bydd y 3 safle yma yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 5-9, gyda 3 safle arall yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4.



Er mwyn ymateb i bryderon a adnabuwyd o ganlyniad i bandemig Covid 19 a gofynion deilliannau'r CSGA, sicrhawyd defnydd effeithiol o Grant y Gymraeg i dargedu sgiliau iaith y gweithlu a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg disgyblion. Yn ystod 2021/22, cynlluniwyd a chwblhawyd 13 Cynllun Clwstwr y Gymraeg o dan arweiniad y Cydlynydd Siarter Iaith a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd, oedd yn cynnwys holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir. Roedd hi'n galonogol gweld bod pob ysgol wedi manteisio ar y cyfleoedd a baratowyd a'r athrawon yn nodi bod y disgyblion wedi magu hyder yn eu sgiliau llafaredd Cymraeg o ganlyniad i'r gweithgareddau clwstwr llwyddiannus. Bydd ffrwyth llafur y gwaith hwn yn cael ei raeadru ar draws y sir ac elfennau ohono yn cael eu harddangos mewn ffilm fel rhan o ddathliadau cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Mhorthmadog ym mis Mehefin.

Fel rhan o'r cynlluniau i ymateb i ddata Hunan Asesiad Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg, manteisiodd 12 athro ar y cyfle i gael gwersi Cymraeg trwy gyd-weithio gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin sy'n rhan o Ysgol Iaith , Diwylliant a'r Celfyddydau Prifysgol Bangor yn ystod 2021/22. Hefyd, llwyddwyd i gefnogi athrawon a chymhorthydd Ysgol Ein Harglwyddes ym Mangor i wella a gloywi eu sgiliau iaith Gymraeg mewn cydweithrediad gyda Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor.

Mae'r Cydlynydd Siarter Iaith a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd wedi bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion i adnabod anghenion a chynnig cefnogaeth i athrawon, cymorthyddion a grwpiau o ddysgwyr drwy gynnig cyfres o sesiynau hyfforddiant a sesiynau trafod. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda thrawstoriad o ddysgwyr yn yr uwchradd er mwyn casglu barn a syniadau disgyblion fydd yn cael eu hymgorffori yn y broses o sefydlu Fforymau Iaith ym mhob ysgol uwchradd o Fedi 2022 ymlaen.

Mae dros 3,600 o blant y sir wedi cwblhau'r Gwe Iaith ym Medi 2021 i nodi eu defnydd a'u hagwedd tuag at y Gymraeg yn y cyfnodau

ffurfiol ac anffurfiol yn dilyn cyfnod Covid 19. Byddwn yn ail ymweld â'r holiadur yn nhymor yr haf 2022 i gymharu'r canlyniadau, mesur effaith ein cynlluniau gweithredu, ac adnabod meysydd datblygu i'w blaenoriaethu yn 2022/23.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a CH)**

Yn sgil ail-agor ysgolion mae'r Gwasanaeth ADY a Ch wedi dychwelyd i gefnogi darpariaeth i ddysgwyr gydag ADY a Ch yn yr ysgol, ynghyd â sicrhau cefnogaeth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd sydd wedi ei chael hi'n anodd dychwelyd i'r ysgol ac addysg wyneb yn wyneb yn sgil y pandemig, a'r cyfnod estynedig o ddysgu o bell. Mae'r pwyslais o hyd ar gefnogi llesiant, ac mae'r adnoddau cyffredinol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig yn parhau ar gael, er enghraifft:

- Adnoddau ar gyfer delio gyda trawsnewid, pum ffordd at les ar y wefan (www.adyach.cymru). Bu defnydd o'r wefan yn uchel iawn
- Hyfforddiant Tyfu Drwy'r Tymhorau (delio gyda cholled a galar) ac Ymwybyddiaeth Ofalgar
- Cymorthyddion ELSA (Emotional Literacy Support Assistant) a oedd yn cefnogi disgyblion bregus yn ystod y cyfnod
- Sesiynau llesiant ar gyfer Penaethiaid
- Ac yn fwyaf newydd, adnoddau ymateb i'r cyfnod o ansicrwydd ar gyfer blynyddoedd 11 –13.
-

Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb. Gall anawsterau presenoli fod yn sgil ystod o ffactorau e.e. anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod mae elfennau o rôl y Swyddogion Lles wedi newid yn anorfod gyda threfniadau erlyn arferol rhieni ar saib. Drwy'r cyfnod Covid-19 maent wedi cefnogi'r ysgolion trwy roi cymorth i ddysgwyr a'u teuluoedd ble roeddynt yn cael anawsterau i fynychu'r ysgol am nifer o resymau yn sgil Covid-19. Mae'r anawsterau hyn wedi cynnwys pryder am y firws a'r trefniadau newydd, diffyg cymhelliant oherwydd y sefyllfa, ynghyd ag anawsterau hanesyddol yn parhau ac yn dwysáu.

**Arlwyo a Glanhau**

Bu i staff y gwasanaeth arlwyo a glanhau ymateb yn gadarnhaol i'r galw amrywiol fu arnynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar ddechrau'r Cyfnod Clo bu'r gwasanaeth arlwyo yn darparu pecynnau bwyd i ddysgwyr oedd yn gymwys am ginio am ddim, ac o 20 Ebrill hyd at Medi 2020, trefnwyd taliadau uniongyrchol i ddysgwyr oedd yn gymwys am ginio am ddim, gyda 2,249 o blant yn derbyn taliad uniongyrchol cinio am ddim ar 14 Awst 2020. Bu i'r taliadau uniongyrchol hyn barhau drwy gyfnod gwyliau ysgol hyd at Pasg 2021. Yn sgil ysgolion yn ail-agor, trefnwyd taliadau uniongyrchol i blant cymwys oedd yn rhan o swigen mewn ysgol ac yn gorfod hunan-ynysu, gyda gweddill y plant cymwys yn derbyn cinio am ddim yn yr ysgol. At hyn, bu i 230 o staff arlwyo gynorthwyo gyda glanhau ysgolion yn ystod y dydd o 29 Mehefin 2020 hyd at 17 Gorffennaf 2020. Ers Medi 2022, mae staff y gwasanaeth arlwyo a glanhau ysgolion wedi dychwelyd i'w trefniadau gwaith arferol cyn y pandemig, ar wahân i achosion o alldoriad o'r firws mewn ysgol fyddai'n arwain at yr angen am lanhau dwys. Er bod heriau staffio sylweddol gan y gwasanaeth, mae'r gwasanaeth arlwyo wedi llwyddo i ddarparu cinio ysgol arferol bob dydd i holl ysgolion Gwynedd drwy gydol y 2 flynedd diwethaf.



Yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd cinio ysgol am ddim i holl blant oedran cynradd yng Nghymru, gan gychwyn gyda phlant y Cyfnod Sylfaen. Mae gwaith

sgopio cychwynnol wedi ei gyflawni gan y gwasanaeth er mwyn sicrhau y bydd pob un o ysgolion cynradd Gwynedd mewn sefyllfa i allu darparu cinio ysgol am ddim i bob plentyn cynradd pan fydd y disgwyliad i ddarparu yn dod i rym yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn ogystal â sicrhau bod yr isadeiledd yn yr ysgolion yn ei le ar gyfer ymdopi â niferoedd uwch yn cymryd cinio ysgol, rydym yn cynllunio ar gyfer costau refeniw uwch o bosib i'r gwasanaeth oherwydd:

- yr angen i recriwtio staff ychwanegol. (Mae recriwtio yn heriol ar hyn o bryd.)
- cynnydd posib yn oriau staff presennol
- y posibilrwydd y bydd angen ychwanegu rôl is-gogyddion i'r ysgolion mwyaf
- costau uwch bwyd – mae prisiau bwyd wedi codi yn ddiweddar
- yr angen i gynyddu capasiti staffio'r Tîm Arlwyo mewnol. (Bydd galw am fwy o staff allan yn y maes.)
- gweithrediad ein cytundebau cyflenwi bwyd - a fydd y cyflenwyr presennol yn gallu ymdopi efo'r gofyn ychwanegol am fwyd? Rydym eisoes wedi trefnu y bydd danfoniadau i'r ysgolion yn digwydd yn amlach.

**Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Yn ogystal â'r gwaith i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella, mae gwaith 'dydd i ddydd' yr Adran hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor drwy ddarparu'r gefnogaeth amserol i alluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd fel y maent eisiau ei fyw.


**Covid-19**

Mae'r argyfwng Covid-19 a'i effaith hir dymor wedi parhau i gyflwyno heriau sylweddol i'r Adran hon yn ystod 2021/22. Gwelwyd yn ystod y flwyddyn fod gwasanaethau wedi ail-agor a chynnig mwy o gyfleoedd wyneb i wyneb. Fodd bynnag, bu rhaid oedi ail-agor rhai gwasanaethau oherwydd bod amgylchiadau anodd yn parhau.

Bu rhai o'n canolfannau dydd yn benodol ar gau am gyfnod, ac mae rhai canolfannau yn parhau ar gau, ond mae ein staff wedi parhau i wneud eu gorau i ddarparu cefnogaeth yn y gymuned lle'n bosibl. Mae'r Adran wedi llwyddo i barhau i ddarparu'r mwyafrif o'i wasanaethau (mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer mewn nifer o sefyllfaoedd) ac wedi ymdrechu'n gref i alluogi a chefnogi ein darparwyr gofal annibynnol i allu gwneud yr un peth.

Bellach mae cyfyngiadau ar ymweliadau cartrefi preswyl a nyrsio wedi llacio ond mae ein cartrefi preswyl yn parhau i fynd drwy gyfnodau anodd o ran lefelau Covid-19 ac yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw preswylwyr a staff yn ddiogel, tra yn trio dychwelyd i gymaint o normalrwydd a sy'n bosib.

Mae'r Adran wedi parhau i ddarparu PPE i staff ac i ofalwyr ar draws y sector. Mae'r staff rheng flaen a thrigolion sy'n derbyn cefnogaeth wedi parhau efo'r broses profi yn rheolaidd. Law yn llaw ag ymdopi â'r gofynion profi, dylid cydnabod yr ymdrech arwrol sydd wedi bod ar draws y maes wrth frechu staff allweddol a'n trigolion bregus gyda'r 'booster'.




Canran o breswylwyr Cartrefi Preswyl y Cyngor sydd wedi derbyn eu brechiadau Covid-19 yn cynnwys y 'booster'

Mae hyblygrwydd staff yr Adran i ymgymryd â chyfrifoldebau a dyletswyddau newydd wedi parhau yn ystod 2021/22 ac wedi bod yn gwbl allweddol i lwyddiant ein hymateb i'r argyfwng.

Her bellach i ni rŵan wrth gwrs yw pwyso a mesur ein opsiynau wrth edrych ar siapio gwasanaethau i'r dyfodol. Mae'r gwaith yma wedi cychwyn drwy gyfrannu at yr Asesiad Anghenion Poblogaeth ar gyfer Gogledd Cymru sydd wedi ei gwblhau yn ystod 2021/22.

Un elfen bositif yn sgîl argyfwng Covid-19 yw'r ffaith ei fod wedi amlygu rôl allweddol staff gofal. Mae'n braf gweld hynny'n cael ei gydnabod drwy daliadau bonws i'r sector, yn ogystal â chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff y sector gofal. Bydd yn hollbwysig i ni sicrhau fod y gydnabyddiaeth yma o statws y swyddi o fewn y sector yn parhau i'r dyfodol.

**Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd**

Mae'r gwaith ar y Rhaglen Drawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol wedi parhau yn


ystod 2021/22. Bu'r pwyslais ar integreiddio'r diwylliant hanfodol o fewn ein 5 Tîm Lleol i sicrhau eu bod yn cadw'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn wrth wraidd eu gofal. Mae'r timau hyn, sy'n cynnwys staff iechyd, gofal, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yn cael cyswllt rheolaidd ar lefel is-ardaloedd; gan rannu gwybodaeth ac adnoddau, cydweithio i ddeall y sefyllfa'n lleol, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.

Mae'r rhaglen uchod yn ystod 2021/22 wedi cynnwys prosiectau sy'n hwyluso'r drefn i bobl adael yr ysbyty, a phrosiect rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau. Dros y cyfnod nesaf, bydd prosiect i beilota gwasanaeth 'Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth' ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fel bod pob ymholiad iechyd neu ofal yn cyrraedd man canolog ym mhob ardal, gan symleiddio trefniadau i drigolion Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 sefydlwyd Gwasanaeth Arbenigol Symud a Thrin i gefnogi'r Timau Adnoddau Cymunedol lleol. Mae therapyddion galwedigaethol a nyrs gofrestredig yn rhan o'r gwasanaeth, ac maent wedi cychwyn darparu arbenigedd symud a thrin yn yr ardaloedd lleol, gan leihau'r amser bydd oedolion yn disgwyl am y mewnbwn arbenigol yma.

Mae'r Gwasanaeth Gofal Cartref yng Ngwynedd yn symud tuag at fodel sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol, a chomisiynu ar sail canlyniadau i unigolion a gwerth cymdeithasol. Mae'r gwaith ar y prosiect yma wedi datblygu yn ystod 2021/22, ac mae'r broses tendro ar gyfer symud i'r drefn is-ardaloedd yn agor yn Ebrill 2022. Bydd contractau newydd yn cael eu gwobrwyo yn ystod haf 2022.

Ein prif fesur fel gwasanaeth bellach yw a ydym wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi gennym. Dim ond 3% (15 unigolyn) o unigolion adroddodd nad oeddem wedi cyfarch beth oedd yn bwysig iddyn nhw yn ystod y flwyddyn (lawr o 24 unigolyn yn 2020/21).




Er bod gwelliant ers 2020/21, un o'r prif rhesymau oedd yn amlygu eu hunain oedd bod nifer o bobl wedi colli'r hyder i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn bydd prosiect gwydnwch cymunedol yn cychwyn yn ystod 2022/23 fydd yn cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn cyfleoedd yn eu cymunedau lleol.

Rheswm arall sydd wedi cyfrannu at fethu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion ydi rhwystrau darpariaeth gofal cartref a phreswyl, a bod cefnogaeth gofal dydd a gofal ysbaid wedi dod i ben dros dro oherwydd risgiau Covid. Yn ogystal â'r prosiect gofal cartref, rydym yn cynllunio i ail fodelu'r gwasanaethau gofal dydd a gofal ysbaid. Mae gwasanaethau gofal dydd yn ail ddechrau yn raddol, ac rydym yn datblygu unedau cefnogaeth dydd newydd yng nghartrefi Plas Y Don, Pwllheli a Plas Ogwen, Bethesda. Mae cydweithio yn mynd ymlaen hefyd gyda'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu a'r trydydd sector er mwyn datblygu cyfleoedd newydd a darparu gwasanaethau i oedolion mewn ffordd fwy effeithiol yn eu cymunedau lleol.

Roedd cyfnodau yn ystod 2021/22 lle gwelwyd gostyngiad yn y rhestrau aros am ofal. Serch hynny, mae'r niferoedd wedi parhau i gynyddu dros y misoedd diwethaf

i lefel na welwyd o'r blaen. Mae nifer o ddarparwyr gofal cartref yn rhoi eu pecynnau i gyd yn nôl mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i broblemau Covid-19, staff yn gadael, a'r her recriwtio. Y gobaith yw bydd y Prosiect Gofal Cartref yn dod i'r afael â'r broblem yn ystod 2022/23.

Mae trefnu gofal mewn lleoliadau preswyl/nyrsio a dementia arbenigol wedi dod yn rhwystr yn ystod 2021/22. Mae'r nifer o ddarparwyr sydd yn cynnig y math yma o ofal yng Ngwynedd wedi lleihau. Mae rhwystrau wedi codi yn ystod 2021/22 wrth drafod ein ffioedd gyda rhai darparwyr sydd yn gwrthod ffioedd safonol y Cyngor ac yn hawlio ffioedd sylweddol uwch. Gan fod opsiynau yn brin o ran darparwyr, mae dewis anodd angen ei wneud rhwng comisiynu lleoliadau ar gost sylweddol sydd yn risg ariannol i'r Adran ac i'r Cyngor, neu beidio comisiynu gan y darparwyr, sydd yn cynyddu'r risgiau i'r unigolyn. Mae gwaith yn cael ei gynnal i geisio datrys y rhwystr ac mae'r gwaith o edrych ar ddatblygu darpariaeth nyrsio yn fewnol (gan gynnwys ar safle Penrhos) yn mynd yn ei flaen.

**Iechyd Meddwl**

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn wasanaeth integredig ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn arwain y gwasanaeth hwn, gyda'n gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr y Bwrdd Iechyd wedi eu lleoli mewn timau amlddisgyblaeth yn Uned Hergest ac Ysbyty Alltwen.

Mae'r timau iechyd meddwl wedi parhau i gefnogi unigolion yn rhithiol ac wyneb i wyneb, boed hynny yn y gymuned neu drwy ein canolfannau ICAN. Mae ymweliadau wyneb i wyneb wedi eu hadfer yn ystod 2021/22, a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl. Wedi dweud hynny, rydym wedi gweld fod cyswllt rhithiol wedi gweithio'n dda i nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth ifanc yn enwedig, ac wedi galluogi rhai unigolion i fynychu grwpiau ar draws y Sir, lle byddai teithio wedi bod yn rwystr yn flaenorol.

Nifer o gyfeiriadau Iechyd Meddwl y mis ar gyfartaledd i'r Tîm Amlddisgyblaethol




Mae cynllun ICAN wedi ei ddatblygu gan y Bwrdd Iechyd, ond ar y cyd gyda'r awdurdodau lleol. Nod datblygu hybiau ICAN ar draws y rhanbarth yw gwella argaeledd ac ymwybyddiaeth cymorth iechyd meddwl, a chreu cysylltiad gyda'r trydydd sector a'r gwasanaethau cymorth a llesiant holistig eraill yn y gymuned. Y bwriad yw cefnogi unigolion gydag anghenion iechyd meddwl is a'u cynorthwyo i gynnal adferiad. Mae hybiau wedi agor ym Mhwllheli, Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon, gyda lleoliadau lloeren ar draws Gwynedd hefyd.

Mae'n bryder nad yw pawb yn cael apwyntiad wyneb i wyneb gyda'u meddyg teulu. Mae ymchwil yn dangos fod unigolion yn llawer mwy tebygol o fynd at feddyg teulu hefo problem gorfforol yn y lle cyntaf, cyn codi problemau iechyd meddwl fel mater eilradd ar y ffordd allan. Mae'n anodd meintioli'r cynnydd tebygol fydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn sgîl y pandemig, ond mae'n bur debyg y byddwn yn gweld yr effaith am flynyddoedd i ddod, a bydd yn flaenoriaeth i adeiladu ac addasu'r gwasanaethau iechyd meddwl i ymdopi efo'r galw.

**Anableddau Dysgu**

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r gwelliannau yn y maes Anableddau Dysgu, gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol sy'n cyfarch yr hyn sy'n bwysig i unigolion ac yn lleihau yr angen am Wasanaethau craidd lle'n bosib.

Mae mesurydd perfformiad y gwasanaeth yn dangos fod 98% o'n hachosion wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt unai yn llawn neu yn rhannol yn ystod 2021/22. Yn yr achosion hynny lle bu i ni gyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion yn rhannol yn unig, mae hyn yn aml oherwydd sefyllfaoedd tu allan i reolaeth y gwasanaeth (er enghraifft dim mynediad at wasanaethau iechyd). Byddwn yn parhau i gydweithio efo'n cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon i unigolion gydag anableddau dysgu.

Rydym wedi llwyddo i barhau gyda sesiynau i hybu lles unigolion - yn gorfforol, emosiynol a chymdeithasol, drwy ddatblygu cyfleoedd yn ein hybiau ar draws y sir yn ogystal â sesiynau rhithiol drwy'r Tîm Llwybrau Llesiant. Mae'r rhaglen o weithgareddau yn cael ei arwain gan unigolion gydag anableddau, a sesiynau ymgysylltu er mwyn casglu syniadau newydd. Erbyn hyn, mae gwaith yn mynd ymlaen i ddatblygu elfennau o'r gwasanaeth fel bod darparwyr allanol yn arwain ar elfennau penodol o'r gwaith. Mae hyn yn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth Llwybrau Llesiant i'r dyfodol. Mae dros 150 o unigolion gydag Anableddau Dysgu wedi derbyn gwasanaeth neu gefnogaeth ataliol gan y tîm, sydd yn osgoi dibyniaeth ar wasanaethau craidd. Gellir gweld enghreifftiau ar safle Facebook/Instagram Llwybrau Llesiant.

Llwyddwyd i barhau i ddarparu cyfleoedd dydd ac ysbaid ac ymestyn y gwasanaeth allan i fwy o unigolion wrth i gyfyngiadau Covid-19 lacio. Mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi bod yn ymestyn y defnydd o'n unedau ysbaid (Sŵn Y Môr ym Mhwllheli a Brookfield ym Mangor), er mwyn darparu gwasanaeth ysbaid dros nos i unigolion ag anableddau. Drwy allu cynllunio ymlaen rydym wedi gallu helpu gofalwyr gyda'r pwysau sylweddol sydd arnynt drwy gynllunio arhosiadau o flaen llaw.

Gwyddom mai'r materion oedd yn ein rhwystro rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn llawn yn hanesyddol oedd materion lletya a chyfleoedd gwaith. Mae gennym fwrdd prosiect yn y ddau faes blaenoriaeth yma, a hynny yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Rhaglen Drawsffurfio Anabledd Dysgu Gogledd Cymru. Mae'r prosiect lletya yn gwneud cynnydd, ac mae partneriaethau cryf yn cael eu datblygu gyda'r Cymdeithasau Tai ac Adran Tai ac Eiddo'r Cyngor. Cafodd 16 o unigolion eu cyflwyno i lety newydd yn ystod 2021/22.




Mae darparu cyfleoedd hyfforddiant a phrofiadau gwaith i unigolion ag anableddau dysgu wedi parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ogystal â chydweithio gyda chyflogwyr, mae cydweithio agos wedi bod gyda'r Tîm Traswffurfio Rhanbarthol, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac eraill. Mae cyfleoedd gwaith yn golygu rhywbeth gwahanol o un unigolyn i'r llall, felly rydym yn edrych ar amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith, gwirfoddoli, hyfforddi yn ogystal â gwaith cyflogedig. Mae'r Gwasanaeth Pryd ar Glyd 'Cwrs a Sgwrs' wedi datblygu yn ardal Y Ffôr i fod yn anfon prydau maethlon, fforddiadwy i'r cymunedau lleol, tra yn creu cyfleoedd gwaith i unigolion gydag anableddau.

Byddwn yn edrych i efelychu llwyddiant ac egwyddorion y cynllun yma mewn ardaloedd eraill o'r sir.

**Llesiant**

Nod y Tîm Llesiant yw medru ymateb yn hyblyg i ddatblygiadau ac anghenion llesiant trigolion Gwynedd. Oherwydd hyn, roedd y Tîm mewn lle da i allu gwneud y mwyaf o grantiau newydd yn ymwneud ag adfer ar ôl Covid-19. Cafwyd arian ychwanegol i adeiladu hyder oedolion hŷn y Sir a'u hannog allan i'w cymunedau yn dilyn Covid-19. Penderfynom sicrhau bod pobl hŷn eu hunain yn arwain ar y defnydd gorau o'r arian hwn. Bu i ni glywed lleisiau'r rheiny a fynychodd y digwyddiadau trwy holiaduron, a bydd yr ymatebion a'r data o gymorth er mwyn darparu'r cymorth gorau i bobl hŷn yn eu cymunedau i'r dyfodol.




Rydym wedi gwneud cysylltiadau newydd ar draws cymunedau Gwynedd a gobeithiwn adeiladu ar hyn yn ystod 2022/23 drwy gynnal 5 fforwm lleol ar gyfer pobl hŷn. Bydd hyn yn sylfaen i'r gwaith o sefydlu ardaloedd Gwynedd fel cymunedau oed gyfeillgar fydd yn dod yn faes gwaith pwysig i'r Tîm Llesiant dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y prosiect gwydnwch cymunedol newydd yng Ngwynedd yn linc pwysig yn ystod 2022/23.

Mae'r rhaglen waith Pontio'r Cenedlaethau wedi parhau'n amrywiol a chreadigol, er gwaethaf heriau Covid-19. Mae 10 mainc cyfeillgarwch wedi eu cwblhau trwy gydweithio rhwng gwahanol genedlaethau ar draws y Sîr. Mae'r prosiect wedi parhau i gefnogi pobl o bob oed trwy amryw o brosiectau, gan fynd i'r afael a themâu dyrys megis unigrwydd, ynysigrwydd ac oedraniaeth. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda chartrefi preswyl e.e. disgyblion Ysgol Syr Hugh Owen wedi bod yn cynnal prosiect yng ngardd Plas Maesincla yng Nghaernarfon.

Mae Dementia Actif Gwynedd yn mynd o nerth i nerth ac wedi ail agor eu dosbarthiadau ers diwedd Ionawr 2022. Maent hefyd wedi agor dosbarthiadau newydd yn Sarn Mellteyrn a Blaenau Ffestiniog, yn ogystal â Chlwb Atgofion Chwaraeon yn Nefyn a chyfarfodydd rhithiol i gefnogi gofalwyr di-dâl unigolion gyda Dementia.

Rydym yn cydlynu Partneriaeth Iechyd a Lles Gwynedd i ddod ag asiantaethau sy'n cynnig gwasanaethau llesiant at eu gilydd i hybu cydweithio ac osgoi dyblygu. Mae'r llyfryn "Edrych ar ôl fy hun" sy'n cynnwys manylion am yr holl asiantaethau hyn, wedi ei adolygu yn ystod y flwyddyn. Bu cydweithio agos yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl ac Wythnos Iechyd Meddwl Dynion, a cynhyrchwyd llawlyfr a dosbarthu dros 50 o ddyfeisiau digidol i unigolion ar fenthyg ar draws Gwynedd fel rhan o'r gwaith cynhwysiad digidol.

**Gofalwyr Di-dâl**

Mae rhai gofalwyr di-dâl yn parhau i fod o dan straen sylweddol o ganlyniad i ddyletswyddau a phwysau gofalu ychwanegol yn dilyn Covid-19. Mae'r timau gwaith cymdeithasol yn gweithio gyda gofalwyr di-dâl fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd, ac mae gofalwyr yn cael cynnig asesiad yn annibynnol o asesiad y sawl sy'n cael eu cefnogi. Yn ogystal â hyn, mae'r Tîm Llesiant wedi bod yn gweithio ar raglen gofalwyr ac mae'r Gweithiwr Prosiect

Gofalwyr wedi parhau gyda'r rhaglen waith drwy gydol 2021/22.

Mae Grŵp Gweithredu Gofalwyr yn cael ei arwain gan y Pennaeth Adran, ac wedi cwrdd pob yn ail mîs yn ystod 2021/22 i sicrhau fod yr agenda gofalwyr di-dâl yn cael blaenoriaeth ar draws y gwasanaethau. Cafwyd grantiau ychwanegol i gefnogi gofalwyr di-dâl yn ystod 2021/22, a chafodd y grantiau yma eu gwario mewn ffyrdd arloesol ar y cyd gyda'n partneriaid ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau fod gymaint o ofalwyr a phosib yn elwa. Cynigwyd amryw o sesiynau i ofalwyr ymlacio a chael amser i'w hunain (er enghraifft crefft, cerddoriaeth, garddio ayyb). Cynigwyd gwyliau/seibiannau byr i ofalwyr mewn byngalo gwyliau pwrpasol yn Waunfawr, ac roedd gwasanaeth eistedd ar gael drwy Eryri Cydweithredol. Mae sylw penodol yn cael ei roi i ofalwyr ifanc, a cherdyn adnabod ac ap 'AiDi' wedi eu datblygu ac wedi bod yn llwyddiannus fel esiampl o ymarfer da yn genedlaethol.

Mae cyfarfodydd rhwydwaith gofalwyr yn cael eu cynnal sawl gwaith y flwyddyn er mwyn clywed llais gofalwyr a rhannu profiadau a chyfleoedd sy'n codi. Un o'r prif heriau sydd wedi parhau yn ystod 2021/22 yw adnabod gofalwyr di-dâl. Mae'r niferoedd o ofalwyr di-dâl sydd wedi eu hadnabod gennym yng Ngwynedd yn isel, ond mae amryw o resymau am hyn, gan gynnwys aelodau teulu ddim yn gweld eu hunain fel gofalwyr. Mae ymgyrchoedd penodol wedi bod yn llwyddiannus, ac mae llyfryn gwybodaeth i ofalwyr di-dâl wedi ei ddiweddaru ar y cyd gyda gofalwyr di-dâl. Bydd gwaith ar adnabod gofalwyr di-dâl a chwrdd â'u hanghenion llesiant yn parhau yn ystod 2022/23.

**Ein Darpariaeth Mewnol**

Mae gennym fel cyngor 13 o gartrefi preswyl (11 ar gyfer oedolion hŷn, a 2 ar gyfer pobl ag anableddau dysgu) ac rydym yn falch iawn o'r modd y mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynnal ansawdd y gwasanaeth drwy gydol 2021/22.

Eto eleni mae'r gwasanaethau wedi wynebu sawl her ac mae'r trigolion a'r staff wedi addasu'n rhyfeddol. Rydym yn hynod falch o'r ymdrechion a'r ymrwymiad i roi lles pobl yn ganolog gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth ac asesiadau risg.

Un o'm prif heriau yn ystod 2021/22 oedd diffyg staff, fel nifer o ddarparwyr ar draws y sector, a mae llawer wedi ei fuddsoddi mewn recriwtio. Mae elfennau o'n Gwasanaethau nad ydym wedi gallu ail agor yn ystod 2021/22 oherwydd problemau staffio, gan gynnwys Uned Gofal Dydd Plas Hedd ym Mangor ac Uned newydd 9 gwely ym Mryn Blodau, Blaenau Ffestiniog. Mae hyn wedi bod yn hynod rwystredig, ond gobeithir yn dilyn gwaith recriwtio lleol yn Maesgeirchen y bydd modd agor yr Uned Gofal Dydd yno yn fuan, a bwriedir cynnal digwyddiadau tebyg yn ardal Blaenau Ffestiniog er mwyn gwneud y mwyaf o'n gwlâu ym Mryn Blodau.


Rydym wedi llwyddo i ail agor gwasanaethau yn ystod 2021/22 gan gynnig gofal dydd ac ysbaid mewn rhai o'n cartrefi. Yn sicr mae hyn wedi helpu gyda chefnogi nid yn unig yr unigolion ond eu teuluoedd hefyd. Mae wedi bod yn her helpu unigolion a'u teuluoedd i ddygymod a'r newid, lleihau'r ofn, ac i ddod i ddechrau arfer gyda bywyd allan yn y gymuned eto.

Rydym wedi parhau â'r rhaglen i fuddsoddi a moderneiddio ein cartrefi er mwyn gwella ansawdd a sicrhau adnoddau pwrpasol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae gwaith addasu wedi'i gwblhau yng Nghartref Cefn Rodyn, Dolgellau ac ar fîn dod i ben yng nghartref Hafod Mawddach, Bermo. Bydd y gwaith o addasu ein cartrefi i fod yn addas i'r dyfodol yn parhau dros y blynyddoedd i ddod gyda arian wedi ei glustnodi o grantiau cyfalaf.

Mewn perthynas â Blaenoriaethau Lleol yr adran, mae gwaith yn parhau ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli. Gyda hyn, byddwn yn rhoi sylw i wella'r ddarpariaeth gofal yn ardal wledig Llŷn i'r dyfodol. Mae'r gwaith o adnabod safleoedd ar gyfer datblygiad yn ardal Dolgellau ac ardaloedd eraill ym Meirionnydd hefyd yn parhau.

**Diogelu a Diogelwch Cymunedol**

Mewn cyfnod o 12 mis yn ystod 2021/22, mae 484 o ymholiadau diogelu wedi eu gwneud. Er bod 12% o ymholiadau nad oeddent wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod, dylid nodi mai'r prif reswm am hyn yw gallu ein partneriaid i wneud ymholiadau ac ymateb yn amserol. Dylid nodi fod gwaith yn cael ei wneud o fewn y 7 diwrnod er mwyn sicrhau fod unigolion yn ddiogel a bod risgiau wedi eu rheoli ymhob achos, ond nad ydi'r ymholiadau yn cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod ym mhob achos. Yr amser ymateb ar gyfartaledd oedd 5 diwrnod.




Mae rhai unigolion yn parhau i wrthod ymyrraeth ond bydd y timau ardal yn ceisio cefnogi'r unigolion yma i sicrhau eu diogelwch pan yn addas. Mae nifer uchel o bryderon proffesiynol wedi bod yn agored yn ystod 2021/22, ac rydym yn parhau i aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar sut i reoli'r drefn yma.

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio fel rhan o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, ar y cyd gyda nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bartneriaeth statudol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'u gilydd er mwyn mynd i'r afael â throsedd ag anrhefn. Mae cynllun 2021/22 y Bartneriaeth (gweler yma) wedi'i gyflawni ac unrhyw weithred anghyflawn wedi ei gynnwys yn y cynllun newydd ar gyfer 2022/23.

Er fod nifer yr achosion trais yn y cartref wedi bod yn isel yng Ngwynedd yn ystod y pandemig, yn groes i'r pryder cenedlaethol, mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd o droseddau domestig yng Ngwynedd yn ystod y ddau chwarter ddiwethaf. Mae ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o adrodd ar drais yn y cartref yn parhau a bydd y mater yn cael ffocws a blaenoriaeth gan y Bwrdd.

Mae nifer o feysydd eraill wedi derbyn sylw yn ystod 2021/22 a byddant yn parhau i dderbyn sylw yn ystod 2022/23 – gan gynnwys troseddu casineb, caethwasiaeth fodern a gwrthderfysgaeth.

**Sicrwydd Ansawdd**

Mae'r pandemig wedi parhau i gael effaith ar waith y Tîm Sicrwydd Ansawdd yn ystod 2021/22. Nid ydyw wedi bod yn bosib monitro darparwyr yn unol â'r drefn arferol ym mhob achos oherwydd cyfyngiadau ymweld. Mae'r tîm wedi parhau i gefnogi darparwyr drwy fonitro achosion/lefelau Covid, adrodd ar sefyllfa gwlâu gwag ac ati. Mae 4 darparwr wedi bod o dan y drefn pryderon cynyddol yn ystod y flwyddyn, ac mae ymweliadau monitro wedi bod yn cael eu cynnal gyda'r darparwyr yma.

Mae sawl darparwr wedi wynebu her o ran capasiti staffio yn ystod y cyfnodau lle mae lefelau Covid wedi bod yn uchel, ac mae'r Tîm Sicrwydd Ansawdd wedi chwarae rhan

flaenllaw yn cefnogi'r darparwyr drwy'r cyfnodau heriol yma.

Mae capasiti y Tîm i gyflawni'r rhaglen waith yn parhau i fod yn heriol. Bu i'r Pwyllgor Craffu Gofal nodi'r angen i gynyddu'r capasiti o fewn y tîm ym mis Medi 2021.

**Gwasanaeth Busnes**

Mae cyfran o waith y Gwasanaeth Busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i gael ei yrru gan yr argyfwng. Boed hynny drwy ailgyfeirio staff, cefnogi darparwyr gyda'r trefniadau profi/PPE/materion staffio, neu gweinyddu nifer o grantiau sydd wedi dod drwy Lywodraeth Cymru i helpu'r sector. Er y blaenoriaethu sydd wedi gorfod digwydd, mae'r gwaith craidd o gefnogi timau rheng flaen y maes gofal wedi parhau.

Mae enghreifftiau lle rydym wedi gallu manteisio ar gyfleoedd sydd wedi codi o weithio yn rhithiol - er enghraifft talu darparwyr preswyl a nyrsio yn awtomatig drwy'r system gyfrifiadurol yr Adran (WCCIS), a chyfnewid cronfeydd arian parod yr Adran am gardiau Barclaycard sydd yn fwy diogel a chyfleus.

Ar ôl cyfnod yn ystod y pandemig lle'r oedd rhaid cyfyngu ar y ddarpariaeth teleofal oedd ar gael, mae offer a thechnoleg amrywiol bellach ar gael i unigolion Gwynedd barhau i fyw yn annibynnol. Bydd gwaith pellach yn mynd ymlaen yn ystod 2022/23 i graffu'r Gwasanaeth Teleofal a sicrhau fod y dechnoleg ddiweddaraf ar gael i unigolion Gwynedd i hybu eu hannibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau craidd.

Mae system gyfrifiadurol yr Adran (WCCIS) yn system genedlaethol sy'n cael ei defnyddio gan pob sir yng Nghymru. Mae problemau wedi codi gyda'r system yn ystod 2021/22 sydd yn rhwystro timau rhag cyflawni eu gwaith yn effeithiol ar adegau. Er fod cefnogaeth effeithiol ac amserol ar gael drwy'r Tîm Cefnogi Systemau yn yr Adran, mae rhai materion nad oes gan y Tîm ddylanwad drostynt (e.e. perfformiad y system). Mae pwysau yn parhau i gael ei roi ar ddarparwr y system, ac mae perfformiad y system wedi bod yn sefydlog ers ddiwedd 2021/22. Mae trafodaethau yn parhau ynghylch dyfodol y system yng Ngwynedd.

Mae recriwtio yn y maes gofal wedi dod yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod Covid-19 o ganlyniad i'r heriau staffio sydd yn gyffredin ar draws y wlad. Mae Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal wedi ei phenodi yn ystod 2021/22, ac wedi bod yn adnodd gwerthfawr er mwyn dod i afael ar yr agenda recriwtio. Mae esiamplau o waith recriwtio penodol sydd wedi bod yn llwyddiannus (e.e. sesiwn ym Maesgeirchen, Bangor lle penodwyd 6 gweithiwr newydd), ac mae bwriad adeiladu ar hyn mewn ardaloedd eraill o'r sir.

**Darpariaeth sy'n cael ei gomisiynu**

O ran y ddarpariaeth sy'n cael ei gomisiynu, rydym yn cydnabod ac yn diolch am yr holl waith sydd wedi digwydd i ymateb i'r argyfwng ac i edrych ar ôl ein trigolion bregus ar draws y sir. Buom yn cefnogi nifer o gartrefi preswyl a nyrsio yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau cefnogol a gwasanaethau dydd oedd yn wynebu her ar faterion megis rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Mae'r cynnydd yng nghyflogau gweithwyr gofal i gyd fynd â Chyflog Byw Gwirioneddol i'w groesawu. Mae'r agwedd hon yn allweddol i'r hyn sydd wedi'i adnabod fel Blaenoriaeth Gwella i sicrhau gweithlu cadarn i'r dyfodol. Mae hyn hefyd wedi cyfrannu'n rhannol at yr her rydym fel awdurdodau lleol ar draws Cymru yn ei wynebu o ran y ffioedd safonol sy'n cael eu talu i ddarparwyr gofal i ofalu am ein trigolion. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cydweithio â darparwyr i ddod i ddeall yn well y gwir gost o ddarparu gofal gan gynnig opsiynau ar y ffordd ymlaen fyddai'n

cyfrannu at gynaliadwyedd a sefydlogrwydd y farchnad.

Mae nifer o grantiau wedi dod i'r Adran gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector ac i adfer gwasanaethau yn dilyn y pandemig, a rheini wedi eu pasio ymlaen i'r darparwyr ar draws y sector er mwyn eu cefnogi drwy'r cyfnod heriol.

**Crynodeb**

Mewn blwyddyn heriol arall mae perfformiad yr Adran wedi parhau i wella mewn nifer o agweddau. Y prif faterion fydd angen sylw pellach yn ystod 2022/23 a thu hwnt yw:

- Parhau gyda'r gwaith o ail ddylunio ein gwasanaethau gofal gan gynnwys y Gwasanaeth Gofal Cartref, a hybu ymhellach y gwaith o gryfhau gwydnwch ein cymunedau drwy hybiau lleol.
- Sicrhau darpariaeth gofal addas a chynaliadwy ar draws Gwynedd, gan edrych ar y gwir gost o ddarparu gofal, a'r posibilrwydd o ddarparu gofal nyrsio mewnol.
- Sicrhau gweithlu cadarn yn y maes gofal i'r dyfodol, gan barhau gyda'r gwaith recriwtio a datblygu talent.
- Ail-adeiladu ac addasu ein gwasanaethau gan ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r cyfnod argyfwng ac anghenion y boblogaeth i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae eleni, unwaith eto, wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i ni i gyd. Rydym wedi parhau i orfod newid ein ffordd o weithio er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant plant a'u teuluoedd drwy'r cyfnod heriol hwn. Braf ar ddiwedd blwyddyn fel hon yw cael edrych yn ôl a datgan fod ein hymarfer a pherfformiad yn gyffredinol ar draws y maes Plant wedi parhau'n gadarn. Rydym fel Adran yn ymfalchïo yn ymdrechion ein holl staff am ein llwyddiant i gadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd drwy ymweliadau, galwadau cadw mewn cyswllt a drwy gyfryngau rhithiol. Y cyswllt hwn, law yn llaw a phroffesiynoldeb ac ymdrech ddiflino ein gweithwyr sydd wedi golygu ein bod wedi cefnogi teuluoedd, wedi cynnal sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, ac wedi sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Llwyddodd yr Adran i barhau i gefnogi a diogelu plant a chadw plant a'u teuluoedd gyda'i gilydd mewn cyd-destun o gyfyngiadau cyfnewidiol ar ddulliau arferol o weithio. Bellach, mae cyswllt, gweithgareddau, a chefnogaeth ar ffurf rithiol yn ail natur i nifer o'n timau a'n teuluoedd.

Wrth i'n timau a'n partneriaid adfer ac addasu trefniadau ar gyfer byw yn ddiogel gyda Covid-19 rydym wedi gweld nifer o wasanaethau partneriaid ac asiantaethau allanol yn ail-gydio; sydd yn ei dro wedi arwain at wella cyswllt asiantaethau eraill gyda phlant a theuluoedd; a gwella cyswllt wyneb yn wyneb gyda theuluoedd. Mae hyn wedi arwain at deuluoedd a phlant yn cael eu hadnabod a'u cyfeirio atom am gymorth yn gynt, ac yn gam ymlaen i adfer perchnogaeth pawb i sicrhau diogelu plant yng Ngwynedd.

Rydym wedi dod i gyswllt gyda **7,136** o deuluoedd yn ystod 2021-22 sydd wedi bod angen gwybodaeth, cyngor, cymorth a/neu gofal. Mae ystod, natur a nifer y teuluoedd sydd angen ein help yn adlewyrchiad o'r her i deuluoedd o fagu plant yn yr hinsawdd sydd ohoni.

Rydym wedi parhau i gynnig cefnogaeth gynnar i deuluoedd pan fo anghenion yn amlygu - o ddarparu cyngor a gwybodaeth drwy ein Hwb Teuluoedd, i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer materion megis sgiliau rhiantu, delio gydag ymddygiadau heriol plant, gwrthdaro mewn teuluoedd ac oediad mewn datblygiad plant. Rydym wedi uchafu ac addasu ein rhaglenni presennol megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cynnig Chwarae a Gofal Plant i gynnal ein gwasanaethau ataliol ac i adeiladu gwydnwch teuluoedd.

Yn ychwanegol i'n gwasanaethau ataliol rydym hefyd wedi cydweithio gyda phartneriaid ar ehangu ein darpariaethau i hyrwyddo llesiant a gwydnwch plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym wedi sefydlu rhaglenni newydd megis Haf o Hwyl, Gaeaf Llawn Llesiant, a'r Rhaglen Datblygiad Plentyn i ddarparu cyfleoedd i adeiladu gwydnwch mewn plant a phobl ifanc ac i hyrwyddo eu llesiant emosiynol. Manteisiodd **3,690** o blant a phobl ifanc ar gyfleoedd chwarae yn 2021-22. Mae'r **Gwasanaeth Ieuenctid** wedi canolbwyntio ar ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd mewn cymunedau ac yn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r 5 Ffordd at Les ymysg pobl ifanc, ac wedi darparu ymyraethau penodol megis Lles drwy Gelf a Grwpiau Dygnwch FRIENDS i bobl ifanc bregus 16 oed a throsodd.

Pan fo teulu angen cefnogaeth i ddelio gyda nifer o faterion y mae nhw'n eu hwynebu mae ein **Tîm o Amgylch y Teulu** yn cydlynu cefnogaeth iddynt. Derbyniodd **92** o deuluoedd gefnogaeth gan Gydlynydd yn ystod 2021-22 o'i gymharu a **61** yn 2020-21.


Fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd ac yn tynnu ar ymyraethau mwy arbenigol os yw'n briodol.

Mae'r **Tîm Trobwynt** yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi teuluoedd gyda materion megis rhiantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, a chefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu cefnogaeth arbenigol oddi fewn i'r tîm yma i ymateb i anghenion ac adborth teuluoedd.

Un prosiect arbenigol o'r fath yw Adlewyrchu sy'n cynnig cefnogaeth i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Rydym hefyd wedi sefydlu prosiect Emrallt yn 2020/21, gyda'r nod o geisio lleihau nifer yr achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau statudol yn dilyn digwyddiad o gam-driniaeth. Ein prif amcan yn ystod y flwyddyn oedd darparu rhaglen o hyfforddiant i weithwyr i adnabod ymddygiadau rhywiol iach, problemus a niweidiol. Hyd yma mae **671** o weithwyr wedi mynychu un neu fwy o ddigwyddiadau hyfforddi.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'n gwasanaethau yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol.

## Nifer o blant sydd yng ngofal y Cyngor




Ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd **273** o blant yng ngofal y Cyngor, ac roedd 66% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 36% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 23% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld gostyngiad bychain yn y nifer o blant yng ngofal y Cyngor. Rydym yn gweld fod ein Strategaeth i Gadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd yn cael effaith, ac felly mae'r strategaeth hon yn parhau yn flaenoriaeth i'r adran ar gyfer 2022/23, er mwyn parhau gyda'r nod o leihau niferoedd plant sy'n dod i ofal.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r **Tîm Maethu** yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn

methu byw gartref. Lansiwyd "Maethu Cymru" yn ystod 2021-22 ac rydym yn falch o fod yn rhan o hynny, gan weld datblygiadau megis safle we newydd i'r gwasanaethu maethu ynghyd ag ymgyrch genedlaethol i recriwtio a denu rhieni maeth.

Mae gwaith yr Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn. Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd **302** o 'gynadleddau' amddiffyn plant.

Canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel: **99%**

Mae'r perfformiad cyson uchel yma'n dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd. Rydym wedi gwireddu ein prosiect arloesol ar Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Un o uchafbwyntiau 2021-22 yw ein bod wedi gallu sefydlu Cynllun Awtistiaeth i Wynedd ar y cyd gyda'n partneriaid. Rydym wedi llwyddo i sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer y maes hwn fydd yn cynnwys penodi cydlynydd dynodedig i'r cynllun a'r maes; rhaglen godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn ymwneud ag awtistiaeth a symud ymlaen gydag adolygu ein trefniadau yn benodol yn y cyfnod trosiannol rhwng gwasanaethau.

Yn anffodus, mae rhai blaenoriaethau oedd gennym wedi llithro rhywfaint neu wedi eu rhoi i'r neilltu am y tro er mwyn rhoi ffocws ar gynnal a darparu ein gwasanaethau hanfodol.

Bu raid oedi ambell elfen o Raglen Trawsffurfio Plant Gogledd Cymru a oedd gyda'r bwriad o dreialu dulliau newydd o weithio ac ymyraethau newydd er mwyn gwella a newid gwasanaethau. Nid ydym wedi llwyddo i sefydlu **Tîm Aml-ddisgyblaethol** yn llawn. Byddai'r tîm wedi darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion dwys a chymhleth. Rydym wedi gallu symud ymlaen gyda pheth o'r gwaith hwn ond gan fod diwallu anghenion dwys a chymhleth mewn teuluoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn risg i ni, byddwn yn ail-gydio yn y flaenoriaeth hon yn 2022-23 gan adeiladu ar yr hyn a gychwynnwyd drwy'r Rhaglen Trawsffurfio.

Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni ac mae parodrwydd a hyblygrwydd ein gweithwyr i ymateb i anghenion a heriau staffio sydd wedi'n llesteirio gydol y flwyddyn, eto yn dangos eu hymroddiad parhaus i'r gwasanaeth ac i deuluoedd bregus Gwynedd. Rydym wedi comisiynu gwaith penodol i ddatblygu cynllun gweithlu i'n helpu i fynd i'r afael gyda'n heriau recriwtio, datblygu'r gweithlu a chynnal a chefnogi gweithwyr. Bydd hyn yn parhau yn flaenoriaeth i ni yn y flwyddyn nesaf.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Economi a Chymuned


Yn ogystal â'r gwaith mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

**Gwasanaeth Datblygu'r Economi**

Rhwng effaith Covid-19, trefniadau gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r rhyfel yn Wcrain, mae busnesau a chyflogwyr Gwynedd wedi wynebu blwyddyn arall o ansicrwydd economaidd yn 2021/22. Mae'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi wedi parhau i gymryd camau rhagweithiol dros y flwyddyn i geisio achub a chynnal busnesau lleol, cefnogi trigolion lleol sydd wedi colli eu gwaith a chreu'r amodau fydd yn galluogi busnesau i adfer ac i dyfu yn y dyfodol.

Rydym wedi parhau i newid ein blaenoriaethau ac ail-gyfeirio ein hymdrech i ymateb i'r argyfwng gan ddwyn timau newydd ynghyd ar draws yr Adran a chydweithio'n agos â rhannau eraill o'r Cyngor.

Yn ystod 2021/22 derbyniodd 291 o fusnesau gymorth ariannol gan yr Adran. Roedd y nifer yn ostyngiad o 2020/21 o ganlyniad i'r nifer enfawr o grantiau argyfwng dosbarthwyd i fusnesau yn ystod y flwyddyn honno.




Yn ogystal â dosbarthu cymorth ariannol mae'r Adran wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i sicrhau fod gan fusnesau lleol yr wybodaeth orau am ganllawiau a chyngor masnachu yn sgil Brexit a Covid-19, i'w galluogi i gadw ar y blaen a chadw eu staff a'u cwsmeriaid yn saff. Cynhaliwyd tudalen arbennig ar wefan y Cyngor ynghyd â chylchlythyr sydd bellach yn cael ei dderbyn gan dros 4,370 o fusnesau lleol o leiaf ddwywaith yr wythnos. Mae adborth busnesau i'r bwletinau hyn wedi bod yn hynod o gadarnhaol.

Er gwaetha'r pandemig, mae'r galw gan fusnesau am fwy o dir ac eiddo addas wedi parhau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo cyllideb o £2 filiwn er mwyn ymateb i'r galw hwn ac mae gwaith i baratoi cynlluniau wedi cychwyn.

Un o heriau pennaf busnesau lleol ar hyn o bryd ydi sicrhau gweithwyr ac mae ymateb i hyn wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod 2021/22. Cynhaliwyd 8 o ffeiriau swyddi ledled Gwynedd i ddod â chyflogwyr a'r rhai sy'n chwilio am waith ynghyd a sefydlwyd hysbysfwrdd ar y cyfryngau cymdeithasol ble hysbysebwyd 1,600 o swyddi. Cefnogwyd 229 o bobl Gwynedd i waith yn ystod y flwyddyn.

**Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1.3biliwn, mae dros 18,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Dyma un o'r sectorau oedd wedi derbyn yr ergyd fwyaf yn 2020/21 oherwydd y cyfyngiadau ar fusnesau yn sgil Covid-19. Ond yn ystod 2021/22 gwelwyd ymwelwyr newydd yn dod i Wynedd, a nifer helaeth ohonynt heb arfer ag ardaloedd gwledig neu arfordirol ym Mhrydain a gwelwyd problemau yn sgil hynny. Mewn ymateb, dosbarthwyd 105 o fwletinau

i gynghori busnes a rhannwyd negeseuon cyrchfan cyfrifol ac ymweld yn ddiogel ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr gyda dros 1,038,010 o ymweliadau â'r wefan. Bu i 72,223 (+10.68%) ymgysylltu drwy ein cyfrifon cymdeithasol.



Nifer yn derbyn negeseuon ymgyrch cyrchfan cyfrifol:

**10,290,823**

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymchwil manwl dros y flwyddyn diwethaf i sefyllfa cartrefi modur yn y sir gan ymgynghori efo perchnogion meysydd carafanau, perchnogion cartrefi modur a chymunedau. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu prosiect 'Aros-fan' ar y cyd gyda'r Adran Amgylchedd fydd yn peilota datblygiad hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos yng Ngwynedd yn 2022/23.

Cwblhawyd adolygiad o flaenoriaethau twristiaeth yr ardal hefyd yn 2021/22 fydd yn sail i egwyddorion economi ymweld cynaliadwy Gwynedd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod hyd at 2035.

Yn ogystal, yn 2021/22 rhoddwyd gwybodaeth ac arweiniad i 40 trefnydd / cymuned i adfer a threfnu digwyddiadau yn ddiogel a hynny er budd ein cymunedau.
Cwblhawyd adolygiad o flaenoriaethau twristiaeth yr ardal hefyd yn 2021/22 fydd yn sail i egwyddorion economi ymweld cynaliadwy Gwynedd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod hyd at 2035.

Yn ogystal, yn 2021/22 rhoddwyd gwybodaeth ac arweiniad i 40 trefnydd / cymuned i adfer a threfnu digwyddiadau yn ddiogel a hynny er budd ein cymunedau.

**Gwasanaethau Morwrol**

Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, traethau trefol a gwledig eraill, 4 harbwr a 2 marina. Mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer ymwelwyr i draethau Gwynedd, cynyddwyd nifer wardeiniaid traeth a chyfnod eu cytundebau goruchwylio yn 2021/22 i adlewyrchu'r estyniad yn y tymor ymweld. Diogelwch a glendid traethau oedd yn parhau i fod y flaenoriaeth dros y flwyddyn gyda ymgyrch diogelwch dŵr newydd yn cael ei baratoi.

Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn diwethaf hefyd i adolygu trefniadau rheoli'r Hafan a harbwr Pwllheli i'r dyfodol ac mae gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli wedi cael ei raglennu.

1,871 o gychod a
1,287 o fadau dŴr personol
wedi eu cofrestru



**Gwasanaethau Adfywio**

Mae'r gwaith o baratoi Fframwaith Adfywio Gwynedd hefyd wedi ail-gychwyn yn 2021. Mae 13 cynllun ardal yn cael eu paratoi i adnabod blaenoriaethau lleol i'r dyfodol. Mae rhaglenni adfywio canol tref Llywodraeth Cymru wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf gyda phwysigrwydd adfywio'r stryd fawr wedi cynyddu. Datblygwyd amrediad o gynlluniau yng nghanol dinas Bangor sydd yn cyfrannu at wella hyfywdra'r stryd fawr gan gynnwys cynlluniau i adfer 9 eiddo gwag.



Buddsoddiad mewn Rhaglenni Adfywio Canol Tref yn ystod 2021/22:

**£3,897,899**

**Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau**

Mae Gwasanaeth wedi parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol yn ystod y flwyddyn 2021/22, yn ogystal â chefnogi grwpiau newydd sydd wedi ffurfio er mwyn cynnig cefnogaeth i unigolion bregus yn y cymunedau. Mae'r cyfnod wedi bod yn heriol i grwpiau cymunedol ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynorthwyo i oresgyn rhai o'r heriau sy'n eu wynebu. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o gydlynu grwpiau canol trefi er mwyn adnabod ac ymgynghori ar fesurau Covid-19. Yn ystod 2021/22 bu'r Gwasanaeth hefyd weithredu gwaith ymgysylltu drwy gynnal trafodaethau gyda sefydliadau a grwpiau lleol fel rhan o ddatblygiad y Fframwaith Adfywio newydd.

Fe wnaeth Cronfa Cefnogi Cymunedau'r Cyngor ariannu 21 o brosiectau eleni gan ddenu £206,000 o arian i'r sir. Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau hefyd wedi dyrannu £25,000 o arian i gefnogi'r ymgyrch wirfoddol Covid-19 ar ran Magnox.




**Gwasanaeth Llyfrgelloedd**

Mae 12 o Lyfrgelloedd Gwynedd wedi parhau i fod ar agor drwy gydol 2021/22 gyda mesurau rheoli dioglewch mewn lle i warchod defnyddwyr y gwasanaeth a staff. Agorwyd Llyfrgell Pwllheli a Neuadd Dwyfor mis Mawrth 2022 a hynny yn sgil prosiect llwyddiannus gwerth bron i £1m i uwchraddio a gwella'r cyfleusterau yno.

Gwnaed newidiadau parhaol i'r Gwasanaeth Teithiol yn y flwyddyn diwethaf gan gynnig gwasanaeth cludo llyfrau i'r cartref ar gais ac ar alw, yn rhad ac am ddim i drigolion Gwynedd yn hytrach na thrwy'r hen ddull o gerbyd Llyfrgell Deithiol yn galw mewn arosfannau mewn pentrefi unwaith y mis. Profodd y newid hwn yn un poblogaidd ac roedd yn opsiwn hanfodol ar gyfer y sawl oedd yn gwarchod neu'n fregus eu hiechyd. Parhawyd yn ogystal i gynnig gwasanaeth danfon misol Llyfrgell i'r Cartref (Caeth i'r Tŷ) a'r drefn lle roedd defnyddwyr yn gallu archebu llyfrau – yn aml wedi'i dethol yn arbennig gan staff y llyfrgell - i'w casglu o'r Llyfrgell, gan roi nifer o opsiynau derbyn gwasanaeth llyfrgell i'n defnyddwyr.




Yn ystod y cyfnod 2021/22 benthyciwyd 186,222 o lyfrau (sydd yn 140% o gynnydd yn ffigyrau'r flwyddyn gynt) gydag oddeutu 3270 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth yn fisol (o'i gymharu â 2075 y flwyddyn gynt). Yn ogystal benthycwyd 100,233 o e-adnoddau (e-lyfrau, e-lyfrau llafar, papurau newydd a chylchgronau) sydd yn gynnydd o 29% ar y flwyddyn flaenorol. Gwnaethpwyd archebion am 25,585 o lyfrau penodol (cynnydd o 40% ar y flwyddyn gynt). O Ebrill 1af 2021, dilewyd dirwyon ar holl lyfrau hwyr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd 87 sesiwn i blant a theuluoedd gyda 747 o blant yn mynychu. Buom yn cydweithio gyda nifer o Bartneriaid ar gynlluniau darllen a llythrennedd yn cynnwys Cyfuno a'r Uned Blynyddoedd Cynnar. Crëwyd a rhannwyd 2528 o becynnau hybu llyfrau a darllen i blant Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen.

**Gwasanaeth Archifau**

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud

yn siŵr fod gan bobl fynediad atynt. Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.

Bu'r Archifdai ar agor drwy 2021/22 gyda mesurau rheoli Covid-19 mewn lle i warchod defnyddwyr a staff. Yn ystod y flwyddyn ymatebodd y Gwasanaeth i 3,151 o ymholiadau, defnyddiodd 19,542 ein catalogau ar-lein, ac aethpwyd ati i estyn 5,508 o ddogfennau i'r rheiny a ymwelodd â'r Archifdai. Ymwelodd y Swyddog Addysg gydag ysgolion y sir gyda 2,180 o ddisgyblion yn derbyn y gwasanaeth.

Gwasanaeth Archifau wedi cynnig darpariaeth i 28,201 o ymholiadau yn 2021/22



### Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r Adran wedi ail-agor amgueddfeydd, orielau ac archifau'r Cyngor dros y flwyddyn diwethaf. Yn 2021/22 ymgysylltodd dros 340,000 â'r amgueddfeydd a'r orielau unai yn ffisegol neu'n ddigidol; cefnogwyd ar gyfartaledd 94 artist yn fisol yn Storiel ac roedd boddhad cwsmer ar gyfartaledd yn 94.6 %. Trefnwyd nifer o weithgareddau trwy'r Cynllun Cyfuno gan weithio gyda llawer o bartneriaid gan gyrraedd 212 o blant a phobl ifanc i gefnogi agwedd well at ddysgu; cefnogi 130 awr o wirfoddoli i bobl ifanc ac ymgysylltu â 107 o deuluoedd.




Cyfanswm sy'n ymweld ac ymgysylltu'n ddigidol â'r amgueddfeydd ac orielau

Cefnogwyd plant a phobl Gwynedd gan 19 o brosiectau Celfyddydau Cymunedol fel rhai Celf ar Bresgripsiwn, Sgwrs a Chan, Fi di Fi, Fa'ma, Clwb Enfys, Crefft er Lles, sesiynau i Ofalwyr Dementia, Criw Celf i 57 o bobl ifanc; Gŵyl Gofalwyr gan gynnwys cyngerdd; rhaglenni SHEP i'r ysgolion. Bu i brosiect Ynys Blastig gefnogi iechyd a lles mewn ysgolion trwy'r celfyddydau gan gynnwys 29 o blant ac 13 staff ysgol. Cynhaliwyd pythefnos o weithgareddau Llesiant i Mi gyda 88% yn gweld cynnydd yn ei llesiant. Dosbarthwyd 80 o becynnau celf i Ofalwyr Ifanc y sir gan weithio gyda Gweithredu dros Blant; dosbarthwyd 100 o becynnau prysur a dyrannwyd 13 o grantiau cymunedol

### Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gwledig

Mae'r adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach ar draws Gwynedd. Ers 2019 mae'r canolfannau hyn yn cael eu rheoli drwy gytundeb gyda Chwmni Byw'n Iach Cyf. Mae'r canolfannau wedi parhau ar agor drwy gydol 2021/22 gan gyflwyno mesurau rheoli Covid-19 er mwyn diogelu defnyddwyr a staff. Er hyn, bu rhaid gyfyngu ar niferoedd mewn sesiynau ar adegau ac mae rhai canolfannau wedi bod yn cael eu defnyddio fel Canolfannau Brechu i'r Gwasanaeth Iechyd. Golygai hyn bod gostyngiad sylweddol yn nifer defnyddwyr i flwyddyn arferol sef 284,994 ond mae'n gynnydd ar y 79,550 fu'n defnyddio'r gwasanaethau y flwyddyn flaenorol pan fu rhaid cau canolfannau am gyfnodau. Er y cyfyngiadau, mae'n galonogol fod 84.3% wedi bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth.

Nifer o ddefnyddwyr Canolfannau Byw'n Iach yn ystod 2021/22:

284,994



Mae'r adran yn gyfrifol am ddau Barc Gwledig - Parc Glynllifon a Pharc Padarn. Yn ystod 2021/22 bu raid i'r ddau barc reoli cynnydd sylweddol mewn nifer defnyddwyr gan roi pwysau ar gyfleusterau'r parciau. Yn ystod y flwyddyn 2020/21 fe fu Glynllifon yn llwyddiannus yn eu cais am arian Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac mae'r gwaith o adfer rhai strwythurau hanesyddol a gwella diogelwch y Parc wedi cychwyn. Fe fu parc Glynllifon hefyd yn llwyddiannus yn eu cais am arian Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru yn ystod 2021/22 ac mae'r gwaith i uwchraddio'r toiledau a maes parcio wedi cychwyn. Ym Mharc Padarn y flaenoriaeth oedd sicrhau diogelwch y cyhoedd a phenodwyd penseiri cadwraeth i archwilio strwythurau'r safle a rhoi mesurau diogelwch newydd yn eu lle.

**Blaenoriaethau Lleol - Cynllun y Cyngor**

Un o'r blaenoriaethau lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig wrth ymgynghori ar flaenoriaethau ar gyfer Cynllun y Cyngor 2018-23 ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da. Bu i Aelodau yn ardal Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn nodi hyn fel blaenoriaeth uchel i'w hardaloedd. Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel wedi ei sefydlu er mwyn ymateb i'r broblem ac mae'n canolbwyntio ar gyfleoedd fydd yn dod â budd i'r cymunedau hyn (gweler Rhan 1 o'r adroddiad hwn).

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a bandeang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol ynghyd â gweithio'n frwdfrydig gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd ac Arloesi Gwynedd Wledig i gwrdd â'r angen.
Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Yn ogystal â'r gwaith mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

*Mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn un heriol unwaith yn rhagor tra'n parhau i ymdopi â gofynion yr argyfwng. Fodd bynnag, gallwn fod yn falch o'r datblygiadau sydd wedi ei nodi o fewn yr adroddiad hwn.*

## Gwastraff ac Ailgylchu

Rydym fel adran yn darparu gwasanaeth casglu aml-ffrwd i drigolion Gwynedd sydd wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau bod deunyddiau yn cael ei ailgylchu i'r safon uchaf.

Cwestiwn pwysig iawn sy'n cael ei ofyn yn yr hinsawdd bresennol yw ble yn union mae'r deunyddiau yn mynd. Gallwn ymfalchïo fel sir, ein bod yn buddsoddi mewn anfon ein deunyddiau drwy brosesau ailgylchu fwyaf diweddaraf o fewn y Deyrnas Unedig.

Gwelir isod enghraifft o'r broses ailgylchu plastigion cymysg yn ogystal â ystadegau 2020/21 Gwynedd:




**Plastig**

Y swm a ailgylchwyd
**2,036t**


$CO_2$ osgowyd
**1,099t**

Amcangyfrif o'r arbediad gwaredu
**£230,019**

Adroddwyd ei fod wedi'i allforio
**0%**

O ran ein perfformiad ailgylchu, rydym yn falch o gofnodi ar ddiwedd Chwarter 3 (Ebrill-Rhagfyr) ein bod wedi ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio 64% o wastraff yn ystod 2021/22 hyd yn hyn.

Gwelir y graff isod sydd yn arddangos gwelliant yn ein perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf:




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Q1 | 65% | 64% | 67% | 66% |
| Q2 | 62% | 65% | 69% | 63% |
| Q3 | 62% | 66% | 63% | |
| Q4 | 62% | 64% | 62% | |

*data Ch3 a Ch4 2021/22 i'w gadarnhau

Byddwn yn gweithio ar strategaeth wastraff newydd i'r sir yn ystod 2022/23. Bydd y strategaeth yn ystyried dulliau arloesol i annog ailddefnyddio a chynyddu ailgylchu

er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd y targed statudol newydd o 70% yn cael ei ailgylchu erbyn diwedd Mawrth 2025.

### Yr Economi Gylchol

Rhaid nawr canolbwyntio ar wneud 'mwy nag ailgylchu' drwy ddatblygu strategaeth economi gylchol. Gwelir isod themâu craidd strategaeth 'Mwy Nag Ailgylchu' Llywodraeth Cymru sydd  yn sail i waith yr adran:




Dros y flwyddyn diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo dros £43 miliwn o gyllid drwy Gronfa Economi Gylchol. Llwyddom i ddenu gwerth £1.4m o arian grant er cyflawni prosiectau yn y maes yma dros y flwyddyn diwethaf gan gydweithio'n agos gyda'r adran Economi a Chymuned. Roeddem hefyd yn llwyddiannus yn derbyn bid mewnol er mwyn penodi Swyddog Economi Gylchol fydd yn arwain ar y strategaeth newydd.

Nodir yma ddiweddariad ar rai o'r prosiectau sydd wedi neu yn cael sylw:


- Prosiect addasu cyfarpar trin deunyddiau ailgylchu yn Caergylchu, Caernarfon
- Prosiect darpariaeth bwyd cymunedol
- Prosiect Warws Werdd ar y cyd gydag Antur Waunfawr
- Prosiect caffi trwsio
- Prosiect ail-ddefnyddio/eitemau swmpus
- Gorffen dosbarthu'r Cartgylchu

Ein bwriad yw ychwanegu at y gwaith yma drwy gyflwyno bidiau newydd am arian ar gyfer 2022/23 fydd werth oddeutu miliwn os yn llwyddiannus.

### Gwasanaeth Gwastraff Masnachol

Rydym yn darparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i dros 2,000 o fusnesau'r sir ac yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld gwelliant yn y lefelau o wastraff masnachol sy'n cael ei ailgylchu neu gompostio.

Gwelir y graff isod sydd yn dynodi gwelliant yn ein perfformiad eleni, yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid-19 busnesau lleol:




Mae'n flaenoriaeth gennym dros y cyfnod nesaf i annog ein cwsmeriaid masnachol

i fanteisio ar y gwasanaeth ailgylchu ac ailgylchu bwyd. Byddwn yn mynd gam ymhellach yn dilyn deddfwriaeth newydd ble bydd rhaid casglu deunyddiau masnachol ar wahân. Rydym wrthi'n ceisio darganfod y ffordd orau o weithredu hyn.

### Edrychiad Strydoedd

Mae'r amgylchedd leol yn hynod bwysig ac elfen fawr o hyn yw gweld ein strydoedd a thiroedd yn lân, yn daclus ac yn ddiogel. Rydym yn defnyddio mesurydd o'r enw 'Mynegai Glendid' (sy'n gyfuniad o asesiad mewnol ac allanol) er mwyn asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd. Yn 2021/22 roedd ein safon glendid yn 97%.

Cawsom ganlyniadau arolwg allanol Cadwch Cymru'n Daclus sydd yn adrodd ar y nifer o 'ddiffygion' sydd ar ein strydoedd (megis sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigaréts).

Gwelir isod brif ganfyddiadau'r arolwg:

- Cofnododd arolwg eleni berfformiad gwell yng Ngwynedd ar draws bron pob agwedd ar ansawdd yr amgylchedd lleol a gwmpesir gan yr arolwg. Mae'r newidiadau a achoswyd gan y pandemig Covid-19 wedi golygu nad yw hon yn flwyddyn arferol. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol iawn gweld y perfformiad da hwn a gobeithiwn y gellir ei gynnal.
- Roedd baw cŵn ar ei isaf yng Ngwynedd hyd yma. Gobeithiwn fod y duedd hon yn gynrychioliadol o'r sefyllfa ar draws y sir ac y gellir ei chynnal. Tra amlygwyd bod gwelliant yn yr arolwg wnaethpwyd gwyddom hefyd bod problemau lleol yn bodoli ac angen sylw.
- Gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y strydoedd lle gwelwyd sbwriel bwyd cyflym ac roedd nifer y strydoedd gyda chaniau a photeli plastig hefyd wedi codi.

Tîm Tacluso ArdalNi

Roeddem yn llwyddiannus yn derbyn cefnogaeth unfrydol gan y Cabinet er mwyn sefydlu 5 Tîm Tacluso 'Ardal Ni'. Lansiwyd y Tîm cyntaf yn Arfon ar ddechrau fis Mawrth.

Cawsom adborth gwych gan Aelodau'r cyhoedd ac mae bwrlwm nawr er mwyn sefydlu'r 4 Tîm arall.



O ran maes gwaith y Timau, bydd eu gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar ddelwedd y Sir, megis glanhau dwfn, glanhau dodrefn ac arwyddion, tynnu graffiti a thorri chwyn trefol/gordyfiant.



## Cynnal Tiroedd

Mae'r adran yn gyfrifol am gynnal ymylon ffyrdd a thiroedd agored er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion.

Mae lleiniau tir yn gallu gwneud cyfraniad bositif i'n amgylchedd leol, nid yn unig o ran edrychiad, ond hefyd oherwydd ei botensial fel cynefin. Mae hybu bioamrywiaeth o fewn ein lleiniau tir bellach yn flaenoriaeth a rydym wedi addasu ein patrymau torri gwair ar hyd ffyrdd sirol er mwyn cefnogi'r nod hwn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau ein defnydd o chwynladdwr niweidiol.

Rydym wedi denu grantiau ar gyfer ein gwaith hybu cynefinoedd naturiol, blodau gwyllt a bioamrywiaeth. Gwelir isod ddatblygiadau rhai o'r prosiectau yma yn ystod y flwyddyn 2021/22:

Prosiect Tirlenwi Gwyllt:

Mae ein cyn-safleoedd tirlenwi yn cyfrannu at newid hinsawdd ac yn effeithio bob creadur byw. Felly, mewn ymateb i hyn sefydlwyd prosiect tirlenwi gwyllt yn ein safleoedd ger Ffridd Rasus a Llwyn Isaf. Dros y flwyddyn diwethaf mae'r prosiect yn parhau i:

- Blannu Coed
- Codi blychau bywyd gwyllt
- Dosbarthu peiriannau rheoli glaswellt
- Gwasgaru hadau blodau gwyllt
- Creu gwlyptir

Mae cwmni allanol 'Eco-Scope' yn cynnal y gwaith hyn ac yn hybu'r prosiect drwy ymgysylltu ag ysgolion, creu byrddau gwybodaeth i'r safleoedd a sefydlu gwefan/fideos addysgiadol.

Gwelir ychydig o luniau isod sy'n dangos gwaith y prosiect cyffroes hwn:






Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:

Sefydlwyd pecyn o brosiectau sy'n cynnwys rheoli rhywogaethau ymledol, plannu coed brodorol, creu dolydd blodau gwyllt, plannu coed stryd a phlanhigion. Roedd llawer o'r prosiectau'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol.

Dyma enghreifftiau/datblygiadau'r prosiect hwn dros y flwyddyn diwethaf:

- Ardal yn Rhiwlas wedi plannu coed ar hyd y ffordd
- Gwlâu plannu wedi ei gosod ynghyd a feinciau wrth yr amlosgfa ym Mangor
- Ffrindiau Japan (Cynllun Shakara) – plannu coed ceirios yn ardaloedd Bangor

## Teledu Cylch Cyfyng

Mae'r Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng wedi ei uwchraddio i drefn ddigidol erbyn hyn ac yn gweithio yn hynod effeithiol. Bu cyfle i ychwanegu at y ddarpariaeth yn ardal Hirael o Fangor drwy'r prosiect 'Safer Streets'

oedd yn cael ei arwain gan yr heddlu. Drwy'r prosiect hwn, rydym wedi gosod 41 camera ychwanegol ynghyd a uwchraddio 12 colofn goleuo stryd i ddal y camerâu.

### Gwasanaeth Fflyd

Mae'r gwasanaeth yma yn arwain, rheoli a rhoi cymorth i adrannau'r cyngor i sicrhau defnydd priodol, diogel a chyfreithlon o'n fflyd.
Rydym wedi bod yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar brosiect dad-garboneiddio fflyd. Un elfen o waith ar y ddaear yw treialu cerbydau gwahanol a bu hyn ddigwydd yn ystod haf 2020. Roedd gennym gerbyd trydan casglu gwastraff mewn un ardal ac roedd y treial yn llwyddiannus a'r cerbyd yn perfformio'n dda iawn, gan allu cario'r un math o dunelledd heb unrhyw broblemau o deithio yn yr ardal wledig.




Byddwn yn edrych ar gyfleon o ychwanegu at ein fflyd fechan o gerbydau trydan ynghyd ac uchafu pwyntiau gwefru o fewn ein depo a swyddfeydd ac mae grant o £300k wedi ei dderbyn ar gyfer yr elfen yma.

Rydym hefyd yn edrych ar wahanol gyfleon o fewn y maes di-garboneiddio fydd yn cynnwys defnydd hydrogen o fewn cerbydau trymion.

### Cynnal Priffyrdd

Mae'n bwysig bod trigolion, busnesau ac ymwelwyr i Wynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn cynnal 2,697 cilomedr o Ffyrdd Sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru).

Tra bod y cyflwr ffyrdd yn cadw'n eithaf sefydlog, yn hanesyddol mae cyflwr ffyrdd dosbarth C yn amlygu'r canran uchaf sydd angen sylw. Mae cryn bwysau ar ein cyllidebau i gadw safon ein ffyrdd mewn cyflwr da. Ni lwyddwyd i gyflawni'r rhaglen 'tar and chip' (wynebu ffyrdd) yn ystod 2020/21 oherwydd diffyg eglurder ar reoliadau gweithio'n agos yn ystod y cyfnod clo cyntaf.

Mae effeithiau newid hinsawdd yn fater i ni eu hystyried wrth i fwy o law, mwy o lifogydd a gaeafau caletach effeithio ar wyneb ein ffyrdd. Bydd yr adran yn parhau i fonitro ac ystyried y sefyllfa yma wrth flaenoriaethu rhaglen cynnal a chadw ffyrdd sirol.

Rydym yn y broses hefyd o adolygu ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd er mwyn adlewyrchu'r gofyn newydd o flaenoriaethu ar sail risg.

### Goleuo Stryd

Rydym yn parhau i drwsio goleuadau stryd yn brydlon, ac ar gyfartaledd mae'n cymryd oddeutu dau ddiwrnod i'w trwsio – ffigwr sydd wedi bod yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf.

Fel rhan o raglen "buddsoddi i arbed" y Cyngor mae gennym raglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED sydd wedi bod yn weithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwaith yma'n parhau ac yr ydym yn y flwyddyn olaf o'r prosiect erbyn

hyn ac yn falch o adrodd bod oddeutu 15,000 o lampau wedi eu newid gydag oddeutu 1,000 yn weddill. Yr ydym yn rhagweld y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2022. Rydym yn falch o gadarnhau ein bod ar y trywydd iawn i'w orffen ar amser.

Gwelir y tabl isod sydd yn dangos lleihad sydd wedi bod yn ein allyriadau carbon o ganlyniad i'r rhaglen hon eleni:

| Blwyddyn | Tunelli o $CO_2$ |
|---|---|
| 2014/15 | 3435 |
| 2015/16 | 3002 |
| 2016/17 | 2426 |
| 2017/18 | 1703 |
| 2018/19 | 1208 |
| 2019/20 | 959 |
| 2020/21 | 811 |
| 2021/22 | 567 |

### Clwyf yr Onnen

Crëwyd tîm arbenigol ym mis Medi 2021 i ddelio'n benodol â'r clwyf. Mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys cynnal archwiliadau o goed ynn ar dir a ffyrdd y Cyngor a llunio rhaglen waith i ymdrin â'r rhai sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd. Maent hefyd yn cynnig cyngor i holl adrannau'r Cyngor mewn perthynas a'r clwyf. Rôl bwysig arall yw gosod rhybuddion cyfreithiol ar dirfeddianwyr preifat os yw eu coed yn peri risg diogelwch i ddefnyddwyr tiroedd y Cyngor.

Ers cael eu sefydlu, mae'r tîm wedi cychwyn ailymweld â rhai o'r safleoedd a arolygwyd gan gontractwyr arbenigol yn 2020 i flaenoriaethu pa goed i'w cynnwys ar raglen o waith torri a thocio. Maent hefyd wedi mynd i'r afael a thorri a thocio rhai o'r coed sydd ar y rhaglen.

Ariannwyd y gwaith o ymdrin â'r clefyd yn wreiddiol drwy gyflwyno bidiau blynyddol am arian refeniw i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod y clefyd yn peri risg hirdymor i drigolion Gwynedd ac felly wedi sicrhau bod £100k o arian refeniw ar gael yn flynyddol i ymdrin â'r clefyd o hyn ymlaen.

Blaenoriaethau'r tîm y flwyddyn ariannol 2022/23 fydd parhau gydag archwilio coed ynn heintus ar diroedd a ffyrdd y Cyngor yn ogystal â pharhau i fynd drwy'r rhaglen torri a thocio coed ar sail blaenoriaeth.

### Cynnal a Chadw Pontydd/Strwythurau

Rydym yn cynnal a chadw 631 pont drwy'r sir. Mae 338 pont bwa a 96 pont wedi eu rhestru sydd â gofynion ychwanegol. Yn ogystal, mae gennym 1,618 o waliau cynnal drwy'r sir sydd hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr Adran.

Yr ydym wedi gweld difrod i sawl pont dros y flwyddyn olaf yn dilyn llifogydd a stormydd dros y Gaeaf, roedd Pont Bodfel yn un oedd wedi gweld difrod sylweddol ond erbyn hyn mae'r gwaith o atgyweirio'r bont restredig wedi ei gwblhau. Bu i ni hefyd gyflwyno cais cynllunio i adeiladu pont o'r newydd sydd bellach wedi ei gymeradwyo ar gwaith wedi ei raglennu i gychwyn yr haf 2022.

### Caeuau Chwarae

Rydym yn gwybod bod meysydd chwarae yn bwysig i blant, rhieni a gofalwyr plant ond oherwydd bod offer chwarae'n ddrud ac arian yn hynod brin, mae eu cynnal mewn modd

sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc allu eu mwynhau yn heriol.

Felly, eleni mi wnaethom gysylltu â grwpiau a phartneriaid eraill o fewn y gymuned byddai â diddordeb partneriaethau gyda'r gwasanaeth.

Drwy'r gwaith ymgysylltu yma, cawsom arian grant er mwyn:

- Cyflwyno cylchfan sy'n addas ar gyfer plant mewn cadair olwyn yn maes chwarae Trehwfa, Coed Mawr, Bangor yn ddiweddar trwy arian grant Llywodraeth Cymru
- Cyflwyno ffrâm dringo aml-bwrpas yn Penygroes, Mynydd Llandygai a Bethel cyn diwedd y flwyddyn ariannol mewn partneriaeth â'r grwpiau cymunedol/ cynghorydd lleol.





Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Tai ac Eiddo

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Er mai adran gymharol newydd yw Tai ac Eiddo, mae natur rheng-flaen a chorfforaethol y gwasanaethau sydd gennym yn golygu bod rôl yr Adran yn eang ac yn allweddol wrth wneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd, boed hynny'n ymateb i'r heriau cynyddol yn y maes tai fforddiadwy, ymateb i'r argyfwng digartrefedd sy'n wynebu pob rhan o'r wlad erbyn hyn, neu sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion cenedlaethol.

**Effaith Covid-19 ar waith yr Adran**

Yn ystod 2021/22, parhaodd y rhan fwyaf o staff i weithio gartref ac mae trefniadau a addaswyd er mwyn gwneud i hynny weithio'n effeithiol yn parhau yn weithredol.

Mae rhai Gwasanaethau yn parhau i weld effaith Covid-19 yn fawr, yn bennaf y Gwasanaeth Digartrefedd, sydd bellach yn gweld y nifer uchaf erioed o unigolion a theuluoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref yn sgîl y gofyn statudol newydd i gynnig llety i unrhyw un sy'n ddigartref, beth bynnag fo'u hamgylchiadau. Mae'r Tîm Opsiynau Tai hefyd yn parhau i ddelio â chynnydd sylweddol mewn ymholiadau a cheisiadau i gael mynd ar y gofrestr tai cymdeithasol. Mae ambell wasanaeth, er enghraifft y Gwasanaeth Datblygu Tai ac Eiddo, yn parhau i weld effaith y pandemig ar allu cwmnïau i dendro, costau cynyddol pan dderbynnir tendrau, a chostau nwyddau uwch. Er bod y farchnad wedi sefydlogi i raddau, amcangyfrifir bod rhaid rhagbaratoi am gynnydd o 20-25% mewn amgan-gostau gan gontractwyr ar hyn o bryd.

Dros gyfnod y pandemig, bu'r Unedau Swyddfeydd a Glanhau yn sicrhau bod ein swyddfeydd yn ddiogel er mwyn galluogi rhai o'n staff i barhau i weithio yno os nad oedd yn bosib gweithio o gartref. Mae'r Uned Swyddfeydd bellach yn rhan o gynllunio ar gyfer pan fydd y staff sy'n dymuno dychwelyd i weithio yn y swyddfa yn gallu gwneud hynny'n ddiogel ac yn effeithiol.

**Gwasanaeth Tai**

Yn 2020, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor ei Gynllun Gweithredu Tai, gyda'r nod o:

*"Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd"*

Mae'r cynllun yn anelu i sicrhau bod:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Mae'n amlinellu y 33 o brosiectau penodol a fydd yn arwain at fuddsoddiad o dros £77m yn y maes tai yng Ngwynedd dros y 6 blynedd nesaf.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn bwysig wrth baratoi a braenaru'r tir ar gyfer gosod sail cadarn a chynaliadwy i'r prosiectau, ynghyd â chynnal gwaith ymchwil a sgopio allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir. Oherwydd hynny, nifer cymharol fychan

o allbynnau gweledol sydd i'w gweld eleni a disgwyliwn y bydd nifer o ddatblygiadau yn cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Wedi dweud hynny, mae datblygiadau llety â chefnogaeth i unigolion digartref, megis y Podiau yng Nghaernarfon a Thŷ Adferiad ym Mhorthmadog eisoes wedi cwblhau ac eraill ar y gweill ar hyn o bryd, e.e. 137 Stryd Fawr Bangor a datblygu hen Ysgol Glan Wnion, Dolgellau.



*Podiau i'r digartref yng Nghaernarfon*




*Darlun artist o ddatblygiad 137 Stryd Fawr Bangor*

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r **Grant Tai Cymdeithasol** gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gallu'r Cymdeithasau Tai i adeiladu mwy o dai i bobl leol. Mae ein cynllun Gweithredu Tai yn anelu i ddarparu 500 o dai cymdeithasol newydd dros oes y Cynllun. Bu cwymp yn nifer y tai sydd wedi'u datblygu eleni oherwydd problemau gyda chaffael deunyddiau a chontractwyr, ac oedi gyda chwmnïau cyfleustodau. Disgwyliwn y bydd yr unedau hyn sydd wedi'u hoedi o ganlyniad i'r problemau uchod yn cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Nifer o unedau newydd a ddatblygwyd gyda'r Grant Tai Cymdeithasol dros y 3 blynedd ddiwethaf




**Uned Digartrefedd**

Mae'r Uned yn gweithredu er mwyn atal digartrefedd ond hefyd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, gofynnodd y Llywodraeth i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru sicrhau nad oedd neb yn cysgu allan ar y stryd. Diwygiwyd y rheoliadau cenedlaethol dros nos er mwyn sicrhau bod gan bawb, waeth beth fo'u hamgylchiadau, y gallu i gael cefnogaeth gan eu Hawdurdod Lleol os oeddent yn wynebu digartrefedd. Gofyniad dros dro oedd hwnnw'n wreiddiol ond bellach, mae'r gofyniad hwnnw wedi'i wneud yn gam parhaol. Yn sgil hynny, gwelwyd cynnydd o 47% yn y nifer sydd yn cyflwyno yn ddigartref ers 2018/19, a chynnydd o bron i 20% dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig.

Nifer o bobl y bu i'r Uned Digartrefedd eu helpu yn ystod y flwyddyn









Mae hyn wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein dewisiadau llety dros dro ac ar hyn o bryd nid ydym yn gallu ymdopi gyda'r galw o gryn dipyn. Canlyniad hyn yw gorfod gor-ddefnyddio llety gwely a brecwast, a ariannwyd yn wreiddiol trwy Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er bod y gofyniad i gartrefu pawb sy'n cyflwyno'n ddigartref yn parhau, daeth y cymorth ariannol gan y Llywodraeth i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22, sydd yn sicr o roi straen ychwanegol ar ein hadnoddau. Rydym wedi dod o hyd i ddatrysiad tymor byr i gyfarch peth o'r bwlch ariannol, ond nid oes sicrwydd eto sut byddwn yn ariannu'r costau hyn y tu hwnt i 2023/24. Yn y cyfamser, dros y misoedd nesaf byddwn yn gweithio ar Strategaeth Ailgartrefu Cyflym, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o geisio symud pobl i lety sefydlog cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir. Bydd yn allweddol ein bod yn cydweithio gyda'n partneriaid tai er mwyn gwireddu'r Strategaeth hon.

Yr hyn sy'n amlwg yw nad oes gan y Cyngor ddigon o lety dros dro er mwyn cyfarch y galw ac nid yw parhau i ddefnyddio llety gwely a brecwast yn ateb hirdymor. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai wedi adnabod yr angen am oddeutu 50 o unedau llety a chefnogaeth ac mae sawl prosiect wedi neu ar fin cwblhau (e.e. Tŷ Adferiad, Porthmadog, a'r Podiau yng Nghaernarfon) a sawl prosiect ar waith (megis datblygu eiddo ar Ffordd y Coleg a Stryd Fawr Bangor, ac ailddefnyddio hen adeilad Ysgol Glan Wnion yn Nolgellau).

Mae cynlluniau eraill ym Mhwllheli, Corris a Deiniolen ar waith ac yn debygol o gwblhau eleni.

I ateb y galw cynyddol sydd wedi dod yn sgîl hyn i gyd, rydym wedi ehangu capasiti'r tîm cefnogaeth yn fewnol, sydd wedi helpu i leihau'r baich sydd ar bob gweithiwr achos, er hynny mae'r achosion sydd ar bob swyddog yn parhau yn uwch na'r argymhelliad gan y Llywodraeth. Rydym hefyd wedi gallu cynyddu ein capasiti i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd, sydd wedi arwain at atal 36% o achosion o ddigartrefedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r **Grant Cymorth Tai** bellach wedi codi i £6.8m y flwyddyn yn rhoi cymorth i bobl fregus er mwyn rheoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2021/22 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi dros 2250 o bobl i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd.

**Tîm Opsiynau Tai**

Uned allweddol sydd ar reng-flaen yr Adran ac yn wynebu galw sydd wedi cynyddu'n aruthrol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yw'r Tîm Opsiynau Tai. Mabwysiadwyd polisi gosod lleol newydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, sydd yn rhoi blaenoriaeth i bobl â chysylltiad Gwynedd. Rydym yn falch o ddweud, ar gyfartaledd, bod 97% o osodiadau tai cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd i berson lleol â chysylltiad â Gwynedd (yn union â'r diffiniad yn y Polisi Gosod newydd). Yn ystod 2021/22, derbyniwyd 1400 o geisiadau (18% yn fwy na 2020/21) i fynd ar y Gofrestr Tai Gyffredin, a bu modd i'r tîm brosesu'r ceisiadau yn gyson o dan y targed 10 diwrnod. Er y galw uchel, roedd y nifer o ddyddiau yr bu unigolion ar y rhestr aros ychydig yn llai ar gyfartaledd eleni – 665 diwrnod eleni o gymharu â 741 diwrnod y llynedd. Cydnabyddir bod hyn yn llawer rhy uchel, ac yn adlewyrchu bod diffyg yn nifer y tai cymdeithasol sydd gennym yn y sir.


**Tîm Grantiau a Phrosiectau Tai**

Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r tîm wedi llwyddo i ddod â 173 o dai gwag yn ôl i ddefnydd. Er hynny, mae'r Uned wedi gweld effaith y pandemig ar eu gwaith sydd wedi arwain at leihad yn y prosiectau 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf' a 'Grantiau Tai Gwag' a'r

benthyciadau 'Adnewyddu Tai Gwag' sydd wedi eu gwireddu eleni. Disgwyliwn i'r ffigwr hwn gynyddu dros y flwyddyn ariannol nesaf.




Mae'r Tîm hefyd wedi bod yn parhau i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i gartrefi pobl a phlant anabl gyda 186 o addasiadau wedi eu cyflawni yn ystod 2021/22.




Bu'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymerir i wneud addasiadau i gartrefi unigolion ag anableddau yn 164 diwrnod yn ystod 2021/22. Mae'r addasiadau mwyaf (e.e. estyniadau, grisiau-esgyn ac ati) wedi gwthio'r amser cyfartalog hwn i fyny dros y flwyddyn ddiwethaf, a hynny o ganlyniad i effaith Brexit a'r pandemig ar argaeledd y nwyddau arbenigol, ynghyd â diffyg contractwyr yn tendro am waith. Mae hyn i weld yn dechrau sefydlogi bellach, felly gobeithiwn y bydd yr amser hwn yn gostwng dros y flwyddyn nesaf.

**Uned Gorfodaeth Tai**

Mae'r Uned yn parhau i gynnal arolygon 'boddhad cwsmer', ac mae'r adborth yn bositif iawn bob amser, a'r sgôr wedi bod yn 10/10 bob mis yn y flwyddyn flaenorol gyda chanmoliaeth gyson i'r staff.

**Gwasanaeth Eiddo**

**Tîm Cadwraeth Ynni**

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid hinsawdd, a sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu **Cynllun Rheoli Carbon** ym mis Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith cronnus dros dymor ehangach.

Mae'r ffaith bod rhan helaeth o staff yn gweithio o adref dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil Covid-19 yn debygol o fod wedi cyfrannu'n sylweddol at y lleihad mewn allyriadau carbon ein hadeiladau a hefyd wrth deithio. Mae'r Uned Cadwraeth Ynni yn cydnabod y bydd yr allyriadau yn debygol o gynyddu eleni os bydd mwy o ddefnydd o'n hadeiladau a chyfyngiadau Covid-19 yn llacio.

Sefydlwyd **Fframwaith Ynni** mewn partneriaeth â Beond rhwng Ebrill 2020-2024. Ar hyn o bryd mae 16 cyflenwr ar ein Fframwaith, ac mae'r trefniadau sy'n rhan ohono, sef 'reverse auction technology' yn unigryw yn y maes ynni. Mae nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau ar draws Prydain yn defnyddio'r Fframwaith, gan gynnwys: Cyngor Portsmouth; Cyngor Bwrdeistref Reigate a Banstead; Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a Chyngor Buckinghamshire. Yn sgil y trefniant hwn, mae'r Cyngor yn ennill enw da yn y maes, ac yn amcangyfrif y gwireddir arbedion o £932k

erbyn Mawrth 2024 ar ein costau nwy. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cynhyrchu incwm o'r trefniant, sef £24,926.15 yn 2020, a £18,800.13 yn 2021. Mae'r incwm hwn yn ei dro yn ein cynorthwyo i fuddsoddi ymhellach yn ein gwasanaethau, er enghraifft, yn ddiweddar bu'r cyllid yn help i ni gynnal astudiaeth dichonoldeb gwres Tanygrisiau.

**Uned Diogelwch Eiddo**

Mae'r cyfrifoldeb o sicrhau bod ein holl ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ac ati yn ddiogel i'w defnyddio gan drigolion y sir yn gorffwys gyda'r Uned**.** Er bod sgil-effeithiau Covid-19 yn parhau yn amlwg, mae'r uned yn parhau i gynnal archwiliadau diogelwch yn ein hadeiladau, megis arolygon cyflwr asbestos ac adolygiadau risg tân.

**Uned Cynnal a Chadw**

Mae'r amser a gymera'r Uned i gwblhau pob darn gwaith wedi gweld cynnydd oddi ar yr amseroedd cyfartalog y llynedd (2020/21 – 8.3 diwrnod, 2021/22 – 10.8 diwrnod), a hynny'n bennaf oherwydd na châi staff ymweld â rhai safleoedd yn sgil Covid-19. Mae newid yn y ffordd o gofnodi hefyd wedi cael effaith bychan ar y data ond buddsoddiad yw'r newid hwn ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn gwella'r ffordd yr ydym yn adrodd ein data yn y pen draw. Gwyddwn, trwy'r adborth a dderbynnir drwy ein harolygon boddhad cwsmer, bod y gwasanaeth a roddwn yn gyson dda gyda phob un o'r cwsmeriaid a holwyd yn fodlon iawn gyda'r Gwasanaeth, a thros eu hanner yn rhoi marciau llawn. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ganmoliaeth gyson a gaiff y gweithlu cynnal a chadw mewnol. Bu modd ymestyn y tîm hwnnw dros y flwyddyn a aeth heibio a bellach mae gennym drydanwyr a swyddogion profi ansawdd dŵr wedi eu hychwanegu at y seiri, plymwyr a swyddogion gosod a thrwsio offer Teleofal.

**Tîm Difa Pla**

Mae bodlonrwydd cwsmer y Tîm wedi bod yn uchel iawn drwy'r gydol 2021/22 hefyd gyda chanmoliaeth uchel am waith prydlon ac effeithiol. Bu modd iddynt barhau i gynnig y gwasanaeth allweddol hwn hyd yn oed dros y cyfnodau clo. Rydym yn casglu adborth cwsmeriaid yn fisol a dros y flwyddyn ddiwethaf roedd 90% o'r cwsmeriaid a holwyd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan y Tîm. Yn gyffredinol, materion gyda biliau a thalu am y gwasanaeth oedd y rheswm pan nad oedd cwsmeriaid yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth.

**Uned Glanhau a Swyddfeydd**

Mae staff yr Uned wedi bod yn brysur yn sicrhau bod ein swyddfeydd yn ddiogel i staff allweddol fedru parhau i'w mynychu. Maent wedi cyflwyno llu o drefniadau Iechyd a Diogelwch newydd dros nos er mwyn sicrhau lles pawb sydd wedi gorfod parhau i fynd i'w gweithle.

Rydym hefyd yn mesur boddhad cwsmer ar gyfer defnyddwyr ein swyddfeydd a'r Uned Glanhau. Mae'r canlyniadau hyd yma yn bositif iawn gyda 100% o staff yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Swyddfeydd, a 100% o gwsmeriaid yr Uned Glanhau yn rhoi 9/10 neu uwch am y gwasanaeth.

**Uned Stadau**

Mae'r Uned yn parhau i dderbyn marciau llawn ar gyfer y gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid ond, mae trafferthion o ran recriwtio yn y maes yn parhau. Mae'r uned wedi dod yn gyfrifol am unedau diwydiannol a chanolfannau menter y Cyngor gan edrych yn barhaus ar effeithlonrwydd y ddarpariaeth, ac eisoes wedi cyflawni arbedion heb effeithio ar ansawdd y Gwasanaeth a gynigir

i denantiaid. Mae'r Uned hon bellach yn chwarae rhan allweddol yn amcanion ein Cynllun Gweithredu Tai, trwy gynorthwyo gyda phryniannau tir ac eiddo, syrfeo eiddo a chynnig cyngor ar brydlesi ac eiddo'r Cyngor.

**Gwasanaeth Datblygu Tai ac Eiddo**

Yn ystod 2021/22, mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i barhau i yrru ein prosiectau cyfalaf yn eu blaenau er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn sgîl Covid-19 ac ansefydlogrwydd prisiau yn y farchnad adeiladu.

O safbwynt prosiectau tai, mae gwaith datblygu hen adeilad Ysgol Glan Wnion, Dolgellau, yn unedau i gefnogi'r digartref gyda'u tenantiaeth wedi dechrau gyda'r contractwyr ar y safle ar hyn o bryd. Mae gwaith adnewyddu ac uwchraddio Hostel Noddfa bron iawn â gorffen, ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar ein cynllun adeiladu tai cyntaf yng Nghoed Mawr, Bangor. Ers cwblhau adeilad newydd Ysgol y Garnedd, Bangor, ym mis Hydref 2020, mae 8 prosiect arall wedi cwblhau, megis cwblhau estyniad i adeilad Ysgol Glancegin, Bangor, gwaith ar gyflwr ac addasrwydd ysgolion Bethel a Glan y Môr, a gwaith adnewyddu cartrefi preswyl Hafod Mawddach, Cefn Rodyn a Than y Marian. Mae gwaith adeiladu estyniad ac adnewyddu Ysgol y Faenol hefyd yn parhau. Mae 100% o'r prosiectau hyn yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig ar hyn o bryd.



*Datblygiad newydd Glan Wnion*

**Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Amgylchedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

**Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y prif feysydd canlynol:**

- **Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu**
- **Gwarchod y Cyhoedd**
- **Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**

Yn ystod 2021/22, mae argyfwng Covid-19 wedi parhau i gael effaith sylweddol ar wasanaethau'r adran yn sgil cyfrifoldebau gorfodi'r rheoliadau a chynghori, yn ogystal chyfrannu tuag reolaeth cyrchfannau ar draws i sir o safbwynt parcio a thrafnidiaeth. Bu'r effaith fwyaf ar ein gwasanaethau **Gwarchod y Cyhoedd**, sydd wedi parhau gyda gwaith tra gwahanol i'r arfer, ond hefyd yn ystod y cyfnod yma yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau dydd i ddydd arferol. Mae'r gwasanaeth newydd sydd wedi ei sefydlu yn ystod cychwyn y pandemig, sef y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu,** wedi parhau i weithredu ond nid oes bwriad gan Llywodraeth Cymru i gyllido'r Gwasanaeth ar ôl Mehefin 2022.

Bydd yr her o adfer yr Adran ag ymdrin ac ôl-groniad gwaith mewn rhai Gwasanaethau yn wynebu'r Adran ar gyfer 2022/23, ond mae'r Adran wedi ac yn parhau i roi cynlluniau mewn lle ar gyfer cyfarch hynny yn ystod 2022/23 a thu hwnt.

Nodir hefyd fod Gwasanaethau'r Adran wedi adolygu'r mesuryddion perfformiad oedd mewn lle ar gyfer 2021/22, er mwyn sicrhau ein bod yn mesur beth sydd yn bwysig ond hefyd i gyd-fynd a'r dulliau adrodd corfforaethol fydd yn weithredol yn 2022/23.

**Gwarchod y Cyhoedd**

**Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch**

Yn ystod 2021/22 roedd y Gwasanaeth yn parhau i gyfrannu tuag at yr ymdrechion i osgoi ymlediad Covid-19, ond mae'r Cynghorau yng Nghymru erbyn hyn wedi cytuno gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar weithredu **Cynllun Adfer - Asiantaeth Safonau Bwyd**, wrth i'r gofyn ar wasanaethau gwarchod y cyhoedd mewn perthynas â gwaith Covid-19 leihau dros amser. Mae'r cynllun yn gofyn i archwiliadau diogelwch bwyd (archwiliadau hylendid bwyd a safonau bwyd) ddilyn trefn lle fo rhai busnesau newydd a busnesau risg uchel yn derbyn blaenoriaeth yn y lle cyntaf.

Yn unol â'r cynllun dylid fod cynghorau wedi cynnal archwiliad o bob eiddo categori hylendid bwyd risg uchel erbyn diwedd Mawrth 2022, bob eiddo categorïau risg eraill erbyn diwedd Mehefin 2022 ac eraill erbyn diwedd Medi 2022. Mae'r Gwasanaeth wedi ail gychwyn archwiliadau rhaglenedig ers Medi 2021, ac mae pob eiddo categori risgiau uchel (Hylendid a Safonau Bwyd) heblaw 1 wedi derbyn archwiliad. Er hyn mae ôl-groniad sylweddol o archwiliadau heb eu cyflawni yn 2021/22 (hyn yn sgil y ffaith fod y Gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar waith Covid-19) – gyda 410 archwiliad wedi eu cyflawni a 1605 heb eu cyflawni o ran hylendid bwyd, a 34 wedi eu cyflawni a 910 heb eu cyflawni o ran safonau bwyd. Bydd yr archwiliadau yma nawr yn rhan o raglen gwaith 2022-23.

**Gwasanaeth Safonau Masnach**

Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd archwiliadau o 55 allan o 57 o'r busnesau risg uchel oedd wedi eu rhaglennu gan y Gwasanaeth,

gyda threfniadau eisoes mewn lle i gynnal y ddau archwiliad sydd yn weddill yn fuan yn 2022/23. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gydlynu'n rhanbarthol y gwaith o reoleiddio sefydliadau bwyd anifeiliaid. Fe gytunwyd gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rhan o gytundeb blynyddol, y byddai Gwynedd yn anelu i gynnal arolygiad o 171 sefydliad bwyd anifeiliaid fel rhan o waith rhaglenedig yn ystod 2021/22. Mae'r Gwasanaeth wedi mynd ymhellach a wedi llwyddo i gwblhau 179 archwiliad.

**Gwasanaeth Trwyddedu a Rheolaeth Llygredd**

Yn ystod 2021/22 bu'r Gwasanaeth hefyd yn cyfrannu tuag reoli'r ymlediad o Covid-19, drwy orfodi a chynghori ynglŷn â'r rheoliadau a'r canllawiau gydag eiddo trwyddedig yn bennaf. Golygai hyn fod y gwaith rhaglenedig o archwiliadau o fusnesau gyda phrosesau llygredd awyr wedi llithro yn ogystal â'r rhaglen o archwilio cyflenwadau dŵr preifat, a bydd hyn nawr yn cael ei ail raglennu ar gyfer 2022/23.

Bu cyfnod o salwch hir dymor yn Uned Drwyddedu'r Gwasanaeth yn ystod yn 2021/22 gyda hyn, ynghyd a'r cynnydd mewn ceisiadau trwyddedu yn sgil lot o geisiadau adnewyddu'n cael eu cyflwyno ar un pryd yn effeithio ar yr amser oedd yn cymryd i benderfynu ceisiadau gyda'r cyfartaledd misol yn amrywio o 7 diwrnod i hyd at 42 o ddiwrnodau. Mae'r Adran wedi bod yn edrych ar gyfleoedd i gryfhau gwydnwch yr Uned Drwyddedu gyda hynny'n cynnwys ymestyn y cyfleoedd i geisiadau gael eu cyflwyno'r electroneg ac edrych ar ddyletswyddau'r swyddi yn yr Uned.

**Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu**

Sefydlwyd y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu ym mis Mai 2020, a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020. Diben y gwasanaeth hwn yw arwain y sir allan o'r pandemig drwy wella arolygiaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau a chefnogi pobl i hunanynysu lle bo angen. Mae'r gwasanaeth wedi cysylltu â chynghori dros 31,000 o achosion positif, a bron i 56,000 o gysylltiadau achosion positif dros y cyfnod yma.

Mae'r flwyddyn 2021/22 wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r gwasanaeth, ac mae gwaith caled, ymroddiad a phroffesiynoldeb y tîm wedi bod yn eithriadol. Bu'n arbennig o anodd a heriol tua diwedd 2021, yn enwedig gyda'r niferoedd uchaf a wynebodd y sir ers dechrau'r pandemig, ac ansicrwydd ynghylch pa lwybr y byddai'r firws yn ei ddilyn. Ond, gallwn fod yn hyderus bod gennym system sydd wedi gweithio, gyda phobl a sefydliadau wedi cydweithio'n wych i gyflawni un nod. Mae Profi, Olrhain a Diogelu wedi chwarae rhan hanfodol wrth helpu i leihau cyfraddau achosion. Mae'r tîm wedi gwneud gwaith aruthrol yn helpu i dorri cadwyni trosglwyddo a chefnogi pobl sy'n wynebu'r her o orfod ynysu, ac yn parhau i wneud gwaith anhygoel i helpu i ddiogelu dinasyddion Gwynedd. Mae gwydnwch y tîm i ganllawiau newidiol ar ddechrau 2022 wedi bod yn rhyfeddol, ac nid yw wedi bod yn hawdd, ac ar brydiau mae wedi bod yn ddi-baid ac yn flinedig dros ben.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymestyn y cyllid a ddarperir i dimau olrhain cysylltiadau Profi, Olrhain a Diogelu tan fis Mehefin 2022. Mae hyn yn dilyn y newidiadau mawr i'r canllawiau, gyda busnesau a gwasanaethau yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd, a gyda chyhoeddiad cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer byw gyda'r Covid-19 yn ddiogel: **Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel.** Felly, mae'n anochel bod gwaith olrhain wedi tawelu erbyn hyn, ac mae nifer o staff bellach wedi gadael y gwasanaeth i ddychwelyd i'w swyddi parhaol neu ddilyn eu gyrfaoedd, gyda 58 o'r 87 aelod staff sydd wedi bod yn gweithio i'r Gwasanaeth Olrhain ers ei sefydlu, dal ar ôl yn y gwasanaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio**

Mae'r Gwasanaeth yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), ac yn 2021/22 roedd y Gwasanaeth yn parhau i hwyluso datblygiadau tai i gwrdd ag anghenion ein cymunedau, gyda 65% (135 uned) a ganiatawyd yn dai fforddiadwy.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn mesur lefel bodlonrwydd ein cwsmeriaid. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen gennym mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd, yn benodol o amgylch trefniadau cysylltu gyda'r Gwasanaeth ac anawsterau cyfathrebu.

Yn ystod 2021/22 derbyniwyd 1222 o geisiadau cynllunio newydd a phenderfynwyd 1160. Yn ystod y cyfnod yma cymrodd geisiadau cynllunio 103 diwrnod ar gyfartaledd i'w penderfynu o'i gymharu â 89 diwrnod yn 2020/21 a 62 diwrnod yn 2019/20. Mae hyn yn deillio yn bennaf o'r cyfnod clo cyntaf, lle na fu Pwyllgor Cynllunio am 5 mis, prosesau gwaith yn cymryd hirach, ymateb gan ymgynghorai statudol yn cymryd yn hirach, a sawl achos o salwch hirdymor o fewn y Gwasanaeth. Yn 2021/22, mae'r gwaith o adfer wedi canolbwyntio'n bennaf ar glirio'r ôl-groniad o waith a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, ond mae'r nifer o geisiadau cynllunio newydd yn parhau i fod yn uchel.
Mae gan y gwasanaeth rôl i ymchwilio a chymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb dderbyn caniatâd cynllunio. Yn ystod 2021/22 derbyniwyd 298 o achosion newydd ac mae 159 o achosion wedi cael eu cau, gyda sawl achos cymhleth yn cymryd amser sylweddol i'w harchwilio. Mae ôl-groniad sylweddol o 686 o achosion yn parhau i fod yn agored a hyn yn bennaf oherwydd yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o ddelio gyda cheisiadau cynllunio yn bennaf.

Mae'r Gwasanaeth wedi colli staff profiadol yn ystod y flwyddyn ac mae'r Adran wedi bod yn recriwtio a gyda chynlluniau mewn lle i geisio cryfhau gwydnwch y Gwasanaeth ar gyfer 2022.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd gyda dyletswyddau statudol a rôl mewn materion Cadwraeth a Chynllunio Mwynau a Gwastraff, ac mae'r gwasanaeth wedi cyfrannu yn sylweddol i'r bid llwyddiannus i ddynodi Safle Treftadaeth y Byd (Llechi) ac yn parhau i gefnogi'r gwaith sy'n deillio o'r dynodiad. Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyhoeddi canllaw dylunio er mwyn cynghori a chodi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion a phwysigrwydd o ddylunio da o fewn ardal y dynodiad.

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd**

Buom yn gweithio ar Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn ystod 2021/22 a cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021. Casgliad yr adroddiad oedd bod y dangosyddion ar y cyfan yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, a lle nad oedd targedau yn cael eu cwrdd roedd hyn allan o reolaeth y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd. Er bod canfyddiadau'r AMB yn nodi ar y cyfan fod polisïau CDLl ar y Cyd yn perfformio yn effeithiol, eglurwyd bod newidiadau arwyddocaol wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun, a bod angen y newidiadau gael eu hystyried fel rhan o adolygiad statudol o'r Cynllun gychwynnodd ym mis Gorffennaf 2021.

Mae'r Gwasanaeth wedi paratoi Adroddiad Adolygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a casgliad yr Adroddiad oedd bod angen gwneud adolygiad llawn o'r CDLl ar y Cyd sydd gyfystyr â Chynllun Newydd. Mae'r Adroddiad Adolygu wedi bod yn destun Ymgynghoriad cyhoeddus ac ym mis Mawrth

2022 cymeradwywyd yr Adroddiad gan Gynghorau Llawn Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi paratoi a mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus ar Ganllaw Cynllunio Atodol yn dilyn dynodiad llwyddiannus y Safle Treftadaeth Byd (Llechi), a bwriedir adrodd ar fabwysiadu'r Canllaw yn ystod 2022/23.

Mae'r Gwasanaeth wedi arwain ar ymateb i ymgynghoriad diweddar **Llywodraeth Cymru - Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr** a bydd y Gwasanaeth yn parhau i arwain yn y maes yma fel mae'r gwaith yn datblygu, mewn cydweithrediad gydag Adrannau eraill y Cyngor. Mae'r gwaith yma yn cyfrannu at flaenoriaeth gwella'r Cyngor sydd yn ymwneud a mynediad at gartrefi addas. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydweithio'n rhanbarthol er mwyn ceisio dylanwadu ar y trefniadau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol, sydd yn un o ddyletswyddau statudol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.

**Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu**

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid i ddarparu adeiladau diogel i'n cymunedau sy'n bodloni safonau adeiladu priodol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ymdrin â cheisiadau rhifo strydoedd Eiddo, chwiliadau eiddo a hysbysiadau dymchwel.

Yn ystod 2021/22 roedd y Gwasanaeth yn gwneud penderfyniadau ar dros 90% o geisiadau rheolaeth adeiladu o fewn y cyfnod statudol, ac ar gyfartaledd yn ymateb i hysbysiadau o adeiladau peryglus a sicrhau ei fod wedi ei ddiogelu o fewn diwrnod i dderbyn yr hysbysiad.

Mae'r Gwasanaeth yn ei chael hi'n heriol iawn o ran cadw a recriwtio swyddogion Rheolaeth Adeiladu cymwysedig gan fod yn y Gwasanaeth yn un masnachol sydd yn cystadlu gyda'r sector breifat am waith. Dros y 12 mis diwethaf mae dau swyddog Rheolaeth Adeiladu Siartredig cymwys wedi symud i'r sector preifat, ac mae'r Gwasanaeth wedi methu recriwtio swyddogion yn eu lle ac wedi cyflogi ymgynghorydd allanol am gyfnod dros dro.

Yn dilyn adolygiad o'r Gwasanaeth a sut mae wedi newid dros y blynyddoedd yr hyn sydd yn cael ei amlygu yw bod y flaenoriaeth wedi bod ar y gwaith sydd yn talu ffioedd, ac yn sgil hynny mae'r adnodd ar gyfer gwaith sydd ddim yn talu ffi, fel gwaith gorfodaeth, wedi ei dorri, ac ein targed incwm wedi ei godi yn sgil hynny.  Yn sgil yr adolygiad o'r Gwasanaeth mae cynlluniau gan yr Adran ar gyfer 2022/23 i weithredu ar adolygiad o'r strwythur gan gydnabod gofynion fydd yn deillio o ddeddfwriaeth newydd o ran cymwyseddau, ac i gael pecyn hysbysebu swyddi sydd yn fwy deniadol fel "cynnig". Bwriedir hefyd treialu'r defnydd o arian yn deillio o danwariant yr Adran i gyfrannu tuag at y gwaith sydd ddim yn denu ffioedd – sef y gwaith gorfodaeth yn bennaf.

**Gwasanaeth Cefn Gwlad**

Gyda chyfrifoldebau statudol am lwybrau cyhoeddus y Cyngor mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi parhau yn ystod 2021/22 ac aneli'r i gwblhau'r gwaith yma yn 2022/23 drwy fabwysiadu'r Cynllun. Yn yr un modd, mae'r gwaith ar y Cynllun Adfer Byd Natur wedi cychwyn yn 2021/22 gyda'r bwriad hefyd o gwblhau a mabwysiadu'r Cynllun yn ystod 2022/23.  Bydd y Cynlluniau yma i raddau helaeth yn llywio gwaith y Gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r adolygiad Ffordd Gwynedd wedi llithro yn sgil y pandemig ond bydd y gwaith yn parhau, gan gynnwys datblygu mesuryddion perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth.

Mae'r gwahanol raglenni gwaith a phrosiectau sydd yn cael eu hariannu gan grantiau wedi cynyddu'n sylweddol ers 2020, a hynny wedi golygu rhagor o bwysau ar staff presennol. Bwriedir cynyddu capasiti i alluogi'r Gwasanaeth i ymateb yn fwy effeithlon i'r cyfleoedd.

Yn ystod 2022/23 bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn adeiladu ar waith y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chefnogi cymunedau i gymryd gofal am eu hamgylchedd leol ynghyd â darparu cyfleoedd mynediad at natur a chryfhau'r ddarpariaeth Teithio Lesol.

Mae'r cyfnod 2021/22 wedi gweld twf yn y nifer y ceisiadau cynllunio sydd angen sylw gan y tîm Bioamrywiaeth yn ogystal ag ymholiadau am faterion coed. Mae camau wedi eu cymryd i ddelio gyda'r llwyth gwaith gan gynnwys penodi staff, ond mae wedi profi'n anodd denu ymgeiswyr cymwys.

Bydd y Gwasanaeth yn parhau i gydweithio â'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol ar yr ymateb i glwyf yr onnen a rhoi'r mewnbwn i raglenni gwaith Defnydd Tir sy'n codi o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (sydd yn flaenoriaeth gwella mae'r Adran yn arwain arno).

**Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd**

Mae'r sector **trafnidiaeth gyhoeddus** yng Ngwynedd wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwasanaeth wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau mawr o ran y darparwyr oedd ar gael. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth wedi dechrau ar y gwaith o gynnal arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Trafnidiaeth i Gymru er mwyn cynllunio rhwydwaith fydd yn rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd. Bydd hefyd yn ystyried dulliau arloesol o gynnig rhwydwaith cludiant cyhoeddus e.e. bws fflecsi neu wasanaeth ar alw mewn rhai ardaloedd.  Rhagwelir y bydd rhai o'r gwasanaethau yma yn cychwyn yn ystod yr Haf 2022.

O ganlyniad i swyddogion yn arallgyfeirio i ddyletswyddau gwahanol o fewn yr adran nid yw wedi bod yn bosib i ni gasglu'r data arferol sy'n ymwneud â phrydlondeb gwasanaethau bysiau. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector cludiant er mwyn cynnal gwasanaethau sy'n ateb anghenion Pobl Gwynedd.

**Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd**

Ffurfiwyd Grŵp Tasg Parcio ddiwedd 2019 er mwyn rhoi sylw i faterion parcio amrywiol a chyflwyno datrysiadau posibl i gyfarch bwlch ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a gwella'r trefniadau parcio presennol yn yr un modd. Cyflwynwyd adroddiad i Aelodau'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 a derbyniwyd yr argymhellion, oedd yn cynnwys mabwysiadu strwythur ffioedd parcio newydd, cryfhau'r tîm parcio a chadw cynlluniau bathodyn glas a pharcio i breswylwyr eu cymeradwyo. Mae'r argymhellion oedd yn deillio o'r adolygiad bellach wedi'u gweithredu.

Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi uchafu'r problemau megis prinder llecynnau parcio ledled y sir, o ganlyniad i bobl yn aros yn y DU am wyliau yn hytrach na mentro dramor ac mae hyn wedi amlygu'r angen am bwerau ychwanegol i ymdrin â cherbydau sy'n creu rhwystr a gwell rheolaeth o gartrefi modur.

Yn sgil hyn, bu i'r Cyngor fwrw ymlaen i gynnal gwaith ymchwil oedd yn cynnwys ymgynghori gyda gweithredwyr safleoedd carafanau yng Ngwynedd, y sector cartrefi modur yn ogystal â chymunedau ar draws y Sir.  Y seiliedig ar y gwaith ymchwil, cytunodd y Cabinet argymhellion oedd yn cynnwys cynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd,

er darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos am ffi, fydd yn mynd law yn llaw gyda mesurau rheoli / gorfodaeth. Yr amserlen ar hyn o bryd (yn ddibynnol ar ganiatâd cynllunio) yw i'r peilot cyntaf fod yn weithredol cyn diwedd Mawrth 2023. Drwy'r prosiect yma mae'r Adran yn cyfrannu at flaenoriaeth gwella twristiaeth y Cyngor sydd yn ymwneud a llunio cynllun twristiaeth gynaliadwy.

Mewn ymateb i fodurwyr sydd yn parcio'n anghyfreithlon a diystyriol drwy greu peryglon i ddefnyddwyr eraill o'r briffordd, yn enwedig yn ardal Pen y Pass sydd wedi ei lywodraethu gan gyfyngiadau parcio ar ffurf clirffordd, mabwysiadodd y Cyngor bwerau i symud cerbydau sy'n achosi rhwystr. Golygai hyn nad ydym yn lwyr ddibynnol ar Heddlu Gogledd Cymru i ymdrin â cherbydau sydd yn achosi peryglon i'r cyhoedd. Cafodd y pwerau hyn eu cymeradwyo ym mis Medi 2021.

**Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau**

Mae'r Gwasanaeth yn ymdrin â materion sydd yn ymwneud ag unrhyw newid i'r isadeiledd trafnidiaeth. Y prif amcan yw sicrhau bod y briffordd yn ddiogel i'r holl ddefnyddwyr o'r ffordd a bod bosib defnyddio'r rhwydwaith yn ddirwystr ac mewn modd cynaliadwy. Rydym yn cwrdd â'r amcan yma drwy gyflawni'r agweddau canlynol:

- Ymdrin â cheisiadau i gyflwyno gwaharddiadau parcio
- Cyflwyno sylwadau fel ymgynghorai statudol ar geisiadau cynllunio
- Ymdrin ag ymholiadau ynglŷn â goryrru
- Gwella ac ehangu'r rhwydwaith cerdded a beicio, hyrwyddo rhwydwaith cerdded a beicio, a chyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill o dan y Ddeddf Teithio Lesol 2013
- Arwain ar brosiectau i wella diogelwch y ffyrdd, gwelliannau o flaen ysgolion, gwella'r isadeiledd trafnidiaeth gyda phwyslais ar gynlluniau lleihau ôl troed carbon
- Sicrhau bod ffyrdd mewn stadau newydd yn cael eu hadeiladu i'r safonau priodol fel bod modd eu mabwysiadu
- Gweinyddu data'r briffordd gan sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

Rydym bob amser yn edrych am gyfleoedd i ariannu cynlluniau trafnidiaeth o ffynonellau allanol er lles cymunedau'r ardal.

Bu 2021/22 yn gyfnod heriol wrth i'r Gwasanaeth golli aelodau staff profiadol, ynghyd a chael problemau recriwtio swyddogion cymwys.

**Gwasanaeth Busnes (Cyllid)**
**Rheolaeth Categori**

Pwrpas y Gwasanaeth hwn yw cydweithio a chefnogi gwasanaethau'r Cyngor i ddylunio a gweithredu strategaeth gaffael fesul categori gyda'r nod o uchafu gwerth am arian ac annog cadw buddion lleol. Yn ystod 2021/22 gwelsom ostyngiadau rhagamcan yn y gyllideb o £395k. Yn ogystal â buddion ychwanegol ar gyfer pob categori yr ydym wedi'i adolygu hyd yma. Mae'r tîm yn parhau i ymdrechu i sicrhau'r gwerth gorau am arian gyda phwyslais arbennig ar gaffael cynaliadwy sy'n ategu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ddiweddaraf y Cyngor.

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad a cydweithio gyda Busnes Cymru sy'n cynnig cymorth i gwmnïau lleol. Yn anffodus oherwydd nad oedd farchnadoedd lleol o fewn y categorïau a gafodd ei adolygu yn 21/22, mae ein hymdrechion i uchafu cadw budd yn lleol wedi ar y cyfan bod yn aflwyddiannus. Serch hyn rydym wedi bod yn rhan o dreialu'r teclyn TOMs, sydd yn ymwneud a mesur gwerth cymdeithasol, gyda'r gobaith o sicrhau'r buddion cymdeithasol mwyaf posibl a'r gobaith yw fydd y peilot yn dreifio cwmnïau tu allan o'r sir i gynnig buddion lleol.

**Gwasanaeth Busnes (Gweinyddol)**

**Pridiannau Tir**

Mae'r Uned Pridiannau Tir Lleol Gwynedd yn darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn Gwynedd. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau ac ymholiadau sydd wedi, ac yn parhau i'n cyrraedd. Yn sgil hyn, mae amser prosesu ceisiadau wedi cynyddu, ar gyfartaledd yn cymryd mis i'w prosesu.

Rydym yn ystyried sawl opsiwn er mwyn cael rheolaeth well o'r sefyllfa, ond rhaid cydnabod nad oes datrysiad hawdd cyflym yn bosib. Mae trosglwyddo i system gyfrifiadurol genedlaethol yn ei hun yn mynd i ddod ac amser prosesu ceisiadau i lawr yn sylweddol, gyda'r targed presennol i gael y project yn weithredol, erbyn diwedd Tachwedd 2022. Rydym wedi penodi staff achlysurol i gynorthwyo gyda'r gwaith project, er mwyn rhyddhau ein staff profiadol i weithredu drwy'r ceisiadau chwiliadau.


Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peirianyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2021/22, tanwario oedd yr adran o (£109k). £6.39 miliwn oedd y targed incwm terfynol a osodwyd ar eu cyfer yn 2021/22.




coch=tanwariant glas=gorwariant

Mae'r perfformiad cyllidol wedi bod yn bosib drwy gwblhau'r gwaith dylunio ac adeiladu drwy gyfnod y pandemig, a pharhau i weithio ar gynlluniau drwy Ogledd Cymru, Canolbarth Cymru a Phenfro.

Yn allweddol i hyn oll roedd parodrwydd staff i weithio yn hyblyg gan ymdopi ac addasu i'r sefyllfa. Rydym wedi gwneud addasiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn i'r adran a byddwn yn parhau â rhai o'r trefniadau hyn i'r dyfodol.

**Perfformiad ar faes Dŵr a Llifogydd**

Mae'r gwasanaeth technegol yn cyflawni gwaith dylunio ac adeiladu cynlluniau i leihau risgiau llifogydd mewndirol ac ar hyd yr arfordir yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth yn denu arian grant i'w gwireddu.



Mae'r rhain i gyd yn gymunedau sydd un ai wedi dioddef yn hanesyddol, neu ble mae tystiolaeth gref fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu risg yn y dyfodol. Yn y flwyddyn 2020/21 mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar dros 20 o brosiectau i leihau risg llifogydd i gannoedd o bobl.

Mae'r prosiectau atal llifogydd yn cynnwys (noder nifer adeiladau sydd yn elwa o leihad yn risgiau llifogydd):

- Viaduct Gardens, Abermaw (**33**) – Dechrau ar y gwaith dylunio manwl ar gyfer symud ymlaen gyda'r gwaith adeiladu yn 2022/23.
- Prom Gogleddol, Abermaw (**712**) - Cadarnhau'r opsiwn dewisol a chwblhau ar achos busnes amlinellol. Trafod y camau nesaf o ran y dylunio manwl gyda Llywodraeth Cymru.
- Bae Hirael, Bangor (**82**) – Cwblhau ar achos busnes amlinellol a chadarnhau ar opsiwn dewisol, bwrw ymlaen gyda'r dylunio manwl. Dechrau'r gwaith adeiladu yn 2022/23.
- Porthdinllaen (**18**) – Paratoi cynlluniau manwl ac achos busnes llawn, ar gyfer symud ymlaen i'r gwaith adeiladu yn 2022/23.
- Cei Aberdyfi (**11**) - Cwblhau'r gwaith dylunio manwl achos busnes llawn ac ariannu. Symud ymlaen gyda'r gwaith adeiladu yn 2022/23.
- Afon Gwyrfai (**54**) – Paratoi dyluniad manwl ag achos busnes llawn ar gyfer cynlluniau unigol o fewn y dalgylch.

- Dalgylch Ogwen (**95**) - paratoi cais busnes manwl i wneud gwelliannau ar hyd y dalgylch sydd am reoli a lleihau risg llifogydd.

**Monitro Asedau**

Mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau archwiliadau asedau arfordirol a draenio tir y Sir. Mae'r gwasanaeth gyda 264 o asedau, sydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, ble mai 1 yw'r sgôr gorau. Mae'r gwasanaeth yn anelu at sgôr o 3 neu well, ac mae 219 o asedau yn cyrraedd y sgôr yma. O'r 45 sydd ddim yn cyrraedd y targed, mae'r adran a chynlluniau ar y gweill i godi lefel cyflwr yr asedau yma.

Mae'r adran hefyd yn ceisio gwneud oll asedau arfordirol yn fwy saff i'r cyhoedd.

**Ymchwiliadau Llifogydd**

Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â lefel risg llifogydd o fewn y Sir, ac wedi datblygu mapiau a chronfeydd data penodol ar gyfer y pwrpas yma. Yn ystod 2021/22 cofnodwyd fod 45 o eiddo preswyl a 2 eiddo masnachol wedi dioddef o lifogydd mewnol, sef dŵr yn dod i mewn i'r adeilad.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ac erydiad arfordirol

**Rheoleiddio**

Yn ystod 2021/22 rydym wedi prosesu 24 o geisiadau i weithio mewn cyrsiau dŵr cyffredin dros y sir. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gynigir yn golygu fod pob cais sydd wedi ei dderbyn o fewn y cyfnod hwn wedi bod yn dderbyniol, gydag ymateb wedi ei ddarparu o fewn 22 diwrnod ar gyfartaledd, lle caniateir hyd at 2 fis.

Pwrpas y broses caniatâd gweithio mewn cyrsiau dŵr ydi rheoli gweithgareddau penodol a allai gael effaith andwyol ar lifogydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi bod yn trafod gofynion yr is-ddeddfau draenio tir newydd gydag amryw o ddatblygwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r oblygiadau ar ddatblygiadau i'r dyfodol. Bydd y broses codi ymwybyddiaeth yma yn parhau.

Yn ystod 2021 rydym wedi rhoi sylwadau ar dros 350 cais cynllunio, i sicrhau fod bygythiad llifogydd ac erydiad arfordirol i ddatblygiadau newydd yn amlwg a derbyniol a bod manylion y cais yn cydymffurfio a pholisïau cenedlaethol.

**SDC (Systemau Draenio Cynaliadwy)**

**Nifer Ceisiadau**

Fel roeddem yn ei ddisgwyl, mae nifer ceisiadau wedi cynyddu'r flwyddyn yma, o 58 i 91 cais sy'n gynnydd o 57%, ac felly rydym wedi cyflogi aelod arall o staff fel adnodd i allu gwasanaethu hyn.

Rydym hefyd wedi prosesu 48 cais i Gynghorau Môn, Wrecsam a Phowys dros y cyfnod.

Rydym yn parhau i weithio gydag adrannau cynllunio'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri, er mwyn amlygu'r gofynion i ymgeiswyr. Mae ymwybyddiaeth o'r gofynion i weld yn cynyddu, a gyda hyn mae ansawdd y ceisiadau hefyd yn gwella.

Rydym wedi dechrau ar y broses o gynnal asesiad Ffordd Gwynedd ar gyfer y gwasanaeth SDC, a bydd hyn yn parhau dros y misoedd nesaf.

**Gwasanaeth Cyn-gais**

Er ein bod wedi cael sêl bendith i godi ffi am y gwasanaeth yma, rydym wedi parhau i gynnig y gwasanaeth yn ddi-dâl dros y cyfnodau clo.

**Gwaith tu hwnt i Wynedd**

Roedd Cyngor Gwynedd wedi eu penodi gan Gyngor Ynys Môn, Wrecsam a Powys i brosesu a gwirio eu ceisiadau SDC. Ond, gyda nifer y ceisiadau yn cynyddu yng Ngwynedd, rydym wedi penderfynu rhoi cefnogaeth i Gyngor Môn yn unig y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn arwain ar waith i ddatblygu cysondeb ar draws Gogledd Cymru, ac yn cydweithio gyda Chynghorau Sir Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam. Mae'r gwaith yma yn cynnwys llunio polisïau a gweithdrefnau a all gael eu defnyddio'n rhanbarthol er mwyn rhannu adnoddau a chael cysondeb yn y ffordd mae'r gofynion yn cael eu gweithredu.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu refeniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg, a thalu cyflogau staff ac anfonebau cyflenwyr. Mae gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

**Rheolaeth Ariannol ac Arbedion**

Mae gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth cyfrifwyr yr Adran Cyllid wedi bod yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod heriol. Trwy reolaeth ariannol gydwybodol, mae'r adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn ers 2015/16.

Yn yr hinsawdd ariannol o gyfyngiadau ar wariant cyhoeddus, cynhyrchwyd cyllidebau dibynadwy a chyfrifon cywir a theg. Yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am drefniadau cadarn y Cyngor, a darparu adnoddau addas i'r holl adrannau wireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Fel sydd wedi ei nodi yng nghyflwyniad yr adroddiad perfformiad yma, roedd 94% o'r cynlluniau arbedion, cyfanswm gwerth £33miliwn rhwng 2015/16 a diwedd 2021/22 wedi eu cwblhau, ond roedd cynlluniau eraill yn fwy heriol i'w gwireddu. Felly, adolygwyd y cynlluniau arbedion cyfredol yn ystod 2021/22, a bu camau darbodus i ddileu rhai arbedion a llithro eraill ymlaen i 2023/24 neu thu hwnt.

Cafodd yr argyfwng Covid-19 effaith ariannol sylweddol, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholledion incwm gwerth £16 miliwn i'r Cyngor yn 2021/22. Cyflwynodd cyfrifwyr Cyngor Gwynedd hawliadau i Lywodraeth Cymru i ddigolledu incwm gwerth £3 miliwn a gwariant ychwanegol o £13 miliwn.

O ran perfformiad ariannol y Cyngor ar gyfer 2021/22, mae effaith yr argyfwng wedi parhau i fod yn amlwg iawn ar y sefyllfa ariannol, gyda derbyniadau grantiau sylweddol yn hwyr yn y flwyddyn ariannol yn llwyddo i drawsnewid y sefyllfa ariannol, gan gynnwys grantiau pwysau'r gaeaf ar y gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer cyllidebau'r ysgolion, ac ôl-groniad Treth Cyngor.

**Archwilio Mewnol**

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Yn ystod 2021/22, cyflawnwyd 30 archwiliad o gynllun archwilio Cyngor Gwynedd, h.y. roedd yr archwiliad wedi cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei rhyddhau. Mae hyn yn 71.43% o'r Cynllun Blynyddol. Yn ystod y flwyddyn bu rhai archwilwyr yn cynorthwyo gyda blaenoriaethau eraill, yn cynnwys asesu taliadau hunan-ynysu.

Yn ogystal ag archwilio Cyngor Gwynedd, cynhaliwyd archwiliadau mewnol ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, GwE,

cwmni Byw'n Iach a 70 o gynghorau tref a chymuned.

**Pensiynau**

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Conwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau.

Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Gwasanaeth Pensiynau, gyda'r gwaith o baratoi gyda'r Actiwari ar gyfer Prisiad Tair-blynyddol o'r Gronfa (sefyllfa 31/03/2022) yn parhau 'ar trac'. Llwyddwyd i dalu'r 11,600 o bensiynwyr ar amser bob mis, a bu gwelliant yn yr amser a gymerwyd i ddelio ag achosion profedigaeth. Mae perfformiad dyletswyddau eraill y gwasanaeth wedi aros yn gyson dros y flwyddyn, heblaw cynnydd yn yr amser cymerwyd i ddelio gyda throsglwyddiadau o fuddion pensiwn. Roedd hyfforddi staff newydd yn rhithiol am y pwnc cymhleth yma yn sialens. Disgwylir i'r sefyllfa yma wella yn 2022/23.

Er ein bod yn parhau i anfon rhai dogfennau yn y post, bu ymgais i leihau ein defnydd o bapur, ac mae 16,500 o aelodau wedi cofrestru ar y wefan 'Fy Mhensiwn Ar-lein' erbyn hyn. Lle mae'n bosib, mae dogfennau'r aelodau yn cael eu llwytho ar-lein, ac mae opsiwn i aelodau lwytho dogfennau e.e. ffurflen ymddeol i'r safle hefyd. Mae hyn yn helpu i gyflymu'r drefn o brosesu buddion pensiwn. Rydym hefyd wedi bod yn arbrofi gydag opsiynau i alluogi aelodau brosesu eu hymddeoliad ar-lein, a bydd y gwaith yma'n parhau yn 2022/23.

Erbyn hyn, mae'r system i-Connect yn cael ei defnyddio'n fisol gan holl gyflogwyr y Gronfa Bensiwn i ddiweddaru cofnodion cyflogau. Golygai hyn fod y wybodaeth yn y system bensiynau mor gyfredol a chywir â phosib.

Gyda'r amrywiad Covid-19 (Omicron) a'r sefyllfa yn Wcrain, mae amgylchiadau buddsoddi'r Gronfa wedi bod yn heriol yn 2021/22, ac nid oedd perfformiad ein rheolwyr asedau cystal a'u meincnod. Disgwylir amrywiadau fel hyn o fewn y cylch 5 mlynedd rydym yn asesu perfformiad. Er hynny, ers dechrau'r flwyddyn mae gwerth y Gronfa wedi cynyddu tua £300m i £2.8bn erbyn 31ain Rhagfyr 2021.

Mae'r gwaith cydweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn rwan mae 83% o Gronfa Gwynedd wedi ei gyd-fuddsoddi - 56% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol. Trwy'r Bartneriaeth, ceir fynediad at amrywiaeth ehangach o gronfeydd a rheolwyr asedau, sy'n gwella gwytnwch Cronfa Gwynedd.


Yn ystod 2021/22, mabwysiadodd y Pwyllgor Pensiynau bolisïau newydd ar Sgiliau a Gwybodaeth, Llywodraethu a Buddsoddi Cyfrifol. Mewn rhan o'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i leihau ei allyriadau carbon a chyrraedd 'sero net' rhwng 2030 a 2050, ac adroddwyd i'r Pwyllgor ar gamau positif diweddar gyda'r holl reolwyr asedau.

**Trethi**

Erbyn diwedd Mawrth 2022 roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 96.17%. Roedd hyn yn welliant ar y ffigwr cyfatebol o 95.46% yn 2020/21 oedd yn flwyddyn anarferol iawn, ond ychydig yn is na'r gyfradd o 96.78% yn 2019/20, y flwyddyn olaf cyn y pandemig.

Y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn yw'r dangosydd perfformiad cenedlaethol, ond dylid nodi fod rhan helaeth o'r arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu yn y pen draw. Wrth gwrs, mae ymdrin â dyledion Treth Cyngor mewn ffordd gydymdeimladwy

yn elfen allweddol o'r gwaith ac wrth i her costau byw gynyddu'r pwysau ar deuluoedd Gwynedd yn ystod 2021/22, bydd yr elfen hwn o'r gwaith yn adlewyrchu hynny.




### Budd-daliadau

Roedd y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor newydd yn 2021/22 yn 17.89 diwrnod, o'i gymharu â 18.74 diwrnod yn 2020/21, sef gwelliant bychan. Er hynny, mae dirywiad bychain ar y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor i 4.28 diwrnod eleni, o 3.77 yn 2020/21.

Mae'r gwasanaeth Budd-daliadau wedi cynorthwyo 1,770 o deuluoedd trwy gymorth o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP), sy'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

Mae'r Gwasanaeth wedi prosesu grant gwisg ysgol / grant datblygu disgyblion (mynediad) gyda gwerth ariannol o £337,200 i 2,559 o blant (£148,460 / 1,423), ac wedi asesu hawl cinio am ddim i 3,090 o blant Gwynedd yn ystod 2021/22 (3,049 yn 2020/21).

Yn ychwanegol i'r gwaith arferol, mae'r gwasanaeth wedi parhau i brosesu'r ceisiadau o'r Cynllun Taliadau Hunan Ynysu ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn 2020/21, bu i'r gwasanaeth ddelio â 713 cais am daliad rhwng dechrau'r cynllun ar 16 Tachwedd 2020 a diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2021. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22 derbyniwyd 7,210 o geisiadau i'w prosesu gyda 3,030 o'r rhain yn y 3 mis ers 1 Ionawr 2022.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi derbyn y cyfrifoldeb am y cynllun Tanwydd Gaeaf a wedi prosesu 6,255 o geisiadau a thalu 5,180 rhwng dechrau'r cynllun ar y 13eg o Ragfyr 2021 a diwedd y cynllun ar 28 Chwefror 2022.

Mae rôl yr Aseswyr Budd-dal wrth adnabod anghenion trigolion tu hwnt i'w hawliadau budd-dal wedi cryfhau'r cyswllt gyda'r prosiect Cefnogi Pobl sy'n cael ei gynnal ar draws y Cyngor. Trwy'r gwaith yma, mae trefniadau mewn lle sy'n caniatáu i'r Aseswyr Budd-dal gyfeirio'r ceiswyr budd-dal at gymorth pellach sydd ar gael gan y Cyngor.

### Yswiriant a Risg


Mae'r gwasanaeth wedi parhau i gynghori holl adrannau'r Cyngor ar faterion yswiriant mewn perthynas â nifer o risgiau, gan gynnwys Covid-19, ac yn trefnu gwarchodaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r gwasanaeth yn parhau i adolygu hawliadau yn erbyn y Cyngor er mwyn adnabod unrhyw batrymau mewn hawliadau sydd angen rhoi sylw iddynt.

Gyda'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi ei sefydlu ar ei newydd wedd ym Mawrth 2021, mae rheolwyr ar draws y Cyngor yn dangos parodrwydd i'w ddefnyddio er mwyn dangos sefyllfa'r Cyngor a blaenoriaethu gweithrediadau. Mae hyn wedi cynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd.

## Incwm

Mae'r Gwasanaeth Incwm yn anelu i brosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon.

Roedd gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis oed ar 31 Mawrth 2022 yn £1,596,649, sy'n welliant arwyddocaol ar y ffigwr cyfatebol o £1,822,462 ar 31 Mawrth 2021, ond mae tipyn o ffordd i fynd i ddod i lefelau hanesyddol. Mae llawer o'r gor-ddyled oherwydd cyfyngiadau llif arian yn deillio o'r pandemig, ond disgwyliwn i'r sefyllfa wella wrth i'r economi ail-agor.




Serch hyn, llwyddodd y gwasanaeth i gasglu 91.13% o'r anfonebau a godwyd gan y Cyngor yn ystod 2021/22, o'i gymharu â 94.59% yn 2020/21. Oherwydd yr amgylchiadau economaidd yn ystod y flwyddyn, roedd gostyngiad o'r fath yn ddisgwyliedig.

## Taliadau

Pwrpas y gwasanaeth yw talu credydwyr y Cyngor yn gywir ac amserol. O ganlyniad i effaith Covid-19, gyda staff y Cyngor yn gweithio o adref, addaswyd i drefniadau mwy electronig, sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus. Er mwyn delio gyda'r argyfwng, bu nifer sylweddol o daliadau ychwanegol gwerth £11 miliwn, gan gynnwys talu arian cinio am ddim i rieni disgyblion ysgol, grantiau gofalwyr, taliadau tanwydd gaeaf, taliadau hunan ynysu a grantiau i fusnesau Gwynedd.

Ar gyfartaledd, llwyddwyd i dalu cyflenwyr lleol o fewn 21 diwrnod a chyflenwyr nad ydynt yn lleol o fewn 28 diwrnod.

## Cyflogau

Pwrpas y gwasanaeth yw i dalu staff yn gywir ac ar amser, tra'n cadw cyfrifon priodol ar gyfer cyrff allanol fel CThEM (HMRC). Bu ambell achos yn ystod y flwyddyn lle roedd trefniadau argyfwng o weithio o gartref wedi arwain at fethiant i anfon gwybodaeth i'r Uned Gyflogau yn amserol, gyda'r canlyniad fod angen gwneud addasiad i gyflogau. Er hynny, nifer fychan oedd rhain a dros gyfnod o 5 mlynedd mae nifer yr achosion misol sy'n arwain at addasiadau yn y cyflog yn parhau i ddangos tueddiad ar i lawr.

## Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu staff a phobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a systemau.

Cwblhawyd sawl prosiect isadeiledd TG yn llwyddiannus gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith a di-wifr corfforaethol, cryfhau ein gwytnwch seibr ac uwchraddio systemau a caledwedd yn ein canolfannau data. Parhawyd i gadw safonau hynod uchel a chyson o ran bodlonrwydd ac argaeledd ein gwasanaethau. Datganodd 916 (99%) o'n defnyddwyr eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Ddesg Gymorth, gyda 11 (1%) yn datgan eu bod yn anhapus tra bod argaeledd ein rhwydwaith craidd yn 99.9% a'n systemau craidd yn 99.97%.

Llwyddwyd i gadw achrediad 'Public Services Network' (PSN) sy'n datgan bodlonrwydd Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU gyda rhwydwaith a gwasanaethau TG y Cyngor o ran diogelwch, a parhawyd gyda'r safon 'Aur' yn genedlaethol ar safon a glendid data a geir


yng nghofrestr Tir ac Eiddo Gwynedd.

Datblygodd yr uned ddatblygu 68 system. Derbyniwyd adborth gan 17 o'r prosiectau, gyda 15 yn datgan eu bod yn hapus ac heb unrhyw welliant i'w gynnig. Roedd y ddau oedd yn datgan eu bod yn hapus, ond bo lle i wella yn adrodd bod dim adnodd digonol i gwblhau'r gwaith yn gynt.

Yn ogystal â hyn, mae'r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt ddefnyddio systemau sy'n cael eu cadw y tu allan i'r Cyngor. Enghraifft o hyn ydi'r system WCCIS a ddefnyddir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae'r Gwasanaeth TG wedi cefnogi trafodaethau cenedlaethol i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi gyda'r system yma yn derbyn sylw priodol gan y cyflenwyr.

Un o heriau mawr llynedd oedd rhoi Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd ar waith, ac roedd hynny'n benllanw misoedd o gynllunio gan gynnwys mewnoli cefnogaeth i'r ysgolion a sefydlu uned newydd oddi fewn i'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Cyflawnwyd sawl her cyn sefydlu'r uned newydd gan gynnwys sefydlu'r isod.

Yn ychwanegol i'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma, fe fydd yr uned gefnogi newydd yn darparu gliniadur i bob athro/athrawes yn ystod tymor yr haf gan symud ymlaen i gyflenwi gliniaduron i bob disgybl ym mlynyddoedd 7 hyd 11.



# Adran Cefnogaeth Corfforaethol

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Bu'n flwyddyn anarferol arall i'r adran gyfan efo nifer o swyddogion yn parhau i arall-gyfeirio er mwyn cyflawni gwaith oedd yn allweddol i alluogi gwasanaethau rheng-flaen i weithredu – o sicrhau cyflenwadau PPE ar gyfer staff i gynnal trefniadau brechu rhag Covid-19 o fewn y sir.

Ar ben hynny, roedd gan rhai o'r gwasanaethau rôl gritigol yn cynghori a chenhadu'r neges ynglŷn â rheolau ac arferion gorau yn ystod yr argyfwng, ac yn dilyn hynny roeddynt yn flaenllaw yn sicrhau bod staff a'r cyhoedd yn cael eu gwarchod gorau posib rhag lledaeniad y feirws.

Bu'n ymdrech lew i gyflawni hyn oll tra'n cynnal gwasanaethau allweddol ac mae'r crynodeb hwn o berfformiad am y flwyddyn yn adlewyrchiad o'r heriau a wynebwyd yn ogystal a'r llwyddiannau a wireddwyd.

**Cyswllt Cwsmer**




Mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer o wasanaethau ar-lein, ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, tra'n cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor.

Gellir cysylltu ynghylch 37 (33 yn 2020/21) o faterion megis priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, trefnu ymweliad â chanolfan ail-gylchu a thalu am ginio ysgol gyda'r 4 gwasanaeth newydd a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud a casglu gwybodaeth am ddisgyblion sy'n mynychu ysgol am y tro cyntaf, cofrestru a lansio cwch ar arfordir Gwynedd, mynediad i ysgol a chais i drosglwyddo ysgol.

Derbyniwyd dros chwarter miliwn o ymholiadau/ceisiadau am wasanaeth ar-lein yn ystod y flwyddyn sydd yn cynrychioli oddeutu 80% o'r rhai a gyflwynwyd i'r Cyngor yn eu hamryw ffyrdd, gyda tri o'r pedwar gwasanaeth newydd a gyflwynwyd yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl ar-lein ers eu lansio. Yn ystod 2021/22 mae 14,080 o drigolion wedi agor cyfrif hunanwasanaeth o'r newydd, sydd yn 2,500 yn fwy na wnaeth hynny yn 2020/21 gyda'r cyfanswm o gyfrifon erbyn hyn yn 68,826.

**Amser ateb galwad ffôn yn Galw Gwynedd**




Rydym yn darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb drwy ein Siopau Gwynedd a ffôn drwy Galw Gwynedd. Mae perfformiad eleni, o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau, wedi gwaethygu o'i gymharu â'r flwyddyn blaenorol ac hynny er bod 2,000 yn llai o alwadau wedi'u derbyn h.y. o 47 eiliad ar gyfartaledd yn 2020/21 i 1 munud 13 eiliad eleni. Y prif reswm dros y dirywiad yn y perfformiad yw trosiant staff a'r her o ddenu gweithwyr. Rydym wedi profi peth llwyddiant yn denu staff yn ystod ail hanner y flwyddyn ac yn ymdrechu i

wella'r perfformiad, yn bennaf trwy gyfuniad o hyrwyddo pellach ar hunan wasanaeth ac ymestyn gwasanaeth sgwrs ar-lein.

**Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau**

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru wedi gweld newidiadau mawr dros y flwyddyn diwethaf, gyda newid mewn deddfwriaeth yn ymwneud â seremonïau wedi'u cyflwyno yn ystod 2021/22 ac hyn yn arwain at gynnydd yn ein llwyth gwaith. Profwyd cynnydd hefyd yn y nifer o gyplau oedd yn dymuno ail drefnu eu seremonïau o'r flwyddyn blaenorol yn ogystal a chyplau oedd am drefnu seremoni o'r newydd. Mae hyn oll wedi golygu trefnu mwy o apwyntiadau ar gyfer cymryd rhybuddion seremoni. Ar y llaw arall, mae'r cynnydd wedi arwain at wireddu incwm ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Mae cyflwyno trefn genedlaethol, ple bo Archwilwyr Meddygol yn ymgymryd a cam ychwanegol i dystio i'r rhesymau am farwolaeth, wedi arwain at beth oedi i gofrestru marwolaethau ac yn sgil hynny i ddirywiad yn ein gallu i gyflawni'r gwaith o fewn yr amser statudol. Er hynny, llwyddwyd i gofrestru 83% o farwolaethau o fewn 5 diwrnod (ond hynny o'i gymharu a 94% yn 2020/21 cyn cyflwyno'r archwiliadau meddygol ychwanegol).

Cofrestrwyd 90% o enedigaethau o fewn 5 diwrnod yn ystod y flwyddyn, sydd yn welliant sylweddol ar y 51% yn y flwyddyn blaenorol, gyda llacio'r cyfyngiadau cyfnod clo yn un ffactor bwysig yn hyn o beth.

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn rhannu gwybodaeth am wasanaethau lleol ac i ganfod barn trigolion yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

Yn 2020/21 cyflwynwyd meddalwedd ymgysylltu newydd sy'n galluogi'r Cyngor i ymgysylltu gyda phobl Gwynedd ar sail eu hardal leol yn ogystal a'r lefel sirol. Mae'r meddalwedd yma yn galluogi'r Cyngor i gynllunio gwasanaethau a blaenoriaethu adnoddau fesul ardal tra'n gwneud y profiad o 'ddweud eu dweud' yn llawer symlach a mwy apelgar i'r cyhoedd.

Dros y flwyddyn cynhaliwyd 14 ymarferiad i gasglu barn pobl Gwynedd am wahanol wasanaethau gyda 8,000 o unigolion yn manteisio ar y cyfleoedd yma i leisio barn.

Cyhoeddwyd 166 o ddatganiadau i'r wasg rhagweithiol gan y Gwasanaeth ar ran y Cyngor yn ystod 2021/22 gyda phob datganiad ar gyfartaledd yn arwain at sylw ar 7.1 o lwyfannau newyddion. Yn ogystal, darparwyd atebion i 650 o ymholiadau gan newyddiadurwyr am waith y Cyngor.

Roedd yr argyfwng Covid-19 yn parhau yn ganolog i'r gwaith cyfathrebu yma gyda 22 o'r datganiadau rhagweithiol a gyhoeddwyd yn cyfeirio at y maes a 102 o'r ymatebion a ddarparwyd i ymholiadau'r wasg.

Erbyn Mawrth 2022, roedd 37,858 o unigolion yn derbyn clipiau fideo, delweddau digidol a negeseuon yn ddyddiol drwy gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram y Cyngor, sef cynnydd o 3,686 ers y flwyddyn flaenorol.

**Cefnogi Busnes y Cyngor**

Cydlynwyd y gwaith o baratoi a chyhoeddi adroddiad perfformiad y Cyngor ar gyfer 2020/21 ac adolygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2022/23.


Bu i ni barhau i gefnogi a chynorthwyo gyda gwaith i gynnal adolygiadau gwasanaeth a rheoli nifer o brosiectau ar draws y Cyngor ynghyd â arwain ar weithredu y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Darperir cefnogaeth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n ceisio sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion. Dros y misoedd diwethaf mae gwaith ymchwil wedi ei gynnal i edrych ar lesiant ein cymunedau ac erbyn hyn mae Asesiadau Llesiant drafft wedi eu cyhoeddi. Yn ystod 2022/23 bydd yr Asesiadau Llesiant terfynol yn cael eu cyhoeddi fydd yn arwain yn y pendraw at greu Cynllun Llesiant newydd ar gyfer y ddwy sir.

**Ymchwil a Gwybodaeth**


Yn ystod y flwyddyn fe fu'r Gwasanaeth yn gwneud gwaith sylweddol ar gasglu, dadansoddi, dehongli ac adrodd gwybodaeth berthnasol er mwyn cynorthwyo gwasanaethau'r Cyngor i ymateb i'r argyfwng. Byddwn yn gallu adeiladu ar y dulliau a'r dechnoleg ddysgwyd yn y cyfnod yma i helpu datblygu defnydd y Cyngor o ddata mewn meysydd eraill yn y dyfodol.

Mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth Cefnogi Busnes fe gynhyrchwyd pecynnau gwybodaeth ar gyfer yr 14 ardal llesiant lleol yng Ngwynedd a Môn, fydd yn darparu sail tystiolaeth cynhwysfawr ar gyfer Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer y ddwy sir.




Bu gostyngiad bychan yn y digwyddiadau gwybodaeth ar draws y Cyngor (h.y. lle aeth gwybodaeth ar goll neu i'r person anghywir) ond mae'r nifer (26 yn 2021/22, o'i gymharu â 30 yn 2020/21) yn parhau'n uchel o'i gymharu â'r patrwm hanesyddol. O ddadansoddi'r achosion, fe welwyd bod 16 ohonynt (sef 62% o'r cyfanswm) yn deillio o ddiofalwch cyffredinol wrth anfon e-byst i gyfeiriadau anghywir. Rydym yn trafod opsiynau technegol gyda'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer ceisio gwneud camgymeriadau o'r fath yn llai tebygol; rydym hefyd wedi cynyddu'r pwyslais ar yr agwedd yma wrth roi hyfforddiant, canllawiau a negeseuon diogelwch gwybodaeth i staff y Cyngor.

Fe wnaed cynnydd sylweddol ar symud gwasanaethau i fersiwn newydd iGwynedd (system rheoli cofnodion electronig y Cyngor) gyda 6 o'r 10 Adran wedi trosglwyddo'n llawn erbyn hyn. Mae'r ymateb gan wasanaethau sydd wedi trosglwyddo yn adrodd bod y system newydd yn hwyluso rhannu gwybodaeth a dogfennau.




Ar ben hynny cafwyd 905 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Y gyfradd atebwyd yn brydlon oedd 78%, sydd yn is na'r flwyddyn flaenorol ond yr un fath â'r flwyddyn cyn y pandemig. Byddwn yn parhau i roi sylw i hyn gan gynnwys datblygu'r maes Data Agored, fel bod yr atebion i rai ceisiadau mynych am wybodaeth ar gael yn barod ar

wefan y Cyngor yn lle bod angen cyflwyno cais amdanynt.

**Prynu**

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael barhau i ymateb i heriau'r pandemig ac yn chwarae rhan allweddol yn nhrefniadau sicrhau cyflenwadau PPE. Mae'r tri Tîm Categori wedi bod yn rhan allweddol o'r trefniadau hefyd ac yn parhau i fod ynghlwm â'r dosbarthu a rheoli stoc. Serch hyn, rydym wedi gallu parhau gyda'r gwaith o dreialu methodoleg newydd o asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol yn ogystal â chynlluniau gwaith eraill yr Uned.

**Democratiaeth a Iaith**

Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yw cefnogi trefniadau democratiaeth y Cyngor a hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am dri maes penodol, sef democratiaeth, cyfieithu ag iaith a chraffu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llwyddo i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer cynnal pwyllgorau rhithiol ymhellach. Yn ogystal, mae fframwaith ar gyfer pa bwyllgorau sydd i'w cynnal yn rhithiol a pha bwyllgorau fydd i'w cynnal o aml leoliad (yn hybrid) wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn. Mae'r gwaith ymarferol ar gyfer cynnal cyfarfodydd aml leoliad yn parhau i ddigwydd er mwyn paratoi at y Cyngor newydd ym mis Mai 2022. Mae Gwynedd unwaith eto yn arwain trwy sicrhau fod trefniadau cyfieithu ar y pryd ar gael yn hwylus a di-ofyn ym mhob pwyllgor.

Llwyddwyd i ddatblygu paratoadau ar gyfer croesawu Cynghorwyr yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022. Addaswyd y trefniadau blaenorol yn sgil trafodaethau gyda Chynghorwyr presennol.

Rydym hefyd wedi llwyddo i adolygu trefniadau ar gyfer Hunaniaith, gyda'r Cabinet wedi penderfynu buddsoddi dros £200,000 dros gyfnod o bedair blynedd nesaf er mwyn cyflogi Pen Swyddog i arwain ar sefydlu Hunanaiath yn y gymuned fel endid annibynnol i'r dyfodol. Bydd hyn yn galluogi i gymunedau berchnogi cyfeiriad a chefnogaeth y fenter iaith i'r dyfodol. Yn y cyfamser, mae Hunaniaith yn parhau i weithio ar nifer o brosiectau cyffrous a newydd, gan gynnwys clybiau fideo i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Noder hefyd y lansiwyd adran ar wefan y Cyngor sy'n cynnwys popeth sy'n gysylltiedig gyda'r iaith Gymraeg, gan gynnwys pecyn digidol wedi ei anelu at gynorthwyo rhai sy'n symud i'r ardal.

O ran perfformiad, yn 2021/22 llwyddwyd i gyhoeddi 91% o Daflenni Penderfyniad ein pwyllgorau o fewn 5 diwrnod gwaith. Y taflenni hyn sy'n crynhoi i'r cyhoedd pa benderfyniadau sydd wedi eu gwneud gan y gwahanol bwyllgorau. Yn ogystal mae 100% o'r rhai sydd wedi ymateb i nodi eu bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth cyfieithu wedi sgorio'r gwasanaeth fel 5/5. Bu i 88% o Gynghorwyr nodi fod y gefnogaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn.

**Adnoddau Dynol**

Mae'r Gwasanaeth yn arwain ar y maes cyflogaeth, gan ddatblygu'r amodau gwaith a chynghori rheolwyr a staff ar ystod eang o faterion yn ymwneud a gweithio i'r Cyngor. Mae'n dilyn felly fod gan y Gwasanaeth rôl ganolog mewn paratoi'r trefniadau gwaith wrth ddod allan o'r pandemig, a thros y flwyddyn addaswyd a datblygwyd sawl amod gwaith fel bod modd i staff fanteisio ar drefniadau gwaith newydd wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer

diwrnodau salwch fesul aelod staff yn ystod y flwyddyn aeth heibio, o 6.3 diwrnod y pen y llynedd i 10.7 diwrnod y pen erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae'r lefel yma yn uwch na'r hyn a brofwyd yn y blynyddoedd cyn y cyfnod clo. Yr her i ni fel cyflogwr, yn ystod y flwyddyn i ddod, ydi deall y rhesymau dros y cynnydd hwn a chymryd pob cam posib i sicrhau bod y gefnogaeth orau posib yn cael ei gynnig i hyrwyddo iechyd a llesiant staff.

**Nifer o ddyddiau a gollwyd y pen ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb salwch**



**2017/18 - 8.72**
**2018/19 - 9.45**
**2019/20 - 9.78**
**2020/21 - 6.30**
**2021/22 - 10.7**

Cynhaliwyd pedwar gwrandawiad apêl cyflogaeth yn ystod y flwyddyn, gydag penderfyniadau'r Pwyllgor yn cefnogi dau o benderfyniadau gwreiddiol y cyflogwr.

Llwyddwyd i sefydlu cynllun Kickstart y Llywodraeth o fewn y Cyngor, gan eisoes lwyddo i ddenu pump o unigolion ifanc ychwanegol i weithlu'r Cyngor. Yn ogystal, roedd gan y Gwasanaeth rôl ganolog wrth fynd ati i recriwtio nifer o brif swyddogion dros y flwyddyn a fu.

**Gwasanaeth Cefnogol**

Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Mae'r gwaith o gyflwyno system Hunanwasanaeth, i staff sydd heb gyfrif TG, yn parhau yn flaenoriaeth ac mae 94% (92% yn 2020/21) o staff y Cyngor gyda mynediad at y system erbyn hyn. Rydym yn gyfrifol am brosesu gwiriadau DBS staff y Cyngor sydd mewn swyddi rheoledig ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi trosglwyddo i gwblhau gwiriadau yn electroneg ar lein. O ganlyniad mae'r gwiriadau yn cael eu cylchdroi i gael canlyniad y gwiriad yn ôl o fewn oddeutu 7 diwrnod o gymharu a hyd at 4 i 6 wythnos drwy'r drefn bapur yn y gorffennol.

**Dysgu a Datblygu'r Sefydliad**

Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r



Sefydliad yn cynnig cefnogaeth datblygol i swyddogion, staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain ar gynlluniau datblygu Talent (hyfforddeion a phrentisiaethau), cynlluniau datblygu'r arweinyddiaeth e.e. Arwain o Bell, Merched mewn Arweinyddiaeth, Gwerthuso Parhaus, yn ogystal â bod yn flaenllaw yn cefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd. Adeiladwyd ar sylfaen 2021-22 drwy gynnig 16 o deitlau dysgu drwy ddulliau rhithiol (o bell).

Mae'r gwasanaeth yn cydlynu trefniadau ymateb i gwynion ac yn hyrwyddo'r dysgu o'r cwynion a dderbynnir. Yn ystod y flwyddyn bu i'r Gwasanaeth gydweithio efo Swyddfa'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol i greu a chyflwyno pecyn hyfforddiant gofal cwsmer.

Erbyn hyn, mae 236 o fusnesau y sir, sef cynnydd o 28 yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi ymuno efo'r Cynllun Buddiannau Staff a weinyddir gan y gwasanaeth. Mae'r Cynllun yn cyfrannu at hyrwyddo'r Prosiect Prynu'n Lleol gan ddefnyddio eu cysylltiadau efo'r busnesau i'r perwyl hwn.

**Iechyd, Diogelwch a Llesiant**


Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae adnodd sylweddol o'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi ei gymryd yn ymdrin ag ymateb y Cyngor i'r pandemig. Bu llynedd yn flwyddyn arall ple bo rheolau â chanllawiau cenedlaethol, gan gynnwys rheolau penodol i sectorau megis iechyd, gofal ac addysg, nid yn unig yn feichus, ond hefyd yn newid yn gyson.

Bu cynnydd yn y nifer o gyfeiriadau i'r Uned Iechyd Galwedigaethol yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriwyd 555 o staff yn ystod 2021/2022, sydd yn fwy na'r 473 yn 2020/2021. Mae hynny yn gynnydd arwyddocaol, ac mae effaith y pandemig yn chwarae rhan yn hynny, gyda straen a phroblemau iechyd meddwl yn brif resymau paham fod unigolion yn cael eu cyfeirio. Mae problemau ac anafiadau cyhyrsgerbygol hefyd wedi bod ar gynnydd dros y blynyddoedd diwethaf, a gwelwyd cynnydd mawr y llynedd yn y nifer o geisiadau am sesiynau ffisiotherapi trwy'r Cyngor. Fel enghraifft, bu 32 cyfeiriad am ffisiotherapi ym Mis Mai 2021 o'i gymharu a 3 cais ym mis Mai 2020 a 5 ym mis Mai 2019.

Cyfeiriwyd 150 o staff bregus ychwanegol atom am asesiad yn ymwneud a gweithio ar y llinell flaen oherwydd Covid-19 ac fe gynhaliwyd nifer o adolygiadau o'r 600 o staff bregus oedd wedi eu cyfeirio y flwyddyn blaenorol.

Mae'r gwaith ar y rhaglen llesiant staff wedi parhau trwy gydol y pandemig a bu i'r Cyngor dderbyn cydnabyddiaeth o'r gwaith sy'n digwydd yn y maes yma pan ail ddilyswyd y Wobr Aur o'r Safon Iechyd Corfforaethol gan Lywodraeth Cymru. Roedd cydnabyddiaeth penodol am y gynhaliaeth i staff yn ystod cyfnod Covid-19 yn rhan o'r adborth a dderbyniwyd.

Mae gweddill gwaith yr Uned hefyd bellach wedi ei adfer, sef yn benodol cynnal profion meddygol a phrofion gwyliadwriaeth iechyd ar staff sy'n ymgymryd a gwaith risg uchel. Fodd bynnag, mae gwaith pellach angen ei wireddu er mwyn dal i fyny ar y rhaglenni hyn. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch wedi cynghori a helpu gwasanaethau i addasu i'r newidiadau cyson yn y canllawiau ynghyd a chynghori ac ymchwilio i glystyrau o fewn gweithleoedd. Mae hyn wedi golygu cymorth dwys i ysgolion a Phrif Athrawon ynghyd â Rheolwyr yn y maes gofal. Mae'r gofyn i adrodd ar aelodau staff oedd yn dal Covid-19 trwy'r gwaith i AGID wedi parhau am y flwyddyn, ac adroddwyd ar 116 achos o dan reoliadau RIDDOR eleni gyda'r mwyafrif helaeth o'r rhai hynny yn achosion Covid-19.




Mae'r gwaith o gynnal profion 'face fit' arbenigol ar staff, sy'n darparu gofal mewn achosion ple bo angen triniaethau arbenigol, wedi parhau gyda'r cyrsiau symud a thrin pwysau ynghyd a'r gwaith o gynnal asesiadau gweithfan i staff sy'n gweithio o adref hefyd wedi derbyn blaenoriaeth.

Er gwaethaf y pwysau gwaith, mae datblygiadau cyffrous o ran E Ddysgu gyda sawl modiwl newydd wedi eu creu i staff gan gynnwys modiwl iechyd a diogelwch cyffredinol, modiwl ar PPE i staff gofal, a modiwlau symud a thrin pwysau.

Y tu hwnt i'r ymateb i Covid-19, mae gwaith swyddogion o'r Uned wedi bod yn allweddol i gynorthwyo yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ennill achrediad BS45001 am reolaeth Iechyd a Diogelwch.

**Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys meysydd arbenigol megis cyflogaeth, eiddo masnachol, amddiffyn plant, ymgyfreithio a chynllunio.

Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2021/22 yn dangos bod 77% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'n anodd tynnu neges penodol o'r adborth ond rydym yn cadw llygaid cyson ar y lefel perfformiad a'r rhesymau am briodoli sgôr is na 10/10, gan ymateb i negeseuon sydd yn deillio o'r data. Dylid nodi fod y canran yn cynyddu i 94% ar sgôr o 9/10. Mae'r wybodaeth wrth gwrs yn cyfrannu at y drefn ar gyfer rheoli a monitro ein perfformiad.




**Swyddog Monitro - Priodoldeb**

Roedd y Gwasanaeth yn cydweithio yn lleol ac yn rhanbarthol i gynllunio ac ymateb i newidiadau i lywodraethu ac i'r Cyfansoddiad fydd yn deillio o ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae rhaglen waith ynghyd a tîm prosiect wedi ei sefydlu dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r camau cyntaf wedi eu gweithredu ac mae'r gwaith yn symud ymlaen yn unol a'r rhaglen. Gan fod y Deddf yn dod i rym dros gyfnod fydd yn parhau i'r flwyddyn 2022/23, bydd y prosiect o ddod a'r darpariaethau yn weithredol yn parhau.

**Etholiadau a Chofrestru Etholiadol**

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gefnogi y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadau drwy weinyddu holl etholiadau'r sir a'r Gofrestr Etholwyr.

Derbyniwyd grant gan Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2020 i gefnogi gwaith sefydlu yr etholfraint newydd (16 oed) ynghyd ag agweddau eraill ar y thema mynediad i bleidleisio. Sefydlwyd rhaglen waith a penodwyd swyddog prosiect gan ddefnyddio grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd sefyllfa Covid-19 o fewn sefydliadau addysg yn parhau i gael ardrawiad sylweddol ar ffurf y gwaith. Fodd bynnag llwyddwyd i gynnal sawl gweithgaredd yn arbennig felly yn chwarter olaf y flwyddyn wrth i'r sefyllfa wella gan gyd weithio gyda sefydliadu addysg, grwpiau ieuenctid i godi ymwybyddiaeth o'r etholfraint newydd ac yn benodol sut i gofrestru i bleidleisio.

Cynhaliwyd etholiadau Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu ynghyd ac Is Etholiadau wedi codi y rheoliadau argyfwng oedd wedi eu hatal. Llwyddwyd i gynnal prosesau yma o dan gyfyngiadau Covid-19 gan gyfarch y gofynion diogelwch lled sylweddol oedd mewn grym ar y pryd ar

draws dwy etholaeth gan gynnwys 136 o orsafoedd pleidleisio a dwy ganolfan gyfrif.

**Gwasanaeth Cefnogi y Crwner**

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu swyddogaeth statudol yn cefnogi Gwasanaeth Crwner Gogledd Orllewin Cymru. Yn ystod y flwyddyn roedd gwaith paratoi yn mynd ymlaen gyda'r Adran Gyfiawnder Llywodraeth DU ar y camau nesaf o ran dyfodol yr ardal. Fodd bynnag daeth diwedd ar y gwaith yma yn sgil penderfyniad y Prif Grwner nad oedd adolygiad i'w gynnal oherwydd cymeriad ieithyddol ardal Gogledd Orllewin Cymru. Yn dilyn hyn bu modd cychwyn ar y gwaith o greu gwasanaeth ar sail tymor hir gan gychwyn ar y prosesau penodi yn barhaol a buddsoddi mewn meddalwedd fyddai yn caniatáu moderneiddio sylweddol ar y gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **23 Mehefin 2022** |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r adroddiad er sylw Aelodau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Corfforaethol** |

**1. Cefndir**

1.1. Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol.

1.2. Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at wella wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rheiny sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'r unigolion a'r gofalwyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth. O dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am gyflwyno safonau lles.

1.3. Gofynnir i mi fel Cyfarwyddwr ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n effeithio ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, cynaliadwy, o'r safon uchaf, gan fynegi fy marn yn yr adroddiad a'i gyflwyno i'r Cyngor.

1.4. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw wersi a ddysgwyd, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn egluro sut y gwnaethom asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio ein gwasanaethau a'n darpariaeth gofal.

1.5. Mae perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn dda ar y cyfan eto eleni. Mae gallu datgan hyn ar gyfer blwyddyn sydd wedi bod mor heriol yn bleser llwyr, ac yn adlewyrchu ymroddiad a gwytnwch ein staff gofal a gwaith cymdeithasol. Mae'n amlwg o'r perfformiad a adroddir yma bod rheolwyr a staff wedi gwneud ymdrech arwrol i allu dygymod gyda'r gofynion sydd wedi bod arnynt yn ystod y flwyddyn.

1.6. Fel yr amlygir yn yr adroddiad, rydym wedi profi heriau sylweddol yn ogystal, ac yn sicr mae gennym faterion allweddol sydd angen sylw gennym ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae ein gweithwyr a darparwyr gofal wedi wynebu heriau anferthol drwy gydol y cyfnod dan sylw, yn cynnwys recriwtio a chadw staff ar y rheng flaen, cynaliadwyedd ariannol, talu cyflog teg i'r gweithwyr ynghyd

â sicrhau lleoliadau addas i drigolion y sir. Mae'r materion hyn yn cyfrannu at yr her o barhau i ddarparu gofal, ac mae ceisio sicrhau'r gofal gorau i bobl Gwynedd yn flaenoriaeth i mi fel Cyfarwyddwr Statudol, ac hefyd i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, rydym yn gweithio'n galed, ar y cyd â'n partneriaid allweddol, i geisio sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael yn lleol yn unol â'n hasesiadau anghenion poblogaeth. Mae hyn yn wir am y meysydd plant ac oedolion fel ei gilydd

1.7. Mae perfformiad y gwasanaethau perthnasol yn cael eu herio yn unol â threfniadau perfformiad mewnol y Cyngor ac mae adroddiadau ar y perfformiad hwn yn cael eu cyflwyno gan yr aelodau Cabinet perthnasol yn rheolaidd. Bydd trosolwg o berfformiad y gwasanaethau am y flwyddyn gyfan hefyd ar gael yn Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021-22.

## 2. Argymhelliad

2.1. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwyr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.

## 3. Barn y Swyddogion Statudol

### Y Swyddog Monitro:

Mae cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn yn rhoi cyfle i ystyried y gwaith a'r heriau sydd yn wynebu'r "Gwasanaethau Cymdeithasol o bersbectif y Cyfarwyddwr Statudol. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb yr adroddiad.

### Pennaeth Cyllid:

Credaf fod yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchiad teg o weithgareddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol am 2021/22. Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn golygu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cyngor.

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22



# Cyflwyniad

Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol. Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn, felly, yw gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol, a thynnu sylw at unrhyw wersi sydd wedi'u dysgu neu welliannau sydd angen eu cyflwyno. Dylai'r adroddiad hefyd osod amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn perthynas â hyrwyddo llesiant pobl a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn trefn benodol, gan fod angen i ni adrodd ar sut yr ydym fel Cyngor wedi cyflawni yn erbyn y chwe safon ansawdd llesiant sydd wedi'u nodi o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sef:

- **Safon Ansawdd 1**: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni
- **Safon Ansawdd 2**: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl
- **Safon Ansawdd 3**: Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
- **Safon Ansawdd 4**: Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn Cymdeithas
- **Safon Ansawdd 5**: Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol
- **Safon Ansawdd 6**: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion

Mae ffurf yr adroddiad yn ofyniad, ac mae gofyn i bob awdurdod lleol fesur perfformiad eu gwasanaethau cymdeithasol drwy ddefnyddio'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad perthnasol yn erbyn y safonau ansawdd. Wedi darllen yr adroddiad, pe byddai gennych unrhyw sylwadau ar y cynnwys, neu o ran sut i lunio gwasanaethau at y dyfodol, rwy'n awyddus iawn i glywed gennych:

awenmorwenaedwards@gwynedd.llyw.cymru
manonelwynhughes@gwynedd.llyw.cymru

01286 679468

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair gan y Cyfarwyddwr | 4 |
| 2. | Trosolwg o Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol | 6 |
| 3. | Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau | 13 |
| 4. | Hyrwyddo a gwella lles y rheiny yr ydym yn eu cynorthwyo | 17 |
| 5. | Sut rydym yn gwneud ein gwaith | 40 |
| 6. | Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol | 45 |
| | ATODIAD 1: Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) | 46 |
| | ATODIAD 2: Mesurau Perfformiad | 48 |

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch o waelod calon i bob un ohonoch a fu'n chwarae eich rhan er mwyn cadw Gwynedd a thu hwnt yn ddiogel ac yn iach eleni. Wrth i ni symud allan o gyfyngiadau Covid-19 a dychwelyd i ryw fath o normalrwydd, mae'n deg dweud bod pwysigrwydd y sector gofal ac iechyd wedi cael ei amlygu fwy nag erioed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i ni ymrafael â sgil effeithiau'r pandemig.

Fel y byddwch yn ei weld o'r adroddiad hwn, mae perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn dda ar y cyfan eto eleni. Mae gallu datgan hyn ar gyfer blwyddyn sydd wedi bod mor heriol yn bleser llwyr, ac yn adlewyrchu ymroddiad a gwytnwch ein staff gofal a gwaith cymdeithasol yma yng Ngwynedd. Mae'n amlwg o'r perfformiad a adroddir yma bod rheolwyr a staff wedi gwneud ymdrech arwrol i allu dygymod gyda'r gofynion sydd wedi bod arnynt yn ystod y flwyddyn. Fel yr amlygir yn yr adroddiad, rydym wedi profi heriau sylweddol yn ogystal, ac yn sicr mae gennym faterion allweddol sydd angen sylw gennym ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Mae ein gweithwyr a darparwyr gofal wedi wynebu heriau anferthol drwy gydol y cyfnod dan sylw, yn cynnwys recriwtio a chadw staff ar y rheng flaen, cynaliadwyedd ariannol, talu cyflog teg i'r gweithwyr ynghyd â sicrhau lleoliadau addas i drigolion y sir. Mae'r materion hyn yn cyfrannu at yr her o barhau i ddarparu gofal, ac mae ceisio sicrhau'r gofal gorau i bobl Gwynedd yn flaenoriaeth i mi fel Cyfarwyddwr Statudol, ac hefyd i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, rydym yn gweithio'n galed, ar y cyd â'n partneriaid allweddol, i geisio sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael yn lleol yn unol â'n hasesiadau anghenion poblogaeth. Mae hyn yn wir am y meysydd plant ac oedolion fel ei gilydd.

Un enghraifft o'r camau yr ydym yn eu cymryd i geisio goresgyn yr her o ddod o hyd i leoliadau gofal i'n trigolion yw ein bod yn ymchwilio i'r opsiwn o gamu i mewn i ddarparu gofal nyrsio fel darparwr mewnol mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn ystyried gwneud y cam arloesol hwn, a fyddai'r cyntaf o'i fath yng Nghymru, fel y gallwn fod yn llawer mwy sicr o farchnad sefydlog a digonol i'n trigolion.

O ran yr her ariannol mae'r Cyngor yn ei hwynebu, rydw i'n ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am gynnig setliad ariannol gwell i ni eleni, ynghyd â chynnig Cyflog Byw Gwirioneddol i'n staff gofal. Serch hynny, mae'n debygol y bydd y setliad y byddwn yn ei dderbyn yn y blynyddoedd nesaf yn llai ffafriol, ac felly er ein bod wedi derbyn setliad gwell eleni, mae cynaliadwyedd ambell benderfyniad y tu hwnt i eleni wedi bod yn heriol.

Fel yr wyf wedi'i amlinellu uchod, mae ein diolch yn fawr i staff sy'n gweithio yn y maes. Fodd bynnag, mae gennym broblemau recriwtio sylweddol mewn sawl maes, gan gynnwys rhai meysydd arbenigol, a byddwn angen ceisio ymateb i hyn yn fuan er mwyn osgoi problemau yn y dyfodol. Wrth gwrs, mae gwaith eisoes ar y gweill i ymateb i'r problemau sydd gennym, fodd bynnag nid oes ateb syml i rai o'r materion hyn gwaetha'r modd.

Rwyf hefyd yn hynod werthfawrogol i'n Gofalwyr Maeth am ofalu mor dda am ein plant, a hynny dan amgylchiadau anodd heb y gefnogaeth arferol wyneb yn wyneb. Yn yr un modd, mae gofalwyr di-dâl y sir wedi gorfod ymdopi gyda sefyllfaoedd arbennig o heriol ac rwyf yn cydnabod cyfraniad bob un ohonynt dros y flwyddyn.

Mae gennyf bryder cyffredinol am yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, a'r caledi mae pobl yn ei wynebu. O ganlyniad i hyn, rydym wedi sefydlu trefniadau Cefnogi Pobl sydd yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor. Ein bwriad yw gwthio'r ffiniau er mwyn cynorthwyo a chefnogi pobl gymaint ag y gallwn.

Un mater sydd wedi fy nhristáu'n ddirfawr yw'r sefyllfa yn Wcráin. Rydym fel sir yn awyddus iawn i gefnogi ffoaduriaid y wlad, ac wedi sefydlu ffrydiau gwaith penodol er mwyn sicrhau bod y ffoaduriaid yn cyrraedd ac yn setlo yng Ngwynedd mor rhwydd â phosib. Fel Cyngor, rydym yn sefyll mewn undod gydag Wcráin.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddatgan fy mod yn gadael fy swydd yn y Cyngor yr haf hwn. Mae'n deimlad chwerwfelys gan fy mod wedi mwynhau fy nghyfnod gyda Chyngor Gwynedd yn fawr iawn, ac wedi cael boddhad mawr o gyflawni fy swydd fel Cyfarwyddwr dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae nifer o gyflawniadau y byddaf yn edrych yn ôl arnynt gyda boddhad, ond mae ambell her yn parhau yn anffodus, fodd bynnag rwy'n ffyddiog y bydd y cynlluniau sydd gennym ar y gweill yn mynd i'r afael â'r rhain. Dymunaf y gorau i'r Cyfarwyddwr newydd a byddent yn sicr yn gallu bod yn dawel eu meddwl ar gychwyn eu taith bod seiliau cadarn yma yng Ngwynedd ar gyfer datblygu a gwella eto i'r dyfodol.

Diolch i chi i gyd, yn staff, rheolwyr, aelodau a phartneriaid am eich cefnogaeth i'r maes gwaith hynod bwysig hwn, ac am eich cefnogaeth i mi fel Cyfarwyddwr. Gyda hynny, carwn gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ceisio rhoi trosolwg teg o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn ystod y flwyddyn 2021/22.

Morwena Edwards



Cyfarwyddwr Corfforaethol a
Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol



# Trosolwg o Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol

Unwaith eto eleni, er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi eu hwynebu yn sgil Covid-19, rwyf yn hapus ar y cyfan gyda pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Gwasanaethau wedi cael eu rhannu'n ddwy Adran o fewn y Cyngor, sef yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd; a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

O ran ein trefniadau, mae perfformiad y ddwy Adran yn cael ei fonitro'n barhaus drwy ein trefniadau Herio Perfformiad misol, gan edrych ar fesurau penodol i archwilio p'un a ydym wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig i'n trigolion. Byddaf fel Cyfarwyddwr yn mynychu'r sesiynau hyn gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol a bydd adroddiadau perfformiad gan y ddwy Adran yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn rheolaidd. Mewn ymateb i'r materion blaenoriaeth, fydd yn aml wedi'u codi fel rhan o drefniadau cofrestr risg y Cyngor, mae rhaglenni gwaith yn cael eu monitro, a bydd adroddiadau cynnydd hefyd yn cael eu cyflwyno i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal ac i'r Cabinet. Hoffwn ddiolch i'r aelodau hynny sydd wedi ymgymryd â'r rôl bwysig o gefnogi'r broses hon yn ystod y flwyddyn.

Mae'r bennod hon felly yn ceisio rhoi trosolwg o berfformiad y ddwy Adran yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein Blaenoriaethau Gwella.

## ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Meddai Marian Parry Hughes, Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd:

*"Mae perfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi bod yn gyson drwy gydol y flwyddyn, ac rydym wedi llwyddo i gynnal ein prif wasanaethau a'n cyfrifoldebau mewn modd ddiogel er gwaethaf yr heriau sydd wedi wynebu'r gweithlu yn ystod y cyfnod. Gwelsom effeithiau gweithio dan gyfyngiadau Covid-19 yn amlygu eu hunain fwyfwy yn ystod y flwyddyn sydd wedi mynd heibio, gyda nifer o staff rheng flaen yn gadael eu swyddi. Yr ydym wedi wynebu cyfnod heriol gyda diffyg staff yn y gwasanaeth, ond er hynny, llwyddwyd i sicrhau nad oedd unrhyw achos heb weithiwr ac nad oedd rhestrau aros yn bodoli. Golyga hyn fod sawl newid wedi gorfod digwydd yn y gwasanaeth i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n cyfrifoldebau statudol a bod plant a theuluoedd yn ganolog ac yn flaenoriaeth i bopeth yr ydym yn gyfrifol am ei gyflawni. Mae'r ffaith ein bod wedi gallu cyflawni ein cyfrifoldebau yn gyson ac yn amserol yn destament i ymrwymiad ein gweithwyr a'n rheolwyr sydd yn barod i fynd y filltir ychwanegol i sicrhau fod plant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn ddiogel ac yn derbyn y gwasanaethau y maent eu hangen tra ar yr un pryd yn cynnal gwasanaeth ac ymarfer o ansawdd."*

### Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau 2021/22 yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd:

### Cefnogi Llesiant Pobl

Bu i'r mwyafrif o'n hymdrechion yn ystod y flwyddyn barhau yn cefnogi trigolion a chymunedau i ddelio gyda'r argyfwng neu'r sgil-effeithiau economaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag rydym hefyd wedi llwyddo i wneud cynnydd yn ein blaenoriaethau wrth i gymunedau a gwasanaethau symud yn araf tuag at adfer.

Rydym wedi tynnu gwasanaethau ar draws y Cyngor ynghyd i siapio'r Rhaglen Cefnogi Pobl a hyd yma rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion i gefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd, sy'n ofalwyr, sy'n wynebu tlodi a'u hallgau. Rydym wedi cydweithio gyda phartneriaid ar gefnogi llesiant plant, pobl ifanc a phobl o bob oed, ar gefnogi cymunedau i gynnal a chefnogi eu trigolion, ac ar adeiladu gwydnwch cymunedau.

Mae'r gwaith o gefnogi trigolion sy'n wynebu digartrefedd yn symud ymlaen o dan y Cynllun Gweithredu Tai, ond yn ystod y flwyddyn bu i'r trefniadau ar draws ein gwasanaethau weld cydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl a'r Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer mynd i'r afael â heriau digartrefedd ieuenctid ac anghenion iechyd meddwl.

Mae'r gwaith o gefnogi gofalwyr di-dâl wedi symud ymlaen drwy'r Cynllun Gweithredu Gofalwyr, ac mae'r cydweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid wedi gweld cyfleoedd ysbaid newydd yn cael eu datblygu, rhaglenni hyfforddi a chefnogi i ofalwyr o bob oed, ynghyd â gwell trefniadau gennym ar gyfer adnabod a chynnig asesiadau i ofalwyr.

Mae ein gwaith ar ymateb i heriau tlodi wedi parhau gydol y flwyddyn. Mae'r angen am wasanaethau cynghori ariannol, dyledion a mynediad i fudd-daliadau a thalebau ynni a bwyd brys wedi bod yn bwysicach nag erioed. Rydym wedi cydweithio gyda'n partneriaid Cyngor ar Bopeth a'r Cymdeithasau Tai ynghyd ag elusennau eraill er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau cynghori ariannol lleol, ymgyrchoedd i uchafu incwm, a chyd-weinyddu talebau ar gyfer helpu gyda chostau tanwydd a chostau bwyd mewn argyfwng.

Rydym wedi gweithio gyda nifer fawr o bartneriaid, ac mae sawl gwasanaeth ar draws y Cyngor wedi bod yn cymryd camau i daclo allgau digidol ymysg trigolion. Mae amryw gynlluniau wedi bod mewn cartrefi gofal, ysgolion ac mewn cymunedau gan wirfoddolwyr i wella sgiliau pobl i fynd ar-lein ar gyfer cael mynediad i wasanaethau, i gadw cyswllt a bod yn rhan o weithgareddau er eu lles a chyfeillgarwch.

Rydym wedi parhau i gydweithio gyda rhwydwaith eang iawn o grwpiau cymunedol a banciau bwyd ar ddarpariaethau bwyd argyfwng, cynlluniau bwydo, mentrau pryd ar glud, cynlluniau tyfu bwyd, gerddi cymunedol, rhandiroedd, clybiau bwyd a sesiynau dysgu coginio. Mae'r isadeiledd yma ar draws y sir yn cefnogi trigolion i gael mynediad i fwyd iach, fforddiadwy, a bwyd mewn argyfwng; mae'n annog gwirfoddoli a chyfranogiad, ac yn mynd i'r afael â lleihau gwastraff bwyd.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi sefydlu Hwb Covid mewn un ardal yng Ngwynedd, ac o'r dysgu y bu yno rydym bellach yn cefnogi rhwydwaith o 9 Hwb Cefnogi Pobl mewn cymunedau drwy'r sir. Rydym wedi cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector a 9 grŵp cymunedol i ddatblygu'r trefniadau hyn. Mae'r hybiau i gyd yn hwyluso mynediad trigolion at wasanaethau, ond hefyd yn cynnig arlwy amrywiol o weithgareddau a chlybiau lleol i bobl; maent yn parhau i gynnig mynediad i brofion Covid-19, talebau bwyd, ynni a phecynnau digidol yn ôl yr angen. Rydym yn gobeithio datblygu'r model hwn o gydweithio a chael hybiau i gefnogi pobl mewn cymunedau yn ystod 2022-23.

Nid yw'r gwaith ar adolygu ein trefniadau o amgylch ein drysau ffrynt wedi symud ymlaen yn ystod 2021-22 oherwydd y galw cynyddol a pharhaus oedd ar ein timau gwasanaethau cymdeithasol, tai a budd-daliadau.

Mae natur hirdymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael â thaclo tlodi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi grwpiau bregus o bobl gyda heriau tlodi, gofalu a lletya; datblygu ein trefniadau i gefnogi cymunedau ac adeiladu gwydnwch cymunedau ar y cyd gyda'n partneriaid; ac edrych ar wella trefniadau ein drysau ffrynt fel bod trigolion yn cael mynediad haws, amserol a lleol i'n gwasanaethau.



## Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd

Rydym wedi mabwysiadau "Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd" ac yn monitro effaith a chanlyniadau rhoi'r strategaeth honno ar waith ar ein teuluoedd. Mae peth effaith y strategaeth honno i'w gweld eisoes, megis yn y gostyngiad sydd wedi bod yn ystod y flwyddyn ar y niferoedd o blant sy'n dod i ofal. Wrth adolygu'r strategaeth yn rheolaidd rydym wedi adnabod ein bod yn wynebu heriau staffio a bod hynny yn fygythiad i'n gallu i wireddu'r strategaeth hon. Rydym wedi comisiynu ymgynghorydd allanol i adnabod y ffactorau sydd yn peri risg i lwyddiant y cynllun. Bydd y gwaith yn edrych ar faterion recriwtio gweithwyr proffesiynol ymysg materion gweithlu eraill er mwyn sicrhau fod gennym y capasiti, y sgiliau, a gweithwyr cymwys i asesu ac adnabod risgiau er mwyn gweithredu'r strategaeth yn ei chyfanrwydd er lles plant a theuluoedd yng Ngwynedd.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Rhaglen Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi parhau i fod yn cefnogi ein gweithwyr ni i adlewyrchu ar eu hymarfer a'u ffordd o weithio drwy raglen o hyfforddiant, datblygu sgiliau a thrwy gefnogaeth ein mentor ymarfer. Mae'r newidiadau i'n hymarfer ni yn golygu y byddwn ni yn gallu cefnogi teuluoedd yn well i ddiogelu plant drwy ganolbwyntio ar gydweithio ac osgoi sefyllfaoedd o wrthdaro gyda theuluoedd.

Rydym wedi ailgydio yn ein hymyrraeth Ffordd Gwynedd Adran Plant ac Adran Addysg, ac wedi cynnal nifer uchel o adolygiadau gydag unigolion sydd wedi derbyn gwasanaeth, ysgolion ac asiantaethau eraill. Rydym wedi cytuno ar egwyddorion gweithredu ac wedi adnabod nifer o ffyrdd i wella'n trefniadau. Yn 2022 byddwn yn gweithredu ar y newidiadau a'r egwyddorion, yn ogystal ag arfogi staff yn y ddwy Adran i fod yn effeithlon wrth ddarparu gwasanaeth.

## Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

Rydym wedi llwyddo i hyfforddi staff fel eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth addas i blant gydag anghenion cymhleth drwy raglen hyfforddiant i weithwyr o fyd addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae'r rhaglen hyfforddiant arbenigol hon wedi cynnwys PACT (Awtistiaeth), Nurture (Rhianta), Family Links, sy'n arfogi ein gweithlu i ddarparu ymyraethau a chefnogaeth arbenigol.

Er i'r pandemig gael effaith ar ein gallu i symud ymlaen cyn gyflymed ag y dymunir ar y Rhaglen Trawsffurfio Rhanbarthol, rydym wedi cydweithio gyda phartneriaid i sefydlu Tîm Aml-asiantaethol. Yn ystod 2022 byddwn yn gwerthuso'r model hwn, ac yn symud i integreiddio'r model i'n trefniadau lleol sydd ynghlwm â'n Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd.

Nid ydym wedi llwyddo i symud ymlaen gyda'r gwaith o gwblhau astudiaethau dichonolrwydd ac opsiynau ar gyfer darpariaeth breswyl lleol i blant ag anghenion cymhleth. Byddwn yn ail-gydio yn y gwaith hwn yn 2022.

Rydym wedi parhau gyda'r gwaith o gynyddu ac ehangu nifer a mathau o leoliadau maeth yn y sir drwy gydweithio gydag ymgyrch "Maethu Cymru". Lansiwyd "Maethu Cymru" ym mis Medi, sy'n cynnwys tudalen we newydd ar gyfer y Gwasanaeth maethu yn ogystal ag ymgyrch recriwtio genedlaethol.

## Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt

Ar y cyd gyda'n partneriaid rydym wedi mabwysiadau Cynllun Awtistiaeth i Wynedd gan gynnwys sefydlu Bwrdd Partneriaeth i gymryd trosolwg o'r cynllun ynghyd â sicrhau adnoddau i benodi Cydlynydd Awtistiaeth i arwain ar y cynllun. Yn 2022 byddwn yn symud ymlaen i godi ymwybyddiaeth a hyfforddi gweithwyr yn y maes awtistiaeth, ynghyd ag ymgysylltu gyda'r trydydd sector i geisio datblygu ystod o ddarpariaethau ataliol.



Dywed Aled Davies, Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:

*"Does dim dwywaith fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn hynod heriol. Mewn rhai ffyrdd, bu'n fwy o sialens i ni na'r 12 mis blaenorol gyda'n perfformiad ar ambell fesurydd allweddol, gyda'n gallu i ddarparu gwasanaethau a chyflawni beth sydd yn bwysig i drigolion y Sir yn cael ei effeithio gan gynnydd yn y galw, heriau recriwtio ac wrth gwrs effeithiau argyfwng Covid-19. Roedd ymdopi gydag effaith swyddi gwag ac absenoldebau staff yn anodd iawn ar adegau. Trwy'r cyfan bu i'r gweithlu gofal ymateb yn arwrol, yn gweithio oriau hir ac yn cefnogi ei gilydd dan amgylchiadau anodd. Gwelwyd ymateb tebyg gan ein darparwyr a'n partneriaid allweddol yn ogystal, a'r cyfan yn ein galluogi i barhau gyda gwasanaethau gofal allweddol. Erbyn hyn mae mwyafrif y gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau wyneb yn wyneb, wedi ailagor gyda nifer ar ffurf gwahanol sy'n adlewyrchu addasiadau a wnaed a'r gwersi a ddysgwyd yng nghyd-destun argyfwng Covid-19.*

*Bu'n gyfnod anodd ond hefyd yn gyfnod a roddodd gyfleon i addasu a gwella gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Ein nod fydd parhau ar y daith hon a defnyddio'r profiad a'r cyfleon sy'n codi i drawsnewid gwasanaethau gofal oedolion yng Ngwynedd. Ar ôl i ni ddad-flino wedi pwysau'r ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'n partneriaid, rwy'n hyderus y gallwn gyflawni'r gwelliannau i gynorthwyo oedolion mwyaf bregus Gwynedd i fyw eu bywydau fel y maent yn ei ddymuno. Mae llawer wedi ei wneud a llawer eto i'w gyflawni, ond rydym yn symud i'r cyfeiriad cywir."*

## Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau 2021/22 yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:

### Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol

Mae'r gwaith o geisio deall "gwir gost gofal" yn mynd yn ei flaen a bydd hyn yn waith fydd yn parhau yn ystod 2022/23. Tra ein bod wedi cytuno ar ffioedd preswyl a nyrsio ar gyfer 2022/23 sydd yn cyd-fynd â'r rhanbarth, byddwn yn parhau i edrych ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf er mwyn edrych ar y posibilrwydd o dalu ffioedd preswyl a nyrsio penodol i Wynedd sy'n adlewyrchu gwir gost gofal. Ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mae gwaith hefyd wedi cychwyn ar broses 'Open Book Accounting', sef dull lle mae contractwyr yn rhoi darlun tryloyw o'u costau i gyfiawnhau eu ffioedd. Bydd y broses yma yn cael ei dilyn gyda rhai darparwyr penodol sydd yn codi ffioedd uwchlaw ein ffioedd safonol.

Yn ystod 2021/22 mae gwaith wedi cael ei wneud ar adeiladau nifer o'n cartrefi mewnol i'w gwneud yn fwy addas i'r dyfodol, gan gynnwys Cefn Rodyn yn Nolgellau, Tan y Marian ym Mhwllheli a Hafod Mawddach ym Mermo. Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i gynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys ac unigolion â dementia er enghraifft.

Rydym yn gobeithio cael adnodd o'r gronfa Llywodraeth Cymru newydd, y Gronfa Integredig Rhanbarthol, er mwyn cyd-gordio a gyrru ymlaen ar yr holl waith darpariaeth gofal addas gan gynnwys ail-fodelu cartrefi preswyl i gynnwys gwelyau dementia, darpariaeth gofal dydd ac ati yn ystod 2022/23. Bydd y llif gwaith yma hefyd yn cynnwys parhau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu safle Penrhos ym Mhen Llŷn. Yn ystod 2021/22 mae'r Adran ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu arweiniad cyfreithiol arbenigol gan gwmni allanol er mwyn edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth nyrsio fewnol ym Mhenrhos er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg gwelyau arbenigol yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Yn anffodus oherwydd problemau staffio, nid ydym wedi gallu agor yr uned Dementia bwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog. Gobeithir bydd y gwaith recriwtio yn ystod 2022/23 yn mynd i'r afael â'r broblem yma yn fuan yn y flwyddyn.

Tra bod y gwaith o ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli yn mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl mae llithriad i'w adrodd o ran ceisio canfod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir. Nodwyd yn ein Cynllun am 2021/22 y byddwn yn blaenoriaethu ardal Dolgellau a Meirionnydd ond ar hyn o bryd nid ydym wedi gallu canfod lleoliad addas yn yr ardal.

## Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal

Mae'r gwaith o arfogi'r timau integredig wedi parhau yn ystod 2021/22. Mae'r drefn o rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau wedi derbyn sylw, yn ogystal â sefydlu trefn lle mae unrhyw ymholiad iechyd neu gofal yn cyrraedd un pwynt o fewn yr ardaloedd, er mwyn symleiddio pethau i drigolion Gwynedd. Bydd y gwaith o ddatblygu'r timau integredig yn parhau yn ystod 2022/23.

Yn ystod 2021/22, rydym wedi gallu penodi tîm arbenigol symud a thrin i gryfhau'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol. Rydym bellach wedi penodi pedair swydd yn barhaol ac un swydd dros dro. Rydym hefyd wedi penodi dwy hyfforddai Therapi Galwedigaethol fydd yn golygu ein bod yn datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnom i'r dyfodol.

Parhaodd y gwaith o ail-ddylunio'r Gwasanaeth Gofal Cartref drwy gytundebau newydd ym mhob ardal, ac yn ystod 2021/22 mae cydweithio agos wedi bod er mwyn paratoi darparwyr a thrigolion Gwynedd ar gyfer y newid. Roedd y pecyn tendr yn mynd allan yn mis Ebrill 2022, a bydd y cytundebau yn cael eu dyfarnu yn ystod haf 2022 ac y drefn o weithredu'r model newydd yn fyw wedi hynny.

Tra bod peth oedi wedi bod gyda datblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau oherwydd problemau cynllunio yn ymwneud â risg llifogydd, mae'r gwaith yn bwrw yn ei flaen ac yn fuan yn 2022/23 bydd amserlen ddiwygiedig yn ei le, a gallwn fynd allan i ymgynghori a diweddaru trigolion Gwynedd.

Rydym hefyd wedi llwyddo i ailagor Hwb Iechyd Meddwl ym Mhwllheli. Ar gyfer y garfan iau, yn ddiweddar rydym wedi sefydlu hybiau llesiant i bobl hyd at 25 oed yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan GISDA ac yn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion. Yn ystod 2022/23 bydd prosiect Gwydnwch Cymunedol yn cael ei lansio er mwyn datblygu'r hybiau ar draws y Sir, gan dynnu'r holl gefnogaeth sydd ar gael at ei gilydd yn yr ardaloedd lleol.





**Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal**

Mae recriwtio i'r sector wedi parhau i fod yn heriol ledled y wlad yn ystod 2021/22, ond gwnaed cynnydd yn erbyn y blaenoriaeth gwella yn ystod cyfnod anodd.

Penodwyd Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal sydd yn canolbwyntio ar gyd-gordio yr elfennau recriwtio yng Ngwynedd yn ogystal â ffrydiau gwaith eraill. Mae'r cydweithio gyda Gofalwn Cymru wedi parhau, ac mae digwyddiadau pwrpasol wedi cymryd lle mewn ardaloedd lle mae recriwtio yn broblem benodol. Un enghraifft ydi digwyddiad yn Maesgeirchen lle llwyddwyd i benodi 6 aelod staff ar gyfer cartref Plas Hedd. Mae bwriad i ddysgu o hyn ac i adeiladu ar y profiad ar draws y Sir yn ystod 2022/23.

Mae perthynas yn cael ei datblygu gyda Coleg Llandrillo Menai er mwyn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr, ond hefyd i ddenu unigolion i'r maes i'r dyfodol.

Mae'r broses o gofrestru staff gofal wedi parhau yn ystod 2021/22 a bydd hyn yn parhau drwy gydol 2022/23, er mwyn codi statws swyddi o fewn y sector a datblygu staff er mwyn sicrhau bod cadernid yn y maes i'r dyfodol.

Mae meithrin talent yn bwysig i'r Adran mewn meysydd lle fo prinder yn debygol o fod i'r dyfodol, ac mae hyfforddai Gwaith Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol yn ffordd bwysig o sicrhau capasiti digonol i'r dyfodol. Roedd bid ariannol ar gyfer sefydlu Cynllun Llwybrau Gyrfa Gofal (hynny yw, ariannu hyfforddai newydd ac uwch-sgilio staff presennol y gwasanaethau) yn aflwyddiannus felly ni fu modd symud ymlaen â'r llif gwaith yma mor effeithiol ag y byddem wedi'i obeithio. Mae dwy hyfforddai proffesiynol arwain a rheoli wedi cychwyn ar y Cynllun Yfory yn ystod 2021/22, er mwyn meithrin talent arwain yr Adran i'r dyfodol.

Ar ôl ystyried y Gofrestr Risg bresennol yn ogystal â'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau uchod, mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u gosod ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2022/23.

Gellir cael rhagor o fanylion amdanynt ym Mlaenoriaethau Gwella'r Cyngor:

- Cefnogi llesiant pobl
- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Sicrhau darpariaeth gofal addas a llesiant cynaliadwy i'r dyfodol
- Gwella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir
- Ail-ddylunio ein gwasanaethau gofal
- Y gweithlu a recriwtio yn y maes gofal
- Sicrhau ein bod yn cadw teuluoedd gyda'i gilydd
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth
- Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu

# Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn llwyr ymrwymedig i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, gan sicrhau ein bod yn gwrando ar 'beth sy'n bwysig' i'r trigolion. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o roi unigolion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddynt er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n creu llesiant.

Bellach, mae'r ffordd yr ydym yn gweithio o fewn adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio sicrhau bod llais, mewnbwn a'r hyn sy'n bwysig i unigolion yn ffurfio gwasanaethau unigol a chymunedol yn barhaus, ac rydym yn mynd ati i sicrhau bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, ar gyfer y byrdymor a'r hirdymor, er lles pobl y sir.

Mae derbyn barn ein defnyddwyr gwasanaeth am ansawdd ein gwasanaethau yn bwysig iawn i ni os ydym am wella'n barhaus, ac mae'r drefn gwynion yn rhan allweddol o hyn. Mae gennym drefniadau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn ymateb, yn datrys ac yn dysgu o unrhyw gŵyn a dderbynnir. Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus y bydd eu cwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol, a hynny mewn modd positif. Rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Cwynion Blynyddol er mwyn rhoi trosolwg o'r cwynion a dderbyniom yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r camau a gymerwyd i'w datrys. Bydd Adroddiad eleni'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn fuan yn 2022.

Mae argyfwng Covid-19 wedi ein herio i'r eithaf yn yr ystyr ein bod wedi gorfod addasu'n gyflym i sefyllfaoedd, newid ein ffordd o weithio ac ymdopi gyda gweithio dan straen parhaus yr haint. Rydym wedi dysgu llawer o wersi o'r pandemig, ac yn awyddus iawn i weithredu ar y gwersi hyn ar gyfer y dyfodol. Yn sgil dyfodiad y ffordd newydd o weithio, byddwn yn adolygu ein prosesau a gweithdrefnau yn barhaus, ac yn sicrhau bod llais y defnyddiwr yn rhan o hyn.

Yn ogystal â'n blaenoriaethau i adolygu ein darpariaethau yn gyson, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi anghenion y cyhoedd yn gyntaf, mae gennym hefyd ambell ymarferiad statudol lle rydym yn gofyn barn y cyhoedd ar faterion penodol. Eleni rydym wedi bod yn paratoi Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022-2027 ar y cyd ag asiantaethau eraill yn y Gogledd, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022. Rydym hefyd yn llunio Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd a gyhoeddir yn hydref 2022. Mae'r Asesiadau Anghenion Poblogaeth rhanbarthol a lleol yn darparu trosolwg o anghenion y boblogaeth, yn dangos inni beth yw anghenion gofal a chymorth y boblogaeth heddiw ac yn y dyfodol, a bydd hefyd yn gymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn â chynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r Asesiad yn ystyried:

- Gofynion gofal a chefnogaeth y boblogaeth
- Anghenion cefnogaeth gofalwyr
- I ba raddau mae'r anghenion yna yn cael eu diwallu
- Yr ystod a'r lefel o wasanaethau sydd ei angen er mwyn cwrdd â'r anghenion gofal a chefnogaeth sydd wedi eu hadnabod
- Yr ystod a'r lefel o wasanaethau ataliol sydd eu hangen

Rydym yn ymgysylltu gyda, ac yn ystyried, y themâu/grwpiau a ganlyn:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Iechyd, Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
- Anableddau Dysgu (Plant ac Oedolion)
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr

Mae'r asesiad wedi cael ei lywio gan y gofynion a nodwyd yn y cod ymarfer ar gyfer yr Asesiad Anghenion Poblogaeth ac wedi rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau a pholisïau eraill sy'n cael effaith sylweddol ar y grwpiau a restrwyd. Mae pob pennod yn cynnwys asesiad o:

- Y Gymraeg (y 'cynnig gweithredol')
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol
- Effaith pandemig Covid-19
- Ystyriaethau diogelu
- Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Gwerth Cymdeithasol

Mae'r materion allweddol a'r themâu a nodwyd yn seiliedig ar ymgynghoriad ac adborth gan staff, sefydliadau partner, cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, i nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o strategaethau comisiynu blaenorol ac asesiadau o anghenion.




Mae Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi sut bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn cyflawni ei waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cydweithir gyda phartneriaid allweddol i yrru'r newidiadau angenrheidiol ar gyfer integreiddio iechyd a gofal yn ein cymunedau, gan roi sylw i ystod eang o feysydd megis Oedolion, Plant, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Thrawsnewid Cymunedol.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried ei rôl yn y gwaith o adfer ein cymunedau yn dilyn sgil effeithiau'r pandemig. Amlygwyd materion sydd wedi effeithio ein cymunedau fwyfwy megis tlodi ariannol, diweithdra ymhlith pobl ifanc, sefyllfa ail gartrefi a gor-dwristiaeth. Dros y misoedd diwethaf mae'r Bwrdd wedi cynnal gwaith ymchwil ac wedi ymgynghori ar asesiadau llesiant fesul ardal. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y mae pobl a chymunedau Gwynedd wedi'i ddweud sy'n bwysig iddynt i lunio'r Cynllun Llesiant nesaf fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Bydd yr asesiadau hyn hefyd yn gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein cymunedau, gan edrych ar heriau a chyfleoedd i'r dyfodol.

Yn ystod 2021/22 fe dderbyniwyd tua 8,000 o ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor megis Ardal Ni 2035, Gwasanaethau Teg i Bawb, ac ati. Fel Cyngor, rydym yn gwerthfawrogi clywed barn pobl i'r ymgynghoriadau hyn fel ein bod yn gallu mireinio ac addasu ein gwaith yn ôl gofynion ac anghenion y cyhoedd.




Yn yr un modd, mae gan Gyngor Gwynedd Banel Trigolion er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o drawstoriad o drigolion Gwynedd, a bod eu llais yn ganolog wrth i'r Cyngor gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau lleol i'r dyfodol. Eleni, roedd dros 800 o bobl yn rhan o'r Panel hwn.

Rydym hefyd yn ystyried barn plant i fod yn hollbwysig i ni, ac mae plentyn mewn gofal yn aelod o Banel Rhiant Corfforaethol y Cyngor, lle caiff aelodau'r Panel gyfle i glywed safbwynt a phrofiadau byw plentyn mewn gofal. Mae hyn oll yn gymorth i lunio ac addasu'r ddarpariaeth i blant mewn gofal. Fodd bynnag, rydym yn y broses o adolygu trefniadau'r Panel gan fod angen i ni sicrhau bod plant mewn gofal yn gallu parhau i fynychu a chyfrannu'r Panel yn rhwydd ac yn y ffordd orau iddynt hwy.

Rydym hefyd yn ceisio barn y grŵp Llwybrau Llesiant, lle mae unigolion gydag Anableddau Dysgu yn llywio gweithgareddau'r tîm ac yn cwrdd i lunio rhaglen o weithgareddau ar-lein a wyneb yn wyneb gyda chefnogaeth y tîm.

Wrth gwrs, mae defnydd o'r we a chyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Twitter ac Instagram wedi dod yn gynyddol bwysig ac yn allweddol i rannu gwybodaeth a derbyn adborth ymysg trigolion y sir yn ystod y pandemig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ymgysylltu â'n tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda 37,784 o ddilynwyr ar y llwyfannau hyn.

Gwelwyd cynnydd cyffredinol hefyd yn nefnydd gwasanaethau ar-lein y Cyngor ynghyd â'r ceisiadau hunanwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno. Rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth, agorwyd 14,080 o gyfrifon newydd.

Eleni, mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cryfhau ei allu i ymateb i geisiadau sy'n cyrraedd y drws ffrynt, ac mae adnoddau ychwanegol wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau yr ymatebir yn amserol i geisiadau am wybodaeth, cyngor, asesiad ac ymyraethau addas i bwrpas. Mae'r niferoedd sy'n cysylltu am Wybodaeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn parhau i gynyddu, gyda 7,136 o bobl wedi cysylltu yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn bron i 17% o gynnydd o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Wrth gwrs, mae angen cofio bod barn yr unigolyn ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddo yn rhan ganolog ac allweddol yn y ffordd yr ydym yn ceisio darparu gwasanaethau o fewn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ein trefniadau rheoli perfformiad yn seiliedig ar fesuryddion sy'n mesur a monitro hyn, a byddwn yn parhau i adeiladu ar yr hyn a ddywed unigolion wrthym o ran sut y gallwn wella ein darpariaethau ar lefel leol a sirol fel ein bod yn gallu sicrhau'r gefnogaeth, yr ymyraethau a'r gwasanaethau gorau i drigolion y sir at y dyfodol.



# Hyrwyddo a gwella lles y rheiny yr ydym yn eu cynorthwyo

**Yn y bennod hon, byddaf yn gwerthuso ein cynnydd yn ystod 2021/22 yn erbyn y chwe safon ansawdd sydd yn cael eu nodi gan y Llywodraeth yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

**Yn ogystal, byddaf yn rhoi braslun o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn 2022/23.**

**SAFON ANSAWDD 1**: *Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni*

Bu pandemig Covid-19 yn parhau i effeithio ar les personol pob un ohonom mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi bod yn gyfnod heriol a phrysur iawn i'r **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu**, yn enwedig tua diwedd 2021 gyda'r niferoedd uchaf o achosion Covid-19 a wynebodd y sir ers ddechrau'r pandemig, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch yr amrywiolyn Omicron.

Fodd bynnag, llwyddodd y Gwasanaeth i gydweithio'n effeithiol gyda thrigolion a sefydliadau er mwyn cadw Gwynedd mor ddiogel â phosib drwy dorri cadwyni trosglwyddo a chefnogi pobl sy'n wynebu'r her o orfod ynysu.

Yn anffodus, ond yn ddealladwy, mae gwaith ar y **Rhaglen i Drawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol** yng Ngwynedd wedi arafu yn ystod y flwyddyn, wrth i gydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd wynebu'r her enfawr o ymateb i'r pandemig a chynnal rhaglenni profi a brechu estynedig.

Serch hynny, mae'r timau Oedolion wedi bwrw ymlaen gyda chynlluniau i wireddu newidiadau ar yr elfen **Gwaith Cymdeithasol,** mewn paratoad ar gyfer y cyfnod nesaf pan gellir rhoi mwy o sylw i'r agenda integreiddio. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed adolygiadau o feysydd allweddol yn cynnwys y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, y broses ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn system WCCIS a'r trefniadau ar gyfer cau achosion. Bwriedir symud ymlaen i weithredu yn dilyn yr adolygiadau hyn.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, gwnaed y cam allweddol i ddiddymu'r **tîm Broceriaeth** a sicrhau cydweithio agos rhwng darparwyr gofal cartref a'r timau Oedolion mewn ardaloedd lleol. Golyga hyn fod penderfyniadau yn medru cael eu gwneud yn lleol ynglŷn â'r defnydd gorau o adnodd prin, a bod perthynas waith gref yn medru ffynnu. Mae hyn yn rhan o'r rhaglen ehangach ar gyfer sefydlu model gofal cartref newydd yn y sir.

Datblygiad pwysig arall yw gwaith sydd ar y gweill i gryfhau'r gefnogaeth **Therapi Galwedigaethol** sydd ar gael i bobl, a'r defnydd o offer. Mae hyn yn cynnwys ailedrych ar ein gwasanaeth teleofal a'r rôl y gallai technoleg ei chwarae ym mywydau trigolion Gwynedd. Bydd hyn, ochr yn ochr â chynlluniau i gefnogi datblygiadau cymunedol, yn ein cynorthwyo gyda'r nod o leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol, costus.

Llwyddiant a welwyd yn ystod y flwyddyn o safbwynt cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd oedd cyhoeddiad **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth**, sy'n galluogi staff o sawl proffesiwn i rannu gwybodaeth ynglŷn â phobl sydd yn yr ysbyty a / neu bobl sy'n derbyn cefnogaeth yn y gymuned. Yn ogystal, datblygwyd system syml sy'n cael ei threialu, er mwyn hwyluso'r cyfathrebu rhwng ysbytai a'r timau adnoddau cymunedol gyda'r nod o leihau hyd arhosiad pobl yn yr ysbyty pan maent yno yn ddiangen.

Wrth edrych ymlaen i 2022/23 byddwn yn parhau gyda'r gwaith o **sefydlu model gofal cartref** yn y sir a hwyluso'r drefn i bobl adael yr ysbyty. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y model hwn yma. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu datblygu opsiynau ar gyfer model drws ffrynt newydd ar gyfer iechyd a gofal gan ddatblygu ein gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth ymhellach.



Rydym wedi bod yn cydweithio â **Dewis Cymru** er mwyn symleiddio'r ffordd mae pobl y sir yn gallu dod o hyd i wybodaeth neu gyngor am eu llesiant. Pwrpas y wefan hon yw rhestru unrhyw wasanaeth sydd ar gael a allai fod o fudd i lesiant pobl er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth maent ei angen i arwain bywyd da.

Wrth gwrs, rydym wedi bod yn awyddus iawn i **gefnogi ffoaduriaid** sydd wedi gorfod ffoi eu cartrefi oherwydd rhyfel, yn cynnwys ffoaduriaid o Syria, Affganistan ac Wcráin. Ym mis Awst, mewn ymateb i'r sefyllfa drychinebus yn Affganistan, cynigiodd Cyngor Gwynedd gartref i unigolion oedd wedi ffoi'r wlad. Bûm hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r mudiad Pobl i Bobl sy'n helpu pobl sydd mewn argyfwng drwy ddarparu cymorth a chefnogaeth bersonol, waeth beth fo'u hil, eu crefydd neu eu lleoliad.

Mae gennym ffrydiau gwaith ar y gweill i gefnogi ffoaduriaid sy'n cyrraedd o Wcráin er mwyn eu cefnogi gyda materion megis addysg i'r plant, cyfeiriadau at wasanaethau iechyd, gwaith a budd-daliadau, llety argyfwng, integreiddio cymunedol, gofal plant ac arian.

Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn arwain ar sefydlu Canolfan Groeso i ffoaduriaid sy'n ffoi o Wcráin i Wynedd, ac yn cydweithio gyda'n partneriaid ar draws y gogledd i gefnogi hyd at 80 unigolyn yn y Ganolfan Groeso. Rydym yn cydweithio gyda landlordiaid preifat, cymdeithasau tai, busnesau a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid yn cael pob cymorth wrth sefydlu eu hunain yn y sir. Dyma ddywedodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd:

*"Ein dymuniad yw cymryd pob cyfle posib i helpu'r dynol ryw mewn argyfwng, a dyna yr ydym yn ei wneud yma, gan obeithio gallu cynnig bywyd gwell i ffoaduriaid mewn angen tra bod eu mamwlad o dan y fath amgylchiadau."*



Llun: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**SAFON ANSAWDD 2:** *Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl*

Rydym yn ceisio sicrhau bod pawb yn gwarchod eu hiechyd a'u lles ac yn mabwysiadu ffyrdd iach o fyw, gan dderbyn gofal a chymorth ataliol a rhagweithiol pan fo angen. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio cefnogi cymunedau mewn sawl ffordd er mwyn cyflawni datrysiadau ataliol eu natur sy'n cynyddu opsiynau gofal lleol, gan arwain hefyd at sicrhau bod ein cymunedau'n rhai cryf a gwydn. I wneud hyn, rydym wedi mapio gwasanaethau a grwpiau sy'n bodoli mewn cymunedau er mwyn adnabod bylchau, a chysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, yn ogystal â hybu mentrau cymunedol.

Fel sydd eisoes wedi'i amlinellu, eleni rydym wedi parhau â'n hymdrechion i ddiogelu pobl yn erbyn Covid-19. Mae llawer iawn o waith wedi bod yn digwydd o fewn y Cyngor ac wrth gydweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn cadw mor ddiogel â phosib yn ystod yr argyfwng hwn.

Mae'r Cyngor wedi parhau, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, i hyrwyddo a chefnogi'r **ymdrech frechu**. Erbyn mis Mawrth 2022, roedd 71,138 o bobl dros 18 oed wedi derbyn tri dos o'r brechlyn sy'n cyfateb i 70% o'r boblogaeth o'r oedran hynny. Rydym wedi cydweithio'n barhaus gyda'r Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau bod sefyllfa Covid-19 dan reolaeth a'n bod yn tynnu ynghyd er mwyn brwydro gyda'n gilydd i sicrhau'r ardrawiad lleiaf bosib ar bobl Gwynedd. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau yn ystod 2022/2023 fel rhan o'r Rhaglen Frechu Genedlaethol.

O fewn Cynllun y Cyngor, mae **Cefnogi Llesiant Pobl** wedi cael ei adnabod fel blaenoriaeth gwella. Rydym wedi adnabod bod angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion er mwyn ymdopi gyda heriau bywyd, ac rydym yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau er mwyn cefnogi pobl i wynebu a cheisio goresgyn eu problemau.

Fel rhan o'r ymdrechion i gefnogi llesiant pobl, mae'r **Rhaglen Cefnogi Pobl** wedi gweithio ar adnabod rhwystrau a gwella ein dealltwriaeth o sut mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd drwy nifer o ffrydiau gwaith amrywiol. Bwriad hyn yw galluogi i bobl Gwynedd edrych ar ôl eu llesiant eu hunain ac ymdopi gyda heriau bywyd fel eu bod yn gallu ffynnu, bod yn ddiogel ac yn iach. Mae rhai o'r ffrydiau gwaith yn cynnwys ymateb i **Dlodi Ariannol a Bwyd, Cefnogi Gofalwyr, Atal Digartrefedd, Cynhwysiad Digidol a Hyrwyddo Llesiant.** Byddwn hefyd yn canolbwyntio ein hymdrechion ar weithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar ymyraethau i hyrwyddo llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed; ac ar sut y gallwn gefnogi gwydnwch cymunedau.

Dros y 12 mis diwethaf rydym hefyd wedi bod yn mynd ati i addasu ac adfer nifer o raglenni sy'n mynd i'r afael â chefnogi pobl sy'n wynebu tlodi megis Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant 30 awr, budd-dal tai, tâl tai disgresiynol, darpariaeth gostyngiad Treth Cyngor, brecwast a chinio ysgol am ddim, grant dysgu disgyblion a grantiau eraill i ysgolion, rhaglenni cyflogadwyedd megis Cymunedau am Waith a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Datblygiad Pobl Ifanc, a rhaglenni tlodi tanwydd megis Cymru Gynnes.

Mae'r Cyngor wedi cefnogi **banciau bwyd** y sir gyda chyflenwad bwyd ynghyd â grantiau cyfalaf a refeniw tuag at gostau rhedeg; rydym hefyd wedi tynnu adnoddau o sawl grant cenedlaethol ynghyd i gefnogi 20 Cynllun Bwyd Cymunedol drwy'r sir dros y 12 mis diwethaf. Mae'r cynlluniau'n ymwneud â thyfu a darparu bwyd a phrydau, lleihau gwastraff bwyd, a datblygu sgiliau coginio.



Mae nifer o'r cynlluniau bwyd wedi datgan eu dymuniad i fod yn rhan o rwydwaith sirol er mwyn gallu rhannu adnoddau, cefnogi ei gilydd, ac edrych ar gyfleon i gydweithio. Mae nifer o'r cynlluniau wedi datgan eu dymuniad i weithio'n agosach gyda rhai o wasanaethau'r Cyngor er mwyn gallu cyfeirio'r trigolion sy'n dod atynt i gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, yn arbennig felly tai, iechyd meddwl, gofal, budd-daliadau ac incwm, gwaith, dyledion a chamddefnyddio sylweddau.

Mae **costau tanwydd** i gadw cartrefi'n gynnes wedi cynyddu'n sylweddol ac yn cael effaith ar incwm trigolion Gwynedd, gan wthio nifer o deuluoedd i dlodi neu ymhellach i dlodi. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar sut rydym yn gwella cyflwr tai er mwyn i ni allu gosod y mesurau carbon isel fydd yn eu tro yn arwain at leihau tlodi tanwydd. Rydym yn cydweithio â'r sector preifat ar gynllun Eco i ehangu'r nifer o dai sy'n cael mesurau cymorth. Rydym hefyd yn edrych ar ehangu'r cynllun i gwmpasu ardaloedd cyfan yn sgil Arbed am byth. Mae partneriaid y Cyngor yn cynnwys Nyth, Cymru Gynnes, a grwpiau cymunedol megis Ynni Twrog a'r Dref Werdd i ddatblygu cynlluniau carbon isel er mwyn ymateb i her tlodi tanwydd.

Rydym wedi gallu sicrhau y bydd **nwyddau mislif am ddim** ar gael i drigolion Gwynedd yn nhoiledau 10 o lyfrgelloedd y sir er mwyn mynd i'r afael â thlodi mislif ac i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau amgylcheddol cynnyrch y gellir ei ail-ddefnyddio. Gall unrhyw un sydd angen nwyddau mislif helpu eu hunain. Cynhaliwyd ymgyrchoedd hefyd i gynnig nwyddau mislif ailddefnyddiadwy i drigolion, sydd wedi profi'n boblogaidd iawn felly byddwn yn parhau â'r ymgyrchoedd hyn yn 2022/23.

**Yn 2022/23, bydd y Rhaglen Cefnogi Pobl yn:**

- Penodi Cydlynydd a Swyddog Cefnogi Cynhwysiad a Threchu Tlodi ar y cyd gyda'n partneriaid
- Sefydlu Rhwydwaith Tlodi Bwyd
- Cefnogi trigolion gyda darpariaeth fwyd brys a chyngor ariannol
- Ehangu ar y gefnogaeth leol i drigolion ymgeisio am fudd-daliadau a chael mynediad i gyngor ariannol
- Sefydlu ymgyrchoedd hyrwyddo budd-daliadau lleol yn arbennig er mwyn targedu aelwydydd incwm isel a theuluoedd drwy'r ysgolion
- Ail-gydio yn ein trefniadau cynllunio a chydweithio ar draws partneriaid megis y Grŵp Cynhwysiad Ariannol, Grŵp Lles a Grŵp Cynhwysiad Digidol.




Bu'r **Bartneriaeth Ddysgu Iechyd a Lles** yn cyfarfod yn fwy rheolaidd yn ystod y pandemig i drafod sut i hyrwyddo llesiant pobol drwy hybu'r 5 Ffordd at Les gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r llyfryn [Edrych ar ôl fy Hun] wedi bod yn ganolog i'r gwaith a, law yn llaw â hyn, sefydlwyd [tudalen Facebook] sy'n rhannu ystod eang o wybodaeth a digwyddiadau iechyd a llesiant yng Ngwynedd.


Ar 10-16 Mai, cynhaliwyd **Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl**, sef wythnos sy'n rhannu negeseuon a gwybodaeth allweddol am iechyd meddwl a'r gwasanaethau cymorth a chefnogaeth sydd ar gael. Hyrwyddwyd negeseuon am y 5 Ffordd at Les ar wefannau cymdeithasol y Cyngor a phenodwyd diwrnod penodol o'r wythnos ar gyfer pob un o bum thema'r 5 Ffordd at Les.

Rhoddwyd sylw arbennig i iechyd meddwl dynion a lluniwyd fideo o ddynion o bob cefndir a galwedigaeth yn dweud ["Dw i'n barod i siarad, wyt ti?"].

Cynhaliwyd cyfres o weithgareddau yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc Gwynedd drwy **Gaeaf Llawn Lles**, sef menter wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys clwb celf, gweithdai dawns, dosbarthiadau syrcas, gweithgareddau chwaraeon, gweithdai gwyddoniaeth, clwb garddio a llawer mwy.

Mae'r **Tîm Llwybrau Llesiant** yn darparu ystod eang o wybodaeth, gwasanaethau a gweithgareddau sy'n ymateb i anghenion unigolion gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng Ngwynedd. Yn ystod y pandemig, mae'r tîm wedi parhau i gynnal rhaglen wythnosol o sesiynau a gweithgareddau i hybu lles yr unigolion - yn gorfforol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Er enghraifft, trefnwyd te prynhawn i oedolion hŷn Bangor, noson bingo yn yr Empire a thaith i'r sinema yng Nghell B ym Mlaenau Ffestiniog. Yn ogystal, mae'r Clwb Garddio wedi mwynhau wrth gyfrannu at ddatblygiad yr Ardd Gymunedol yng Nghanolfan Byw'n Iach yng Nghaernarfon. Rydym hefyd yn cydweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn cynnal sesiynau gwybodaeth i gryfhau'r cyfleoedd i wella llesiant, er enghraifft sesiynau Pencampwyr Gwiriad Iechyd Blynyddol gyda Conwy Connect, sesiynau Rhywioldeb a Pherthnasedd gyda Sparc 2 a Love2MeetU, ac rydym yn cydweithio'n agos gyda Gig Buddies er mwyn darparu cyfleoedd creu perthnasau a chynnal digwyddiadau cymdeithasol.



Yn ogystal, mae'r tîm wedi helpu unigolion i ddefnyddio'r ap Insight sy'n cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn sesiynau grŵp ar-lein gydag unigolion eraill ledled Cymru. Mae hyn wedi golygu darparu offer digidol a hyfforddiant i unigolion a'u teuluoedd, gyda chefnogaeth Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd. Mae'r tîm hefyd yn parhau i fod yn bwynt cyswllt pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr a mudiadau eraill am y cyfleodd sydd ar gael iddynt ar ein gwefan a thrwy ein cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog unigolion i gymryd rhan a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb.

Mae aelodau'r Tîm Llesiant hefyd yn gweithio gydag unigolion ar lefel un i un er mwyn gweithio tuag at eu nodau llesiant personol. Gallai hyn gynnwys amryw o weithgareddau megis chwilio am swyddi, hyfforddiant trafnidiaeth gyhoeddus, cefnogaeth mewn apwyntiadau ac ati.

Mae **Rhwydwaith Gofalwyr Gwynedd** wedi gweithio i ddod ag asiantaethau a gofalwyr di-dâl ynghyd er mwyn rhannu gwybodaeth a syniadau drwy bennu thema benodol ar gyfer pob cyfarfod e.e. gofalu am berson gyda dementia, gofalu am berson sydd â phroblemau iechyd meddwl. Cyfoethogwyd y cyfarfodydd hyn gyda gofalwyr di-dâl yn rhannu profiadau er mwyn annog yr asiantaethau oedd yn bresennol i ystyried sut i ddatblygu eu gwasanaethau.

Ar **Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr** cynhaliom ymgyrch ar-lein i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr. Yn ystod **Wythnos Gofalwyr,** cynhaliwyd ymgyrch mewn fferyllfeydd i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Cynhyrchwyd cerdyn busnes i'w gynnwys gyda phob pecyn ail bresgripsiwn, ac mae'r adborth a dderbyniom yn nodi bod y wybodaeth hon wedi arwain at rhai yn cysylltu gyda Cynnal Gofalwyr. Gyda'r pwysau wedi cynyddu ar ofalwyr di-dâl yn sgil y pandemig, roeddem yn falch o allu gwneud defnydd llawn o grant ysbaid ar gyfer gofalwyr di-dâl. Gyda'r grant, ariannwyd prosiectau amrywiol, yn cynnwys cyflogi aelod o staff i weithio i gefnogi gofalwyr di-dâl yn gysylltiedig â chleifion oedd ar ward Hergest (yn ogystal â gofalwyr di-dâl i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl o fewn y gymuned), ac ariannu Eryri Cydweithredol i fedru rhoi gwasanaeth eistedd neu "fynd am dro" i unigolion er mwyn galluogi i'w gofalwyr di-dâl gael ysbaid.

Mae'r prosiect gyda **Gofalwyr Ifanc** wedi mynd o nerth i nerth eleni. Uchelgais Llywodraeth Cymru oedd sicrhau Cerdyn Adnabod i Ofalwyr Ifanc, ac rydym wedi cyflawni'r uchelgais hon drwy greu a darparu cerdyn ac Ap "AiDi" i Ofalwyr Ifanc Gwynedd a Môn.

Ar **Ddiwrnod Cenedlaethol Gofalwyr Ifanc**, cynhaliwyd digwyddiad yn Storiel Bangor i ddathlu'r gwaith hwn a dathlu cyfraniad gofalwyr ifanc eu hunain. Mynychodd gofalwyr ifanc o'r ysgolion uwchradd fu'n treialu'r ap.

Gydag arian ychwanegol a gawsom gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn, rydym wedi comisiynu prosiect **Ynys Blastig** i greu adnoddau addysgol creadigol (drwy ddulliau megis animeiddio) i godi ymwybyddiaeth dysgwyr, athrawon a phobl broffesiynol o oblygiadau bod yn ofalwr ifanc a sut y gallai hyn effeithio ar eu bywyd. Hefyd, bydd Cread Cyf. yn datblygu'r ffilm fer a grëwyd er mwyn cyflwyno'r ap drwy greu ffilm ddogfen yn portreadu diwrnod ym mywyd gofalwr ifanc.





Edrych ar ôl rhywun?

Os ydych chi'n edrych ar ôl aelod teulu neu ffrind, mae 'na gymorth a chefnogaeth ar gael i chi fel gofalydd di-dâl. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, cymorth ariannol, seibiannau byr, cefnogaeth emosiynol, gweithgareddau cymdeithasol, asesiad o'ch anghenion fel gofalydd di-dâl.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Swyddog Cefnogi Gofalwyr Cyngor Gwynedd
**01286 679742** neu **Gofalwyr@gwynedd.llyw.cymru**

Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
**01248 370797** neu **help@carersoutreach.org.uk**



Ym mis Medi 2021 derbyniwyd grant o £25,000 fel rhan o lansiad **Cymdeithas sy'n Heneiddio** er mwyn datblygu cynllun oed gyfeillgar. Penderfynwyd gwario'r grant hwn drwy gynnig grantiau bychain i fudiadau a grwpiau cymunedol ledled Gwynedd. Roedd y gweithgareddau a gynigwyd gan y grwpiau hyn yn amrywio o weithgareddau wythnosol yn cynnig paned, sgwrs a gweithgaredd i bobl hŷn yr ardal i ddigwyddiadau ffitrwydd a chinio Nadolig/Gŵyl Ddewi. Gwyliwch fideo o un digwyddiad a gynhaliwyd gan Yr Orsaf ym Mhenygroes dros gyfnod y Nadolig yma.

Yn unol â chanllawiau'r grant aethpwyd ati hefyd i glywed barn pobl hŷn Gwynedd am y gefnogaeth sydd ei angen arnynt wrth ailafael mewn bywyd cymdeithasol yn dilyn Covid-19, a bydd yr adborth hwn yn chwarae rhan allweddol wrth i ni ddatblygu cefnogaeth a rhwydwaith i geisio mynd i'r afael ag unigrwydd, ynysigrwydd a'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn ar draws Gwynedd.

Mae'r **Gwasanaeth Anableddau Dysgu** wedi llwyddo i ddarparu cyfleodd dydd ac ysbaid i unigolion mewn sefyllfaoedd blaenoriaeth eleni. Trwy wneud y defnydd gorau a mwyaf creadigol o'n hybiau a'r darpariaethau ysbaid yn uned Sŵn y Môr, Pwllheli a Brookfield ym Mangor, rydym wedi llwyddo i ailgyflwyno unigolion i gyfleoedd dydd gan gynnig arosiadau ysbaid hefyd. Rydym wedi gwneud hyn wrth ailasesu a chydweithio'n agos gyda'r darparwyr a'r teuluoedd gan sicrhau ein bod yn cadw at gyfyngiadau Covid-19.

Mae'r ddarpariaeth ysbaid wedi bod yn adnodd pwysig iawn er mwyn ymdrin â nifer o sefyllfaoedd argyfwng. Drwy gyfrwng grant gofalwyr gan Lywodraeth Cymru rydym wedi rhentu byngalo hygyrch gan Antur Waunfawr, sydd wedi cynyddu ein darpariaeth ysbaid/egwyl fer i ofalwyr. O ganlyniad, mae nifer o unigolion a theuluoedd wedi elwa o'r ddarpariaeth hon. Wrth i'r cyfyngiadau lacio rydym yn rhagweld y byddwn yn cydweithio i flaenoriaethu cynyddu'r capasiti o fewn ein darpariaeth ysbaid a chyfleoedd dydd er mwyn ymestyn nifer y dyddiau y gellir eu cynnig, ac i gwrdd ag anghenion unigolion sy'n y broses o droi'n 18, yn gadael ysgol ac yn trosglwyddo i'n gwasanaeth.

Mae cwrdd ag anghenion **lletya a chefnogaeth** unigolion gydag anabledd dysgu yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Rydym yn cynllunio ymlaen ar gyfer yr angen, ac rydym wedi adnabod y bydd 75 o unigolion angen llety â chefnogaeth o fewn y 5 mlynedd nesaf. Rydym yn categoreiddio o fewn grwpiau blaenoriaeth ac yn gweld cynnydd o ran adnabod a darganfod lleoliadau. Yn ystod y flwyddyn, bûm yn cydweithio'n agos gyda chymdeithasau tai ac Adran Tai ac Eiddo y Cyngor er mwyn cyfarch yr anghenion hyn. Mae angen amrywiaeth o fodelau llety a chefnogaeth, gyda phwyslais ar gynllunio neu addasu rhai eiddo i sicrhau eu bod yn hygyrch, addas a phwrpasol. Yn ogystal, mae cydweithio gyda'n partneriaid allweddol a'r Bwrdd Iechyd yn hanfodol wrth geisio adnabod llety arbenigol i unigolion gydag anghenion cymhleth a dwys a'r boblogaeth hŷn o fewn y maes anableddau dysgu.

Dros y 6 mis diwethaf rydym wedi adnabod lleoliadau i 14 o unigolion, sy'n cynnwys adnabod a chyflwyno unigolion i wagleoedd tai â chymorth sy'n addas ar gyfer eu hanghenion yn ogystal â chynllunio wrth addasu llety a gweithio'n agos gyda'r Uned Gomisiynu i adnabod darparwyr drwy'r broses dendro.

Mae cynnig **cyfleoedd hyfforddiant addas ynghyd â phrofiad a chyfleoedd gwaith** yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu. Rydym yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd i unigolion o fewn ein hybiau i ddatblygu sgiliau, ennill profiad a chymwysterau sy'n cefnogi unigolion i gwrdd â'u potensial, boed hynny drwy gyfle gwaith gwirfoddol neu gyflogedig.



Mae **Cwrs a Sgwrs** yn brosiect ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac Agoriad Cyf. Bwriad y prosiect yw darparu prydau maethlon i unigolion ardal Dwyfor ac Eifionydd gan gynnig cyfleoedd gwaith i unigolion ag anabledd dysgu ar yr un pryd wrth iddynt baratoi, arlwyo a dosbarthu'r prydau.

Yn ystod dau fis cyntaf y prosiect, darparwyd oddeutu 30 o brydau yr wythnos i unigolion yn ardaloedd Pwllheli, y Ffôr a dalgylch Porthmadog. Roedd dau unigolyn yn gweithio yn y gegin, gyda dau unigolyn arall yn chwarae rhan allweddol yn danfon y prydau. Mae Cwrs a Sgwrs wedi ymestyn ymhellach, gan gydweithio gydag Antur Aelhaearn, i ddarparu oddeutu 50 o brydau yn wythnosol i glwb cinio Llanaelhaearn a Threfor. Mae hyn yn caniatáu i ni gynnig diwrnod ychwanegol o waith i unigolion fel rhan o'r prosiect, gan ennill elw ychwanegol y gallwn ei fuddsoddi i ymestyn y fenter ymhellach o amgylch y sir. Yn ystod 2022/23, mae bwriad ymestyn y prosiect ymhellach eto, drwy ei ymestyn i ddau ddiwrnod yr wythnos a chynnig gwaith ychwanegol i ddau unigolyn, gan hefyd gydweithio â Popty Prysur i gyflenwi cacennau i'w gwerthu yng Nghaffi Agoriad ym Mhen y Pass ac yng Nghaergybi.

Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y plant sy'n derbyn diagnosis o **awtistiaeth** yn y sir. O ganlyniad, rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau yn y blynyddoedd sydd i ddod, ac felly rydym wedi sefydlu **Cynllun Awtistiaeth** ar gyfer 2021-23 er mwyn darparu cyd-destun i ddatblygu cyfeiriad strategol ar gyfer gwella canlyniadau i bobl ag awtistiaeth a'u gofalwyr.

Yn dilyn bidiau ariannol llwyddiannus i ddatblygu a gweithredu ar **Gynllun Awtistiaeth Gwynedd a Môn**, rydym bellach mewn sefyllfa i symud ymlaen i gynllunio ar gyfer sefydlu'r tîm a hysbysebu am gydlynydd a dau weithiwr cymdeithasol. Yn unol â'r Cod Ymarfer, un o'r blaenoriaethau yw sicrhau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gyfer y gweithlu.

Mae **Tîm Derwen**, sef y Tîm Integredig Plant Anabl, yn bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae'r tîm yn gweithio i ddarparu cefnogaeth arbenigol i blant sydd ag amhariad neu oediad yn eu datblygiad, plant anabl a phlant â gwaeledd. Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc ynghyd â'u teuluoedd, gan hefyd gydweithio'n agos gyda gwasanaethau ac elusennau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod lleisiau ac anghenion plant anabl yn cael eu clywed.

Yn ystod 2022-23 bydd Derwen yn edrych ar y ffordd y derbynnir a chesglir adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal ag edrych ar ddatblygu'r holiadur a ddefnyddir. Yn ychwanegol at hyn bydd y gwasanaeth yn asesu effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir.



Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau diogelwch pobl y sir, ac rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifri. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan weithredol ym **Mwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**, **Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru** (ynghyd â'r is-grwpiau), **Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion Gwynedd a Môn, Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru (ynghyd ag is-grwpiau o fewn y maes) a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn**, ac fel Cyfarwyddwr Corfforaethol, mae gennyf hefyd gyfrifoldebau penodol yn y maes diogelu.

Mae gennym drefniadau ar waith yn fewnol i sicrhau diogelwch trigolion Gwynedd, ac mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn cynnal arolygon cyson o'n gwaith i sicrhau ei fod o'r safon orau. Eleni, cynhaliodd yr Arolygiaeth gyfarfod blynyddol gyda mi fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn adolygu ein prosesau a'n gweithdrefnau, ynghyd ag unrhyw brif feysydd gwaith sydd gennym ar y gweill. Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru lythyr yn crynhoi canfyddiadau ein Archwiliad Sicrwydd.

Mae gan Gyngor Gwynedd **Banel Strategol Diogelu** sy'n cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Dilwyn Morgan. Nod y Panel hwn yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas ar waith ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol. Gallwch weld Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer 2021/22 yma.

## Materion Diogelu Oedolion

Mae nifer yr **adroddiadau diogelu** sydd wedi ein cyrraedd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi sefydlogi i 469, o'i gymharu â 558 o adroddiadau diogelu y flwyddyn flaenorol. Mae'n debyg bod y ffigwr wedi sefydlogi eleni gan fod y ffigwr uchel y llynedd yn rhannol i wneud â'r ffaith nad oedd gweithwyr proffesiynol â'r un mynediad i allu gweld unigolion wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnodau clo a bod gor-adrodd oherwydd nad oedd modd gosod yr un mesurau i ddiogelu oedolion.

Mae ein gallu i **ymateb i bryderon diogelu o fewn yr amserlen statudol o 7 diwrnod** yn is na'r hyn y buasem yn ei ddisgwyl o gymharu â'r blynyddoedd cynt, sef cyfartaledd o 88.3% mewn cymhariaeth â 93.2% yn 2020/21. Un o'r prif rwystrau o ran gallu ymateb yn brydlon yw bod swyddogion yn disgwyl am wybodaeth yn ôl gan weithwyr, ac mae arafwch ar hyn o bryd gyda'r achosion hynny sydd â chyswllt gydag ysbytai yn benodol. Er hynny, mae penderfyniad yn cael ei wneud ymhen 5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Bydd mesurau diogelu wedi eu rhoi mewn lle yn y mwyafrif helaeth o achosion cyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno.

Gwelwyd dirywiad hefyd yn **nifer yr achosion lle mae'r perygl wedi'i reoli**. Cafwyd 84.4% o achosion lle mae'r perygl wedi ei reoli yn 2021/22, o gymharu â 98% yn y flwyddyn flaenorol. Gwiriwyd y perfformiad hwn gan yr Uwch Dîm Rheoli, a nodwyd mai'r prif reswm am y dirywiad yn y perfformiad yw bod yr adroddiad cau yn cael ei lenwi'n anghywir ac felly bod y cofnod yn anghyson â'r perfformiad gwirioneddol. Mewn ymateb i hyn, cyflwynwyd ffurflen gasglu data newydd ar 1 Ebrill 2022, sy'n llawer mwy syml ac nid oes modd camddehongli'r cwestiynau. Byddwn yn craffu'r data dros y misoedd nesaf i sicrhau bod y ffurflen newydd yn adlewyrchu'r gwaith sydd yn cael ei gyflawni i ddiogelu oedolion Gwynedd.

Mae cyfarfodydd diogelu wedi bod yn cael eu cynnal yn rhithiol ers cychwyn y cyfnod pandemig. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant mawr mewn Awdurdod sydd mor ddaearyddol eang. Gwelwn fod cyfarfodydd yn digwydd yn llawer mwy amserol ac mae presenoldeb ein partneriaid yn y cyfarfodydd yn llawer gwell. Mae cyfarfod yn y modd hwn yn sicrhau gwell cynrychiolaeth sy'n arwain at drafodaethau mwy ystyrlon.

Cafodd 32 achos eu hystyried o dan **a.5, Pryderon Proffesiynol** yn ystod 2021/22. Mae rhwystredigaeth yn parhau o ran y diffyg canllawiau i'r ffrwd gwaith hwn. Mae Grŵp Tasg cenedlaethol yn gweithio i gyfarch hyn a'r gobaith yw bod canllawiau'n cael eu cyhoeddi'n ystod yr haf.

Mae gennym berthynas weithio effeithiol â'n partneriaid o fewn y Bwrdd Iechyd a'r Heddlu, ac mae trafodaethau am achosion yn digwydd yn amserol iawn. Rydym yn gweithredu i sicrhau bod ymarfer da parhaus o ran rhannu gwybodaeth er mwyn asesu'r risgiau a sicrhau bod cynlluniau diogelu cadarn yn eu lle.

Sefydlwyd fforwm **Rheoli Risg i Oedolion Bregus (VARM)** yng Ngwynedd o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n fforwm effeithiol i drafod unigolion na fyddai'n cyrraedd y meini prawf ar gyfer diogelu ond eu bod yn unigolion bregus yn y gymdeithas. Mae'r VARM yn fforwm amlasiantaethol sy'n cael ei arwain gan yr Heddlu er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau rheng flaen drwy sicrhau bod unigolion yn derbyn cefnogaeth briodol ac addas.

Mae'r Adran Oedolion wedi sefydlu **Fforwm Oedolion Bregus** er mwyn trafod unigolion a allai fod ag anghenion deuol. Mae'r fforwm yn sicrhau nad yw unigolion yn mynd ar goll o fewn y gwasanaethau a'u bod yn derbyn cefnogaeth addas ac amserol.

Bûm yn llwyddiannus mewn cais i Lywodraeth Cymru i sicrhau grant i gyfarch ein rhestr aros **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)**. Mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio i gyflogi Aseswyr Budd Gorau o fewn yr uned ac i brynu gwasanaeth gan Reed Consultancy i wneud asesiadau ar ein rhan. Mae nifer helaeth o'r asesiadau DoLS yn parhau i gael eu gwneud yn rhithiol ond mae ymweliadau wyneb yn wyneb yn digwydd pan mae'r cyfyngiadau'n caniatáu.



## Materion Diogelu Plant

Mae **Tîm Emrallt** yn wasanaeth ymgynghorol newydd yng Ngwynedd sy'n canolbwyntio ar adnabod ac ymateb yn gynnar i blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a phroblemus. Mae gwaith y Tîm yn cynnwys gwella sgiliau gweithwyr, darparu adnoddau ac ymyraethau ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol ac, yn bennaf oll, hyrwyddo ymagwedd amlasiantaethol mewn maes a welir fel un cymhleth a sensitif ar adegau.

Er gwaethaf Covid-19, mae Tîm Emrallt wedi parhau i ddarparu gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae cysylltiadau wedi parhau ar draws yr holl asiantaethau, ac mae gwaith wedi canolbwyntio ar feysydd penodol megis camdriniaeth o fewn y teulu, anghenion dysgu ychwanegol a lleoliadau maethu/preswyl. Rydym yn cynnig cyngor ac ymgynghoriadau i weithwyr proffesiynol sy'n amrywio o weithwyr cymdeithasol, athrawon, nyrsys ysgol, cymorthyddion ysgol, rhieni a gofalwyr maeth.

Yn 2021, ein prif amcan oedd rhoi pecyn o hyfforddiant i staff er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd sefydlu 'iaith gyffredin' rhwng gweithwyr proffesiynol a rhoi'r offer angenrheidiol iddynt deimlo'n hyderus wrth asesu ymddygiadau rhywiol iach, problemus a niweidiol. Byddai hyn hefyd yn eu cynorthwyo i fabwysiadu ymateb cyson a phriodol i bob plentyn a pherson ifanc. Mae Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth â Brook, Prosiect AIM a'r NSPCC, ac mae'r tîm wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno hyfforddiant megis 'Brook traffic light' ar draws pob sector. Hyd yma, mae 671 o weithwyr proffesiynol Gwynedd wedi mynychu un neu fwy o'n digwyddiadau hyfforddiant.

Ar hyn o bryd mae gan y tîm amserlen hyfforddi ar waith ar gyfer 2022 sy'n cynnwys Datblygu Dealltwriaeth o Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Diogelwch ar-lein, caniatâd a pherthnasoedd iach, model asesu AIM dan 12 ac AIM 3 a hyfforddiant Gofalwyr Maeth yr NSPCC.

Rydym yn **Rhiant Corfforaethol** i blant mewn gofal yng Ngwynedd, lle rydym yn gweithredu'r cyfrifoldeb uniongyrchol i sicrhau fod gwasanaethau priodol ac addas ar gael ar eu cyfer. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Chefnogi Teuluoedd, y Cynghorydd Dilwyn Morgan. Fel arfer, mae plant yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun.

Ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 273 o blant yng ngofal y Cyngor, ac roedd 66% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 36% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 23% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

Gyda chyfyngiadau yn sgil y pandemig yn parhau, mae ein **hadolygiadau statudol** Plant mewn Gofal wedi parhau'n rhithiol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Er bod plant a theuluoedd yn arfer â'r trefniadau newydd, mae sawl enghraifft lle bu'r trefniadau rhithiol yn rhwystr i'n gallu i gynnwys plant a theuluoedd yn llawn mewn adolygiadau. Mae enghreifftiau eraill lle mae'r dechnoleg wedi creu cyfleoedd i deuluoedd ymuno; lle nad oedd hynny mor rhwydd yn y gorffennol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal gwaith ymgynghorol gyda phobl ifanc er mwyn ceisio canfod yr hyn sy'n hwyluso ac yn rhwystro eu cyfranogiad. Y nod yw defnyddio'r wybodaeth ddaw o'r ymarferiad i finiogi ychydig ar y trefniadau gwaith. I'r dyfodol mae'n bosibl mai canolbwyntio ar weld plant wyneb yn wyneb fydd y flaenoriaeth ac i adolygiadau fod wyneb yn wyneb neu'n rhithiol yn ôl yr angen.

Ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf, gwelwyd peth crebachu ar ba mor weladwy oedd asiantaethau mewn gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd. Wrth i gyfyngiadau'r pandemig lacio, mae asiantaethau wedi gallu dod yn rhan gynyddol o'r trefniadau gofal a chefnogaeth ac amddiffyn plant unwaith eto. Nid yw pethau wedi cyrraedd y lefel cyn y pandemig. Amser a ddengys i ba raddau y bydd modd i hyn oll ail-sefydlogi ac inni weld unwaith eto y rhwydwaith eang o wasanaethau ac asiantaethau yn darparu gofal i deuluoedd.

Mae'r trefniadau argyfwng o safbwynt cynnal y ddyletswydd statudol **Amddiffyn Plant** wedi parhau, gyda threfniadau dros dro i gynnal Cynadleddau Amddiffyn yn rhithiol. Fel gydag Adolygiadau Statudol, mae manteision i rai teuluoedd ac anfanteision i eraill. Y gobaith yw y bydd Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb fel un o'r meysydd cyntaf i ddychwelyd i drefn arferol ôl-bandemig. Gellir gweld a fydd parhau i gynnal rhai Cynadleddau Adolygol yn rhithiol yn fwy ymarferol i asiantaethau i'r dyfodol. Mae ein gwaith ar arloesi ym maes amddiffyn plant wedi parhau yn ystod y flwyddyn, ac mae'r prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi'i werthuso gyda chanlyniadau addawol iawn. Y bwriad yw rhaeadru'r model i rai o Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru.



Yn ystod 2021/22, cynhaliwyd 302 o gynadleddau amddiffyn plant. Roedd canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel yn 99% ac yn gyson â'r blynyddoedd diweddar. Mae'r perfformiad cyson uchel hwn yn dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd.

Mae **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn** wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn elwa'n fawr o gysylltiad agos a gweithio mewn partneriaeth gyda Thîm Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc Gwynedd a Môn, sef 'Be di'r Sgôr'. Fodd bynnag, mae perfformiad Addysg, Hyfforddiant a Gwaith yn dangos arwyddion o gael ei effeithio'n andwyol gan Covid-19, gyda tharfu o fewn ysgolion a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant cyfyngedig wedi arwain at ffigyrau presenoldeb gwael. O ganlyniad, mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda nifer o ysgolion uwchradd yn ein hardal i fynd i'r afael â materion dadrithiad a phresenoldeb, a bydd Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn brif ffocws blaenoriaeth i Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid pan fydd yn cydymffurfio â'i Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn 2022-23.

## Materion Diogelwch Cymunedol

Mae **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** yn grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio er mwyn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ceir mwy o wybodaeth am waith y Bartneriaeth, ynghyd â Chynllun Lleol Diogelwch Cymunedol 2021/22, yma.

Ym mis Medi 2021, sefydlodd Cyngor Gwynedd **Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu**. Pwrpas y Grŵp yw cydweithio gyda sefydliadau er mwyn darparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon yng Ngwynedd. Gwneir hyn drwy:

- darparu ymdriniaeth diogelwch integredig, sy'n cyd-fynd â'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol, i adnabod a darparu camau gweithredu cymesur er mwyn cadw cymunedau Gwynedd yn ddiogel
- gwella a chefnogi'r parodrwydd i amddiffyn a diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch yng Ngwynedd.

Mae'r maes **Trais yn y Cartref** yn flaenoriaeth i ni ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, ac rydym yn annog holl aelodau staff y Cyngor i gwblhau hyfforddiant yn y maes. Yn anffodus, eleni cafwyd cynnydd yn y niferoedd o droseddau domestig yng Ngwynedd, a'r Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Rhanbarthol yn adrodd bod darparwyr arbenigol trais yn y cartref wedi gweld cynnydd o 35-40% mewn cyfeiriadau. Mae cydweithrediad da rhwng y Cyngor a'r Mudiadau perthnasol ac mae ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o adrodd am drais yn y cartref yn parhau.



**SAFON ANSAWDD 4**: *Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas*

Mae'r gwaith o **gefnogi llesiant plant a phobl ifanc** dros y flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i ganolbwyntio ar ymateb i heriau a sgil effeithiau'r pandemig. Mae'r **Gwasanaeth Ieuenctid** wedi addasu sut mae'n cyrraedd pobl ifanc, gyda mwyafrif y ddarpariaeth yn symud ar-lein. Mae'r gwasanaeth wedi cynnig gweithgareddau cymdeithasol, sesiynau dysgu a hyfforddiant, a chefnogaeth bersonol o amgylch tair prif thema yn unol â'r hyn a ddywedodd pobl ifanc oedd yn bwysig iddynt; sef llesiant, dysgu sgiliau newydd, a pharatoi eu hunain at y byd gwaith ac i fyw'n annibynnol. Y sesiynau crefft, cwis, her ffitrwydd, coginio, a Sesiwn Sgwrs oedd y rhai mwyaf poblogaidd ymysg pobl ifanc. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cydweithio gyda 35 o bartneriaid er mwyn cynnal ei Ŵyl Les gyntaf i bobl ifanc yn y sir.

Mae grŵp traws-asiantaethol wedi cyfarfod am y tro cyntaf ers dwy flynedd i drafod beth sy'n bwysig i bobl ifanc Gwynedd wrth iddyn nhw ddod allan o gyfnod o bandemig, gan ganolbwyntio ar y gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar y pwynt hwn yn eu bywydau. Bydd y Grŵp yn canolbwyntio ar sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl ifanc fynychu sefydliadau addysgol, hyfforddiant neu waith gan leihau'r niferoedd sydd ddim mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi parhau i gadw cyswllt gyda phobl ifanc 16 oed a hŷn sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith i'w cefnogi gyda heriau cymdeithasol a phersonol, megis ymddygiadau heriol, llesiant a hunanddelwedd, ynghyd â rhwystrau i ail-ymgysylltu gydag addysg a gwaith. Mae nifer o'r bobl ifanc wedi elwa o'n cyrsiau Celf am Les a Dygnwch FRIENDS yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, blaenoriaethir y meysydd iechyd a lles, digartrefedd ieuenctid, a chefnogi pobl ifanc yn y cyfnod pontio rhwng 16-24 oed.

Yn deillio o hyn, sicrhawyd grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu **prosiect digartrefedd** newydd fydd yn canolbwyntio ar barhau i gryfhau'r systemau i adnabod problemau yn gynnar, yn sicrhau llwybrau cymorth priodol, ac yn datblygu a darparu hyfforddiant i weithwyr cefnogol/staff er mwyn iddynt ddatblygu ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymhlith ieuenctid a deall sut i gefnogi pobl ifanc yn effeithiol i atal digartrefedd.

Mae gan Gyngor Gwynedd brosiect unigryw **Pontio'r Cenedlaethau** sy'n creu cysylltiadau newydd rhwng plant a phobl o bob oedran, sy'n cynyddu parch a dealltwriaeth rhwng y cenedlaethau ac yn arwain at gymunedau cryfach ar draws Gwynedd. Gwyliwch fideo o'r prosiect ar waith rhwng blant Ysgol Llanllechid a Chartref Plas Ogwen yma. Cynhelir wythnos Pontio'r Cenedlaethau yn rhyngwladol am y tro cyntaf eleni, a hynny yn ystod mis Ebrill. Bydd Cyngor Gwynedd yn arwain yr wythnos ar ran Cymru, gan sicrhau y rhoddir sylw i'r gwaith arloesol sy'n digwydd yma. Byddwn yn trefnu digwyddiadau lleol yn ystod yr wythnos yn ogystal â chynnal digwyddiadau ar-lein i rannu ymarfer da.



Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael cyfle i gynnal sawl prosiect awyr agored gan gydweithio â nifer o wahanol bartneriaid yn y sir. Cydweithiwyd â'r Gwasanaeth Ieuenctid ar brosiect i roi ail fywyd i ardd Cartref Plas Maesincla - gallwch ddarllen mwy am y prosiect yma. Treuliwyd amser hefyd yng Ngardd Gymunedol Arfon. Yn ogystal, gweithiom â sawl ysgol i blannu blodau a'u dosbarthu i bobl hŷn yr ardal yn nhymor yr haf. Roeddem hefyd yn awyddus i wneud prosiectau gwahanol yn yr awyr agored, gan gynnwys "Pnawn Hufen Iâ" lle aethpwyd â phlant o ysgol leol draw i ardd cartref lleol i gyd-fwynhau hufen ia Glasu. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gynnal eto yn 2022-23.

Parhawyd â'r prosiect **pen-pals** eleni, gyda dros 140 o bartneriaid wedi ysgrifennu yn ôl ac ymlaen at ei gilydd. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, bydd modd i rai o'r partneriaid pen-pals gyfarfod mewn dathliad ddechrau 2022/23.




Parhawyd i fynd ati i wneud **meinciau cyfeillgarwch** ar draws Gwynedd mewn partneriaeth gyda Llwybrau Llesiant yn y gobaith i leihau ynysigrwydd. Gallwch ddarllen mwy am fainc Caernarfon yma. Rydym yn gweithio gyda LleChi ac Arloesi Gwynedd Wledig ar chwe mainc arall ym Mhorthmadog, Blaenau Ffestiniog, Cwm y Glo a Thywyn. Rydym hefyd wedi gwneud un fainc gyfeillgarwch synhwyraidd gyda phlant Ysgol Dyffryn Ogwen a Veteran's Shed Bethesda a fydd yn cael ei chyflwyno i gartref gofal Plas Ogwen.

Sefydlwyd **podlediad Pontio'r Cenedlaethau** yn 2021 er mwyn trafod rhai o'r prosiectau a'r pynciau sydd yn ymwneud â'r maes, a gellir gwrando ar y penodau trwy ddilyn y linc yma. Mae modd dysgu mwy am waith Pontio'r Cenedlaethau trwy ddilyn ein cyfryngau cymdeithasol ar Facebook, Twitter ac Instagram.

Yn fuan yn ystod y cyfnod clo cyntaf daeth yn amlwg bod angen **cefnogaeth ddigidol** ar sawl person hŷn yng Ngwynedd. O ganlyniad, dyrannwyd dyfeisiau i unigolion yn y gymuned, a thrwy ddefnydd o lawlyfr a hyfforddiant ar-lein, hyfforddwyd staff cefnogol i fedru mynd ati i hyfforddi'r unigolion hyn i ddefnyddio'r dyfeisiau'n hyderus. Gyda llawer yn teimlo'n unig ac yn ynysig, roedd y dyfeisiau'n cynnig ffordd o gadw cyswllt gyda'r byd drwy ymuno â gwasanaethau ar-lein a chysylltu â theulu. Er enghraifft, llwyddodd un ddynes o ardal Bangor a oedd â theulu yn Sbaen i fedru gwneud galwad fideo wythnosol gyda'i theulu.

Rydym hefyd yn cydweithio gydag elusen Citizens' Online ar raglen **Gwynedd Ddigidol** i ddarparu cefnogaeth un i un i drigolion fagu sgiliau i fynd ar-lein. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi dyrannu dyfeisiau megis iPads i gartrefi gofal y sir er mwyn galluogi i bobl mwyaf fregus y sir gadw mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd. Yn 2022/23, mae bwriad mynd o gwmpas rhai o gartrefi gofal Gwynedd er mwyn cynnig cymorth gyda'r dyfeisiau a darparu eitemau eraill megis Alexas, tabledi Samsung ac ati. Rydym hefyd wedi prynu Byrddau Gweithgaredd i'r holl gartrefi preswyl, ac mae'r adborth wedi bod yn wych hyd yma, gyda'r trigolion yn mwynhau'n arw.

Wrth barhau i gefnogi aelodau **Dementia Actif Gwynedd** yn ystod y pandemig gyda dosbarthiadau ar-lein a galwadau ffôn rheolaidd, dechreuodd ambell grŵp gwrdd wyneb yn wyneb yn yr awyr agored ym mis Mai. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd Clybiau Garddio yng nghyfleusterau Byw'n Iach ym Mhwllheli, Porthmadog a Chaernarfon a sefydlwyd Grŵp Cerdded yn Nhywyn. Ym mis Medi daeth y 3 grŵp garddio at ei gilydd ar gyfer Parti Gardd ar safle Dwyfor i ddathlu tymor tyfu llwyddiannus a llawenydd ailgysylltu.



Bu tîm Dementia Actif yn cydweithio â chwmni dawns Dawns i Bawb i greu perfformiad arbennig iawn i gerddoriaeth Swan Lake. Nod y perfformiad oedd dathlu'r gwaith a wnaed i gadw mewn cysylltiad a chefnogi aelodau yn ystod y pandemig ac roedd yn cynnwys clipiau o'r sesiynau ar-lein yn ogystal â staff yn perfformio mewn ardaloedd lleol yng Ngwynedd. Lansiwyd y perfformiad yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia (Cymdeithas Alzheimer's) a derbyniodd y ffilm adolygiadau gwych yn genedlaethol. Gallwch wylio'r fideo yma.

Meddai un gofalydd teulu:

*"Er bod anawsterau cof byrdymor fy Mam yn ei rhwystro rhag cofio ei bod wedi cymryd rhan yn y ddawns, roedd hi yno yn y foment. Fe wnaeth y foment honno ei wneud yn amser arbennig iawn, ac rwy'n gwybod ei fod wedi'i llenwi â theimladau hapus a chalonnog a barhaodd yn fwy na'i chof. Rydym ni'n ddiolchgar iawn ein bod wedi cael y cyfle i gymryd rhan."*

Mewn ymateb i adborth ynghylch yr heriau eithafol yn ystod y pandemig gan aelodau o'r teulu sy'n gofalu am rywun â dementia, sefydlwyd **Grwp Cymorth Rhithwir**. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob pythefnos ac yn cynnig cyfle i ofalwyr ddod at ei gilydd mewn amgylchedd diogel ac agored i rannu profiadau. Mae'r sesiwn hefyd yn cynnwys Symudiadau Tai Chi er lles ac mae'n gyfle i wahodd siaradwyr gwadd.

I ddathlu **Diwrnod Cenedlaethol Boccia** ar 27 Medi, trefnodd Dementia Actif gystadleuaeth Targed Boccia lle gallai chwaraewyr o'r holl wahanol ddosbarthiadau gystadlu yn erbyn ei gilydd fel tîm o 3. Cafodd pob tîm gyfle i daflu tair pêl at y targed ac ychwanegwyd cyfanswm y sgoriau. Cymerodd 24 o dimau ran o'r dosbarthiadau cymunedol ac 8 tîm o gartrefi preswyl Cyngor Gwynedd.

Cyfrannodd tîm Dementia Actif Gwynedd at wefan sydd newydd gael ei lansio ar gyfer, a gan, bobl â dementia a gofalwyr. Mae gwefan **Living with Dementia Toolkit**, a gynhyrchwyd gan Brifysgol Exeter ac Innovations in Dementia, yn llawn syniadau, awgrymiadau a ffilmiau i roi gobaith i bobl fyw gyda dementia.



Ar gychwyn 2022, lansiwyd tair sesiwn newydd, gyda'r nod o annog pobl hŷn i ddod at ei gilydd i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol er budd eu llesiant. Mae'r sesiynau yn agored i bawb ac yn gynhwysol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia a chyflyrau iechyd eraill. Mae'r rhaglen weithgareddau lawn a mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan yma.

**SAFON ANSAWDD 5**: *Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol*

Un o brif uchelgeisiau'r Cyngor yw sicrhau bod pobl y sir yn **mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**, yn ogystal â chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Wrth gwrs, mae cyflawni'r uchelgais hon wedi bod yn heriol eleni o ganlyniad i sgil effeithiau parhaus Covid-19 a'r pwysau sydd wedi bod ar ein gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae adolygu ein trefniadau a'n ffordd o weithio yn waith parhaus er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau yn amserol a chywir, bod ein hymyraethau yn addas i bwrpas, a bod profiad pob plentyn a'i deulu gyda'r adran y gorau allai fod. Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn cwblhau gwaith Ffordd Gwynedd gan weithio ar draws gwasanaethau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac ar y cyd gyda'r Adran Addysg i ddeall yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd Gwynedd, cytuno ar egwyddorion, a ffyrdd o wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen.

Rydym yn credu bod cynnig **ymyrraeth gynnar** yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Mae gennym nifer o wasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar, boed hynny yn gynnar ym mywyd plentyn er mwyn iddynt gael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu; neu'n gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu gyntaf cyn i bethau waethygu; a byddwn yn gwneud hynny drwy weithio gyda'r teulu cyfan.



Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** yng Ngwynedd yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd yn seiliedig ar eu hanghenion. Comisiynir darparwyr mewnol y Cyngor, megis Plas Pawb, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn ynghyd â darparwyr allanol megis Y Bont a Barnardo's i ddarparu gwasanaeth cymorth i deuluoedd Gwynedd. Derbynnir cyfeiriadau drwy'r fframwaith cyfeirio ac asesu'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Rhaglen wedi parhau i ddatblygu ymyraethau er mwyn galluogi ymateb effeithiol i anghenion teuluoedd yn y modd mwyaf effeithiol.

Mae'r **Tîm o Amgylch y Teulu** yn ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i'r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol a gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol. Rydym wedi derbyn 578 o gyfeiriadau ac ymholiadau i gynllun Teuluoedd yn Gyntaf Gwynedd yn ystod 2021/22, gyda 398 o'r cyfeiriadau hyn yn cael cynnig cefnogaeth bellach gan y Tîm o Amgylch y Teulu yn ogystal â gwasanaethau eraill a gomisiynir trwy'r cynllun.

Os oes nifer o faterion angen sylw o fewn y teulu, gall y teulu dderbyn cefnogaeth fwy dwys gan Gydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu a fydd yn dod â phawb at ei gilydd i greu cynllun integredig. O'r teuluoedd a gafodd gefnogaeth Cydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu, nododd 70% fod y gefnogaeth wedi eu galluogi i wneud newid cadarnhaol i'w bywyd. Gwaetha'r modd, mae nifer uwch o deuluoedd wedi datgysylltu gyda'r gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan na fu rhai gwasanaethau ar gael wyneb yn wyneb. Gobeithir y bydd adfer gwasanaethau ar ôl Covid yn gwella'r sefyllfa.



Dyma ddywedodd un rhiant:

*"Mae'r gefnogaeth wedi bod yn arbennig. Roedden ni wedi disgwyl y bysan ni'n cael ein barnu ac y byddai pwysau arnom ni ond rydan ni wedi cael ein trin efo parch. Dwi'n teimlo fel fy mod wedi cael fy nghefnogi a bod y gweithiwr Tîm o Amgylch y Teulu wedi gwrando arnom ni. Rydan ni wedi symud yn ein blaen yn araf a dwi ddim wedi teimlo dan bwysau i wneud y cyrsiau nes i gymryd rhan ynddyn nhw. Roedd yr help gawson ni ei gynnig yn ddefnyddiol a pherthnasol ac rydan ni'n dal i ddefnyddio'r 'tips' yr ydan ni wedi eu pigo i fyny."*

Rydym hefyd yn darparu pecynnau o gefnogaeth mwy dwys mewn ardaloedd penodol o Wynedd drwy'r rhaglen **Dechrau'n Deg**. Mae'r rhaglen yn cefnogi teuluoedd gyda magu plant a rhiantu, datblygiad iaith a lleferydd plant, a chefnogaeth iechyd a gofal, a hynny mewn timau amlasiantaethol ym meysydd addysg, gofal ac iechyd.

Eleni mae tîm Dechrau'n Deg wedi bod yn cynnig sesiynau grŵp a hyfforddiant, yn rhithiol a wyneb yn wyneb, yn ogystal â rhannu adnoddau perthnasol gyda theuluoedd megis poptai pwyllog (slow cookers) gyda llyfr ryseitiau a mynediad i fideos a gynhyrchwyd yn arbennig ar eu cyfer. Gellir gweld y fideos yma. Yn ogystal, rhannwyd pecynnau pampro er mwyn rhoi hwb i rieni oedd yn teimlo'n isel; pecynnau synhwyraidd/emosiynau i helpu plant reoli eu teimladau; pecynnau hylendid personol ecolegol i famau; pecynnau napis i famau newydd; a phecynnau gemau ac adnoddau chwarae i deuluoedd.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r **Tîm Datblygiad Cynnar** wedi parhau i gefnogi teuluoedd Dechrau'n Deg drwy gynnal sesiynau mewn nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys wyneb yn wyneb y tu allan a dros y ffôn, ar ffurf un i un a grwpiau bach, ac maent wedi rhannu nifer fawr o adnoddau (llyfrau, pecynnau crefft a datblygiadol) er mwyn cefnogi plant. Yn y flwyddyn sydd i ddod bydd Dechrau'n Deg yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn ei ardaloedd drwy Wynedd.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio ar un o'n blaenoriaethau, sef **Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd**. Mae'r Strategaeth yn cynnwys gwahanol lefelau o gyngor a gwybodaeth, i ymyraethau mwy arbenigol a dwys. Weithiau bydd angen gwneud penderfyniadau anodd, a phan bydd angen i ni ofalu am blentyn, ceisiwn sicrhau lleoliadau addas, a chefnogaeth i'r plentyn a'i deulu.



Eleni, daeth Cyngor Gwynedd yn rhan o rwydwaith cenedlaethol newydd o'r enw Maethu Cymru, wrth i dimau **Maethu** ledled y wlad gyfuno eu hymdrechion a'u harbenigedd i gynyddu nifer ac amrywiaeth gofalwyr maeth awdurdodau lleol yn sylweddol. Cliciwch yma i wylio fideo o rai o'n gofalwyr maeth yng Ngwynedd. Meddai'r Cynghorydd Dilwyn Morgan:

*"Mae unrhyw un sy'n maethu gyda thîm Maethu Cymru eu Hawdurdod Lleol yn gwneud hynny o wybod, lle bynnag y bydd eu dyfodol maethu yn eu cymryd, y byddwn ni wrth eu hochr bob cam o'r ffordd gyda'r holl arbenigedd, cyngor a hyfforddiant pwrpasol sydd eu hangen i gefnogi eu taith faethu."*

Yn yr un modd, mae'r tîm **Mabwysiadu** wedi cefnogi ymgyrch newydd a lansiwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru yn y gobaith o annog mwy o bobl i fabwysiadu'r plant hynny sy'n aros hiraf, a chymerwyd rhan yn Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu (18-23 Hydref) hefyd.

Sefydlwyd y **Gwasanaeth Trobwynt** er mwyn gweithio'n ddwys gyda theuluoedd sydd ar drothwy gofal. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi teuluoedd gydag ystod o gefnogaeth arbenigol, yn gydlynus ac yn amserol, ac eleni gweithiodd y tîm gyda 218 o blant. Oddi fewn i Wasanaeth Trobwynt, ceir pedwar tîm penodol sef Tîm Trothwy (ymyrraeth ddwys), Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, Adlewyrchu ac Ymlaen.

Eleni gweithiodd y **Tîm Trothwy** gyda 148 o blant a'u teuluoedd, gyda 75 o'r plant yn newydd i'r gwasanaeth. Mae'r prosiect **Adlewyrchu** yn cynnig cefnogaeth arbenigol i rieni sydd â phlant yn y system ofal yn barhaol. Eleni, rhoddwyd cefnogaeth i 12 o ferched.

Gweithiodd y **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd** gyda 33 o blant, a 12 o'r rhain yn newydd i'r gwasanaeth. Cynigia'r gwasanaeth hwn ymyrraeth arbenigol ar gyfer rhieni sydd yn camddefnyddio alcohol a sylweddau ynghyd â'u plant sydd ar drothwy gofal neu sydd â bwriad i ddychwelyd i ofal eu rhieni yn ddiogel.

Mae tîm **Ymlaen** yn ailasesu sefyllfaoedd teuluoedd er mwyn archwilio p'un a oes modd diddymu'r gorchymyn gofal yn llwyr, neu gael gorchymyn llai. Mae'r tîm wedi gweithio gyda 37 o blant eleni. O ganlyniad i'r gwaith hwn, gadawodd 16 o blant ofal o ganlyniad i'r gwaith hwn.



**SAFON ANSAWDD 6**: *Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion*

Un o'n blaenoriaethau pennaf yw sicrhau bod digon o dai pwrpasol o safon ar gael i gyfarch anghenion poblogaeth sy'n newid. Rydym bellach yn gweithio ar gyflawni amcanion ein **Cynllun Gweithredu Tai** (2020/21-2026/27) a gafodd ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2020 ac sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol am fuddsoddiad cychwynnol o £77 miliwn i wireddu uchelgais ein Strategaeth Tai, sef "sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".
Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Mae nifer o gynlluniau fydd yn cynyddu cyfleon i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau eisoes ar waith ac ambell un ar fin cwblhau.

Mae'r **Gwasanaeth Digartrefedd** yn darparu cyngor a chymorth i bobl sydd yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. Mae'r tîm yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae eu gwaith yn cynnwys:

- helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd
- asesu anghenion llety ac anghenion cefnogaeth unigolion a theuluoedd sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- helpu i ffeindio rhywle arall i fyw pan fo unigolyn neu deulu yn wynebu dod yn ddigartref
- darparu llety dros dro mewn achosion o argyfwng, a sicrhau llety ar gyfer y rhai sydd mewn blaenoriaeth angen.

Mae pwysau sydd ar y Gwasanaeth Digartrefedd ar ei uchaf erioed. Ym mlwyddyn ariannol 2021/22, gwelwyd cynnydd o 47% o gymharu â nifer cyflwyniadau 2018/19.

Gellir egluro'r cynnydd aruthrol hwn o ganlyniad i ddisgwyliad statudol Llywodraeth Cymru ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru dros gyfnod y pandemig i gartrefu pob unigolyn a gyflwynai'n ddigartref i sicrhau nad oedd unigolion yn cysgu ar y stryd. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r cynnydd hwn barhau o 2022/23 ymlaen yn sgil penderfyniad y Llywodraeth i wneud y gofyniad hwnnw'n barhaol.

Mae'r Gwasanaeth yn darparu nifer o lety-dros-dro nes bod eiddo parhaol ar gael i bobl ddigartref, gan gynnwys dwy hostel ym mherchnogaeth y Cyngor a 98 eiddo wedi eu prydlesu gan berchnogion preifat a Chymdeithasau Tai. Darparwyd llety ar gyfer 558 o deuluoedd/unigolion yn 2021/22.



Rhan bwysig o waith y Gwasanaeth Digartrefedd yw atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd. Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd y tîm i atal 35.9% achos o ddigartrefedd oedd yn golygu bod 105 o unigolion wedi gallu parhau i fyw yn eu cartref.

Gan fod nifer o bobl ddigartref yn fregus, darperir cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn gallu cynnal eu tenantiaeth ac osgoi dod yn ddigartref eto. Mae cymorth yn cael ei roi ar nifer o faterion megis hawlio budd-daliadau, cymorth ar gyfer cynnal a chadw llety, deall hawliau a chyfrifoldebau, ac ymgeisio am grantiau ar gyfer dodrefnu eiddo.

Bydd nifer o brosiectau o fewn y Cynllun Gweithredu Tai yn arwain at unedau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yng Ngwynedd. Mae ambell ddatblygiad, megis Tŷ Adferiad, Porthmadog (6 uned sy'n darparu'r llety cyntaf o'i fath yng Ngwynedd ar gyfer merched digartref), a'r Podiau i'r digartref yng Nghaernarfon (4 uned sy'n gwneud defnydd o dechnoleg ynni arloesol) wedi, neu ar fin, cael eu cwblhau. Mae'r datblygiadau isod ar y gweill ar hyn o bryd, a byddant yn cael eu cwblhau ar adegau gwahanol yn ystod y flwyddyn nesaf:

| **Prosiect** | **Nifer yr unedau** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| 35 Ffordd y Coleg, Bangor | 3 | Datblygu eiddo sydd wedi bod yn segur ers sawl blwyddyn i fod yn 3 uned fydd yn cefnogi unigolion digartref ag amrywiaeth o anghenion cynnal tenantiaeth. |
| 137 Stryd Fawr, Bangor | 12 | Bydd y datblygiad hwn, ar y cyd ag Adra a Thai Gogledd Cymru, yn darparu llety gyda chefnogaeth i unigolion allu cynnal tenantiaethau parhaol yn y dyfodol. |
| Llety ym Mhwllheli | 2 | Bydd y datblygiad hwn yn cefnogi unigolion digartref i allu cynnal tenantiaethau parhaol yn y dyfodol. |
| Glan Wnion, Dolgellau | 5 | Bydd y datblygiad hwn yn gwneud defnydd o safle hen Ysgol Glan Wnion yn Nolgellau, ac yn cynnig llety â chefnogaeth i unigolion digartref gyda'u tenantiaeth er mwyn dysgu'r sgiliau perthnasol iddynt allu cynnal tenantiaethau yn y dyfodol. |
| Lle Da, Caernarfon | 4 | Datblygu hen adeilad Natwest/Gisda i gefnogi ieuenctid digartref |
| **Cyfanswm:** | **26** | |

Cyflwynwyd y **Polisi Gosod Tai** cyfredol yn Hydref 2020. Mae'r polisi hwn yn cynnwys rhoi blaenoriaeth i bobl leol, ac yn symud o system pwyntiau ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol i drefn o osod ceisiadau i un o 4 band, yn ddibynnol ar yr angen tai ac os oes cysylltiad gyda Gwynedd. Comisiynwyd adolygiad o'r polisi yn dilyn blwyddyn o'i weithredu er mwyn sicrhau bod yr amcanion gwreiddiol a oedd wedi eu hadnabod ar gyfer y polisi wedi eu gwireddu. Yn ystod 2022/23, byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad y polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig y cyfleoedd gorau i bobl Gwynedd.

Ers 2016 mae Gwynedd wedi cyfrannu at gynllun Llywodraeth y DU i **Ailsefydlu Pobl Fregus o Syria** ac rydym yn ymfalchïo ein bod wedi gallu helpu 8 teulu i ymgartrefu yng Ngwynedd hyd yma yn sgil y cynllun hwn. Erbyn hyn mae'r **Uned Cefnogi Ffoaduriaid** ar flaen y gad yn cefnogi ffoaduriaid o Wcráin sydd wedi gorfod ffoi yn dilyn y brwydro diweddar, ac yn cydweithio'n agos gydag adrannau mewnol a gwasanaethau allanol i gefnogi unigolion sy'n cyrraedd Gwynedd yn ceisio lloches.




Mae ein **Huned Addasiadau i Dai** yn gyfrifol am hyrwyddo annibyniaeth a lles trigolion Gwynedd drwy ddarparu addasiadau prydlon a safonol i dai oedolion a phlant sydd ag anableddau corfforol. Yn 2021/22 addaswyd 142 tŷ ar gyfer unigolion ag anableddau corfforol. Buddsoddir oddeutu £1.3m y flwyddyn ar gynlluniau megis creu ystafelloedd ymolchi hygyrch, gosod rampiau y tu allan i'r tŷ, codi estyniadau ac ati. Y llynedd, roedd 9 o'r rhain yn gyfeiriadau a dderbyniwyd gan ysbytai er mwyn galluogi i gleifion ddychwelyd adref. Rydym hefyd wedi ariannu oddeutu 700 o fân addasiadau eleni, megis gosod canllawiau, rampiau symudol ac addasiadau bychain eraill.

Rydym hefyd wedi parhau i osod a gwasanaethu offer **Teleofal** yng nghartrefi rhai o'n pobl fwyaf bregus o amgylch y sir yn ystod y cyfnod clo, gan geisio cynnig offer amgen er mwyn diwallu anghenion mwy cymhleth, er enghraifft epilepsi, dementia ac ati. Mae gwaith i'w wneud yn 2022/23 er mwyn ailedrych ar y Gwasanaeth Teleofal yn ei gyfanrwydd, a hwyluso'r broses o drosglwyddo offer teleofal trigolion Gwynedd o fod yn rhai analog i fod yn ddigidol erbyn i BT ddiffodd y rhwydwaith analog yn gyfan gwbl yn 2025.

Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw annog **Mwy o drigolion Gwynedd i chwarae rhan lawn yn y byd gwaith.** Mae'r farchnad lafur leol wedi newid yn sylweddol ers i fusnesau ailagor yn llawn yn dilyn y cyfnodau clo, gyda nifer fawr o fusnesau yn ei chael yn anodd llenwi swyddi. Rydym wedi bod yn gweithio'n gyson gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr a'r maes gofal, i sicrhau bod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i gael mynediad i waith. Rydym wedi sefydlu **Hysbysfwrdd Swyddi Gwynedd** ar Facebook i helpu busnesau gyrraedd gymaint o bobl â phosib wrth recriwtio. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nifer o ffeiriau swyddi rhithiol ac, yn fwy diweddar, wrth i gyfyngiadau Covid-19 lacio, ffeiriau swyddi wyneb yn wyneb.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cefnogi oddeutu 300 o unigolion gyda'u **sgiliau cyflogadwyedd**, gyda dros 200 o'r rhain wedi dod o hyd i waith yn llwyddiannus. Rydym newydd sicrhau arian ar gyfer rhaglen newydd Llywodraeth Cymru, sef Gwarant Pobl Ifanc, ble byddwn ni'n medru rhoi mwy o adnoddau i mewn i gefnogi pobl ifanc 16-24 i barhau mewn addysg, neu i mewn i waith. Yn ogystal rydym wedi derbyn newyddion da o gyfnod ariannu newydd o dair blynedd gan Lywodraeth Cymru. I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod a chydweithio'n agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a gydag eraill sydd yn gweithio yn y maes yma yng Ngwynedd i wella cydlyniad ein gwasanaethau.

Yng nghyd-destun heriol y cyfyngiadau sydd ar allu pobl i weithio a sgil effeithiau economaidd y pandemig, mae'r angen am **wasanaethau cynghori ariannol, dyledion, mynediad i fudd-daliadau a thalebau ynni a bwyd brys** wedi bod yn bwysicach nag erioed. Rydym wedi cydweithio gyda'n partneriaid Cyngor ar Bopeth a'r Cymdeithasau Tai ynghyd ag elusennau eraill er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau cynghori ariannol lleol, ymgyrchoedd i uchafu incwm, a chyd-weinyddu talebau ar gyfer helpu gyda chostau tanwydd a chostau bwyd mewn argyfwng.

Fel Awdurdod, rydym hefyd wedi bod yn gweinyddu **taliadau uniongyrchol** cinio ysgol am ddim i deuluoedd yn ogystal â thaliadau i drigolion sy'n colli incwm oherwydd yr angen iddynt fod yn hunanynysu. Rydym wedi parhau i gydweithio gyda rhwydwaith eang iawn o grwpiau cymunedol a banciau bwyd ar ddarpariaethau bwyd argyfwng, cynlluniau bwydo, mentrau pryd ar glud, cynlluniau tyfu bwyd, gerddi cymunedol, rhandiroedd, clybiau bwyd a sesiynau dysgu coginio. Mae'r isadeiledd yma ar draws y sir yn cefnogi trigolion i gael mynediad i fwyd iach, fforddiadwy, a bwyd mewn argyfwng; mae'n annog gwirfoddoli a chyfranogiad, ac yn mynd i'r afael â lleihau gwastraff bwyd.

Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau **iechyd meddwl** er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl. Ailagorwyd yr **Hwb Iechyd Meddwl Cymunedol** ym Mhwllheli ym mis Mehefin yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19. Mae'r gwasanaeth a roddir yn cynnwys rhannu gwybodaeth a chyfeirio unigolion am gymorth yn ogystal â chynnig gweithgareddau llesol megis grwpiau cerdded, arlunio ac ati. Mae'r gwasanaethau wyneb yn wyneb ar sail apwyntiadau am y tro i sicrhau diogelwch yr unigolion ac mae'r opsiwn o gefnogaeth rithiol yn parhau. Rydym yn edrych ar opsiynau i ddatblygu hybiau pellach ar draws y sir. Nod datblygu Hybiau Iechyd Meddwl Cymunedol ledled Gwynedd yw gwella argaeledd, ymwybyddiaeth o, a chysylltiad â'r trydydd sector a gwasanaethau cymorth a llesiant holistig eraill yn y gymuned. Gall y meddygon teulu gyfeirio at yr hybiau ac mae modd i'r hybiau gyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl. Bwriad yr hybiau yw cefnogi unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl a chynorthwyo i gynnal adferiad. Mae hybiau wedi agor ym Mhwllheli, Blaenau Ffestiniog a Caernarfon, gyda lleoliadau lloeren ar draws y sir.

Yn ystod 2021, derbyniodd y Gwasanaeth 4,679 o gyfeiriadau, sy'n cyfateb i 390 o gyfeiriadau bob mis ar gyfartaledd. Asesir y mwyafrif o'r cyfeiriadau hyn cyn cyrraedd penderfyniad ar sut i gynorthwyo'r unigolyn. Mae'n anodd iawn mesur y galw ond mae 1 o bob 4 ohonom yn dioddef rhyw ffurf o salwch meddwl yn ystod ein bywydau; a gyda'r boblogaeth yn tyfu, mae cynnydd yn y galw am wasanaethau yn anorfod. Nid oes modd dyfalu difrifoldeb achosion na natur y gefnogaeth sydd ei angen ymlaen llaw.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 60 o unigolion yn aros i gael rheolwr achos. Mae'r rhestrau aros yn deillio o salwch a swyddi gwag o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r bylchau staffio'n cael effaith anorfod ar berfformiad y gwasanaeth ac ar gyfartaledd, oddeutu 60% o unigolion sydd wedi derbyn asesiad o fewn y 28 diwrnod disgwyliedig o dan y Mesur Iechyd Meddwl 2012.

Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi comisiynu ymgynghorydd i arwain ar brosiect fydd yn craffu'r adnoddau o fewn y ddarpariaeth gynradd. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor aelodau o staff yn ymwneud â'r gwasanaeth cynradd. Ein bwriad yw adolygu ein cyfraniad i'r gwasanaeth a gweld os oes modd i ni fod yn dyrannu adnoddau i ganolbwyntio ar waith ataliol a chefnogi llesiant.

Er na ellir meintoli cynnydd tebygol yn y galw am gefnogaeth iechyd meddwl arbenigol yn sgil y pandemig, mae'n bur sicr mai cynnydd a welwn, a chynnydd a allai fod yn hirdymor. Byddwn yn gweld yr effaith am flynyddoedd i ddod a bydd angen adeiladu ar ac addasu'r gwasanaeth i ymdopi gyda hynny. Mae'n bryder nad yw pawb yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'u meddyg teulu. Mae ymchwil yn dangos bod unigolion yn llawer mwy tebygol o adrodd am broblem gorfforol i'w meddyg teulu yn y lle cyntaf, ac yn rhannu unrhyw bryder am eu hiechyd meddwl ar y ffordd allan o'r feddygfa.



# Sut rydym yn gwneud ein gwaith

Yn y bennod hon, rhoddaf drosolwg o sut yr ydym yn gweithredu ein trefniadau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan nodi sut mae'r materion yr ymdrinnir â hwy yn greiddiol i'n gwaith o ran llywodraethu'n ddiogel, gan sicrhau ar yr un pryd bod anghenion trigolion Gwynedd yn cael eu cyfarch.

**Yr Iaith Gymraeg a chyflawni yn erbyn gofynion Fframwaith 'Mwy na Geiriau'**


Rydym yn hyderus iawn yng ngallu'r adrannau i ddarparu eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall 99% o'r staff yn yr adran Oedolion, Iechyd a Llesiant siarad Cymraeg, boed yn rhugl neu ar lefel sylfaenol, a 100% o staff yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd y gwaith o gasglu asesiadau yn parhau ac mae cefnogaeth lawn ar gael i staff sicrhau eu bod yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd.

Mae mwy o gyfleoedd nag erioed ar gael i ddysgu neu ddatblygu Cymraeg yn yr hinsawdd ddigidol newydd, ac yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi cefnogi 24 aelod o staff o'r adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phlant a Chefnogi Teuluoedd. Mae'r cyrsiau hyn yn amrywio o gyrsiau cymunedol ar-lein i gyrsiau hunan-astudio, cyrsiau Cymraeg Gwaith, cyrsiau comisiwn a chyrsiau wyneb i wyneb yn ddiweddar hefyd, a hynny o lefel Mynediad hyd at lefel Gloywi.

Mae'r amrywiaeth o gyrsiau gwahanol sydd ar gael yn fuddiol iawn er mwyn sicrhau bod cynifer o staff â phosib yn gallu manteisio ar y cyfle i ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith, a hynny ar adegau sy'n gyfleus ac yn gweddu eu horiau gwaith.

Comisiynwyd cwrs lefel Mynediad gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin fis Medi 2021 ar gyfer grŵp o staff Gofal Cymunedol ac mae rhai aelodau o'r grŵp bellach yn dilyn cwrs cymunedol ar-lein.
Ymysg yr adborth a dderbyniwyd gan staff sydd wedi mynychu hyfforddiant iaith dros y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd:

*"Fe wnes i wir fwynhau'r hyfforddiant. Dw i'n credu fod y cyrsiau hyfforddiant yn bwysig i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu."*




Un aelod staff sydd i'w chymeradwyo am ei gwaith clodwiw i ddysgu Cymraeg yw Keneuoe Morgan, sy'n Ddirprwy Reolwr yng Nghartref Preswyl Hafod Mawddach. Un o Lesotho yw Keneuoe yn wreiddiol. Symudodd i'r Bala ym 1997 a dechreuodd weithio i Gyngor Gwynedd, lle manteisiodd ar y cyfle i ddysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan feistroli'r iaith yn y flwyddyn 2000.

Mae hyrwyddo hawliau pobl a chanolbwyntio ar yr unigolyn a'r hyn sy'n bwysig iddo yn rhan hanfodol o rôl Keneuoe. Drwy gyfathrebu â phreswylwyr yn yr iaith y maen nhw'n ei dewis, mae Keneuoe yn gallu meithrin perthynas â nhw a'u cefnogi, sy'n eu helpu i gynnal eu llesiant. Yn ddiweddar, cafodd ei henwebu am wobr Gofal Cymdeithasol Cymru am ei hymdrechion i ddysgu Cymraeg. Gallwch weld fideo o Keneuoe yn siarad am ei phrofiad o ddysgu Cymraeg yma.

Mae Stephen Wood, ein Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i'w longyfarch am ei ymdrechion i ddysgu'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i'w waith caled, enillodd Wobr Goffa Dafydd Orwig eleni am ei gydnabyddiaeth i ddysgu a defnyddio'r iaith yn ei waith bob dydd. Meddai ei reolwr, Marian Parry Hughes: "Mae ei ddygnwch a'i benderfyniad i ddatblygu ei ddefnydd o'r iaith wedi bod yn bleser ei weld. Rwyf yn hynod o falch ei fod wedi cyrraedd y brig yn y wobr hon eleni, mae'n llwyr haeddiannol ohoni ac rwyf yn gwybod y bydd yn gam allweddol iddo yn ei daith i ddysgu'r iaith. Llongyfarchiadau." Gallwch wylio fideo o'r Seremoni Wobrwyo yma.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch pawb sydd wedi ymdrechu i ddysgu Cymraeg a datblygu eich sgiliau yn yr iaith, rwyf yn wirioneddol gwerthfawrogi eich hymdrechion i sicrhau bod ein trigolion yn derbyn gofal yn yr iaith o'u dewis.

Mae strategaeth Mwy na Geiriau gan Llywodraeth Cymru yn hollbwysig i ni yng Nghyngor Gwynedd er mwyn sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei gynnig i bawb sy'n derbyn gwasanaeth gofal. Rwyf yn cadeirio Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru, sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn er mwyn rhannu arferion da a datblygu'r maes, ac rwyf hefyd eleni wedi dod yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mwy na Geiriau dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gyda'r gobaith o ddylanwadu ar y maes yn genedlaethol. Eleni hefyd, sefydlwyd Grŵp Mwy na Geiriau o fewn y Cyngor er mwyn edrych yn fanylach ar ein rhaglen waith a cheisio adnabod ffyrdd o wella ein Cynnig Rhagweithiol.

## Ein gweithlu a sut yr ydym yn cefnogi eu swyddogaeth broffesiynol

Mae gofal cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu gan gymysgedd eang o wasanaethau statudol, asiantaethau preifat a'r trydydd sector, ac mae'r blynyddoedd diweddar wedi cyflwyno heriau yng nghyd-destun recriwtio a chadw staff, yn enwedig ar y rheng-flaen. Mae'r heriau'n benodol amlwg yn y maes gofal cartref, ac mae hyn yn gynyddol bryderus i mi fel Cyfarwyddwr wrth i ni ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau bosib i drigolion y sir.




Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ac mae hyn wedi ei amlygu yn arbennig yn ystod argyfwng Covid-19. Ond, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol, ac mae'r angen hwn wedi'i flaenoriaethu yng Nghynllun y Cyngor 2018-23.

Bu'n flwyddyn heriol o ran recriwtio a chadw staff, ac mae'r prinder wedi arwain at analluu i ddiwallu'r holl alw sydd am Ofal Cartref mewn nifer o'n cymunedau. Er fod y gweithrediadau y cytunwyd arnynt yng Nghynllun y Cyngor yn symud yn eu blaen yn unol â'r disgwyl, mae'r problemau o ran recriwtio staff newydd a chadw gafael ar staff profiadol ar draws y maes gofal yn parhau. Mae'r trafferthion yn deillio o:

- Trafferthion recriwtio staff newydd i'r maes
- Staff profiadol yn gadael i swyddi eraill o fewn y maes iechyd a gofal ac i sectorau eraill
- Absenoldebau salwch uchel
- Effeithiau hunanynysu
- Y gweithlu'n flinedig gydag argyfwng Covid yn parhau
- Gofalwyr di-dâl wedi llosgi allan

Mae prinder Gweithwyr Cymdeithasol yn yr Adran Plant hefyd wedi bod yn bryder, sydd wedi golygu gweithredu trefniadau dros dro er mwyn ymdrin â'r diffyg hwn drwy ddargyfeirio gweithwyr i'r timau Gwaith Cymdeithasol ar gyfnodau.

Rydym wedi adeiladu ymhellach ar ein ymgyrch #SOSGalwGofalwyr eleni er mwyn ceisio cynyddu maint y gweithlu gofal ym maes Oedolion er mwyn ymateb i brinder gweithlu i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r gwaith sydd wedi bod ar y gweill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys defnydd mwy amrywiol o gyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau recriwtio rhithiol, yn ogystal â rhai wyneb yn wyneb o fis Mawrth 2022 ymlaen. Yn ogystal â hyn, rydym wedi creu swydd Swyddog Marchnata Gofal newydd ym mis Tachwedd 2021 gyda'r nod o gefnogi recriwtio i'r maes. Er enghraifft, bydd y Swyddog yn cydweithio'n agos gyda Choleg Llandrillo Menai er mwyn sicrhau profiadau a chyfleoedd gwaith i fyfyrwyr ynghyd â staff y Coleg sydd â chontractau 39 wythnos y flwyddyn.

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd:

*"Mae sicrhau fod digon o staff yn y maes gofal yn her sy'n wynebu gwasanaethau ar hyd a lled y wlad. Fel Cyngor, rydym yn falch iawn o'n staff ymroddedig sy'n darparu gofal o safon i bobl mewn cartrefi gofal ac yn y gymuned ac mi wn i fod eu gwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl bob un diwrnod."*

I gefnogi ein hymdrechion recriwtio rydym wedi penodi tri hyfforddai Gwaith Cymdeithasol a dau hyfforddai Therapi Galwedigaethol fel rhan o'r Cynllun Hyfforddeion Corfforaethol, ac rydym wedi ymestyn ar y cynllun Camu i Waith (ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd) drwy gynnig lleoliadau gwaith mewn cartrefi preswyl yn ogystal â lleoliadau mewn sefydliadau iechyd.

Er mwyn cefnogi ein Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol newydd, mae gennym gynllun tair blynedd gyntaf mewn ymarfer, sy'n sicrhau bod gan y gweithwyr gynllun datblygu unigol, cyfarfodydd monitro'r cynllun ar hyd y flwyddyn gyntaf, gweithdai penodol a mentor i gefnogi. Cynhaliwyd sesiynau ychwanegol yn ystod y flwyddyn er mwyn cefnogi gweithwyr â'r her o ddod i mewn i'r gweithle yn ystod cyfnod Covid-19.

Rydym hefyd wedi cefnogi ein gweithwyr i gyflawni cymwysterau yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol i ennill cymhwyster Ymarferydd drwy'r Brifysgol Agored, a'r rhaglen AMHP ym Mhrifysgol Caer. Rydym hefyd wedi parhau gyda chyfrifoldebau ein partneriaeth â Phrifysgol Bangor mewn perthynas â'r Cwrs MA Gwaith Cymdeithasol, gyda materion yn ymwneud â recriwtio, cyfweld, darparu lleoliadau ymarfer, cadeirio cyfarfodydd asesu a gwaith sicrhau ansawdd adolygu a datblygu.

## Ein hadnoddau ariannol

Fel Cyfarwyddwr, rwyf yn falch iawn o'r gefnogaeth ariannol mae'r Cyngor yn ei roi i'r maes gwasanaethau cymdeithasol. Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn ystyried y pwysau ar y maes ac yn ceisio sicrhau bod y maes yn derbyn pob cefnogaeth, er nad yw setliadau ariannol gan y Llywodraeth bob tro yn ddigonol i gwrdd â'r angen. Gwelaf eleni ein bod wedi gallu cadw oddi fewn i'n cyllideb yn y ddwy Adran, ond er mwyn gwneud hyn mae cryn fuddsoddi wedi digwydd drwy ariannu bidiau yn ogystal â dileu neu lithro cynlluniau arbedion.

Mae'r pwysau ychwanegol ar gyllidebau'r maes gofal wedi ei gydnabod, gyda chyllidebau parhaol ychwanegol wedi eu dyrannu ar gyfer cyllideb 2022/23 sydd werth £581k ar gyfer y maes Plant a dros £3.5 miliwn ar gyfer y maes Oedolion, sydd yn cynnwys darpariaeth tuag at ffioedd safonol preswyl a nyrsio sydd yn sicrhau y bydd gweithwyr ein darparwyr allanol yn y maes gofal yn derbyn cyflog byw gwirioneddol.

Eleni rydym wedi parhau i dderbyn arian refeniw drwy'r Gronfa Gofal Integredig, fodd bynnag yn 2022/23 a thu hwnt bydd y Gronfa hon yn cael ei hamnewid am y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Gobeithir y bydd y newid hwn yn golygu gwell integreiddio yn y rhanbarth drwy gydweithio'n agosach gyda'n partneriaid a gweithio tuag at yr un nodau. Yn 2022/23 byddwn hefyd yn derbyn arian drwy'r Gronfa Tai â Gofal, fydd yn arian cyfalaf am bedair blynedd er mwyn buddsoddi mewn tai i gefnogi pobl ag anghenion gofal i fyw'n annibynnol yn y gymuned, ac i ddarparu lleoliadau gofal yn y gymuned fel y gall pobl sydd ag anghenion gofal, cefnogaeth ac adferiad ddychwelyd i fyw'n annibynnol neu gynnal eu hannibyniaeth bresennol.

Unwaith eto yn 2021/22 mae Covid-19 wedi cael effaith ariannol sylweddol ar y Cyngor, gyda goblygiadau hynny'n golygu costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn ein rhaglen arbedion. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Gronfa Caledi tuag at ddigolledu costau a cholledion incwm ar gyfer Awdurdodau Lleol, gyda dros £3.7 miliwn wedi ei hawlio gennym ar gyfer y maes gofal yn ystod 2021/22, gyda gwerth £2.4m ohono wedi ei hawlio ar ran ein darparwyr allanol yn y maes gofal.

## Gweithio mewn partneriaeth

Rhan greiddiol o'n gwaith yw gweithio mewn partneriaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol gyda phartneriaid megis y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, Llywodraeth Cymru, Cymdeithasau Tai, awdurdodau lleol eraill a'r trydydd sector. Tynna'r adroddiad hwn sylw cyson at wahanol ddarnau o waith sy'n cael eu gweithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, ac rydym yn falch iawn o allu cydweithio â nhw. Mae gennym berthynas iach a chref gyda'n partneriaid yn lleol, lle mae cydweithio adeiladol yn digwydd a thrafodaethau agored ar unrhyw wahaniaeth barn i geisio sicrhau ein bod yn cytuno ar y ffordd orau o weithio ar gyfer ein poblogaeth.

Yn fy nghyfarfod blynyddol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, nodwyd bod tystiolaeth dda o'n gwaith partneriaethol, gyda phwyslais arbennig ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n weithredol ers rhai blynyddoedd bellach. Rwyf i a'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dafydd Meurig, yn aelodau o'r Bwrdd hwn.

Fel partneriaid, rydym yn cyfarfod fel Grŵp Integredig Gofal ac Iechyd er mwyn sicrhau ein bod yn cytuno ar y ffordd ymlaen ar lefel fwy lleol. Mae'r grŵp hwn hefyd yn atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n cryfhau'r atebolrwydd lleol. Rwyf hefyd yn aelod cyswllt ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â chynghori a rhoi adborth i'r Bwrdd Iechyd ar faterion sydd yn ymwneud â'r maes gofal cymdeithasol, ac er nad oes gennyf rôl sydd â phleidlais, rwy'n ei ystyried yn fuddsoddiad amser gwerthfawr o ran ceisio rhoi gogwydd gofal ar y trafodaethau hyn.

Mae'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector, sy'n rhoi trosolwg o'r maes ac sy'n annog a gwthio cydweithio effeithiol rhwng sefydliadau statudol a'r trydydd sector, hefyd yn bwysig yng nghyd-destun gofal. Yn ystod y flwyddyn, bu cydweithio da yn digwydd i rannu gwybodaeth ac adnoddau yn ystod yr argyfwng, ac mae'n gyfrwng da i drefnu cyflwyniadau gan wahanol aelodau o'r Grŵp er mwyn i eraill ddysgu am y gwaith sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r sir. Mae'r Grŵp Cyswllt yn sicrhau bod cyfleoedd i wella gwasanaethau i'r boblogaeth yn cael eu trafod a'u cytuno, ac mae'n debygol y bydd argyfwng Covid-19 wedi cael effaith bositif ar y ffordd yr ydym yn cydweithio i gefnogi'n cymunedau. Bydd dal ein gafael ar hynny'n hollbwysig.

Rydym yn achub ar bob cyfle i leisio ein barn mewn ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru er mwyn dylanwadu ar unrhyw benderfyniad a wneir yn genedlaethol. Er enghraifft, bu i ni dreulio llawer iawn o amser yn ystyried ein hymateb fel Cyngor i'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, a gellir gweld canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn y Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.

## Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Hoffwn eich cyfeirio at ddogfen Protocol y Cyfarwyddwr, sy'n amlinellu sut y byddaf yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol hwn yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ynghyd â llinellau atebolrwydd cryf. Rhan o'r Protocol sydd yn ei le yw fy mod fel Cyfarwyddwr a'r Penaethiaid Adran yn sicrhau atebolrwydd drwy gwrdd fel Tîm Statudol bob deufis. Yn ogystal â thrin a thrafod unrhyw faterion gwaith brys a materion polisi cenedlaethol, gwneir defnydd o system newydd, sef y "Cylch Llywodraethu". Bwriad y drefn hon yw fy mod fel Cyfarwyddwr yn gofyn i'r ddau Bennaeth Adran nodi unrhyw rwystrau neu bryder, neu wrth gwrs, ddatganiad cadarnhaol ar gyfer pob elfen o fewn y cylch. Byddaf wedyn fel Cyfarwyddwr yn gallu cael trosolwg misol o'r materion sydd yn destun pryder neu'n debygol o fod yn broblem i'r dyfodol. Fel Cyfarwyddwr, mae derbyn y sicrwydd hwn yn hanfodol. Hoffwn ddiolch i Uned TG mewnol y Cyngor am eu cefnogaeth yn creu'r system.

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu mewnol cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o wasanaethu cymdeithasol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau craffu, i'r Cabinet ac i'r Cyngor llawn, mae gennym hefyd strwythur herio perfformiad adrannol sefydlog fel sydd wedi ei chyfeirio ati ym Mhennod 2. Rydym hefyd yn cwrdd yn rheolaidd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru er mwynsicrhau bod ein gweithdrefnau'n gadarn. Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi cyfrannu'n helaeth eto eleni wrth graffu ar feysydd arbennig a chynnig persbectifau pwysig inni er mwyn gwella'n barhaus.

Eto eleni, mae'r Cabinet wedi arddangos ei ymrwymiad i gefnogi gwasanaethau gofal y Cyngor, gan fuddsoddi'n ariannol yn y gwasanaethau hyn ar gyfer gwireddu'r cynlluniau sydd ar y gweill. Mae'r Cyngor wedi pennu dau o aelodau'r Cabinet ar gyfer y meysydd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cynghorydd Dafydd Meurig ar gyfer y meysydd Oedolion, Iechyd a Llesiant, a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan ar gyfer y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd. Rydym hefyd yn falch iawn o gael y Cynghorydd Craig ab Iago yn Aelod Cabinet ar gyfer Tai, sydd wedi bod yn llawer o gymorth i'r agenda gofal ehangach. Fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, mae'r agenda Cefnogi Pobl wedi bod yn flaenllaw dros y flwyddyn ac mae'r agenda hwn yn amlwg yn un traws-adrannol ac wedi'i arwain gan y Cynghorydd Dafydd Meurig.



# Gwybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

**Dogfennau Llesiant a Phoblogaeth:**

Asesiad Llesiant Gwynedd

Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn

Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cymru Iachach

**Polisïau Gwynedd:**

Cynllun y Cyngor

Adroddiad Perfformiad y Cyngor

Gwybodaeth Hyfforddiant

Polisi Iaith

Gwrando, ymateb, gwella

**Mynediad at wybodaeth bellach:**

Dewis Cymru

**Pryderu am unigolyn**

Os ydych yn gwybod am unigolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r Cyngor neu'r heddlu.
Os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol ffoniwch yr heddlu ar 999. Os nad yw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bo modd i rannu eich pryderon.

**Plentyn:**

01766 772577
01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)
cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru

**Oedolyn:**

01766 772577
01248 353551 (y tu allan i oriau gwaith)

# ATODIAD 1: Gwybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd fel nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)

**Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir, dealladwy i gefnogi pobl i gynnal eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus
- gweithio gydag unigolion, eu gofalwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid, i gefnogi a chynnal annibyniaeth unigolyn heb yr angen am ofal a chymorth
- cwblhau asesiadau lles mewn modd amserol
- sicrhau bod penderfyniadau'n parchu amgylchiadau unigol ar draws yr ystod gyfan o anghenion a'u bod yn rhoi sylw priodol i gonfensiynau ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer plant, pobl hŷn a phobl anabl
- sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch
- galluogi pobl i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu gofal
- hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a'u cefnogi
- galluogi mynediad i wasanaethau a gweithgareddau sy'n cynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, i fod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol
- trefnu eiriolaeth annibynnol lle bo angen neu gyfeirio at fathau eraill o eiriolaeth i alluogi pobl i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad wrth adolygu a diwallu anghenion
- trefnu enwau cyswllt a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn caniatáu trosglwyddo gofal a chymorth yn llyfn ar draws y gwasanaethau
- hwyluso cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol
- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer asesu anghenion a phenderfynu ar gymhwysedd
- egluro heriau yn ogystal â chyflawniadau
- mesur effaith y gofal a'r cymorth, a chymorth i ofalwyr ar fywydau pobl a'u canlyniadau lles
- sicrhau bod pobl yn ymwybodol o dalu am ofal a threfniadau codi tâl

**Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- hyrwyddo a chefnogi ffyrdd o fyw iach
- cefnogi gwasanaethau mynediad i gynnal iechyd meddwl a lles emosiynol
- annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles, bod yn actif ac elwa o ofal a chymorth ataliol rhagweithiol

**Safon Ansawdd 3: Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniadau canlyniadau lles unigolion yn rheolaidd
- darparu gofal a chefnogaeth i gwrdd ag anghenion a aseswyd i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu niwed arall
- datblygu trefniadau amddiffynnol ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl i atal camdriniaeth ac esgeulustod.
- rheoli risg mewn ffordd sy'n grymuso pobl i deimlo mewn rheolaeth sy'n gyson ag anghenion diogelu
- gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
- darparu eiriolaeth mewn perthynas â diogelu

**Safon Ansawdd 4: Annog a darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl wneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd angen arnynt i gymryd rhan yn y pethau sydd o bwys iddynt hwy
- annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o gymunedau a chefnogi'i gilydd i leihau ynysu cymdeithasol.

**Safon Ansawdd 5: Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'u teulu ac ar lefel bersonol**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gynnal perthnasau sydd o bwys iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu
- helpu pobl i gydnabod perthnasau anniogel ac i ddiogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- lle bo'n briodol, rhoi ystyriaeth i farn teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill wrth asesu anghenion gofal a chymorth

**Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni'u hanghenion**

Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- darparu cefnogaeth i bobl gyfranogi fel dinasyddion gweithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol
- darparu cefnogaeth i bobl gael gwaith ystyrlon a chynnal y gwaith hwnnw
- darparu cefnogaeth i bobl gael cyngor a chymorth ariannol a help gyda budd-daliadau a grantiau
- darparu mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill o ddewis
- darparu cefnogaeth i bobl gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac i hwyluso byw'n annibynnol

# ATODIAD 2: Mesurau Perfformiad

| | Mesur/Data | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | 142 | 132 | 159 | 179 | |
| 2 | Canran o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd sydd wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn llawn neu'n rhannol | | 96% | 94% | 97% | Mae'r ffigwr wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i nifer o resymau megis gwasanaethau oedd wedi stopio dros dro oherwydd Covid-19 yn ailddechrau'n raddol, gweithgareddau cymdeithasol yn ailddechrau a'r cyfyngiadau 'cysgodi' yn dod i ben. |
| | Canran o bobl sydd ag anableddau dysgu sydd wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn llawn neu'n rhannol | | 99% | 100% | 98% | |
| 4 | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 5.23 | 3.8 | dim ar gael | dim ar gael | Oherwydd Covid-19, ni fu'r mesur hwn yn cael ei gofnodi'n rheolaidd. |
| 5 | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | 91.50% | 93.50% | 92.07% | 79.7% | Y prif reswm am y dirywiad yn y mesur hwn y bod yr adroddiad cau yn cael ei lenwi'n anghywir. Mewn ymateb i hyn, cyflwynwyd ffurflen gasglu data newydd ar 1 Ebrill 2022 sy'n llawer mwy syml i'w llenwi. |
| 6 | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | 93.10% | 100% | 98.0% | 84.4% | Eto, nid yw'r data yn cael ei adrodd yn gywir ar ein ffurflenni cyfredol. Bydd y ffurflen gasglu data newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2022 yn cyfarch hyn a sicrhau ein bod yn adrodd ar ddata cywir. |

| | Mesur/Data | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Y canran o ymholiadau diogelu caiff eu cwblhau o fewn 7 diwrnod gwaith | 90.3% | 95.1% | 93.2% | 88.3% | Mae ein gallu i ymateb i bryderon diogelu o fewn yr amserlen statudol o 7 diwrnod yn is na'r hyn y buasem yn ei ddisgwyl o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Un o'r prif rwystrau o ran gallu ymateb yn brydlon yw bod swyddogion yn disgwyl am wybodaeth yn ôl gan weithwyr, ac mae arafwch ar hyn o bryd gyda'r achosion hynny sydd â chyswllt gydag ysbytai yn benodol. Er hynny, mae penderfyniad yn cael ei wneud ymhen 5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Bydd mesurau diogelu wedi eu rhoi mewn lle yn y mwyafrif helaeth o achosion cyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno. |
| | Nifer y bobl a dderbyniodd gymorth gan yr Uned Ddigartrefedd | 768 | 745 | 945 | 1,126 | O ganlyniad i'r gofyn statudol arnom i sicrhau nad oedd unigolion yn cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig, derbyniwyd arian ychwanegol o gronfa newydd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu darparu llety i bawb sydd yn cael eu cyfeirio atom. |
| 9 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 5.9% | 8% | 2% | 3% | Mae plant yn sefydlog yn eu lleoliadau, sy'n arwain at lai o leoliadau yn torri i lawr. |
| 10 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 16.70% | 14.20% | 9% | 10% | Mae plant yn sefydlog yn eu lleoliadau sy'n arwain at lai o symudiadau ysgol. |
| 11 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 85% | 84% | 86% | 87% | Mae'r perfformiad yn dda mewn adolygiadau rhithiol, er gwaetha'r anawsterau oedd wedi deillio o salwch staff yn ystod cyfnod Covid-19. |

| | Mesur/Data | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | 94% | 80% | 90% | 78% | Mae'r perfformiad wedi dirywio yn ystod y flwyddyn wrth i amrywiol ffactorau megis swyddi gwag, salwch staff a phwysau gwaith arwain at oediadau mewn ymchwiliadau ac anawsterau wrth geisio trefnu a chynnal cynadleddau. |
| 13 | Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 93% | 90% | 89% | 89% | Mae asesiadau risg/Covid-19 yn golygu bod rhai ymweliadau yn cael eu cynnal yn hwyr. |
| 14 | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | 100% | 100% | 100% | 100% | |
| 15 | Canran o gynadleddau achos lle bu clywed llais/barn y plentyn (ac eithrio plant o dan 5 oed) | 99% | 94% | 85% | 91% | O ystyried y rhwystrau a gododd wrth i gynadleddau gael eu cynnal yn rhithiol, mae'r perfformiad yn dda. |
| 16 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi) | 100% | 100% | 100% | 100% | Trefniadau cadarn wedi sefydlu ar draws yr Adran er mwyn asesu ac adnabod risg. Perfformiad yn parhau yn dda yn y maes yma o sgrinio am bryderon o niwed arwyddocaol trwy ddefnyddio Risg 1. |
| 17 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | 99% | 99% | 97% | 99% | |

| | Mesur/Data | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant a hynny o fewn terfynau amser statudol | 87% | 86% | 80% | 80% | Mae cynnydd yn y nifer o gyfeiriadau sydd yn golygu bod mwy o asesiadau yn cael eu cynnal. Mae'r ffigwr yn cynnwys asesiadau TAF lle nad oes angen cwblhau'r asesiad o fewn terfynau amser statudol. |
| 19 | Canran y plant sy'n cael eu cynorthwyo i barhau i fyw gyda'r teulu | 63% | 61% | 78% | 82% | |
| 20 | Canran y plant a ddychwelodd adref o ofal yn ystod y flwyddyn | 5.80% | 8% | 6% | 9% | Fel rhan o'n Strategaeth Lleihau Niferoedd Plant mewn Gofal, mae gennym bellach swyddi penodol o fewn yr Adran sy'n canolbwyntio ar ddod â phlant allan o ofal. |
| 21 | Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth | 253 | 291 | 281 | 273 | Mae ein Strategaeth Lleihau Niferoedd Plant mewn Gofal yn golygu bod mwy o blant yn dod allan ofal. |

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23ain o Fehefin, 2022 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau |
| **Swyddog Cyswllt:** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Gofynnir i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r adroddiad blynyddol a gyflwynir er gwybodaeth.

**2. CEFNDIR A RHESYMEG**

2.1 Cyflwynir isod fy adroddiad blynyddol yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Noder yn y Ddeddf fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

2.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Mae hefyd yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.3 Rwy'n parhau i bwysleisio fod yn rhaid wrth ddeialog agored gyda chi fel Aelodau etholedig er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth a ddarperir i chi yn ateb eich gofynion ar gyfer y rôl. Felly rwy'n eich annog i gysylltu gyda mi neu Gadeirydd y pwyllgor i godi unrhyw faterion perthnasol.

2.4 Yn ogystal, dymunaf ddiolch i Gadeirydd a holl aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, yn ogystal ac i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu.

2.5 Rwy’n edrych ymlaen at gyd-weithio i’r dyfodol er mwyn datblygu’r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer y Cynghorwyr sydd wedi ymuno gyda ni am y tymor newydd yn 2022.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 3.1 SYLWADAU’R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Mae’r adroddiad yn adlewyrchu ar gyfnod sydd wedi bod yn drawsnewidiol yng nghyd destun trefniadau democrataidd y Cyngor. Fel y nodi’r mae gweithrediad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn parhau ar y llwybr o newid yma. Rwy’n edrych ymlaen I barhau i gyd weithio ar y trefniadau yma yn lleol ac yn rhanbarthol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o weithgareddau 2021/22. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH (2021/22)

## - Cefnogaeth i Aelodau Etholedig Gwynedd

DRAFT

RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD • PUTTING THE PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

## RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol i Aelodau Cyngor Gwynedd.  Dymunaf hefyd eich llongyfarch ar eich ethol fel Cynghorydd i Gyngor Gwynedd ar gyfer y tymor newydd.

Edrych yn ôl y mae'r adroddiad hwn gan ganolbwyntio ar flwyddyn olaf tymor y Cyngor blaenorol, 2021-22.  Mae'n debyg bod ffocws y mwyafrif ohonom ar y cyfnod sydd i ddod, ac felly rwyf hefyd yn cyflwyno amlinelliad bras o'r hyn sydd i'w ddatblygu yn ystod tymor newydd y Cyngor o Fai 2022 ymlaen.


Mae adolygu a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau etholedig er mwyn cyflawni yn eich rôl yn rhan greiddiol o fy ngwaith i, ac mae mewnbwn a chefnogaeth gennych chi fel aelodau, ond yn arbennig aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, yn fy nghynorthwyo gyda'r gwaith pwysig yma.

Ar ddechrau'r tymor fel hyn, rwy'n annog unrhyw Aelod i beidio ag oedi rhag cysylltu pe byddech am drafod unrhyw agwedd o'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch - gyda mi yn uniongyrchol, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth neu unrhyw aelod o'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.

Bu 2021/22 yn barhad o amgylchiadau gwahanol a heriol yn sgil cyfyngiadau covid-19, ond rwy'n falch o gael adrodd ein bod wedi llwyddo i ddarparu a datblygu'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn a fu.  Bydd ffocws 2022/23 ar sicrhau eich bod fel Cynghorwyr yn ymgyfarwyddo a'ch rôl a threfniadau'r Cyngor yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022, yn ogystal ag ymateb i oblygiadau gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Dymunaf ddiolch a nodi fy ngwerthfawrogiad o'r holl ymdrechion a fu yn ystod y flwyddyn gan Aelodau a Swyddogion, gan edrych ymlaen at gydweithio ar ddatblygiadau pellach yn ystod y flwyddyn i ddod.





**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth,**
**Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

DRAFT

## Beth sydd wedi digwydd yn 2021/22?

Unwaith eto, mae'n amhosib edrych yn ôl ar y flwyddyn a fu heb sôn am effaith pandemig Covid-19. Mae effeithiau cyfyngiadau covid-19 wedi parhau i ddylanwadu ac effeithio ar ein ffordd o weithio, ond wedi dod ag ambell i gyfle pellach yn ei sgil hefyd.

Ers Hydref 2020 mae holl gyfarfodydd y Cyngor wedi eu cynnal yn rhithiol gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd drwy Zoom. Bellach, mae cyfarfodydd o'r fath yn ail natur i'r Cynghorwyr a phawb wedi ymgyfarwyddo gyda'r trefniadau. Llwyddwyd i gynnal 123 o gyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor yn rhithiol yn ystod 2021/22 yn ogystal â chefnogi 41 o gyfarfodydd anffurfiol i Gynghorwyr.

Yn Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor llawn ar y trefniadau hir dymor ar gyfer cynnal pwyllgorau'r Cyngor. Mae buddion ac arferion da amlwg wedi dod o gynnal cyfarfodydd rhithiol, arferion sydd angen eu cynnal i'r dyfodol. Wrth fabwysiadu'r trefniadau rhoddwyd ystyriaeth i nifer o wahanol ffactorau gan gynnwys

- hybu amrywiaeth mewn democratiaeth trwy alluogi mynediad o bell i gyfarfodydd ac ymateb i anghenion Cynghorwyr sy'n gweithio ac/neu'n rhieni ifanc
- Cyfrannu'n bositif tuag at leihau effeithiau'r Argyfwng Hinsawdd drwy adnabod ffyrdd o ostwng carbon drwy gyfyngu ar deithio i gynghorwyr a swyddogion
- defnyddio amser Cynghorwyr a swyddogion yn fwy synhwyrol trwy ddileu'r gofynion teithio.

Yn sgîl y penderfyniad i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol yn rhithiol lle bo modd a chynnal cyfarfodydd aml leoliad (hybrid) lle bo diddordeb uchel gan y cyhoedd, rydym wedi bod yn gweithio ar addasu'r adnoddau yn y siambrau i alluogi cynnal y math yma o gyfarfod. Mae wedi bod yn her i ddod a'r trefniadau ynghyd, yn arbennig gan sicrhau fod y cyfan yn digwydd yn naturiol trwy'r Gymraeg gan alluogi cyfieithu ar y pryd. Mae'n hawdd anghofio fod y gwaith datblygu i gyd wedi gorfod digwydd o fewn cyfyngiadau Covid-19, wrth i ni wynebu misoedd o arweiniad i fod yn gweithio o gartref.

Hoffwn ddiolch am fewnbwn y Tîm Democratiaeth a'r Tîm Cyfieithu, a'r cydweithio gyda swyddogion TG a swyddogion cyfreithiol i ddod a'r trefniadau hyn ynghyd. Mae llawer o waith wedi digwydd yn y cefndir i alluogi ein cyfarfodydd aml leoliad.

Rwy'n hyderus fod trefniadau mewn lle ar gyfer cynnal y cyfarfodydd hyn o ddechrau tymor y Cyngor newydd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn, Cabinet, Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgorau Craffu. Bydd gwaith addasu wrth symud ymlaen, ac rwy'n ddiolchgar ymlaen llaw i bawb am eu cydweithrediad.

DRAFT

Yn ystod y flwyddyn bu i'r Gwasanaeth barhau i ddarparu'r holl gefnogaeth arferol, sy'n cynnwys:

- ✓ Trefnu, cyhoeddi a chofnodi cyfarfodydd y Cyngor – yn amserol ac i safon uchel yn gyson.
- ✓ Cyhoeddi 96% o hysbysiadau penderfyniadau Pwyllgorau yn electroneg o fewn 5 diwrnod gwaith clir yn dilyn unrhyw bwyllgor. Mae hyn yn galluogi aelodau'r cyhoedd i weld yn glir pa benderfyniadau a wnaethpwyd ym mhob pwyllgor gan gyfrannu at gynnal trefniadau democratiaeth agored a thryloyw
- ✓ Gwe-ddarlledu 41 gyfarfodydd y Cyngor. (noder na lwyddwyd i we-ddarlledu pob un o'r pwyllgorau oedd fod i gael eu gwe-ddarlledu yn ystod y cyfnod, a hynny gan ein bod yn ddibynnol ar gyswllt y We gan staff unigol)
- ✓ Cydymffurfio gyda gofynion Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol gan sicrhau talu cyflogau a threuliau Aelodau yn amserol.
- ✓ Cefnogaeth wleidyddol i'r grwpiau gwleidyddol cymwys
- ✓ Adolygu'r cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r gofyn
- ✓ Adolygu a datblygu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer tymor y Cyngor newydd

Yn ogystal, hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau penodol a nodir isod:

**Datblygu trefniadau ar gyfer etholiad Mai 2022 a'r cyfnod i ddilyn:**

**Mewnrwyd Aelodau:**

Mae'r fewnrwyd aelodau yn rhan annatod o'r trefniadau ar eich cyfer chi fel Cynghorwyr ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn. Mae wedi datblygu yn sylweddol yn ystod 2021/22, gyda'r ddarpariaeth yn llawer iawn haws i'w ddefnyddio a dolen mynediad wedi ei osod ar ddesg blaen peiriant pob Cynghorydd.

Cofiwch edrych ar y ddolen "Edrych ar ôl dy hun" a gafodd ei ddatblygu yn sgîl trafodaethau a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Mae'n cynnig cynghorion ynghylch diogelwch personol, sut i eistedd a diogelu eich cefn yn ogystal â chefnogaeth lles meddyliol. Bydd y Fewnrwyd Aelodau yn parhau i ddatblygu dros y cyfnod i ddod - cysylltwch os oes gennych unrhyw sylwadau ar gyfer ei wella.

**Amrywiaeth mewn Democratiaeth:**

Yn dilyn mabwysiadu a chyhoeddi Datganiad Cyngor Gwynedd ynghylch Amrywiaeth mewn Democratiaeth ym mis Hydref 2021, lluniwyd a gweithredwyd ar raglen waith cynhwysfawr i geisio annog mwy o amrywiaeth.

DRAFT

Cynhaliwyd ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Hydref a mis Ionawr i godi ymwybyddiaeth bod yr etholiadau yn digwydd gan annog amrywiaeth o 'fysg y cyhoedd i sefyll er mwyn cesio sicrhau bod llais pob rhan o gymdeithas yn cael ei glywed. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau 'holi ac ateb' i ddarpar ymgeiswyr, ar y cyd â'r Gwasanaeth Etholiadau, ym mis Mawrth er mwyn esbonio mwy am rôl Cynghorwyr a chynnig cyfle i unrhyw un ofyn cwestiynau. Cynhaliwyd sesiynau gan y Gwasanaeth Etholiadau gyda phobl ifanc mewn ysgolion hefyd, eto i godi eu hymwybyddiaeth o'r hawl i bleidleisio.

Braf yw gweld fod y ddemograffeg o fewn y Siambr wedi newid, ond rwy'n cydnabod fod gwaith pellach i'w wneud.

**Cynghorwyr sy'n Ferched**

Cynhaliwyd nifer o sesiynau anffurfiol i ferched sy'n gynghorwyr ddod ynghyd i drafod y problemau sy'n eu hwynebu ac i roi cefnogaeth i'r naill a llall yn eu rôl fel Cynghorydd (dim ots pa grŵp gwleidyddol). Gan fod yr adborth wedi bod yn bositif, mae'r gefnogaeth yma am barhau yn ystod y tymor nesaf.

**Paratoi at yr Etholiadau**

Bu'r prif ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf ar baratoi ar gyfer etholiadau Mai 2022 a'r cyfnod yn dilyn hynny. Bu'r ffocws ar

- drefniadau'r diwrnod canlyniadau,
- y dyddiau croesawu a'r
- rhaglen Cyflwyno Gwybodaeth a Hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae wedi bod yn her ceisio datblygu rhaglen synhwyrol yn cynnig y wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol yn amserol ac hynny heb or-lwytho Cynghorwyr newydd. Unwaith eto cafwyd mewnbwn pwysig gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gan sicrhau bod y trefniadau yn seiliedig ar bersbectif Cynghorwyr yn hytrach na swyddogion yn unig.

DRAFT

## Blaenoriaethau 2022/23

Ar ddechrau tymor newydd fel hyn rydym yn parhau i anelu am welliant parhaus a byddwn yn parhau i ymgynghori gyda chi fel Cynghorwyr yn ystod y flwyddyn i ddod.

**Adeiladu ar ddatblygiadau eleni**

Bydd y ffocws eleni ar geisio sicrhau eich bod yn derbyn y wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eich galluogi i gyflawni a datblygu yn eich rôl. Mae rhaglen o gyflwyniadau a hyfforddiant yn cael ei gynnig ar eich cyfer, ond cofiwch gysylltu gyda'r tîm Dysgu a Datblygu os ydych yn dymuno unrhyw hyfforddiant pellach neu wahanol.

Byddwn yn parhau gyda'r sesiynau anffurfiol i ferched sy'n Gynghorwyr, a hefyd yn cynnal sesiynau tebyg ar gyfer Cynghorwyr newydd - cyfle i drafod yn hollol anffurfiol, gofyn unrhyw gwestiwn, a chefnogi eich gilydd yn eich rôl.

Yn ogystal byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Cynnal Pwyllgorau gan symud ymlaen i gynnig darpariaeth aml leoliad ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn, Cabinet, Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgorau Craffu.  Mae angen mireinio ein trefniadau yn y maes hwn.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dod i rym yn raddol, a manylion y gofynion yn parhau i gael eu datblygu.  Bydd angen sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r amodau o fewn y Ddeddf, gan edrych yn fanwl ar rai elfennau megis;

- gofynion gwe-ddarlledu,
- annog pobl leol i gymryd rhan pan fo llywodraeth leol yn gwneud penderfyniadau,
- dyletswydd i wneud a chyhoeddi cynllun deisebau,
- parhau gyda'r gwaith o sicrhau mynediad o bell fel modd o hwyluso gallu Aelodau i gyfrannu mewn pwyllgorau.
- Sicrhau adolygiad blynyddol ar gyfer gofynion hyfforddiant pob Cynghorydd yn unigol
- Adolygu amseroedd cynnal pwyllgorau

Bydd adroddiadau cyson ar yr elfen yma yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

DRAFT

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **23 Mehefin 2022** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)** |

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad.

### CEFNDIR A RHESYMEG

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2021-22, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
   - Gweithdai Blynyddol Craffu
   - Fforwm Craffu
   - Eitemau Craffu
   - Galw i Mewn
   - Grwpiau Tasg
   - Tracio Effaith Craffu
   - Hyfforddiant
   - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2021/22

3. Gyda phwyslais cynyddol yn cael ei roi ar asesu effaith gwaith craffu, canolbwyntiwyd ar yr eitemau craffu lle ychwanegwyd gwerth drwy'r gwaith craffu. Mae rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad blynyddol.

4. Crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2021-22, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

### ATODIADAU:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22
Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod yr adroddiad yma yn adlewyrchiad teg o'r gwaith craffu eang a manwl a gyflawnwyd yn ystod 2021/22. O safbwynt materion cyllid, gallaf gadarnhau fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi rhoi sylw i graffu materion ariannol yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r gweithdrefnau sefydlu cyllideb a monitro gwariant.
Nid yw'r adroddiad yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2021-22

# Rhagair

Cynhaliwyd gweithgareddau craffu yn rhithiol eto eleni, dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r modd y gwneir y gwaith wedi newid yn arwyddocaol. Mae aelodau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newid yn y ffordd o gwblhau'r gwaith craffu gyda chyfraniadau gwerthfawr yng nghyfarfodydd rhithiol y pwyllgorau craffu.

Ym mis Mai, cynhaliwyd gweithdai er mwyn i'r pwyllgorau craffu flaenoriaethu eitemau gan lunio eu rhaglen waith drafft. Ymhelaethir ar drefniadau'r gweithdai yn yr adroddiad.

Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o gyfraniad a gwaith y cadeiryddion ac is-gadeiryddion, a'r holl aelodau craffu a oedd yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

Cymeraf y cyfle i ddiolch i drigolion Gwynedd, Aelodau Cabinet, asiantaethau eraill a swyddogion perthnasol am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth. Yn ogystal hoffwn nodi gwerthfawrogiad o waith staff yn ystod cyfnod y pandemig gan ymateb i heriau ac ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl Gwynedd.

Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar y prif waith craffu ac ymhelaethu ar eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol. Wrth adnabod eitemau i'w craffu mae aelodau yn rhoi ystyriaeth i'r hyn gall y gwaith craffu ychwanegu gwerth a chyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd.

Gellir gweld rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn mewn atodiad i'r adroddiad yma.

Dyma'r adroddiad olaf yng nghyfnod y Cyngor presennol. Wrth edrych i'r dyfodol, mi fydd dyfodiad cyfarfodydd hybrid, gyda rhai aelodau mewn ystafell bwyllgor ac eraill yn ymuno o bell, yn symudiad at newid y ffordd y gwneir y gwaith craffu yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid-19. Mae'r gwaith craffu yn hanfodol bwysig i gyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd a bydd cyfraniad aelodau'r Cyngor newydd yn allweddol i sicrhau hyn.



Cynghorydd Beth Lawton,

Cadeirydd y Fforwm Craffu

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gweithdai Blynyddol Craffu | 3 - 4 |
| Fforwm Craffu | 5 - 6 |
| Eitemau Craffu | 7 - 12 |
| Galw i Mewn | 13 - 15 |
| Grwpiau Tasg | 16 |
| Tracio Effaith Craffu | 17 - 19 |
| Hyfforddiant | 20 - 21 |
| Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2021/22 | 22 |

<u>Atodiad</u>

| | |
|---|---|
| Rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn | 23 - 24 |

# Gweithdai Blynyddol Craffu

Yn 2021-22, dychwelwyd i'r arferiad o gynnal gweithdai blynyddol i lunio rhaglen waith craffu. 'Roedd y gweithdai, a gynhaliwyd ym mis Mai, yn gyfle i aelodau'r pwyllgorau craffu ddod at ei gilydd yn benodol i lunio rhaglen waith ar gyfer 2021-22. Dyma oedd y tro cyntaf i'r gweithdai cael eu cynnal yn rhithiol. Addaswyd modd y cynhaliwyd y gweithdai i fanteisio ar y dechnoleg, gan wneud defnydd o ystafelloedd grŵp er mwyn rhoi cyfle i'r holl aelodau craffu gymryd rhan.

Cam allweddol wrth baratoi ar gyfer y gweithdai oedd adnabod eitemau posib ar gyfer rhaglen waith 2021-22. Yng nghyfarfodydd rheolaidd y Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion gyda'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adran perthnasol, ym mis Chwefror/Mawrth 2021, bu trafodaeth gychwynnol o ran eitemau i'w hystyried. Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau a'r Penaethiaid gyflwyno eitemau posib gan nodi beth oedd angen ei graffu, pam fod angen ei graffu a pryd fyddai'n amserol i'w graffu. Amlygwyd i'r aelodau craffu, nid oedd rhaid iddynt gyfyngu eu hawgrymiadau i'r Pwyllgor yr oeddent yn aelod ohono.

Lluniwyd rhestr o eitemau posib fesul Pwyllgor a fyddai'n sylfaen i drafodaethau'r aelodau yn y gweithdai.

Cymerwyd y cyfle ar ddechrau'r gweithdai i gynnal hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan dynnu sylw at amcanion llesiant y Cyngor, y 5 ffordd o weithio ynghyd â'u cyswllt gyda Ffordd Gwynedd. Cyflwynwyd gwybodaeth gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a ddaeth yn weithredol ar 31 Mawrth 2021. Gweler mwy o fanylion am gynnwys yr hyfforddiant ar dudalen 21.

Atgoffwyd yr aelodau o bwrpas craffu, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Cyn mynd ymlaen i drafod eitemau posib ar gyfer rhaglen waith 2021-22, pwysleisiwyd bod rhaid bod yn glir pam bod mater angen ei graffu, a rhoi ystyriaeth i sut allai craffu ychwanegu gwerth. Er mwyn rhoi sylw teilwng i faterion, anelwyd at 2 neu 3 eitem fesul cyfarfod pwyllgor. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dull gorau o graffu mater - eitem pwyllgor, ymchwiliad craffu neu grŵp tasg a gorffen ar y cyd gyda'r gwasanaeth.

Rhannwyd yr aelodau i ystafelloedd trafod er mwyn ystyried yr eitemau posib mewn grwpiau llai. Gofynnwyd i'r aelodau adnabod eu 5 prif flaenoriaeth allan o'r rhestr o eitemau posib.

Dyma'r ffactorau a ystyriwyd wrth flaenoriaethu'r eitemau:

- A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?
- A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- A yw'r mater yn amserol i'w graffu?
- Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Yn dilyn y trafodaethau grŵp, fe ddaeth pawb ynghyd gyda chynrychiolwyr o'r grwpiau yn adrodd yn ôl, o ran pa eitemau y adnabuwyd a'r ystyriaethau tu ôl i'r dewisiadau.

Y cam nesaf oedd trafodaeth i lunio rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2021-22 gan roi ystyriaeth i'r eitemau a adnabuwyd yn y grwpiau, cyn ystyried yr eitemau a oedd yn weddill ar y rhestr o eitemau posib. Daethpwyd i gytundeb ar ddiwedd y cam yma ar y rhaglen waith ddrafft.

Er mwyn sicrhau bod y rhaglen waith ddrafft yn ystyrlon, gwahoddwyd y Penaethiaid ac Aelodau Cabinet perthnasol i ymuno i adnabod unrhyw fater oedd angen ystyriaeth yng nghyd-destun y materion a flaenoriaethwyd ac o ran amseru'r craffu. Ym mhob gweithdy, bu'r drafodaeth yn adeiladol ac yn fuddiol gan roi cyfle i newid amserlen craffu rhai eitemau er mwyn sicrhau bod y craffu'n digwydd yn amserol gan uchafu gwerth y craffu.

Y cam olaf cyn i bob Pwyllgor yn eu cyfarfod cyntaf gymeradwyo eu rhaglen waith, oedd i'r flaenraglen craffu yn ei gyfanrwydd fynd gerbron y Fforwm Craffu ar yr 20fed o Fai, er mwyn rhoi trosolwg o'r hyn y bwriadwyd ei graffu yn ystod 2021-22.

Mabwysiadodd y Pwyllgorau unigol eu rhaglenni gwaith ar gyfer 2021-22 yn eu cyfarfodydd cyntaf. Mae'r blaenraglen yn rhaglen fyw a addaswyd y rhaglen waith yn ystod 2021-22 pan fo materion yn codi a oedd angen eu blaenoriaethu. I atgyfnerthu mai'r pwyllgorau unigol sydd yn gyfrifol am eu rhaglen waith, adroddwyd ar y diwygiadau i gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgorau i'w cymeradwyo.

# Fforwm Craffu

Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw aelodau'r Fforwm Craffu. Mae'r Fforwm yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu.

**Rôl y Fforwm Craffu yw:**

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Manylwyd ar waith y Fforwm Craffu yn Adroddiad Blynyddol 2020-21. Cynhaliwyd cyfarfod olaf y Fforwm cyn i'r aelodaeth newid, wrth benodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion newydd ar gyfer 2021-22 yng nghyfarfodydd cyntaf y pwyllgorau, ar 20 Mai 2021.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r flaenraglen craffu drafft ar gyfer 2021/22. Gwahoddwyd Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y pwyllgorau i ymhelaethu ar gynnwys blaenraglen eu pwyllgor perthnasol. Cafwyd trafodaeth am yr eitemau a flaenoriaethwyd. Roedd y Fforwm yn gefnogol i'r flaenraglen craffu a chyflwyno rhaglen waith y Pwyllgorau unigol i'w cyfarfodydd cyntaf i'w cymeradwyo.

Cymerwyd y cyfle i adlewyrchu ar y gweithdai gan dderbyn adborth y Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion ar y trefniadau. Roedd cynnal y gweithdai yn rhithiol yn brofiad o'r newydd, dysgwyd gwersi o'u cynnal ac ar y cyfan gwelwyd budd ohonynt gyda blaenraglen mewn lle. Ceisiwyd cael balans o ran hyd y gweithdai, clustnodwyd dwy awr gan roi ystyriaeth i faint o amser gallai aelodau ymrwymo i'r gweithdai o ystyried eu hymrwymiadau eraill. Nodwyd bod yr amser a glustnodir i aelodau drafod yn fater a oedd angen sylw wrth gynllunio ar gyfer gweithdai 2022-23.

Mynegwyd y farn bod presenoldeb y Penaethiaid a'r Aelodau Cabinet yn y gweithdai yn werthfawr o ran amseru'r craffu, gyda modd symud eitemau a flaenoriaethwyd gan aelodau i gyfarfod ar gyfnod mwy amserol.

Roedd y gweithdai yn gam i'r cyfeiriad cywir, er gallai materion godi yn ystod y flwyddyn, roedd blaenraglen wedi ei lunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yng nghyfarfodydd cyntaf y pwyllgorau, etholwyd Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion newydd ar gyfer 2021/22. Dyma aelodaeth y Fforwm yn dilyn y newidiadau:

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**



Cynghorydd

Beth Lawton



Cynghorydd

Cai Larsen

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**



Cynghorydd

Berwyn P. Jones



Cynghorydd

Glyn Daniels

**Pwyllgor Craffu Gofal**



Cynghorydd

Eryl Jones-Williams



Cynghorydd

Angela Russell

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
(Rôl Craffu Materion Corfforaethol)



Cynghorydd

John Pughe Roberts



Cynghorydd

R. Medwyn Hughes

Bu cyfle yng nghyfarfod y Fforwm ar 9 Medi 2021, i'r aelodau ymgyfarwyddo gyda rôl y Fforwm a thrafod adlewyrchu ar gyfarfodydd ac asesu effaith y gwaith craffu, cyfarfodydd cyswllt gyda'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid a chyfarfodydd ar y cyd gyda'r Cabinet. O ran cyfarfodydd ar y cyd gyda'r Cabinet, nodwyd y dylid cynnal cyfarfod pan fo mater penodol i'w drafod a phwysigrwydd cynnal cyfarfod ar y cyd yn dilyn Etholiad Mai 2022.

Cyfarfu'r Fforwm ar 16 Rhagfyr 2021, cafwyd trafodaeth gychwynnol o ran rôl craffu yn y trefniadau perfformiad yn sgil y gofyniad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i lunio adroddiad perfformiad blynyddol statudol ac ymgynghori fel rhan o'r broses (Hunan Asesiad). Bydd aelodau craffu yn rhan greiddiol o'r hunan asesiad, ac nid i drafod y canlyniadau yn unig. Mae gofyniad i'r Cyngor gyhoeddi hunan asesiad 2021/22 erbyn Hydref 2022. Mi fydd trafodaethau yn parhau wrth i'r trefniadau ddatblygu.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y Fforwm ar 31 Mawrth 2022, rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi eu barn ar ddyfodol craffu materion corfforaethol yn sgil dyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Daethpwyd i'r casgliad mai'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fyddai'r cartref gorau wrth ystyried y pwysau gwaith cyfredol ac y dylid adolygu'r trefniant ymhen 18 mis. Mater i'r Cyngor newydd fydd gweithredu o ran dyfodol craffu materion corfforaethol.

# Eitemau Craffu

Yn y rhan yma gwelir blas o'r eitemau sydd wedi eu craffu yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu. Gall craffu effeithiol wneud Aelodau Cabinet yn ymwybodol o bethau ychwanegol sydd angen eu hystyried.

Mae rhestr gyflawn o'r eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn yr Atodiad i'r adroddiad yma. Gellir gweld yr holl wybodaeth am yr hyn a drafodwyd yn ystod 2021/22 ar wefan y Cyngor – https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu

## Addysg a'r Gymraeg: Gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt

Yn 2018-19 a 2019-20 craffwyd ar y datblygiadau ym maes canolfannau iaith. Cafwyd cyfle i roi mewnbwn craffu unwaith yn rhagor y flwyddyn yma. A hynny, drwy gyflwyno sylwadau ar weledigaeth yr Aelod Cabinet Addysg ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.

Y prif achos dros newid a'r angen am weledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi Gwynedd oedd rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog, cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth, gweithio mewn partneriaeth, cyfle i greu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf, cyfleoedd newydd yn deillio o Covid-19 a gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot a weithredwyd ar gais y Cabinet.

Dyma rai o'r sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau craffu yn ystod y cyfarfod:-

- Rhoddwyd cydnabyddiaeth i lwyddiant y canolfannau iaith dros y blynyddoedd i sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg.
- Cytunwyd gyda'r bwriad i gryfhau'r atebolrwydd fel rhan o'r weledigaeth newydd.
- Cefnogwyd y bwriad i arfogi gweithlu'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr i wneud cynnydd pellach i feithrin hyder a chaffael y Gymraeg.
- Cefnogwyd y bwriad i sefydlu darpariaeth addysg drochi ym Mangor.
- Cafwyd amrywiaeth barn ar ffynhonnell gyllido'r gyfundrefn addysg drochi, gyda rhai aelodau yn gefnogol i'r bwriad y byddai ysgolion yn cyfrannu gan gynyddu atebolrwydd a chydberchnogaeth o'r gyfundrefn rhwng yr Adran Addysg a'r ysgolion, ond mynegwyd hefyd ddymuniad i'r Cyngor yn gorfforaethol fod yn ariannu'r bwlch cyllidol yn sgil y ffaith fod y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Yn dilyn derbyn ymatebion i sylwadau'r aelodau, penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan ofyn i'r Adran a'r Aelod Cabinet Addysg gymryd sylw o sylwadau'r pwyllgor, a bod y pwyllgor craffu yn derbyn adroddiad pellach ar hyn pan fydd mwy o fanylder ar gael.



## Aflonyddu mewn ysgolion

Yn ystod y flwyddyn, adnabuwyd cefnogaeth i athrawon gyda materion cam drin ar y we fel mater oedd angen sylw. Roedd aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi o'r farn bod angen eglurhad o sut mae'r Adran Addysg yn gofalu am athrawon sy'n cael eu cam-drin ar wefannau cymdeithasol. Nodwyd pwysigrwydd deall beth ydi rôl y Cyngor a beth ydi rôl yr ysgolion.




Trafodwyd elfen arall o aflonyddu mewn ysgolion, a oedd wedi derbyn sylw gan Estyn, sef aflonyddu'n rhywiol mewn ysgolion. Cyhoeddodd Estyn yr adroddiad *"Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon"* yn Rhagfyr 2021. Mae'r adroddiad yn manylu ar brofiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. Roedd argymhellion a oedd yn berthnasol i ysgolion uwchradd, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn deillio o'r gwaith.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddwy elfen ar wahân yng nghyfarfod y pwyllgor craffu ar 8 Chwefror 2022. Nodwyd gwerthfawrogiad o'r llythyr a anfonwyd gan y Pennaeth Addysg i rieni / ofalwyr mewn ymateb i enghreifftiau lled ddiweddar o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i aflonyddu ar benaethiaid ysgolion, athrawon a staff ysgolion. Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fyr, yn hollol glir ac yn creu naws briodol. Croesawyd y cyfeiriad at 'rai' disgyblion a 'rhai' achosion, a'r anogaeth gref i rieni wirio ffonau symudol eu plant. Mynegwyd pryder y gallai ysgolion golli staff o ganlyniad i ddigwyddiadau fel hyn, ac er bod yna reolau mewn ysgolion o ran defnyddio ffonau, ayyb, roedd yna garfan fechan ddim yn gwrando.

Yn ystod y drafodaeth yng nghyswllt adroddiad Estyn, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Yr adroddiad yn nodi bod staff ysgolion yn gweithio'n galed i ymateb i'r materion hyn, ond dywed staff hefyd eu bod angen llawer mwy o adnoddau, hyfforddiant, cymorth ac amser.
- Yn hollbwysig bod y mater yn flaenoriaeth i ysgolion ar draws Gwynedd a'r Llywodraeth, a bod rhaid i addysgu am hyn fod yn rhan o'r cwricwlwm.
- Croesawu'r ffaith bod addysg rhyw ac addysg perthynas yn rhywbeth sy'n cael sylw bellach, a'i fod yn bwysig bod cefnogaeth ar gael i'r staff ar sut i ddelio â materion o'r fath.
- Bod angen bod yn greadigol o ran sut orau i ddarparu'r adnoddau, o ystyried bod amser staff ac athrawon yn brin. Roedd modd gwneud hyfforddiant ar lein, ac efallai y dylid cael pencampwr ar draws ysgolion sy'n datblygu rhywfaint o arbenigedd, ac yn gallu cynghori yn ôl yr angen.
- Bod disgwyliad i athro / ysgol fod yn bopeth i bawb bellach, yn hytrach nag yn darparu addysg yn unig.
- Yr Adran yn cydnabod maint a difrifoldeb y broblem ac yn bwriadu gweithredu.
- Gan fod y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno yn raddol, gan ddechrau o Flwyddyn 7 i fyny, bod rhaid gweithredu ar unwaith drwy'r ysgol gyfan, yn hytrach na disgwyl i newidiadau'r cwricwlwm ddwyn ffrwyth.

Nodwyd gwerthfawrogiad o waith arwrol athrawon a holl staff yr ysgolion. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chroesawu'r gwaith, gwnaed cais am ddiweddariad yn y dyfodol.

## Strategaeth Awtistiaeth

Craffwyd y Strategaeth Awtistiaeth mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 30 Tachwedd 2021. Mae'r Strategaeth yn rhan o Gynllun y Cyngor ac yn brosiect yn y cynllun gwella. Y weledigaeth yw sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu. Y materion allweddol a adnabuwyd fel rhan o'r cynllun yw mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, diagnosis, cyngor a chefnogaeth ar ôl cael diagnosis, pobl ifanc yn y cyfnod pontio, hyfforddiant, y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol a'r Trydydd Sector. Manylir yn y cynllun ar gamau gweithredu ar gyfer 2021-22.

Rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:-

- Dylid ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth awtistiaeth a'u teuluoedd am y Cynllun yn ogystal â derbyn adborth cyson ganddynt am y gwasanaeth.
- Beth fydd rôl yr Adran Addysg yn y Strategaeth? Dylid sicrhau bod y cydweithio efo'r Adran Addysg yn cael ei amlygu yn y Cynllun.
- Bod llawer o rieni yn bryderus am yr amser mae'n ei gymryd i blant gael ei hadnabod efo'r cyflwr ac yr amser aros am asesiad. Holwyd os oes modd gwneud unrhyw beth i wella hyn.
- Dymuniad i dderbyn sesiwn gwybodaeth i Gynghorwyr er mwyn gwella dealltwriaeth o'r maes.
- Dylid sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael i bawb gan gynnwys staff y Cyngor er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o dueddiadau e.e. bod merched yn medru cuddio'r cyflwr yn well na dynion.
- Yn bwysig bod bob aelod o staff Ysgolion yn derbyn hyfforddiant er mwyn adnabod y cyflwr yn fuan.
- Pryder ynglŷn â'r amser a gymerwyd i ddatblygu'r Strategaeth.
- Byddai wedi bod yn ddefnyddiol gweld rhagor o fewnbwn gan deuluoedd yn ystod yr ymgynghoriad. Awgrymu y dylid derbyn adborth cyson gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd er mwyn adolygu os yw'r Cynllun wedi gwella eu profiadau.
- Cyfeirio at y tair swydd a'r swm o arian gafodd ei adnabod o fewn y Cynllun er mwyn ei weithredu; cwestiynu os fyddai'r swyddi hyn yn ddigonol i ymateb i'r gofynion.
- Croesawu'r ffaith y bydd adolygiad blynyddol o'r cynllun ac y bydd modd i'r pwyllgor craffu gael diweddariad yn y dyfodol.

Roedd y pwyllgor yn croesawu'r cynllun, yn gefnogol iddo ac yn awyddus i'r Cabinet gymeradwyo y bid am arian parhaol er mwyn gwella'r gefnogaeth ar gael i drigolion Gwynedd sydd gydag awtistiaeth.

> "Dwi'n gwerthfawrogi y dealltwriaeth sydd ganddoch chi."
>
> Aelod Cabinet

Cymeradwyodd y Cabinet, Cynllun Awtistiaeth 2021-23, yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2021. Cytunwyd i ragfarnu'r broses 'bidiau' blynyddol a chaniatáu 'bid' am £48,000 o gyllideb refeniw parhaol er mwyn ariannu swydd Cydlynydd Awtistiaeth a 2 swydd Gwaith Cymdeithasol ar gost flynyddol o £144,000 gyda'r Cyngor yn cyfrannu traean o'r gost.

## Cynllun Gweithredu Tai

Yn 2020, bu aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gofal yn rhan o waith tasg a gorffen i flaenoriaethu'r cynlluniau i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu. Llwyddodd cyfraniad yr aelodau yn y broses i amlygu materion pellach oedd angen ystyriaeth.

Eleni, craffwyd y cynnydd a wnaed ers i'r Cynllun ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2021. Nod y Cynllun Gweithredu Tai yw "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd."




Dyma rai o'r sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau craffu yn ystod y cyfarfod:-

- Pryder o ran cyflwr rhai tai sy'n cael eu gosod gan landlordiaid preifat.
- Bod yr adroddiad yn ardderchog gyda'r wybodaeth berthnasol wedi ei gynnwys.
- Bod angen hyrwyddo mwy ar y grant prynwyr tro cyntaf, yn enwedig yn Ardal Meirionnydd.
- Pryder am y pwysau ar y Cyngor o ganlyniad i gynnydd mewn tenantiaid tai preifat yn derbyn rhybudd i ymadael, gyda defnydd y tai yn newid i *AirBnb*, gan olygu cynnydd yn y nifer sydd yn ddigartref.
- Byddai'n ddefnyddiol i aelodau lleol dderbyn gwybodaeth ymlaen llaw am dai sydd yn dod yn wag, er mwyn bod yn ymwybodol pan fo etholwr yn cysylltu.
- Bod y Cynllun yn un arloesol, angen i ledaenu'r wybodaeth yn eang er mwyn i bobl Gwynedd fod yn ymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd.
- Bod y Cynllun yn angenrheidiol i sicrhau dyfodol cymunedau a stopio pobl ifanc rhag gorfod gadael eu cymunedau. Roedd y ffigyrau yn galonogol.
- Pwysigrwydd cyfathrebu gydag unigolion ar y gofrestr tai gyffredin.

Derbyniwyd yr adroddiad gan ofyn am ddiweddariad pellach ar weithgarwch y Cynllun Gweithredu Tai yn ystod 2022/23.

*"Dwi'n meddwl bod craffu yn bwysig iawn...y pwyllgor yma wedi bod yn rhan bwysig o be' mae'r Adran Tai ac Eiddo yn ceisio ei wneud. Diolch am fod mor adeiladol a positif ac yn rhan o'r datrysiad."*


Aelod Cabinet

## Trafnidiaeth – Gwerth Cymdeithasol

Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar yr Adolygiad Strategol Cludiant yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2021. Er mwyn ymateb i risgiau, roedd yr Adran Amgylchedd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth Cludiant Cyhoeddus ac yn ymgynghori gyda chymunedau i adnabod yr angen, asesu'r gwerth cymdeithasol, blaenoriaethu gwasanaethau a chynnig cludiant drwy arloesi a chael mwy am arian.

Rhai o’r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:-

- Diolch am y wybodaeth ddefnyddiol o fewn yr adroddiad. Bod colli gwasanaeth mewn rhai cymunedau wedi bod yn ergyd gan fod llawer o bobl eu hangen ar gyfer ymweld â’r deintydd neu feddyg.
- Bod angen edrych ar amserlen y bysiau er enghraifft cynnig gwasanaeth cynharach er mwyn defnyddio at ddibenion gwaith neu addysg.
- Gofyn am eglurder o ran y wybodaeth ar dudalen 33 o’r rhaglen am Wasanaeth Rhif 14 yn adroddiad y Brifysgol.
- Oes yna drafodaethau ynghylch y bysiau wennol? Byddai teithiau hwyrach yn fantais i bentrefi a threfi elwa o ymwelwyr.
- Byddai bysiau hwyrach yn galluogi pobl i barcio yng Nghaernarfon a theithio i Eryri yn hytrach na pharcio ger y mynyddoedd.
- Ydi’r amserlen yn adlewyrchu angen presennol y bobl leol gan fod bysiau yn pasio’n hanner gwag?
- Bod angen ysgogi cyn-ddefnyddwyr i ddychwelyd yn ôl i ddefnyddio’r bysiau gan fod gwerth cymdeithasol uchel i bobl fynd i siopa a theithiau tebyg.




Mewn ymateb i’r sylwadau, nododd y Pennaeth:

- Bod yr adran yn ceisio pwyso ar Lywodraeth Cymru i adolygu eu hamserlenni fodd bynnag maent yn awyddus bod yna daith eithaf sydyn drwy Gymru.
- Awgrymwyd i Lywodraeth Cymru bod bob yn ail daith y gwasanaeth T2 yn mynd i mewn i gymunedau a’r gweddill yn fwy uniongyrchol drwy Gymru.
- Byddai’n cysylltu gyda’r aelod o ran y wybodaeth am Wasanaeth Rhif 14.
- Mewn perthynas â’r sefyllfa parcio ar gyfer ymweld ag Eryri, bod gwaith yn digwydd ar y cyd efo Parc Cenedlaethol er mwyn edrych ar ddatrysiadau i leihau’r defnydd o drafnidiaeth bersonol.
- Cytuno bod angen edrych ar ddiwygio’r amserlen fel bod teithiau hwyrach a chynt yn digwydd.
- Sylfaen y gwaith gerbron yw archwilio a yw’r gwasanaeth presennol yn addas i bwrpas ac yn cyfarch anghenion y defnyddwyr.
- Bod angen cynllunio ar gyfer yr holl ddefnyddwyr er bod anghenion pawb yn wahanol.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau a dderbyniwyd.

## Newid Hinsawdd

Thema sydd wedi rhedeg trwy nifer o eitemau a graffwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn 2021/22 yw newid hinsawdd. Yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2021, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar yr hyn roedd y Cyngor yn ei wneud i ymateb i’r heriau newid hinsawdd a chamau eraill sydd yn ymarferol i’r Cyngor weithredu arnynt i’r dyfodol. Bu trafodaeth yng nghyswllt aelodaeth y Bwrdd Newid Hinsawdd a sefydlwyd gan y Cabinet. Yn dilyn y cyfarfod, derbyniwyd cais i ethol aelod i gynrychioli’r pwyllgor ar y Bwrdd. Yng nghyfarfod 13 Ionawr 2022, etholwyd y Cynghorydd Mike Stevens i gynrychioli’r pwyllgor.

Mabwysiadodd y Cabinet, Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022-2030, ar 8 Mawrth 2022. Mae’r cynllun yn gosod targed carbon sero net ar gyfer y gweithgareddau mae’r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Craffwyd y Cynllun yng nghyfarfod 10 Mawrth.

Rhai o’r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:-

- Dylid ystyried gwahodd cynrychiolwyr Arfon a Dwyfor-Meirionnydd yn Senedd Ieuenctid Cymru i fod yn aelodau o’r Bwrdd Newid Hinsawdd.
- Oes bwriad i annog eraill i fuddsoddi er mwyn lleihau allyriadau carbon? Byddai’n fuddiol cael dadansoddiad costau a budd er mwyn dangos faint o arian gellir ei arbed ynghyd â’r lleihad mewn allyriadau carbon. Drwy nodi canran agos o ran effaith gellir annog y trydydd sector ac unigolion preifat.
- A rhoddir ystyriaeth i fuddsoddi mewn systemau dŵr poeth solar ynghyd â buddsoddi mewn systemau PV (*Photovoltaic*) i leihau ôl-troed carbon?
- Beth yw safbwynt y Cyngor ar ynni niwclear, a pha gynlluniau oedd ar gael i gynhyrchu trydan yn effeithlon fel arall?
- Yr angen i fod yn ofalus o ran ynni niwclear o ystyried y gweddillion o ganlyniad i’r broses a’r effaith ar genedlaethau’r dyfodol.
- Angen ystyried y defnydd o hydrogen e.e. i bweru ceir. Yr Almaen yn buddsoddi mewn prosiectau hydrogen adnewyddadwy, a gynhyrchir drwy ddefnyddio dŵr.




Mae’r maes yma yn flaenoriaeth i’r Cyngor a diau fydd gwaith craffu pellach yn dilyn ymgynghori gyda phartneriaid a chymunedau Gwynedd.

## Gweithio i’r dyfodol a’r gefnogaeth llesiant meddyliol

Mae arferion gweithio wedi newid yn syfrdanol dros y ddwy flynedd diwethaf yn sgil pandemig Covid-19. Roedd aelodau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn awyddus i graffu trefniadau gwaith y Cyngor i’r dyfodol a’r gefnogaeth llesiant meddyliol sydd ar gael i staff.

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y pwyllgor ar 10 Chwefror 2022, a oedd yn manylu ar weledigaeth y Cyngor i fod yn cefnogi, grymuso ac ymddiried yn y gweithlu i weithio’n hyblyg a chynhyrchiol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, mewn ffordd sydd yn lleihau’n sylweddol yr effaith ar yr amgylchedd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Gweithlu wedi gorfod ymdopi gyda chostau gwres, trydan a ffôn dros gyfnod y pandemig - angen ystyried cyfraniadau treth incwm i’r dyfodol.
- Yng nghyd-destun lles staff, anodd adnabod problemau o weithio o adre.
- Cymeradwyo’r weledigaeth a’r pwyslais ar hyblygrwydd.
- Rhagweld cyfleoedd i weithwyr o Dde'r Sir i geisio am swyddi ‘canolog’.
- Angen sicrhau bod yr elfen o weithio mewn tîm yn cael ei gynnal.
- Cais i sicrhau bod prentisiaid yn cael cyfleoedd priodol o ddatblygu eu cymeriadau o gydweithio fel tîm.

Fel rhan o’i ymateb i’r sylwadau uchod, cydnabodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol pwysigrwydd cynnal sgyrsiau ymysg staff a chynnig cefnogaeth i brentisiaid. Addawodd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i ymateb yn gadarnhaol i hyn.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan nodi’r cynlluniau ar gyfer gweithio i’r dyfodol ynghyd â nodi’r gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig i staff yng nghyswllt llesiant meddyliol. Mabwysiadodd y Cabinet y weledigaeth ar gyfer gweithio i’r dyfodol yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror.

# Galw i Mewn

Fel rhan o'r drefn craffu mae gan aelodau hawl i alw penderfyniadau i mewn i'w craffu. Gall Cadeirydd neu Is-Gadeirydd pwyllgor craffu ynghyd â dau aelod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw (o ddau grŵp gwahanol), gyflwyno cais i alw penderfyniad i mewn gan nodi eu rhesymau am alw i mewn.

O ganlyniad i dderbyn cais i alw penderfyniad i mewn, mae'r pwyllgor craffu perthnasol yn cyfarfod i graffu agweddau o'r penderfyniad yn unol â'r rhesymau galw i mewn.

Yn 2021/22 galwyd dau benderfyniad i mewn i'w craffu, ymhelaethir arnynt isod:

**Penderfyniad y Cabinet i gadarnhau yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022**

**28/09/21**
Cabinet yn penderfynu i gadarnhau yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Abersoch

↓

**08/10/21**
Derbyn cais i alw'r penderfyniad i mewn i graffu

↓

**21/10/21**
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn craffu'r penderfyniad

↓

**09/11/21**
Cabinet yn penderfynu peidio addasu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet

Ar gais y Cynghorwyr Beth Lawton (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu), Alwyn Gruffydd ac Elwyn Jones, craffwyd y penderfyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 21 Hydref 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelod Cabinet a'r Adran Addysg i ymateb i'r rhesymau am alw i mewn, ymhelaethodd yr aelodau a alwyd y penderfyniad i mewn ar y rhesymau ac fe gyflwynodd yr Aelod Lleol wybodaeth.

Gellir gweld cofnod o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod o dan y ddolen yma - [Cofnod Eitem Galw i Mewn]

Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, penderfynwyd bod y pwyllgor craffu yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef:-

> "Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref.
>
> - Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.
>
> - Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.
>
>   Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.
>
>   Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn."

Mynychodd Gadeirydd y Pwyllgor Craffu gyfarfod y Cabinet ar 9 Tachwedd 2021. Cyflwynodd y rhesymeg a'r cefndir tu ôl i benderfyniad y Pwyllgor Craffu i ofyn i'r Cabinet ail-ystyried y penderfyniad. Ymhelaethodd yr Aelod Lleol ar sefyllfa'r ysgol gan nodi bod angen i'r Aelodau Cabinet roi sylw penodol i'r materion tai oedd ar y gweill yn y pentref.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod yr adroddiad a gyflwynwyd wedi ymdrin â sylwadau am effaith datblygiadau posib yn yr ardal a bod y Cabinet wedi eu hystyried cyn dod i benderfyniad. Cynigodd bod y Cabinet yn peidio addasu'r penderfyniad oherwydd bod cau'r ysgol yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ac yn arwain at gyfleodd fwy cyson i blant y dalgylch gan gynnig addysg o ansawdd uchel, profiadau, sgiliau a hyder i fod yn ddinasyddion dwyieithog llwyddiannus.

## EFFAITH CRAFFU

Er bod y Cabinet heb addasu ei benderfyniad gwreiddiol. Bu i'r gwaith craffu yma amlygu materion oedd yn peri pryder ar yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Penderfyniad y Cabinet i ddynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol**

**18/01/22**

Cabinet yn gwneud y penderfyniad

**31/01/22**

Derbyn cais i alw'r penderfyniad i mewn i graffu

**10/02/22**

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn craffu'r penderfyniad

Derbyniwyd cais gan y Cynghorwyr John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor), Angela Russell a Sion Jones i graffu penderfyniad y Cabinet, ystyriwyd y penderfyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Chwefror 2022. Y rhesymau am alw i mewn oedd:

"Pryder ynglŷn â'r gost i Gyngor Gwynedd i ganiatáu diwrnod gwyliau ychwanegol i holl staff yr awdurdod, cost o ddeutu £200 mil wedi ei ddarganfod yn y cyfnod ariannol anodd sy'n bodoli i bawb, credir gall yr arian hyn gael ei ddefnyddio i bwrpas arall er budd pobl Gwynedd. Gofynnwn felly i'r Cabinet ail ystyried y penderfyniad yma hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru yn cael yr hawl i ganiatau diwrnod banc ychwanegol ar Ddydd Gŵyl Ddewi, ar 1af Mawrth i Gymru gyfan."

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r rhesymau am alw i mewn. Yn ystod y drafodaeth, nododd rhai aelodau eu bod yn cefnogi dathlu Dydd Gŵyl Dewi ond bod angen ei wneud yn ddiwrnod o wyliau cenedlaethol i bawb, bod ymateb y cyhoedd wedi bod yn eithaf negyddol a bod amseriad y penderfyniad yn achosi pryder. Datganodd aelodau eraill sylwadau a oedd yn gefnogol i benderfyniad y Cabinet, megis ei fod yn destun balchder bod Gwynedd yn arwain a bod cyflogwyr eraill yn cefnogi'r penderfyniad ac yn dilyn yr esiampl. Ar ddiwedd y drafodaeth, penderfynwyd derbyn penderfyniad y Cabinet.

Gellir gweld cofnod o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod o dan y ddolen yma - Cofnod Eitem Galw i Mewn

## EFFAITH CRAFFU

Dyma enghraifft o aelodau craffu yn sicrhau bod yr holl ystyriaethau wedi cael sylw mewn ymateb i bryderon eu hetholwyr.

# Grwpiau Tasg

## Grŵp Tasg Ffordd Gwynedd

Yng ngweithdy blynyddol craffu y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, adnabuwyd 'Ffordd Gwynedd' fel mater posib y gallai'r aelodau gydweithio gyda'r Prif Weithredwr i gynnal adolygiad o sut ac i ba raddau y mae egwyddorion y 'Ffordd Gwynedd' o weithio wedi gwreiddio ar draws y Cyngor. Sefydlwyd Grŵp Tasg yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf 2021.

Penderfynwyd ethol y Cynghorwyr John Pughe Roberts, Medwyn Hughes, Selwyn Griffiths, Peredur Jenkins ynghyd â Sharon Warnes (Aelod Lleyg) i gyflawni'r gwaith.

Mae aelodau'r Grŵp Tasg wedi derbyn hyfforddiant ar egwyddorion Ffordd Gwynedd. Roedd y Prif Weithredwr wedi gofyn i bob adran wneud hunan asesiad o ran Ffordd Gwynedd a defnyddiwyd y gwybodaeth yma fel sail i drafodaeth yng nghyfarfod y Grŵp Tasg ym mis Ionawr.

Bydd gwaith y Grŵp Tasg yn cael ei adrodd arno yn ystod 2022/23 a bydd mwy o wybodaeth yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

## Grŵp Tasg Parcio

Adroddwyd ar waith y Grŵp Tasg a sefydlwyd yn dilyn derbyn cais gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn Adroddiad Blynyddol 2020-21. Cynhaliwyd adolygiad o strategaeth barcio'r Cyngor. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2021 o ran yr adolygiad parcio. Derbyniwyd argymhellion y Grŵp Tasg heblaw i addasiad o ran cysoni oriau gorfodi Meysydd Parcio Band 1 i fod yn weithredol rhwng yr oriau 10am a 4.30pm.

Derbyniwyd diweddariad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 10 Mawrth 2022, lle cadarnhawyd bod yr argymhellion a oedd yn deillio o'r adolygiad wedi'u gweithredu.

Ymhelaethwyd yn y cyfarfod ar y cynnydd hyd yma yn nhermau rheolaeth cerbydau modur a phwerau ymdrin â modurwyr sydd yn parcio'n anghyfreithlon.



Llun: "freepik.com"

### EFFAITH CRAFFU

Mae gwaith y grwpiau tasg yn dangos sut all craffu ychwanegu gwerth drwy gydweithio gydag Aelodau Cabinet a Swyddogion er mwyn gwella, sydd yn y pendraw yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Gwynedd.

# Tracio Effaith Craffu

Wrth flaenoriaethu materion i'w craffu, gwneir ymgais i adnabod materion lle all y gwaith craffu ychwanegu gwerth. Yn ddibynnol ar y mater dan sylw, gall craffu cael effaith uniongyrchol yn sydyn iawn ac yr y llaw arall yn sylfaen tystiolaeth sydd yn arwain at newid mewn amser. Yn y rhan yma, nodir esiamplau o effaith craffu, boed hynny yn syth neu dros dreiglad amser.

## Sicrwydd Ansawdd – Gwasanaeth Oedolion

Derbyniwyd trosolwg o waith yr Uned Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 30 Medi 2021. Mae gan y Tîm Sicrwydd Ansawdd rôl allweddol i sicrhau bod y gofal sydd yn cael ei gomisiynu a'i ddarparu o ansawdd. Gwneir hyn drwy fonitro a chefnogi darparwyr mewnol ac allanol i sicrhau bod y gofal yn cyd-fynd ag anghenion yr unigolion o fewn cartrefi preswyl, tai a chefnogaeth, darpariaeth gofal dydd a gofal cartref. Mae cyfrifoldebau'r tîm hefyd yn cynnwys monitro cartrefi nyrsio ar y cyd gyda chyd-weithwyr o'r Bwrdd Iechyd.

Cafwyd dealltwriaeth bod y llwyth gwaith wedi golygu bod nifer o ddarparwyr yn mynd am gyfnod o hyd at ddwy flynedd rhwng ymweliadau monitro. Yn ddelfrydol dylid anelu at drefniant o fonitro pob darpariaeth bob 6 mis. Byddai hyn yn lleihau risgiau o wasanaethau yn methu yn sylweddol a lleihau'r tebygolrwydd o bryderon diogelu yn ymwneud ag unigolion sydd yn derbyn gofal.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am ddiffyg capasiti yn yr uned a'r risgiau allai godi o ran diogelwch a lles unigolion sydd yn derbyn gofal, cynaliadwyedd y farchnad a risgiau i'r Cyngor o ganlyniad i hynny. Cyfleuwyd pryder y Pwyllgor am y diffyg capasiti a'r angen i sicrhau capasiti staff digonol er mwyn cynnig cefnogaeth addas a monitro ansawdd gwasanaethau i'r Cabinet.

### EFFAITH CRAFFU

Fel rhan o gyllideb 2022/23, cymeradwywyd arian parhaol i ariannu cynnydd yn oriau'r swydd Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn o 0.7 FTE i 1 FTE. Yn ogystal â arian un-tro o £48,930 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 i gynyddu capasiti staffio i gynnal archwiliadau ar ddarparwyr gofal o fewn y Sir.

Llwyddodd y gwaith craffu i uchafu'r pryder am ddiffyg capasiti a'r risgiau i'r Cyngor.

## Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol

Fel dilyniant i dderbyn adroddiad cynnydd ar argymhellion Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd yng nghyfarfod 26 Tachwedd 2020, bu i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 14 Ionawr 2021 graffu adroddiad ar y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol.

Prif gasgliadau'r drafodaeth oedd:

- Bod ambell her yn wynebu'r Gwasanaeth ond ei fod hefyd yn gyfnod o gyfleoedd i wella'r gwasanaeth. Nodwyd pryder nad yw lefel staffio yn cyd-fynd gyda'r llwyth gwaith.
- Gweledigaeth yr Adran yw sefydlu gwasanaeth symud a thrin byddai'n cefnogi trefniadau rhyddhau o'r ysbyty yn amserol a sicrhau fod yr unigolyn yn derbyn y gefnogaeth a'r offer cywir i'w galluogi i gwrdd â'r hyn sydd yn bwysig iddynt. Cais wedi ei wneud am arian o'r gyllideb Byw yn Annibynnol Llywodraeth Cymru i ariannu'r gwasanaeth.
- Bod angen cadw llygaid ar effaith Covid-19 ar y gwasanaeth ac os oes adnoddau digonol i ddelio gyda'r llwyth gwaith.

Derbyniwyd diweddariad cynnydd yng nghyfarfod 3 Chwefror 2022. Manylwyd am y tîm newydd sydd yn cynnwys pedwar Therapydd Galwedigaethol ac un Nyrs Gofrestredig. Tîm arbenigol yn ymwneud yn benodol â'r gwaith Symud a Thrin o fewn y Sir i ategu'r Therapyddion Galwedigaethol eisoes o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Nodwyd bod gwaith y tîm yn lleihau'r risg o anafiadau, lleihau derbyniadau i'r ysbytai a lleihau'r amser sydd yn cael ei dreulio yn yr ysbytai. Y nod yw helpu unigolion i fyw mor annibynnol â phosib gan gadw eu hurddas. Gallai asesu a darparu offer arbenigol ac ymyrraeth amserol olygu fod un person yn gallu darparu gofal yn ddiogel. O ganlyniad, yn rhyddhau capasiti gofalwyr ac yn darparu gofal addas mewn ffordd cost effeithiol.

> *"Fydden ni ddim yn y sefyllfa yma heddiw oni bai am eich ymyrraeth chi fel Pwyllgor Craffu...eich gwaith chi wedi galluogi hyn i ddigwydd a bod potensial rŵan i symud ymlaen a chyflawni llawer iawn ar ran trigolion Gwynedd."*
>
> Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

## Cludiant Ôl-16

Yn dilyn pryderon gan aelodau o ran anghysondeb cost cludiant ôl-16, gallu dysgwyr /myfyrwyr i dalu am gostau cludiant, pellter teithio i ddysgwyr ac nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r un sylw i'r difreintiedig o gymharu â Lloegr, comisiynwyd ymchwiliad craffu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Hydref 2013.

Bwriad yr Ymchwiliad oedd ceisio darlun sirol o'r modd y caiff y Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ei weithredu, ac effaith y polisi hwnnw ar ddarparwyr addysg ôl-16 a dysgwyr, mewn gwahanol ardaloedd o'r sir.

Cyflwynwyd 12 argymhelliad i sylw'r Aelod Cabinet Addysg yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 2 Rhagfyr 2014, 2 o'r argymhellion oedd:

- Dylid cael Polisi Cludiant Ôl-16 pwrpasol sydd yn ystyried modd y dysgwyr /myfyrwyr a'u teuluoedd i dalu am gostau cludiant
- Mae angen cysondeb yn y ddarpariaeth a'r trefniadau ar draws Gwynedd er rhoi cyfle cyfartal a theg i bawb.

Derbyniwyd diweddariadau cynnydd ar weithredu'r argymhellion yn 2015, 2016 a 2017. Nododd y Pwyllgor ei rwystredigaeth o ran arafwch gweithredu ar yr argymhellion ond bod y sefyllfa wedi gwella a chroesawyd sicrhau hyblygrwydd amser i'r tocyn teithio. Parhaodd aelodau i lobio am newid i'r polisi er sicrhau bod bob person ifanc yn cael cyfleoedd cyfartal.

## EFFAITH CRAFFU

Yng nghyllideb 2022/23, roedd arian parhaol o £218,070 wedi ei gynnwys er galluogi dileu'r angen i godi ffi ar bobl ifanc 16+ i deithio i'r ysgol neu goleg.

Cydnabuwyd bod cost y Tocyn Teithio Ôl-16 yn rhwystr i rai pobl ifanc allu manteisio ar addysg bellach. Byddai dileu'r ffi yn sicrhau mynediad di-rwystr.

Fe wnaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau adnabod mater oedd angen sylw, gyda gwaith yr ymchwiliad craffu yn tystiolaethu'r angen am newid. Bu gwelliannau yn y blynyddoedd dilynol gydag aelodau craffu yn dyfalbarhau o ran yr angen am newidiadau pellach. Mae dileu'r ffi yn gwireddu dyhead y Pwyllgor i sicrhau bod bob person ifanc yn cael cyfleoedd cyfartal.

# Hyfforddiant

Mae aelodau yn mynychu hyfforddiant yn rhinwedd eu swydd fel Cynghorydd. Er mwyn rhoi cyfle i aelodau fireinio eu sgiliau craffu a'r hyn sydd angen cadw mewn cof wrth graffu, cynhaliwyd hyfforddiant ar ddechrau'r gweithdai blynyddol.

Atgoffwyd yr aelodau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio gwasanaethau sy'n gwarchod cenedlaethau ein dyfodol yn y tymor hir. Mae'n gosod dyletswydd i wella llesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pobl Cymru.

Mae'r Ddeddf yn bodoli gan fod Cymru'n wynebu sawl her nawr ac yn y dyfodol, fel newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldeb iechyd a swyddi a thwf. I fynd i'r afael â'r rhain, mae'n rhaid cydweithio a meddwl am effeithiau tymor hir penderfyniadau.

Yn unol â gofynion y Ddeddf mae'r Cyngor wedi llunio amcanion llesiant:




Mae Cynllun y Cyngor yn egluro sut fydd y Cyngor yn mynd ati i gwrdd yr amcanion llesiant.

Tynnwyd sylw at y 5 ffordd o weithio sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf. Mae'n ofynnol ar gyrff cyhoeddus i feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, ac fe ddylai'r aelodau eu ystyried wrth graffu. Cyfeiriwyd at y cyswllt rhwng y 5 ffordd o weithio a Ffordd Gwynedd:




**Sut maent wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**

Perygl o feddwl am Ffordd Gwynedd yn canolbwyntio gormod ar beth sy'n bwysig rŵan?



Atal

**A ydynt wedi rhoi sylw i sut gellir atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**

Beth sy'n bwysig = lleihau'r galw
Cyfarch anghenion rŵan – anghofio am anghenion nes ymlaen?



Integreiddio

**A ydynt wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**

Ystyriaeth ehangach o beth sy'n bwysig
Ymwybyddiaeth o Gynllun y Cyngor



Cydweithio

**A ydynt wedi ystyried cydweithio?**

Dim meddwl yn sefydliadol –
beth sydd ei angen i wireddu'r hyn sy'n bwysig?



Cynnwys

**Ydi pobl Gwynedd wedi eu cynnwys?**

Trwy lygaid pobl Gwynedd
Deall gwir anghenion

Estynnwyd gwahoddiad i'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb i gyflwyno gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth yn weithredol ar 31 Mawrth 2021. Bwriad y ddyletswydd yw sicrhau fod pobl yn cael eu trin yn gyfartal a theg drwy leihau tlodi o bob math. Rhaid ystyried y ddyletswydd law yn llaw â nodweddion cydraddoldeb fel anabledd, oed, pobl LHDT+, hil.

Amlygwyd beth oedd y ddyletswydd yn golygu i'r craffwyr:

- Cwestiynu os oes ystyriaeth wedi ei roi i bobl Gwynedd sydd yn byw mewn tlodi o bob math. A ydynt wedi eu cynnwys wrth symud ymlaen?
- Holi os oes asesiad effaith amserol a chymesur ar y gweill.
- Gofyn a oes sylw dyledus wedi ei roi i leihau'r bwlch yn enwedig mewn penderfyniadau strategol.
- Awgrymu unrhyw waith ychwanegol y gellir ei wneud i leihau'r bwlch a sicrhau tegwch.

Hefyd yn mis Mai, cynhaliwyd sesiwn i ddarpar gadeiryddion craffu. Rhoddwyd sylw i faterion ymarferol/technegol a materion llywodraethu. Mabwysiadwyd trefn o adlewyrchu ar gyfarfodydd Pwyllgor, gyda'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd a swyddog craffu perthnasol yn ystyried beth aeth yn dda, beth aeth ddim cystal ac ydi Craffu wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'n bwysig cymryd y cyfle i ddysgu drwy brofiad a mi fydd hyn allweddol wrth symud ymlaen i'r Cyngor newydd.

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2021/22

**47 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**48 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**4 cyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Aelodau craffu wedi **mynychu cyfarfodydd** herio perfformiad.

**Sesiynau gwybodaeth** wedi eu cynnal ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal ar y meysydd yma:

- Llesiant Meddwl
- Cyflwyniad gan Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

**Cefnogaeth i'r gwaith craffu** gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu.

**ATODIAD**

# Rhaglen Waith Craffu 2021-2022

| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | |
|---|---|
| **10 Mehefin 2021** | • Addysg a'r Gymraeg: Gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt<br>• Grantiau i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion |
| **21 Hydref 2021** | • Galw i Mewn penderfyniad y Cabinet – Ysgol Abersoch<br>• Cefnogaeth i fusnesau<br>• Gagendor Lles, gan gynnwys<br>  ➢ effaith covid ar addysg ein holl ddisgyblion<br>  ➢ pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant ein holl ddisgyblion |
| **9 Rhagfyr 2021** | • Lefel diweithdra a chefnogaeth nol i swyddi<br>• Adroddiad Blynyddol Addysg<br>• Cinio ysgol |
| **8 Chwefror 2022** | • Fframwaith Adfywio<br>• Aflonyddu mewn ysgolion<br>• Cynllun Hygyrchedd Ysgolion |

| Pwyllgor Craffu Gofal | |
|---|---|
| **1 Gorffennaf 2021** | • Gofal Dementia<br>• Darpariaeth Tai yn y gymuned ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu |
| **30 Medi 2021** | • Sicrwydd Ansawdd – Gwasanaeth Oedolion<br>• Asesiad Llesiant – anghenion poblogaeth<br>• Desg Gymorth ar gyfer holl ymholiadau materion Tai |
| **25 Tachwedd 2021** | • Strategaeth Awtistiaeth |
| **3 Chwefror 2022** | • Diweddariad Cynnydd: Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol<br>• Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru |
| **17 Mawrth 2022** | • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd<br>• Cynllun Gweithredu Tai<br>• Strategaeth Faethu yng Ngwynedd |

| Pwyllgor Craffu Cymunedau | |
|---|---|
| **13 Gorffennaf 2021** | • Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Biniau Halen<br>• Trafnidiaeth – Gwerth Cymdeithasol |
| **23 Medi 2021** | • Newid Hinsawdd<br>• Asedau Arfordirol<br>• Risg Dŵr a Llifogydd |
| **4 Tachwedd 2021** | • Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>• Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy<br>• Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac adroddiad cynnydd ar yr Asesiadau Llesiant |
| **13 Ionawr 2022** | • Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol<br>• Glendid Stryd<br>• Torri Gwair a Chynnal Tir |
| **10 Mawrth 2022** | • Diweddariad – Adolygiad Parcio<br>• Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur |

| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
|---|---|
| **17 Mehefin 2021** | • Hunanwasanaeth ar-lein |
| **15 Gorffennaf 2021** | • Adolygiad Ffordd Gwynedd<br>• Gwydnwch Systemau TG – Diogelwch Seibr |
| **14 Hydref 2021** | • Trosolwg Arbedion: adroddiad cynnydd<br>• Cadw'r Budd yn Lleol<br>• Prentisiaethau |
| **18 Tachwedd 2021** | • Strategaeth Cyllideb 2022/23 (craffu'r gwaith yn gynnar yng nghylch cyllidebu'r Cyngor) |
| **10 Chwefror 2022** | • Galw i Mewn penderfyniad y Cabinet – Dathlu Dydd Gŵyl Dewi<br>• Gweithio i'r dyfodol a'r gefnogaeth llesiant meddyliol<br>• Trosolwg Arbedion: adroddiad cynnydd<br>• Cyllideb 2022/23 (gyda ffocws ar risg, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb a threth i'r Cyngor llawn gymeradwyo)<br>• Strategaeth Cyfalaf 2022/23 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg) |

FERSIWN CRYNO

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2021-22



# PWRPAS CRAFFU

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

# GWEITHDAI CRAFFU

Yn mis Mai, bu cyfle i aelodau'r pwyllgorau craffu perthnasol ddod at ei gilydd yn rhithiol i flaenoriaethu materion i'w craffu yn ystod 2021-22.

Dyma'r ffactorau a ystyriwyd wrth flaenoriaethu:

- A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?
- A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- A yw'r mater yn amserol i'w graffu?
- Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Cyn i'r Pwyllgorau Craffu fabwysiadu eu rhaglen waith yn eu cyfarfodydd cyntaf, rhoddodd y Fforwm Craffu trosolwg ar y flaenraglen craffu yn ei gyfanrwydd. Mae'r blaenraglen yn rhaglen fyw a addaswyd y rhaglen waith yn ystod 2021-22 pan fo materion yn codi a oedd angen eu blaenoriaethu. Adroddwyd ar y diwygiadau i gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgorau i'w cymeradwyo.

# FFORWM CRAFFU

Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw aelodau'r Fforwm Craffu. Mae'r Fforwm yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu.

Mae'r fersiwn llawn yn ymhelaethu ar waith y Fforwm yn ystod 2021-22.

# EITEMAU CRAFFU

Yn 2021-22, craffwyd 48 eitem yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu, gan gynnwys y canlynol:

**Addysg a'r Gymraeg: Gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt**

**Aflonyddu mewn ysgolion** **Strategaeth Awtistiaeth**

**Cynllun Gweithredu Tai** **Trafnidiaeth – Gwerth Cymdeithasol**

**Newid Hinsawdd** **Gweithio i'r dyfodol a'r gefnogaeth llesiant meddyliol**

# GALW I MEWN

Fel rhan o'r drefn craffu mae gan aelodau hawl i alw penderfyniadau i mewn i'w craffu. Yn 2021/22 galwyd dau benderfyniad i mewn i'w craffu, sef:

- **Penderfyniad y Cabinet i gadarnhau yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022**

  Yn dilyn craffu'r penderfyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 21 Hydref 2021, penderfynodd y pwyllgor gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried. Ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn a oedd yn ymwneud â dyfodol Tai a Gwaith a fyddai'n dod i rym yn y Pentref.

  Penderfynodd y Cabinet i beidio addasu'r penderfyniad gwreiddiol. Er bod y Cabinet heb addasu ei benderfyniad gwreiddiol. Bu i'r gwaith craffu yma amlygu materion oedd yn peri pryder ar yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

- **Penderfyniad y Cabinet i ddynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol**

  Craffwyd y penderfyniad uchod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2022.

  Yn ystod y drafodaeth, nododd rhai aelodau eu bod yn cefnogi dathlu Dydd Gŵyl Dewi ond bod angen ei wneud yn ddiwrnod o wyliau cenedlaethol i bawb, bod ymateb y cyhoedd wedi bod yn eithaf negyddol a bod amseriad y penderfyniad yn achosi pryder. Datganodd aelodau eraill sylwadau a oedd yn gefnogol i benderfyniad y Cabinet, megis ei fod yn destun balchder bod Gwynedd yn arwain a bod cyflogwyr eraill yn cefnogi'r penderfyniad ac yn dilyn yr esiampl. Ar ddiwedd y drafodaeth, penderfynwyd derbyn penderfyniad y Cabinet.

**Mae'r holl wybodaeth am y gwaith craffu yn 2021-22 ar gael yn y fersiwn llawn ar wefan y Cyngor – https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu**

# EFFAITH CRAFFU

*"Dwi'n meddwl bod craffu yn bwysig iawn...y pwyllgor yma wedi bod yn rhan bwysig o be' mae'r Adran Tai ac Eiddo yn ceisio ei wneud. Diolch am fod mor adeiladol a positif ac yn rhan o'r datrysiad."*

Aelod Cabinet

## Sicrwydd Ansawdd – Gwasanaeth Oedolion

Fel rhan o gyllideb 2022/23, cymeradwywyd arian parhaol i ariannu cynnydd yn oriau'r swydd Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn o 0.7 FTE i 1 FTE. Yn ogystal â arian un-tro o £48,930 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 i gynyddu capasiti staffio i gynnal archwiliadau ar ddarparwyr gofal o fewn y Sir.

Llwyddodd y gwaith craffu i uchafu'r pryder am ddiffyg capasiti a'r risgiau i'r Cyngor.

*"Fydden ni ddim yn y sefyllfa yma heddiw oni bai am eich ymyrraeth chi fel Pwyllgor Craffu...eich gwaith chi wedi galluogi hyn i ddigwydd a bod potensial rŵan i symud ymlaen a chyflawni llawer iawn ar ran trigolion Gwynedd."*

Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

## Cludiant Ôl-16

Yng nghyllideb 2022/23, roedd arian parhaol o £218,070 wedi ei gynnwys er galluogi dileu'r angen i godi ffi ar bobl ifanc 16+ i deithio i'r ysgol neu goleg.

Cydnabuwyd bod cost y Tocyn Teithio Ôl-16 yn rhwystr i rai pobl ifanc allu manteisio ar addysg bellach. Byddai dileu'r ffi yn sicrhau mynediad di-rwystr.

Fe wnaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau adnabod mater oedd angen sylw, gyda gwaith yr ymchwiliad craffu yn ystod 2013 a 2014 yn tystiolaethu'r angen am newid. Bu gwelliannau yn y blynyddoedd dilynol gydag aelodau craffu yn dyfalbarhau o ran yr angen am newidiadau pellach. Mae dileu'r ffi yn gwireddu dyhead y Pwyllgor i sicrhau bod bob person ifanc yn cael cyfleoedd cyfartal.

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2021/22

**47 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**48 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**4 cyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Aelodau craffu wedi **mynychu cyfarfodydd** herio perfformiad.

**Sesiynau gwybodaeth** wedi eu cynnal ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal ar y meysydd yma:

- Llesiant Meddwl
- Cyflwyniad gan Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

**Cefnogaeth i'r gwaith craffu** gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu ac Ymgynghorydd Craffu.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | CYNGOR LLAWN |
| **DYDDIAD** | 23 Mehefin 2022 |
| **TEITL** | Adolygu Rôl Craffu Yn Sgil Newidiadau I'r Pwyllgor Llywodraethu Ac Archwilio<br><br>Adrodd Ar Addasiadau I'r Cyfansoddiad Yn Sgil Penodi Cabinet |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | 1. I geisio cymeradwyaeth i addasu trefniadau craffu materion corfforaethol.<br><br>2. Derbyn y wybodaeth am addasiadau i'r Cabinet |
| **AWDUR** | Iwan Evans Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Fforwm Craffu |

1. Yn dilyn adolygiad craffu yn 2019, rhoddwyd rôl i graffu materion corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Sef i adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu, trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu a'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Tîm Arweinyddiaeth.

2. Yn dilyn dyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae enw'r pwyllgor wedi newid i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda newid o ran aelodaeth yn dod i rym yn Mai 2022 ynghyd â swyddogaethau ychwanegol i'r Pwyllgor.

3. Mi fydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys 6 aelod lleyg, gyda'r gofyn i benodi Cadeirydd o blith yr aelodau lleyg. Yn unol â Rhan 6 o'r Ddeddf, bydd rôl benodol ynglŷn â'r trefniadau rheoli perfformiad newydd a bydd gan y Pwyllgor swyddogaeth drosolwg o'r trefniadau cwynion.

4. Gweler ynghlwm, fel Atodiad 1 i'r adroddiad, Adran 13 Rhan 1 o'r Cyfansoddiad, sydd yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. Mae'r newidiadau diweddaraf wedi newid cyfansoddiad ac hefyd swyddogaethau y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan roi swyddogaethau penodol ynglŷn a threfniadau asesiad perfformiad a cwynion. Mae'r elfen yma hefyd yn cynnwys cadw trosolwg o drefniadau Craffu y Cyngor.

6. Mae 'Datganiad Sefyllfa *Chartered Institute of Public Finance and Accountancy* (CIPFA): Pwyllgorau Archwilio Mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2018', yn nodi dylai Pwyllgor Archwilio mewn awdurdodau lleol, fod yn

annibynnol o’r weithrediaeth a swyddogaethau craffu. Disgwylir i awdurdodau lleol yng Nghymru dalu sylw i’r cyhoeddiad yma.

7. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad statudol drafft ar 17 Mawrth 2022, sydd yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddyd ar Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio. O ran adolygu materion ariannol yr awdurdod, nodir yn yr arweiniad:

> “Dylai awdurdodau lleol wneud eu trefniadau eu hunain, yn eu cyfansoddiad, i nodi ffin glir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a swyddogaeth pwyllgor craffu perthnasol. Dylai rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymwneud yn fwy â cheisio sicrwydd bod systemau rheoli cyllideb (fel rheolaeth fewnol) y cyngor yn gweithio, yn hytrach na chraffu ar wariant. Gall hyn fod yn ffin dderbyniol rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rôl pwyllgor trosolwg a chraffu.”

8. Wrth ystyried y ffactorau uchod, o ran newid yn aelodaeth y Pwyllgor a’r gadeiryddiaeth, swyddogaethau ychwanegol o ganlyniad i’r Ddeddf, datganiad sefyllfa *CIPFA* ac arweiniad statudol drafft Llywodraeth Cymru, yr unig opsiwn yw symud y cyfrifoldeb o graffu materion corfforaethol i bwyllgor craffu arall. Mae natur y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r trawstoriad aelodaeth yn golygu and yw bellach yn gydnaws a’i rôl a swyddogaeth pwyllgor trosolwg a Chraffu statudol.

9. Cyflwynwyd y sefyllfa yma gerbron y Fforwm Craffu ar y 31ain o Fawrth 2022 er ceisio barn Cadeiryddion y Pwyllgorau perthnasol ar yr ymateb posib. Yn benodol felly cartref i’r elfennau craffu ar agweddau gwasanaethau fwy corfforaethol a chanolog y Cyngor. Ystyrir ei bod yn bwysig o ystyried yr arweiniad a geir gweithredu y newid yma ar ddechrau tymor y Cyngor. Roedd y Fforwm yn cydnabod yr angen yma ac o ystyried materion megis natur y swyddogaethau a balans gwaith fod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn cynnig y cartref gorau ar gyfer craffu yr agweddau yma.

10. Yn dilyn ar y drafodaeth yma yr argymhelliad fyddai trosglwyddo y rôl o graffu a ddisgrifir yn y cylch gorchwyl presennol i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi :

> “adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu , trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a’r gweithlu a’r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a’r Tim Arweinyddiaeth.”

Ystyrir fod hyn addasiad rhesymegol fyddai yn sicrhau fod y materion yma o fewn y gyfundrefn pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn unol a Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a chyfarch yr angen i sicrhau fod swyddogaethau y Pwyllgor Llywodraethu yn adlewyrchu natur benodol ei swyddogaeth ar draws oll o elfennau llywodraethu y Cyngor. Fydd y newidiadau yma ddim yn effeithio ar gyfrifoldebau penodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn a llywodraethau , perfformiad na chyllid.

**Penderfyniad a geisir:**

1. **Addasu Adran 13 Rhan 2 y Cyfansoddiad drwy ddileu swyddogaethau canlynol o gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:**

   **"adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu , trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu a'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Tim Arweinyddiaeth."**

2. **Addasu Rhan 7 o'r Cyfansoddiad yn unol ag Atodiad 1 i osod y cyfrifoldebau a nodir gyda Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.**

3. **Derbyn er gwybodaeth yr addasiadau i Adran 13 – Rhan 2 o'r Cyfansoddiad , Aelodaeth a Chyfrifoldebau Cabinet.**

Sylwadau Swyddogion Statudol

**Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

**Swyddog Cyllid**

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

Atodiad 1.

| Pwyllgor ac Aelodaeth | Rôl a Chwmpas |
|---|---|
| Pwyllgor CraffuAddysg ac Economi 18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud â swyddogaethau yr:<br><br>• Adran Addysg<br>• Adran Economi a Chymuned<br>• GwE<br>• Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>• **Tim Arweinyddiaeth a Chyfreithiol**<br>• **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.**<br>• **Adran Gyllid**<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• **Gweithrediad Mewnol y Cyngor**<br>• **Partneriaethau** |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau 18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud â swyddogaethau yr:<br><br>• Adran Amgylchedd<br>• Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol<br>• Ymgynghoriaeth Gwynedd<br>• Cynllun Datblygu Lleol<br>• Trosedd ac Anrhefn |
| Pwyllgor Craffu Gofal 18 aelod | Craffu ar faterion yn ymwneud â swyddogaethau yr:<br><br>• Adran Oedolion Iechyd a<br>• Llesiant<br>• Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd<br>• Iechyd<br>• Adran Tai ac Eiddo |

Atodiad 2

| 1. Enw | 2.Portffolio | 3.Prif Feysydd Swyddogaethol |
|---|---|---|
| Cynghorydd Dyfrig Siencyn | **Arweinydd**<br>Arweiniad Strategol; | Arweiniad Strategol<br>Materion Strategol Economaidd |
| Cynghorydd Nia Jeffreys | **Dirprwy Arweinydd**<br>Materion Gweithredol Economi<br>(+ Prif Rhaglenni Trawsadrannol) | Cefnogi Busnes, Twristiaeth, Adfywio Cymunedol , Prosiectau Strategol, Morwrol, Hamdden a Llyfrgelloedd, Celfyddydau ac Amgueddfeydd. |
| Cynghorydd Beca Brown | Addysg | Addysg ac Ysgolion |
| Cynghorydd Dafydd Meurig | Amgylchedd | Amgylchedd |
| Cynghorydd Menna Jones | Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol | Cefnogaeth Gorfforaethol, Llywodraethu Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Cynghorydd Dilwyn Morgan | Oedolion Iechyd a Llesiant | Oedolion Iechyd a Llesiant , Perthynas gyda Gwasanaeth Iechyd,<br>Rhaglen Cefnogi Pobl y Cyngor |
| Cynghorydd Ioan Thomas | Cyllid | Cyllid, Technoleg Gwybodaeth |
| Cynghorydd Elin Walker Jones | Plant a Phobl Ifanc | Plant a Phobl Ifanc<br>Gwasanaeth Ieuenctid |
| Cynghorydd Berwyn Parry Jones | Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymghynghoriaeth | Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, Asiantaeth Cefnffyrdd |
| Cynghorydd Craig ap -Iago | Tai ac Eiddo | Tai ac Eiddo. |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Y CYNGOR |
| **Dyddiad** | 23 Mehefin 2022 |
| **Pwnc** | Panel Cyfweld Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Awduron** | Dewi Morgan Pennaeth Cyllid<br>Iwan Evans , Swyddog Monitro |
| **Aelod Cabinet** | Cyng Ioan Thomas |

**Cefndir**

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adrannau 81 i 87 ( fel y'i diwygiwyd) , mae'n rhaid i'r Cyngor benodi Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. Mae'n rhaid i draean o'r aelodaeth fod yn aelodau lleyg a phenodi'r y Cadeirydd o'u plith.

3.. Sefydlwyd Panel oedd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r aelod Cabinet Adnoddau ( fel yr oeddent) wedi eu cynghori gan y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro i gyfweld ymgeiswyr a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn. Gan fod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach yn aelod lleyg mae'n briodol adolygu y panel cyfweld. Petai dymuniad i gadw aelodaeth y Panel yn aelodau etholedig argymhellir fod y gynrychiolaeth yn cael ei addasu er penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r Panel gan gymryd lle Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4. Atodir copi o'r adroddiad yn sefydlu'r Panel a'r drefn a fabwysiadwyd yn 2017

**ARGYMHELLIAD**

**Addasu aelodaeth Panel Cyfweld Aelodau lleyg Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd â'r aelod Cabinet Cyllid.**

**Sylwadu Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Swyddog Cyllid**

Awdur yr adroddiad

Atodiad 1

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Y CYNGOR |
| Dyddiad | 2 Mawrth 2017 |
| Pwnc | Penodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Archwilio |
| Awdur | Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid<br>Iwan Evans, Swyddog Monitro |
| Aelod Cabinet | Cyng Peredur Jenkins |

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adrannau 81 i 87, mae'n rhaid i'r Cyngor benodi Pwyllgor Archwilio i arolygu a chraffu ar faterion ariannol, rheolaeth risg a llywodraethu corfforaethol.

2. Mae'n rhaid cael o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor a gellir cael hyd at draean o'r aelodaeth yn aelodau lleyg. Bydd gan unrhyw aelod lleyg hawl pleidleisio a bydd yn cael cyflog aelod cyfetholedig o £198 y dydd. Daw tymor yr aelod presenol i ben yn Mehefin 2017.

3. Nid oes trefn benodol wedi ei dynodi ar gyfer cyfethol yr aelod lleyg i'r pwyllgor. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid hysbysebu yn gyhoeddus. Maent hefyd yn awgrymu y dylai'r unigolion a benodir fod yn annibynnol o'r cyngor, heb unrhyw gyswllt busnes ag o, ac yn meddu ar wybodaeth o lywodraeth leol. Awgrymir na ddylid penodi unigolion y mae eu lliwiau gwleidyddol yn hysbys. Mae'r ddogfen atodol yn cynnwys meini prawf ar gyfer penodi yr aelod lleyg a fabwysiadwyd ym Mai 2012.

4. Argymhellir hysbysebu yn y wasg leol/ranbarthol am ddatganiadau o ddiddordeb gan rai sy'n dymuno gwasanaethu fel aelod lleyg ar y Pwyllgor Archwilio. Argymhellir hefyd y dylai panel sydd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Arcwhilio a'r aelod Cabinet Adnoddau wedi eu cynghori gan y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro ystyreid y ceisiadau a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn, a fydd yn penodi'r unigolyn i wasanaethu ar y pwyllgor am dymor o 4 mlynedd.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r drefn benodi a argymhellir yn yr adroddiad

**Penodiad aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio**

**Meini prawf**

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth ac amhleidioldeb wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio i

- Adolygu, craffu ar a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar faterion ariannol y Cyngor
- Adolygu, craffu ar a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar drefniadau rheoli risg yr awdurdod, ei reolaeth fewnol a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol
- Arolygu trefniadau archwilio ac adolygu datganiadau cyllidol yr awdurdod

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr gwrdd a'r meini prawf canlynol:

- Gallu dangos dealltwriaeth o werth y swyddogaeth archwilio
- Gallu dangos gwybodaeth o sut mae llywodraeth leol yn gweithredu
- Gallu dangos annibyniaeth meddwl ac agweddau diduedd
- Gallu rhoi'r amser angenrheidiol i'r dyletswyddau
- Gallu darparu dau dystlythyr

Ni ellir penodi unrhyw unigolyn sydd a chysyllitad busnes â'r Cyngor nac sydd a chysylltiadau â phlaid wleidyddol

Ysytrir y gallu i siarad Cymraeg yn fantais a chymerir i ystyriaeth cadw cydbwysedd sgiliau, rhinweddau a medrusrwydd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned yn gyfangwbl a chyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **23 Mehefin 2022** |
| **Pwnc** | **Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Safonau** |
| **Aelod Cabinet** | **Cyng. Menna Jones** |
| **Awdur** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol sydd â naw aelod, sef

- 5 'Aelod Annibynnol' (aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol)
- 1 'Aelod Pwyllgor Cymunedol' (aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 3 'Aelod Etholedig' o Gyngor Gwynedd.

2. Daw tymor aelodaeth yr Aelod Etholedig a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol i ben gyd'rg etholiadau'r llywodraeth leol nesaf yn dilyn eu penodiad ac felly mae'r seddi hyn yn wag ar hyn o bryd.

**Aelodau Etholedig**

3. Y drefn ar gyfer penodi aelodau etholedig, sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn, yw i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at bob aelod o'r Cyngor i wahodd ceisiadau, a'u cyflwyno'r i'r Grŵp Busnes am ystyriaeth. Cyflwynir argymhelliad y Grŵp Busnes i'r Cyngor sydd â'r hawl i wneud y penodiad.

4. Penodir aelodau i'r Pwyllgor, nid ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ond drwy ystyried y meini prawf a sefydlwyd gan y Cyngor, sef bod rhaid meddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

5. Ysgrifennwyd felly at holl aelodau'r Cyngor yn gofyn am geisiadau. Derbyniwyd tri chais o fewn yr amser a ganiatawyd, gan y canlynol :

- Cyng. Beth Lawton (aelod Bro Dysynni)

- Cyng. Anne Lloyd-Jones (aelod Gorllewin Tywyn)
- Cyng. Dewi Owen (aelod Aberdyfi)

(Mae’r Cynghorwyr Beth Lawton ac Anne Lloyd Jones eisoes wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor ond mae modd eu penodi am un tymor dilynol arall. )

6. Penderfynodd  y Grŵp Busnes fod y tri ymgeisydd yn cwrdd â’r meini prawf ac yn deilwng o gael eu penodi i’r Pwyllgor

**Aelod Pwyllgor Cymunedol**

7. Daeth y tymor yr aelod Pwyllgor Cymunedol, sef y Cyng. Richard Parry Hughes (Cyngor Cymuned Llannor) i ben gyda'r etholiadau ym mis Mai, ond mae'n  gymwys i'w ail benodi am un cyfnod pellach.

8. Yn 2017 fe’i penodwyd ar ôl i’r aelod pwyllgor cymunedol blaenorol wasanaethu am ddau dymor.  Gwahoddwyd enwebiadau bryd hynny gan holl gynghorau’r sir a chynhaliwyd cyfweliadau.  Mae wedi profi’n aelod gwerthfawr ac ymroddgar o’r Pwyllgor.  Oherwydd ei gyfraniad a’r profiad sydd ganddo o'r gwaith, argymhellir fod y Cyngor yn ail benodi Richard Parry Hughes am dymor pellach fel nad yw hynny’n cael ei golli i’r Pwyllgor.

9. Mae’r rheoliadau yn darparu dylid ymgynghori gyda chynghorau cymuned y sir cyn ail- benodi a gydag unrhyw gymdeithas cynghorau cymuned. Ysgrifennwyd at yr holl gynghorau o fewn y sir ac mae’r ymatebion sydd wedi eu derbyn yn ffafrio ail-benodi ac eithrio un cyngor oedd yn argymell cynnal cystadleuaeth.  Nid oes gan Un Llais Cymru wrthwynebiad i’r peonodiad.  Mae Grŵp Busnes y Cyngor hefyd o blaid ail-benodi.

**Argymhelliad**

10.1 Penodi’r **Cynghorwyr Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones** a **Dewi Owen** i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelodau Etholedig tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad.

10.2 Penodi’r **Cynghorydd Richard Parry Hughes** Cyngor Cymuned Llannor i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelod Pwyllgor Cymunedol tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn ei benodiad.

**<u>Sylwadau Swyddogion Statudol</u>**

**Swyddog Monitro**
Awdur yr adroddiad

**Swyddog Cyllid**
"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **23 Mehefin 2022** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a phenodi i Banel Heddlu a Throsedd.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

1.1 fabwysiadu'r dyraniad seddau fel a nodir yn **Atodiad A**, gan ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail y cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

1.2 Enwebu aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd am dymor y Cyngor hwn yn unol a'r dyraniad a roddwyd i Wynedd.

### CEFNDIR A RHESYMEG

### 2. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

2.1. Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid adolygu'r cydbwysedd gwleidyddol pan fo cais i wneud hynny yn sgil unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol.

2.2 Mae grŵp gwleidyddol newydd wedi ei ffurfio, sef Grwp Llafur/Rhyddfrydol dan arweiniad y Cynghorydd Stephen Churchman.

2.3 Yn dilyn y newid, mae cydbwysedd gwleidyddol Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

| <u>Grŵp</u> | <u>Nifer</u> |
|---|---|
| Plaid Cymru | 44 |
| Annibynnol | 23 |
| Llafur/Rhyddfrydol | 2 |
| **Cyfanswm** | **69** |

## DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.4 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

(a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.5 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.4 uchod hefyd.

2.6 Yn sgil cynnal yr adolygiad o'r cydbwysedd gwleidyddol, noder fod y seddau oedd wedi eu dyrannu yn yr adolygiad gwreiddiol nawr wedi eu dyrannu i'r Grŵp Llafur/Rhyddfrydol. Nid oes unrhyw effaith ar ddyrianiad y seddau i'r grwpiau eraill. Mae copi yn **Atodiad A**.

## 3 PANEL HEDDLU A THROSEDD

3.1 Bydd yn ofynnol i'r Cyngor adnabod aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar Banel Heddlu a Throsedd. Bydd aelodaeth y panel yn adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol ar draws Gogledd Cymru mor agos a phosib. Rydym wedi derbyn y dyraniad seddau ar y Panel i Wynedd, fel a ganlyn:

- 1 grŵp Plaid Cymru
- 1 grŵp Annibynnol

3.2 Mae'n ofynnol fod aelodau a enwebir i'r Panel yn meddu ar wybodaeth a'r profiad angenrheidiol er mwyn i Banel Heddlu a Throsedd gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol, a dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth enwebu cynrychiolwyr. Cyflwynir yr enwau i'r Ysgrifennydd Cartref am gymeradwyaeth.

3.3 Derbyniwyd enw'r Cynghorydd Edgar Wyn Owen ar ran Grŵp Plaid Cymru. Bydd enw yn cael ei nodi ar lafar gan Arweinydd y Grŵp Annibynnol yn ystod cyfarfod y Cyngor llawn ar 23/06/22. Gofynnir i'r Cyngor llawn enwebu'r ddau i'r rôl.

## 4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Ymgynghorwyd ag aelodau Grŵp Busnes y Cyngor.

**4.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad. Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol yn gywir.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb Ariannol.

## ATODIAD – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur/ Rhyddfrydol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur/ Rhyddrrydol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **95** | **49** | **4** | **148** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur/ Rhyddfrydol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 7 | 4 | 0 | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **115** | **60** | **5** | **180** |

Tud. 253